




Cronfa Bensiynau Clwyd

Adroddiad Blynyddol

2022/2023



Tudalen Cynnwys

Adran 1: Cyflwyniad i Adroddiad Blynnyddol Cronfa Bensiynau Clwyd 2022/23.....	3
Adran 2: Crynodeb gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd.....	4
Atodiad 1: Llywodraethu, Hyfforddiant a Rheoli Risg	10
Atodiad 2: Adroddiad Ymgynghorydd Annibynnol	27
Atodiad 3: Adroddiad Blynnyddol y Bwrdd Pensiynau	41
Atodiad 4: Adroddiad Gweinyddu	49
Atodiad 5: Adolygiad Cyllid a Llwybr Hedfan	78
Atodiad 6: Polisi Buddsoddi ac Adroddiad Perfformiad	82
Atodiad 7: Cyfrifon Cronfa Bensiynau Clwyd am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023	101
Atodiad 8: Adroddiad Ariannol	142
Adran 3: Datganiad Llywodraethu Blynnyddol	163
Adran 4: Geirfa.....	168
Adran 5: Dogfennau Rheoleiddio.....	172
Atodiad 9: Polisi Llywodraethu a Datganiad Cydymffurfio (Tachwedd 2022).....	173
Atodiad 10: Datganiad Strategaeth Gyllido (Mawrth 2023).....	197
Atodiad 11: Datganiad Strategaeth Fuddsoddi (Tachwedd 2023)	255
Atodiad 12: Datganiad Strategaeth Gyfathrebu (Mehefin 2022).....	281

Mae dogfennau Arfer Gorau i'w gweld ar wefan y Gronfa, ewch i:

<https://cronfabensiynauclwyd.org.uk/cy/Llywodraethu/Strategaethau-a-Pholisiau/cartref.aspx>

- Cynllun Busnes
- Strategaeth Weinyddol
- Polisi Torri Rheolau
- Polisi Risg
- Polisi Gwrthdaro Buddiannau
- Polisi Gwybodaeth a Sgiliau
- Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth

Adran 1: Cyflwyniad i Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiynau Clwyd 2022/23

Croeso i Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiynau Clwyd (y Gronfa) ar gyfer 2022/23.

Mae'r adroddiad yn ymdrin yn fanwl â gweithgareddau'r Gronfa yn ystod 2022/23. Eleni, gwelwyd gweithio hybrid yn cael ei gyflwyno i'r tîm ac mae'n dda dychwelyd i ryw fath o "normalrwydd" yn dilyn y cyfnod o weithio o bell yn ystod/dilyn y pandemig. Mae'r Gronfa wedi parhau i weithredu mewn ffordd ddiogel ac effeithlon ac rydym wedi parhau i gwrdd ag anghenion a disgwyliadau ein haelodau a'n cyflogwyr.

Yn y marchnadoedd, mae wedi bod yn flwyddyn heriol arall gydag ansefydlogrwydd marchnad ariannol parhaus yn codi o lefelau uchel parhaus o chwyddiant, cyfraddau llog yn codi o'r cwymp o'r gyllideb fechan ym mis Medi 2022 a'r gwrthdaro parhaus yn Wcráin. Yn erbyn cefnlen y cynnwrf yn y farchnad, mae'r Actiwari wedi cynnal eu hasesiad prisiad teirblwydd i osod deilliannau cyfraniad i gyflogwyr ar gyfer 2023/2026. Rwy'n falch o gadarnhau bod y prisiad yn dangos sefyllfa a ariannwyd yn llawn ac er gwaethaf cythrwbl y farchnad yn ystod y flwyddyn, mae'r fframweithiau rheoli risg a llywodraethu a sefydlwyd gan y Gronfa wedi sicrhau fod y Gronfa wedi parhau'n wydn i'r ffactorau allanol hyn ac felly, mae'r sefyllfa a ariannwyd yn llawn wedi'i chynnal.

Byddwn yn parhau i geisio cydgrynhoi ac adeiladu ar y sefyllfa hon ac mae gwaith eisoes ar y gweill yn y cyswllt hwn gyda Dyraniad Ased Strategol newydd a gytunwyd tuag at ddiwedd 2022/23 a gweithredwyd ar ôl diwedd y flwyddyn.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi bod yn rhan o reoli a gweinyddu'r Gronfa am eu gwaith caled a'u hymroddiad parhaus.

Gobeithio y teimlwch fod yr adroddiad yn ddiddorol ac yn llawn gwybodaeth.

Y Cyng. Ted Palmer

Cadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd

Adran 2: Crynodeb gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlygu rhai o brif elfennau o'r Adroddiad Blynyddol eleni, ac yn egluro sut i ddefnyddio'r adroddiad i ddod o hyd i ragor o wybodaeth am weithgareddau a pherfformiad y Gronfa yn ystod y flwyddyn, ynghyd â rhai o'r heriau a risgiau y mae'r Gronfa yn ei wynebu wrth symud ymlaen.

Llywodraethu, Hyfforddiant a Rheoli Risg

Cyngor Sir y Fflint yw'r Awdurdod Gweinyddu ar gyfer y Gronfa, ac mae'n dirprwyo'r cyfrifoldeb am redeg y Gronfa i'r Pwyllgor Cronfa Bensiynau. Cefnogir gwaith y Pwyllgor gan Banel Ymgynghorol Pensiynau. Yn ogystal, mae Bwrdd Pensiynau, a gadeirir gan Ymgynghorydd Annibynnol y Gronfa, yn cynorthwyo'r Pwyllgor i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a gofynion y Rheoleiddiwr Pensiynau gan sicrhau fod y Gronfa yn cael ei llywodraethu a'i gweinyddu'n effeithlon. Mae'r Pwyllgor, Panel Ymgynghorol a'r Bwrdd Pensiynau eto wedi parhau i weithio'n effeithiol yn ystod 2022/23 drwy gyfarfodydd rhithiol ac mae symud tuag at gyfarfodydd hybrid wedi dechrau.

Mae'n rhaid i'r Gronfa lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol, sydd i'w gael yn Adran 3 yr adroddiad hwn.

Mae Polisi Gwybodaeth a Sgiliau'r Gronfa yn sicrhau bod y rhai sydd yn gyfrifol am Lywodraethu gan gynnwys uwch swyddogion y Gronfa, â'r wybodaeth a sgiliau priodol i sicrhau bod y Gronfa'n cael ei rheoli'n briodol. Mae presenoldeb mewn hyfforddiant yn cael ei gofnodi a'i fonitro i sicrhau bod yr hyfforddiant yn gwbl effeithiol.

Mae'r tirlun risg y mae'r Gronfa yn gweithredu ynddo yn gymhleth ac mae'r risgiau y mae'r Gronfa yn ei wynebu yn aml o ganlyniad i ddigwyddiadau y tu hwnt i reolaeth y Gronfa. Roedd hyn yn amlwg yn y risgiau oedd yn codi o'r "gyllideb fechan" ym mis Medi 2022 (a chyn hyn, y pandemig Covid-19). Mae gan y Gronfa ddull effeithiol wedi'i sefydlu i reoli risg, gan gynnwys cynnal cofrestr risg a gaiff ei fonitro'n rheolaidd ac fe'i adroddir i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

Mae Adroddiad Llywodraethu, Hyfforddiant a Rheoli Risg; Adroddiad yr Ymgynghorydd Annibynnol; ac Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Pensiynau yn Atodiadau 1-3 yr adroddiad hwn, yn y drefn honno.

Cyllido

Yn ystod y flwyddyn, roedd yr Actiwari wedi cynnal eu hasesiad prisio teirblwydd gyda dyddiad 31 Mawrth 2022. Roedd canlyniadau'r prisiad yn dangos gwelliant sylfaenol mewn lefel cyllido, perthnasol i'r hyn hyd at 31 Mawrth 2019, o 91% i 105%. Roedd y gwelliant hwn yn galluogi i ofynion cyfraniad cyflogwr, ar gyfartaledd, ostwng yn dilyn ymarfer ymgynghori gyda chyflogwyr ar ddeilliannau prisiad a Datganiad Strategaeth Cyllido newydd. Cafodd cyfraddau cyfraniad newydd i gyflogwyr ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2026 eu hardystio gan yr Actiwari ym mis Mawrth 2023. Cafodd y deilliant wedi derbyn ymateb da gan holl rhanddeiliaid gan ei fod yn caniatáu i bwysau cyllidebol gael eu lliniaru.

Rhan allweddol o'r Datganiad Strategaeth Gyllido yw Strategaeth Llwybr Hedfan y Gronfa, sydd wedi'i ddylunio i ddarparu sefydlogrwydd cyllid a sefydlogrwydd i gyfraddau cyfraniad cyflogwyr yn yr hirdymor. Er bod digwyddiadau marchnad eithriadol a welwyd yn ystod y flwyddyn yn dilyn y "gyllideb fechan" ym mis Medi 2022 wedi golygu sawl her i'r Gronfa, roedd y strwythur llywodraethu ar waith y tu ôl i'r Strategaeth Llwybr Hedfan wedi galluogi i benderfyniadau gael eu gwneud yn gyflym i gynyddu sicrwydd y proffil risg/canlyniad Cronfa ar lefelau cost derbyniol.

Bydd y Strategaeth Llwybr Hedfan hon yn parhau i gael ei monitro a'i hadolygu yn ystod y flwyddyn i ddod i sicrhau ei heffeithiolrwydd parhaus.

Mae heriau yn y dyfodol o ran cyllido yn cynnwys:

- cynnal sefyllfa lefel gyllid gadarn a rheoli cynaliadwyedd/fforddiadwyedd cyfraniadau i gyflogwyr,
- parhau i reoli effaith rhagolwg economaidd byd-eang heriol, yn arbennig chwyddiant uchel y DU a chyfraddau llog yn codi, drwy'r Strategaeth Llwybr Hedfan a phortffolio ehangach.
- ystyried effaith newid hinsawdd ar y cyllid hirdymor, adeiladu ar y dadansoddiadau cychwynnol a gynhaliwyd fel rhan o brisiad 2022 a'r newidiadau a weithredwyd o dan bolisiau Buddsoddi Cyfrifol y Gronfa.

Yn gyffredinol, er gwaethaf anweddolrwydd yn ystod y flwyddyn, roedd sefyllfa'r gyllid wedi'i hamcangyfrif yn 104% ar 31 Mawrth 2023. Bydd sefyllfa'r cyllid yn parhau i gael ei monitro fel rhan o'r polisiau llywodraethu a throsolwg ar waith.

Mae mwy o fanylion ar gael yn yr Adolygiad Cyllid a Llwybr Hedfan o'r Actiwari, sy'n Atodiad 5 yr adroddiad hwn.

Buddsoddiad

Mae gweithgarwch buddsoddi yn gweithredu o fewn y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi a adolygwyd a diweddarwyd yn ystod 2022/23. Mae amcanion buddsoddi'r Gronfa yn adlewyrchu dymuniad y Gronfa i gynnwys cynaliadwyedd a gweithredu fel Buddsoddwr Cyfrifol.

Yn ystod 2022/23 roedd yna gyfnodau o anweddolrwydd y farchnad eithafol, yn arbennig yn dilyn y "gyllideb fechan" ym mis Medi 2022. Gydag elw bondiau cynyddol er mwyn goresgyn chwyddiant cynyddol, roedd y "gyllideb fechan" yn gweld elw yn cynyddu ymhellach a chael effaith sylweddol ar brisiad Fframwaith Rheoli Risg ac Arian y Gronfa. Yn gyffredinol, o ganlyniad i amodau'r farchnad dros y flwyddyn, roedd buddsoddiad y Gronfa wedi dychwelyd -6.4%.

Yn allweddol i berfformiad buddsoddi'r Gronfa yn ystod y flwyddyn oedd y canlyniad negyddol (-34.8%) o'r Fframwaith Rheoli Risg ac Arian fel y cyfeirir uchod. Roedd effaith canlyniadau o'r fath wedi'i gyfyngu gan y gwahaniaethu a ddarparwyd gan y strategaeth fuddsoddi, gan gynnwys Marchnadoedd Preifat (+10.1%) a Chronfeydd Mantoli (+0.8%). Roedd cyfanswm mandadau ecwiti'r Gronfa wedi dychwelyd -2.2%, gyda chymorth mandad

amddiffyn ecwiti'r Gronfa. Roedd yna ganlyniadau negyddol pellach o'r Credyd Aml-Ased (-7.1%) a'r Portffolio Syniadau Gorau (-3.9%).

O ystyried yr anwadalrwydd a brofwyd yn y blynedd diweddar, mae'n bwysig gweld perfformiad yng nghyd-destun perfformiad tymor hwy. Yn gyffredinol, roedd yr enillion ar fuddsoddiadau yn 9.5% y flwyddyn dros y tair blynedd ar 31 Mawrth 2023, o'i gymharu â meincnod o 7.5% y flwyddyn. Mae'r perfformiad hefyd ymhell ar flaen y rhagdybiaethau a adeiladwyd i mewn i'r Strategaeth Gyllido.

Mae'r Gronfa yn parhau i gefnogi cronfa o asedau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac mae wedi ymrwymo i ddefnydd is-gronfeydd marchnad breifat WPP o Ebrill 2023. Cyflwynodd y Gronfa ei Adroddiad Stiwardiaeth cyntaf ac ym mis Chwefror 2023 cyflawnodd statws llofnodwr i God Stiwardiaeth DU Cyngor Adroddiadau Ariannol.

Mae'r Gronfa wedi parhau i symud ymlaen yn sylweddol ar waith yn ymwneud â Blaenoriaethau Buddsoddi Cyfrifol yn Natganiad y Strategaeth Fuddsoddi (a ddiweddarwyd yn 2023). Yn benodol, mae'r Gronfa yn parhau i weithio tuag at ei strategaeth (cytunwyd yn 2022) i gyflawni allyriadau carbon sero net o'i phortffolio erbyn 2045, gyda tharged interim o leihau allyriadau carbon 50% erbyn 2030. Mae'r Gronfa yn parhau i drefnu cyfalaf yn fuddsoddiadau cynaliadwy a lleol.

Yn ystod 2023/24, bydd y Gronfa yn gweithio tuag at sefydlu fframwaith yn benodol yn ymwneud â Buddsoddi Cyfrifol, gan ganolbwyntio ar feysydd eithrio penodol, gan dargedu ecwiti a restrwyd i ddechrau.

Yn erbyn cefnlen o anwadalrwydd parhaus yn y farchnad a rhagolwg economaidd newidiol, cafodd y strategaeth fuddsoddi ei hadolygu yn 2022/23 gyda newidiadau i'r Dyraniad Ased Strategol wedi eu cytuno ym mis Chwefror 2023 a gweithredwyd ar ôl diwedd y flwyddyn. Roedd newidiadau allweddol i'r dyraniad yn ymwneud â gostyngiad mewn Ecwitiau Marchnadoedd Newydd a chynnydd mewn Ecwiti Cynaliadwy Byd-eang. Hefyd, mewn perthynas â Marchnadoedd Preifat, roedd y dyraniad Lleol/Effaith wedi cynyddu a ariannwyd drwy ostyngiad yn y dyraniad i Gronfeydd Mantoli.

Gellir dod o hyd i ragor o fanylion y gweithgareddau buddsoddi yn y Polisi Buddsoddi a'r Adroddiad Perfformiad sef Atodiad 6 yr adroddiad hwn. Mae Datganiad cyfredol y Strategaeth Fuddsoddi yn Atodiad 11.

Gweinyddu

Mae Strategaethau Cyfathrebu a Gweinyddu yn fframio gwaith Tîm Gweinyddu'r Gronfa. Cafodd y Strategaeth Weinyddu ei diweddarau ym Mawrth 2021, gan gyfuno'r wybodaeth a gadwyd yn flaenorol yng Nghytundebau Lefel Gwasanaeth cyflogwyr. Diweddarwyd y Strategaeth Gyfathrebu yn 2021/22 (fe'i cymeradwywyd ym mis Mehefin 2022), ac mae'n adlewyrchu'r cynnydd mewn technoleg i gynorthwyo cyfathrebu gyda budd-ddeiliaid.

Ar sail dydd i ddydd, mae'r Tîm Gweinyddu yn darparu gwasanaeth sy'n cynnwys cyfrifo a thalu buddion, trosglwyddo i mewn ac allan o'r Gronfa, cynnal a chadw cofnodion unigol

aelodau a chyfathrebu a chynghori aelodau a chyflogwyr. Yn ystod y flwyddyn, cwblhawyd bron i 31,000 o achosion newydd yn ymwneud â gweithgareddau ar draws y tîm.

Yn ogystal â'r gwaith hwn, mae'r Tîm wedi bod yn gweithio ar nifer o brosiectau wedi'u dylunio i wella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i aelodau a chyflogwyr:

- parhau i ddatblygu a gweithredu cynllun gwella data. Mae ansawdd data yn gwella a bydd cynnydd yn erbyn y cynllun yn parhau i gael ei fonitro,
- parhau i gyflwyno'r system i-Connect, sy'n galluogi cyflogwyr i roi a diweddarau gwybodaeth yn uniongyrchol i gronfa ddata'r gronfa. Erbyn 31 Mawrth 2023, roedd 99% o wybodaeth aelodau yn cael ei ddiweddarau gan gyflogwyr gan ddefnyddio'r system i-Connect.
- gwella hygyrchedd i wefan y Gronfa, ac ansawdd y wefan yn gyffredinol, gan gynnwys cyflwyno ffurflenni y gellir eu golygu (y gellir eu cwblhau gan aelodau ar-lein), creu ac uwchlwytho fideos eglurhad a hefyd diweddariadau ar ddechrau 2023 i adlewyrchu ailfrandio'r Gronfa.
- gweithio'n agos gyda chyflogwyr ar ddatganiadau cydymffurfio a thrwy'r Tîm Cyfathrebu â Chyflogwyr.
- casglu, gwirio a diweddariadau i system pensiwn data hanesyddol gan gyflogwyr fel rhan o Raglen McCloud. Mae'r tîm yn disgwyl symud at ddiwygio buddion unwaith y bydd rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi eu diwygio yn yr hydref 2023.

Mae'r Gronfa yn parhau i fonitro perfformiad yn defnyddio DPA gyda chwech DPA yn cael eu cyflwyno yn ystod 2022/23. Nid oedd yna lawer o effaith ar berfformiad gweinyddol er gwaethaf heriau adnoddau sylweddol a gwaith ychwanegol annisgwyl oherwydd newidiadau'r Llywodraeth fel symud y dyddiad ailwerthuso CARE ymlaen, gofynion McCloud parhaus a phenderfyniadau cyflogwr, fel dyfarniadau tâl wedi eu hól-ddyddio.

Yn ogystal â'r rhai a nodir uchod, mae'r Tîm Gweinyddu yn wynebu nifer o heriau wrth symud ymlaen. Y rhai allweddol ymysg y rhain yw:

- cyfranogiad yn natblygiad y Dangosfwrdd Pensiynau Cenedlaethol newydd,
- ymateb i newidiadau posibl o ganlyniad i'r Broses Rheoli Cost a'r cynnydd arfaethedig mewn isafswm oedran ymddeol o fis Ebrill 2028.

Gellir dod o hyd i fanylion pellach o weinyddiaeth y Gronfa yn yr Adroddiad Weinyddu sef Atodiad 4 yr adroddiad hwn.

Cyllid

Cyfanswm asedau net y Gronfa (ac eithrio arian parod) ar 31 Mawrth 2023 oedd £2,200miliwn. Cyfanswm cyfraniadau am y flwyddyn gan aelodau a gweithwyr ynghyd â throsglwyddiadau i'r Gronfa oedd £98m, gyda buddion a thaliadau eraill i aelodau yn £94miliwn. Cyfanswm costau rheoli a dalwyd gan y Gronfa oedd £29miliwn. Roedd incwm buddsoddiad yn £34miliwn ac roedd gwerth marchnad y buddsoddiadau wedi gostwng £198miliwn. Yn gyffredinol, roedd cyfanswm asedau net y Gronfa wedi gostwng dros

2022/23. Mae'r Gronfa wedi ymrwymo i barhau i gefnogi Partneriaeth Pensiwn Cymru gyda'r bwriad o arbed costau a gwella enillion ar fuddsoddiadau, a bydd hyn yn parhau yn 2023/24.

Dros 2022/23, ac eithrio ffioedd rheolwr cronfa, roedd y Gronfa yn gweithredu o dan gyllideb yn ystod y flwyddyn. O ystyried bod ffioedd rheoli cronfa yn seiliedig ar werth asedau a gall gynnwys ffioedd perfformiad, roedd y gyllideb ddisgwyliedig ar gyfer 2022/23 yn is na'r union gostau. Roedd prif amrywiaethau yn erbyn y gyllideb yn ystod y flwyddyn yn danwariant ar ffioedd ymgynghorydd, TG a chostau gweithwyr oherwydd swyddi gwag yn parhau heb eu llenwi.

Gellir dod o hyd i fanylion pellach o gyllid y Gronfa yn Natganiad Cyfrifon y Gronfa sef Atodiad 7 yr adroddiad hwn, a'r Adroddiad Ariannol sef Atodiad 8.

Gwybodaeth Ddefnyddiol Arall

Mae pedwar datganiad strategaeth allweddol hefyd yn ffurfio rhan o'r adroddiad hwn. Y rhain yw Datganiad Llywodraethu a Chydymffurfio (Atodiad 9), Datganiad Strategaeth Gyllido (Atodiad 10), Datganiad Strategaeth Fuddsoddi (Atodiad 11) a Datganiad Strategaeth Gyfathrebu (Atodiad 12).

Gellir dod o hyd i'r dogfennau canlynol ar wefan y Gronfa yn:

<https://cronfabensiynauclwyd.org.uk/cy/Llywodraethu/Strategaethau-a-Pholisiau/cartref.aspx>

- Cynllun Busnes
- Strategaeth Weinyddol
- Polisi Torri Rheolau
- Polisi Gwrthdaro Buddiannau
- Polisi Gwybodaeth a Sgiliau

Yn gyffredinol, er gwaethaf blwyddyn heriol arall, er bod gwerth y Gronfa wedi gostwng, mae'r sefyllfa cyllid a'r gwasanaeth a ddarperir i'n haelodau a chyflogwyr wedi'i gynnal. Byddwn yn ceisio cydgrynhoi a gwella yn 2023/24 yn unol â Datganiad Cenhadaeth y Gronfa.

Philip Latham

Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd

Datganiad Cenhadaeth Cronfa Bensiynau Clwyd

Byddwn yn cael ein hadnabod fel sefydliad blaengar, ymatebol, rhagweithiol a phroffesiynol sy'n darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y cwsmeriaid, sydd ag enw da ac sy'n gredadwy, i'r holl gwsmeriaid.

Byddwn wedi meithrin diwylliant corfforaethol o ymwybyddiaeth risg, llywodraethu ariannol, a byddwn yn darparu gwasanaethau nodedig, o'r ansawdd uchaf, o fewn ein hadnoddau.

Byddwn yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid, gan ganolbwyntio ar atebion, gydag ymagwedd sy'n credu yn ein gallu i gyflawni.

Atodiad 1: Llywodraethu, Hyfforddiant a Rheoli Risg

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r ffordd y mae Cronfa Bensiynau Clwyd (y Gronfa) yn cael ei llywodraethu, sy'n cynnwys sut mae gofynion o ran gwybodaeth a sgiliau'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a gweithrediadau'r Gronfa wedi'u bodloni. Mae hefyd yn rhoi manylion partneriaid allweddol y Gronfa a sut mae'r Gronfa'n mynd i'r afael â rheoli risg.

Mae gan y Gronfa nifer o bolisiau a strategaethau sy'n ymwneud â llywodraethu sy'n amlinellu'r amcanion llywodraethu strategol yn y meysydd hyn a sut y byddan nhw'n cael eu rheoli a'u cyflawni. Y rhain yw:

- Polisi Llywodraethu a Datganiad Cydymffurfio
- Polisi Risg
- Polisi Gwrthdaro Buddiannau
- Polisi Gwybodaeth a Sgiliau
- Gweithdrefn ar gyfer Cofnodi ac Adrodd ynghylch Achosion o Dor-cyfraith
- Polisi Atal Twyll a Llygredigaeth
- Strategaeth Seiber
- Datganiad Strategaeth Gyfathrebu

Dogfen allweddol arall yw Cynllun Busnes tair blynedd y Gronfa. Cafodd y fersiwn sy'n ymwneud â 2022/2023 i 2024/2025 ei chymeradwyo ym Mhwyllgor y Gronfa Bensiynau ym mis Mawrth 2022.

Gellir gweld y fersiynau diweddaraf o'r dogfennau hyn yn yr adran Strategaethau a Pholisiau ar wefan y Gronfa:

<https://cronfabensiynaclwyd.org.uk/cy/Llywodraethu/Strategaethau-a-Pholisiau/cartref.aspx>

Strwythur Llywodraethu

Cefndir

Er mwyn cyflawni'r cyfrifoldebau'n ymwneud â rheoli Cronfa Bensiynau Clwyd, mae Cyngor Sir y Fflint, fel Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa, wedi sefydlu Pwyllgor Cronfa Bensiynau ffurfiol (y Pwyllgor), gyda chefnogaeth Panel Ymgynghorol Pensiynau (y Panel). Mae'r Pwyllgor yn cynnwys cynrychiolwyr o blith aelodau a chyflogwyr y cynllun sydd â hawliau pleidleisio llawn. Wrth ymgymryd â'i rôl, mae'r Pwyllgor yn cael cyngor gan y Panel (sef grŵp o swyddogion a chynghorwyr proffesiynol). Mae gan y Pwyllgor gynllun dirprwyo i swyddogion er mwyn sicrhau rheolaeth effeithlon a phenderfyniadau prydlon ar faterion brys rhwng cyfarfodydd.

Mae'n cael adroddiadau monitro ym mhob un o gyfarfodydd chwarterol y Pwyllgor ar Lywodraethu, Cyllid, Buddsoddi, Gweinyddu a Strategaethau Cyfathrebu, yn ogystal ag ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Busnes 3 blynedd. Mae rhaglen, adroddiadau a chofnodion pob un o gyfarfodydd y Pwyllgor ar gael ar wefan Cyngor Sir y Fflint:

<https://www.flintshire.gov.uk/>

Mae rhestr o aelodau'r Pwyllgor a'r Panel i'w gweld isod.

Mae Cyngor Sir y Fflint hefyd wedi sefydlu Bwrdd Pensiynau Clwyd (y Bwrdd). Swyddogaeth y Bwrdd fel y'i diffinnir mewn rheoliad yw helpu i:

- sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a gofynion y Rheoleiddiwr Pensiynau a
- sicrhau y caiff y Gronfa ei llywodraethu a'i gweinyddu'n effeithiol ac yn effeithlon

Mae cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu cynnwys ym mhapurau rhaglen y Pwyllgor ac mae aelodau'r Bwrdd yn aml yn mynd i gyfarfodydd y Pwyllgor, gan wneud cyfraniad pwysig i ddadleuon a thrafodaethau. Mae adroddiad blynyddol y Bwrdd wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol hwn.

Mae rhagor o wybodaeth am y Bwrdd ar gael ar wefan y Gronfa:

<https://cronfabensiynauclwyd.org.uk/cy/Llywodraethu/Bwrdd-Pensiynau-Lleol/cartref.aspx>

Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd

Aelodau'r Pwyllgor		
Cyngor Sir y Fflint	Y Cynghorydd Ted Palmer (Cadeirydd)	
Cyngor Sir y Fflint	Y Cynghorydd Haydn Bateman (Is-gadeirydd)	Tan fis Mai 2022
Cyngor Sir y Fflint	Y Cynghorydd Dave Hughes (Is-gadeirydd)	Penodwyd yn Is-gadeirydd ym mis Mai 2022
Cyngor Sir y Fflint	Y Cynghorydd Jason Shallcross	Penodwyd ym mis Mai 2022
	Y Cynghorydd Ralph Small	Tan fis Mai 2022
Cyngor Sir y Fflint	Y Cynghorydd Antony Wren	Penodwyd ym mis Mai 2022
	Y Cynghorydd Tim Roberts	Tan fis Mai 2022
Cyngor Sir y Fflint	Y Cynghorydd Sam Swash	Penodwyd ym mis Mai 2022
Cyngor Sir Ddinbych	Y Cynghorydd Julian Thompson Hill	Tan fis Mai 2022
Cyngor Sir Ddinbych	Y Cynghorydd Gwyneth Ellis	Penodwyd ym mis Mai 2022
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	Y Cynghorydd Nigel Williams	Tan fis Mai 2022

Aelodau'r Pwyllgor		
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	Y Cyngorydd Anthony Wedlake	Penodwyd ym mis Mai 2022
Cynrychiolydd Corff Rhestredig	Y Cyngorydd Andrew Rutherford	
Cynrychiolydd Aelodau	Mr Steve Hibbert	

Panel Ymgynghorol

Aelodau'r Panel	
Rheolwr Cyllid Corfforaethol/ Swyddog Adran S151 (CSyFf)	Gary Ferguson
Rheolwr Corfforaethol, Pobl a Datblygu Sefydliadol (CSyFf)	Sharon Carney
Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd (CSyFf)	Philip Latham
Ymgynghorydd Buddsoddi (Mercer) (tan fis Mawrth 2023)	Kieran Harkin
Ymgynghorydd Buddsoddi (Mercer) (o fis Mawrth 2023)	Steve Turner
Actwari'r Gronfa (Mercer)	Paul Middleman
Ymgynghorydd Annibynnol (Aon)	Karen McWilliam

Bwrdd Cronfa Bensiynau Clwyd

Aelodau'r Bwrdd Lleol		Hawliau Pleidleisio
Cadeirydd Annibynnol	Karen McWilliam	X
Cynrychiolydd y Cyflogwr	Steve Gadd (tan fis Gorffennaf 2023)	✓
Cynrychiolydd y Cyflogwr	Steve Jackson	✓
Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun	Phil Pumford	✓
Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun	Elaine Williams	✓

Rheolwyr Buddsoddi

Mae gan y Gronfa fandadau â thri rheolwr buddsoddi yn ogystal â'r Darparwr Datrysiadau Buddsoddi PPC, Russell Investments, fel y dangosir yn y tabl isod.

Rheolwyr Buddsoddi	Cyfeiriad
BlackRock (tan fis Hydref 2022)	12 Throgmorton Avenue, Llundain
Insight Investment	160 Queen Victoria Street, Llundain
Man Group	Riverbank House, 2 Swan Lane, Llundain
Russell Investments (PPC)	Rex House, 10 Regent Street, Llundain

Mae gan y Gronfa nifer o fuddsoddiadau ac mae rheolwyr yn buddsoddi mewn Eiddo, Ecwiti Preifat, Dyled Breifat, Isadeiledd, Coed ac Amaethyddiaeth, sydd wedi'u rhestru yn adran Polisi a Pherfformiad Buddsoddi yr adroddiad hwn.

Partneriaid Allweddol Eraill

Gwasanaeth	Cyfeiriad
Ceidwad: Bank of New York Mellon	160 Queen Victoria Street, Llundain
Ymgynghorwyr Actiwari a Buddion: Mercer Ltd	4 St Paul's Square, Old Hall Street, Lerpwl
Ymgynghorwyr Buddsoddi: Mercer Ltd	1 Tower Place West, Tower Place, Llundain
Cynghorydd Annibynnol: Aon Solutions UK Ltd	122 Leadenhall Street, Llundain
Archwilwyr Allanol: Archwilio Cymru	1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd
Banc: National Westminster Bank plc	48 Stryd Fawr, yr Wyddgrug
Darparwr AVC: Prudential	121 King's Road, Reading
Darparwr CGY: Utmost Life & Pensions	Utmost House, 6 Vale Avenue, Tunbridge Wells
Cynghorwyr Cyfreithiol: Mae hyn yn amrywio yn dibynnu ar y mater a gall gynnwys tîm cyfreithiol mewnol Cyngor Sir y Fflint yn ogystal â sefydliadau sydd wedi'u rhestru yn Fframwaith Cenedlaethol Gwasanaethau Cyfreithiol CPL	

Manylion Cyswllt Cronfa Bensiynau Clwyd

Enw	Swydd	Manylion Cyswllt
Philip Latham	Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd	(01352) 702264
Debbie Fielder	Dirprwy Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd	(01352) 702259
Karen Williams	Rheolwr Gweinyddu Pensiynau	(01352) 702963
Gweinyddu Pensiynau	pensiynau@siryfflint.gov.uk	(01352) 702875
Cyllid Pensiynau	buddsoddiadaupensiwn@siryfflint.gov.uk	(01352) 702812

Gwybodaeth a Sgiliau

Polisi Gwybodaeth a Sgiliau Cronfa Bensiynau Clwyd

Mae galw cynyddol i aelodau Pwyllgor Pensiynau CPLIL, aelodau'r Bwrdd Pensiynau a'r swyddogion fod â'r wybodaeth a'r sgiliau gofynnol i sicrhau bod cronfeydd CPLIL yn cael eu rheoli'n briodol a bod penderfyniadau am reoli'r cronfeydd yn gadarn a bod sail dda iddynt. Mae'r galw hwn yn cael ei bwysleisio mewn codau ymarfer a chanllawiau gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), y Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR) yn ogystal ag mewn amrywiaeth o elfennau o ddeddfwriaeth.

Mae gan y Gronfa Bolisi Gwybodaeth a Sgiliau datblygedig y cafodd ei ddiweddarau ym mis Medi 2021 i adlewyrchu canllawiau a Chod Ymarfer diweddaraf CIPFA. Mae'n manylu ar y strategaeth hyfforddi, sgiliau a gwybodaeth ar gyfer aelodau'r Pwyllgor, y Bwrdd a'r uwch swyddogion sy'n gyfrifol am reoli'r Gronfa. Cafodd ei greu i ddarparu fframwaith ffurfiol a mwy o dryloywder ynghylch sut y caiff y wybodaeth a'r sgiliau perthnasol eu caffael a'u cadw yn unol â dyheadau a gofynion cenedlaethol y Gronfa. Mae'n helpu aelodau presennol a darpar aelodau'r Pwyllgor, aelodau'r Bwrdd ac uwch swyddogion â'u datblygiad a'u perfformiad personol yn eu swyddi unigol, gan gyflwyno strwythur a fydd yn sicrhau bod y Gronfa'n cael ei rheoli gan unigolion sydd â'r lefelau priodol o wybodaeth a sgiliau. Mae manylion ynghylch sut i gael gafael ar y Polisi Gwybodaeth a Sgiliau ar gael ar dudalen cynnwys yr Adroddiad Blynnyddol hwn.

Perfformiad Hyfforddiant 2022/23

Mae gan y Gronfa Gynllun Hyfforddi ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd, sy'n rhoi manylion yr holl hyfforddiant a fydd yn cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn. Parhawyd i roi hyfforddiant i Aelodau dros y we, ac yr oedd cynlluniau i gynnig sesiynau hyfforddi wyneb yn wyneb yn 2023/24. Cafodd rhai cynadleddau allanol eu cynnal wyneb yn wyneb neu ar ffurf hybrid, a gwnaeth sawl darparwr barhau i gynnig gweminarau digwyddiadau hyfforddi y dewisodd rhai aelodau o'r Pwyllgor a'r Bwrdd fynd iddynt.

Er mwyn monitro gwybodaeth a sgiliau ac i ganfod a ydym ni'n diwallu amcanion y Polisi Gwybodaeth a Sgiliau'r Gronfa, yr ydym ni'n monitro ac yn adrodd ar bresenoldeb mewn digwyddiadau hyfforddi ar sail ar y canlynol:

- Anghenion Hyfforddi Unigol: sicrhau y caiff dadansoddiad o anghenion hyfforddi ei gyflawni o leiaf bob dwy flynedd, a bod y canlyniadau'n dylanwadu ar gynnwys Cynllun Hyfforddi'r Gronfa.
- Hyfforddiant Pynciau Llosg: y nod yw bod o leiaf 75% o aelodau gofynnol Pwyllgor y Gronfa Bensiynau, aelodau'r Bwrdd Pensiynau a'r uwch swyddogion yn bresennol mewn sesiynau hyfforddiant pynciau llosg a drefnwyd. Gall y targed hwn ganolbwyntio ar grŵp penodol o aelodau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau, uwch swyddogion neu aelodau'r Bwrdd Pensiynau, yn dibynnu ar y pwnc dan sylw.
- Ymwybyddiaeth Gyffredinol: mae'n rhaid i bob aelod o Bwyllgor y Gronfa Bensiynau, y Bwrdd Pensiynau a phob un o'r uwch swyddogion fynd i o leiaf un diwrnod o hyfforddiant neu ddigwyddiad ymwybyddiaeth gyffredinol y flwyddyn.
- Hyfforddiant cynefino: sicrhau bod meysydd hyfforddiant unigol a nodwyd ar gyfer aelodau newydd yn cael eu cwblhau cyn pen chwe mis o'u penodi.

Roedd yr union berfformiad yn 2022/23 fel a ganlyn:

- a) Anghenion Hyfforddi Unigol: Dadansoddwyd yr anghenion hyfforddi ddiwethaf yng ngwanwyn 2020, a hynny a lywiodd yr hyfforddiant a gwblhawyd yn ystod 2020/21 a 2021/22. Bwriedir cynnal y dadansoddiad nesaf yn ystod hydref 2023 er mwyn asesu'r anghenion hyfforddiant ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Er bod hynny'n hwyrach na'r targed, bu'n rhaid gohirio'r dadansoddiad o ganlyniad i etholiadau'r

awdurdod lleol yng Nghymru ym mis Mai 2022, a effeithiodd ar aelodaeth Pwyllgor y Gronfa Bensiynau.

- b) Hyfforddiant Pynciau Llosg: Dyma'r niferoedd a oedd yn bresennol yn y sesiynau hyfforddi ynghylch pynciau llosg:

Cwrs	Pwyllgor		Bwrdd		Uwch Swyddogion	
	Nifer	% presenoldeb	Nifer	% presenoldeb	Nifer	% presenoldeb
Adolygiad o'r Strategaeth Gyfathrebu	6	100%*	4	80%	4	80%
Ystyriaethau Cyllido: y prisiad	7	78%	5	100%	5	100%
Ystyriaethau Buddsoddi: adolygu'r strategaeth fuddsoddi yn cynnwys dosbarthiadau asedau	7	78%	4	80%	4	80%
Ystyriaethau Buddsoddi: Marchnadoedd Preifat (Mercer)	7	78%	5	100%	5	100%
Adroddiadau'r Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd (Mercer)	7	78%	2	40%	3	60%

*Mae'n cynnwys y chwe aelod a oedd mewn swydd yn ystod y sesiwn hyfforddi yn unig.

Yn y mwyafrif o achosion, cyflawnwyd y gynulleidfa darged ac mae presenoldeb yn gyffredinol wedi bod yn fwy cyson nag yn 2021/22, er bod llai o sesiynau Pynciau Llosg yn 2022/23 (5 o gymharu â 7 yn 2022/23).

- c) Ymwybyddiaeth Gyffredinol: O'r 14 o aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd, aeth 10 aelod i o leiaf un sesiwn ymwybyddiaeth gyffredinol, a chwblhaodd 8 (57%) o leiaf un diwrnod yn unol â'r polisi, gostyngiad bychan o gymharu â 2021/22 pan wnaeth 10 (71%) fynd i o leiaf un diwrnod. Gall hyn fod yn rhannol oherwydd cyfyngiadau amser ar aelodau newydd y Pwyllgor a oedd yn ymgymryd â hyfforddiant cynefino ac ni ddechreuodd rhai ohonyn nhw fynd i gyfarfodydd tan chwarteri olaf y flwyddyn.

O'r pump uwch swyddog, cwblhaodd 4 (80%) o leiaf un sesiwn hyfforddiant ymwybyddiaeth gyffredinol a gwnaeth dau (40%) gwblhau o leiaf un diwrnod.

- d) Hyfforddiant Cynefino: Cyflwynwyd sesiynau cynefino ar gyfer y 5 aelod newydd o'r Pwyllgor o fewn chwe mis o'u penodi, ac yr oedd cofnodion o'r sesiynau ar gael i'r unigolion nad oedden nhw'n gallu bod yn bresennol. Mae'r hyfforddiant cynefino bellach wedi'i gwblhau.

Mae'r tabl canlynol yn manylu ar yr holl hyfforddiant y cafodd ei gynnig i aelodau'r Pwyllgor yn ystod 2022/23 i fodloni gofynion y Polisi Gwybodaeth a Sgiliau. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd y Pwyllgor yr aethpwyd iddynt yn ogystal â sesiynau hyfforddiant, cynadleddau a seminarau perthnasol. Bu i Aelodau'r Bwrdd hefyd dderbyn a chwblhau hyfforddiant perthnasol yn unol â'r Polisi, ac mae'r manylion wedi'u cynnwys yn Adroddiad Blyneddol y Bwrdd Pensiynau.

Dyddiad	Digwyddiad	Aelodau'r Pwyllgor									Uwch Swyddogion				
		Y Cyng. T Palmer	Y Cyng. A Wren	Y Cyng. A Wedlake	Y Cyng. G Ellis	Y Cyng. J Shallcross	Y Cyng. S Swash	Y Cyng. D Hughes	Y Cyng. A Rutherford	S Hibbert	Gary Ferguson	Sharon Carney	Philip Latham	Deb Fielder	Karen Williams
	Cyfarfod														
08 Mehefin 2022	Cyfarfod y Bwrdd Mehefin 2022												✓	✓	✓
15 Mehefin 2022	Cyfarfod y Pwyllgor Mehefin 2022	✓	✓			✓		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
31 Awst 2022	Cyfarfod y Pwyllgor Awst 2022	✓	✓			✓	✓	✓	✓	✓	✓		✓	✓	✓
30 Medi 2022	Cyfarfod y Bwrdd Medi 2022												✓	✓	✓
23 Tachwedd 2022	Cyfarfod y Pwyllgor Tachwedd 2022	✓	✓	✓		✓	✓	✓		✓	✓	✓	✓	✓	✓
13 Rhagfyr 2022	Cyd-gyfarfod Ymgynghorol Blynyddol (AJCM)								✓	✓		✓	✓	✓	✓
15 Chwefror 2023	Cyfarfod y Pwyllgor Chwefror 2023	✓	✓	✓	✓	✓	✓		✓	✓	✓		✓	✓	✓
01 Mawrth 2023	Cyfarfod y Bwrdd Mawrth 2023												✓	✓	✓
29 Mawrth 2023	Cyfarfod y Pwyllgor 2023		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		✓
	Pynciau Llosg														
08 Mehefin 2022	Adolygiad o'r Strategaeth Gyfathrebu	✓	✓			✓		✓	✓	✓		✓	✓	✓	✓
24 Awst 2022	Ystyriaethau Cyllido: y prisiad	✓	✓			✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
05 Hydref 2022	Ystyriaethau buddsoddi: adolygu'r strategaeth fuddsoddi yn cynnwys dosbarthiadau asedau	✓	✓	✓		✓		✓	✓	✓		✓	✓	✓	✓
18 Ionawr 2023	Ystyriaethau buddsoddi: Marchnadoedd preifat (Mercer)	✓	✓		✓	✓		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

01 Chwefror 2023	Adroddiadau'r Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd (Mercer)	✓	✓		✓	✓	✓		✓	✓			✓	✓	✓
	Ymwybyddiaeth Gyffredinol														
20 Ebrill 2022	Fforwm Unsain									✓					
26 Mai 2022	Room 151 (Eiddo - Cynaliadwyedd / Ffyniant Bro)									✓					
13 Mehefin 2022	Cynhadledd y Gymdeithas Bensiynau ac Arbedion Gydol Oes (PLSA)													✓	
26 Gorffennaf 2022	Ystafell 151 (Tai - Strategaethau Incwm / Chwyddiant / Adeiladu i Osod / Effaith)									✓					
31 Awst 2022	Dangosfwrdd Pensiynau Cenedlaethol	✓	✓			✓	✓	✓	✓	✓	✓		✓	✓	✓
08 Medi 2022	Cynhadledd LGC Medi 2022	✓						✓						✓	
01 Hydref 2022	Fforwm Buddsoddi BlackRock									✓					
18 Hydref 2022	Rhaglen Hyfforddiant Hanfodol CLIL 2022									✓			✓	✓	
01 Tachwedd 2022	Mercer: Cofiwch 23 Medi									✓					
01 Tachwedd 2022	Portffolios Esblygol BlackRock									✓					
01 Tachwedd 2022	BrightTALK / Triodos: Outlook									✓					
06 Rhagfyr 2022	LGC - Isadeiledd Sero Net									✓					
08 Rhagfyr 2022	LAPFF: S yn ESG									✓					
08 Rhagfyr 2022	LAPFF: Panel Ffyniant Bro									✓					
09 Rhagfyr 2022	LAPFF: Cyflawni Trawsnewid Cyflawn									✓					
19 Ionawr 2023	Cynhadledd Llywodraethu CPLIL Flynyddol CLIL									✓			✓	✓	
01 Mawrth 2023	Rheoli llif arian												✓		✓
30 Mawrth 2023	Cynhadledd Buddsoddi LGC	✓	✓			✓							✓	✓	
	Rhaglen Gynefino														
24 Mehefin 2022	Hyfforddiant i Lywodraethwyr		✓	✓	✓	✓	✓								
20 Gorffennaf 2022	Hyfforddiant Llwybr Hedfan a Buddsoddiadau		✓	✓	✓	✓									
10 Awst 2022	Gweinyddu a chyfathrebu		✓	✓	✓	✓	✓								
23 Medi 2022	Buddsoddi Cyfrifol / Hyfforddiant Hinsawdd		✓	✓	✓	✓	✓								
28 Medi 2022	Actiwaraid/Cyllido, Cyfrifo, Archwilio a Chaffael		✓	✓	✓	✓									

28 Hydref 2022	Seiberddiogelwch yn y Gronfa Bensiynau		✓	✓	✓	✓								✓		✓
	Hyfforddiant Arall Partneriaeth Pensiwn Cymru															
22 Medi 2022	Dyranwyr Marchnadoedd Preifat / Ecwitiâu Cynaliadwy Gweithredol PPC	✓	✓					✓		✓				✓	✓	
19 Hydref 2022	Llywodraethu a Gweinyddu / Swyddogaethau a Chyfrifoldebau PPC	✓	✓		✓	✓									✓	
05 Rhagfyr 2022	Buddsoddiadau Cyfrifol PPC / Cod Stiwardiaeth / Adroddiadau'r Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd	✓												✓		
13 Chwefror 2023	Benthyca Stoc PPC	✓												✓	✓	
27 Chwefror 2023	Cronfeydd a Chydweithrediad Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol PPC	✓	✓					✓	✓					✓	✓	

Am y tro cyntaf, mae ystadegau Uwch Swyddogion wedi'u cynnwys yn yr ystadegau perfformiad hyfforddiant uchod, o ystyried mai yn ystod 2021/22 yn unig y daeth y Polisi i rym. Nid yw pob un o'r digwyddiadau uchod ar gael i bob Aelod ac Uwch Swyddog.

Rheoli Risg

Cefndir

Mae rheoli risg wedi'i wreiddio yn nhrefniadau llywodraethu'r Gronfa. Mae'r Pwyllgor wedi cymeradwyo Polisi Rheoli Risg a chedwir cofrestr risg. Adroddir ar newidiadau i lefel y risg ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor.

Gan fod llawer o risgiau'r gronfa bensiynau y tu hwnt i reolaeth y Gronfa, mae rheoli risg yn canolbwyntio ar fesur y risg bresennol yn erbyn risg darged y Gronfa y cytunwyd arni (a all fod yn gymharol uchel serch hynny), crynhoi'r rheolyddion presennol a nodi rhagor o reolyddion y gellir eu rhoi ar waith. Mae'r broses hon o reoli risg yn rhan annatod o nodi'r camau gweithredu sydd yna'n cael eu cynnwys yng Nghynllun Busnes y Gronfa.

Risgiau Sylweddol

Bydd yr wythnosau nesaf yn parhau i fod yn heriol i'r unigolion hynny sy'n ymwneud â llywodraethu, rheoli a gweithredu'r Gronfa. Mae'r risgiau a drafodir isod wedi'u cofnodi yn y gofrestr risg, a fydd yn dal i gael ei diweddarau ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor wrth i amgylchiadau newid. Y risgiau a ddangosir yw'r risgiau a nodwyd ym mis Mawrth 2023 yn rhai oren h.y. risgiau â chanlyniadau cymedrol y bernir ei bod yn bosib iddynt ddigwydd, neu'n fwy tebygol na hynny, a'r meysydd nad ydym ni'n cyflawni'r targed o ran y risg.

Allwedd

Risg	Effaith/Tebygolrwydd
Du	Canlyniadau trychinebus, bron yn sicr o ddigwydd
Coch	Canlyniadau difrifol, yn debygol o ddigwydd
Oren	Canlyniadau cymedrol, yn bosib o ddigwydd
Melyn	Mân ganlyniadau, yn annhebygol o ddigwydd
Gwyrdd	Canlyniadau dibwys, bron yn sicr o beidio â digwydd

Llywodraethu

Disgrifiad o'r Risg (os bydd hyn yn digwydd)	Trosolwg o'r Risg (bydd hyn yn digwydd)	Statws Risg ym mis Mawrth 2023	Statws Targed y Risg	Camau Pellach
Mae llywodraethu (yn enwedig yn yng Nghronfa Bensiynau Clwyd) yn wan o ganlyniad i: a: apwyntiadau byr b: gwybodaeth a chynngor gwael c: ymgysylltu / paratoi / ymrwymiad gwan d: arolygiaeth wael	Dim penderfyniadau neu benderfyniadau amhriodol yn cael eu gwneud	Oren	Gwyrdd	1: Cynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddi ar ôl hyfforddiant cynefino
Penderfyniadau, yn enwedig ar lefel Pwyllgor Cronfa Bensiwn, yn cael eu dylanwadu gan wrthdaro buddiannau ac felly efallai na fyddan nhw er budd pennaf cyflogwyr ac aelodau'r gronfa.	Nid yw ein cyfrifoldebau ymddiriedol cyfreithiol ni'n cael eu bodloni	Oren	Gwyrdd	1: Sicrhau bod proses diwydrwydd dyladwy PPC yn cael ei dilyn ym mhob achos ar gyfer buddsoddiadau â gwrthdaro posibl (e.e. lleol/Cymru) 2: Monitro sefyllfa cynigion Pwyllgor Hinsawdd Cyngor Sir y Fflint yn barhaus
Dylanwadau a newidiadau a ysgogir o'r tu allan, fel newid yn y cynllun (er enghraifft, McCloud, y cap posib wrth ymadael, y	Methu â chyflawni amcanion / cyfrifoldebau'r Gronfa neu fod rhywbeth yn	Coch	Oren	1: Cyflawni'r agweddau terfynol ar liniaru risg o ran seiberddoseddu yn y drefn 'busnes yn ôl yr arfer' 2: Adnewyddu a dogfennu asesiadau/ gweithdrefnau parhad busnes

Disgrifiad o'r Risg (os bydd hyn yn digwydd)	Trosolwg o'r Risg (bydd hyn yn digwydd)	Statws Risg ym mis Mawrth 2023	Statws Targed y Risg	Camau Pellach
Dangosfwrdd Pensiwn, seiberdroseddu, cyfuno asedau, ffyniant bro a boicotiau / dadfuddsoddiadau / sancsiynau, lobïo ynghylch yr Hinsawdd, y contract Gweithredwr â Phartneriaeth Pensiwn Cymru)	peryglu hynny - ffactorau allanol			3: Sefydlu prosiect ffurfiol ar gyfer y Dangosfwrdd Pensiynau 4: Ymgysylltu parhaus â PPC o ran Gweithredwr PPC 5: Ystyried yr adnoddau sydd eu hangen i fodloni gofynion allweddol yn barhaus
Dim digon o staff (er enghraifft, oherwydd salwch, ymddiswyddo, ymddeol, methu â recriwtio) - mae'r problemau presennol yn cynnwys proffil oedran / graddfeydd cyflogau Cyngor Sir y Fflint o gymharu ag awdurdodau lleol eraill, cyfuno asedau, y sector preifat / costau byw.	Methu â darparu gwasanaethau i ddiwallu amcanion cyfreithiol a pholisi	Coch	Gwyrdd	1: Recriwtio ar gyfer swyddi gweinyddol gwag. 2: Parhau i ystyried parhad busnes yn cynnwys cynllunio ar gyfer olyniaeth 3: Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer recriwtio a chadw staff a chynllunio ar gyfer olyniaeth, gan gynnwys ystyried lefelau gwaith yn y dyfodol

Cyllido a Buddsoddi

Disgrifiad o'r Risg (os bydd hyn yn digwydd)	Trosolwg o'r Risg (bydd hyn yn digwydd)	Statws Risg ym mis Mawrth 2023	Statws Targed y Risg	Camau Pellach
a: Mae marchnadoedd yn perfformio islaw'r rhagdybiaethau actiwaraid b: Nid yw rheolwyr y gronfa a/neu fuddsoddiadau mewnol yn cyflawni eu targedau c: Ni chaiff cyfleoedd yn y farchnad eu nodi a/neu eu gweithredu. d: Digwyddiad eithriadol o brin e.e. pandemig byd-eang fel Covid-19 e: Nid yw Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) yn rhoi portffolios i Gronfa Bensiynau Clwyd i gyflawni'r Strategaeth Fuddsoddi f: Nid oes gan y tîm mewnol ddigon o wybodaeth i herio'r rheolwyr buddsoddi ar y cyngor a roddir neu nad ydynt yn deall goblygiadau'r materion dewisiadau buddsoddi ar y gronfa	Methu â chyflawni targedau buddsoddi gan ostwng diddyledrwydd / cynyddu cyfraniadau	Coch	Oren	1: Parhau i fonitro amodau'r farchnad, dosbarthiadau asedau sylfaenol a rheolwyr buddsoddi naill ai'n uniongyrchol neu drwy PPC 2: Ystyried cynlluniau ar gyfer olyniaeth swyddogion yn gyson, gan gynnwys cynnal gwybodaeth buddsoddi lleol

Disgrifiad o'r Risg (os bydd hyn yn digwydd)	Trosolwg o'r Risg (bydd hyn yn digwydd)	Statws Risg ym mis Mawrth 2023	Statws Targed y Risg	Camau Pellach
Mae ffactorau'r farchnad yn dylanwadu ar chwyddiant a chyfraddau llog	Mae gwerth rhwymedigaethau'n cynyddu wrth i chwyddiant/arenillion y farchnad symud i fod yn anghyson â rhagdybiaethau actiwaraid	Oren	Melyn	1: Parhau i fonitro amodau'r farchnad ac ymateb drwy'r fframwaith sbardunau 2: Ar y cyd â Risgiau 3 a 5; caiff cyflwr cyffredinol y farchnad ei fonitro'n barhaus
1. Nid yw Buddsoddi Cyfrifol (gan gynnwys Newid Hinsawdd) yn cael ei ystyried yn briodol yn Strategaeth Fuddsoddi hirdymor y Gronfa, sy'n golygu nad yw'n gynaliadwy ac nad yw'n mynd i'r afael â phob agwedd ar fod yn Fuddsoddwr Cyfrifol 2. Nid yw Partneriaeth Pensiwn Cymru yn rhoi'r adnoddau i'r Gronfa allu gweithredu polisïau Buddsoddi Cyfrifol	Methiant Strategaeth Buddsoddiadau Hirdymor y Gronfa i ddarparu ei hamcanion a'i uchelgais fel Buddsoddwr Cyfrifol.	Coch	Oren	1: Gweithredu'r cynllun buddsoddi cyfrifol fel yr amlinellir yn y cynllun busnes gan gynnwys adolygiad o'r targedau lleihau carbon presennol, a hyfforddiant cychwynnol ar ddatgeliadau ariannol sy'n ymwneud â natur. 2: Gweithio gyda PPC i sicrhau bod y Gronfa'n gallu gweithredu Polisi ac uchelgeisiau Buddsoddi Cyfrifol y Gronfa yn effeithiol trwy PPC 3: Datblygu fframwaith Buddsoddi Cyfrifol i gynorthwyo'r Pwyllgor yn ei asesiad o weithredu amcanion Buddsoddi Cyfrifol cyffredinol y Gronfa

Gweinyddu a Chyfathrebu

Disgrifiad o'r Risg (os bydd hyn yn digwydd)	Trosolwg o'r Risg (bydd hyn yn digwydd)	Statws Risg ym mis Mawrth 2023	Statws Targed y Risg	Camau Pellach
Bod staff wedi'u hyfforddi'n wael a / neu na allwn ni recriwtio/cadw digon o staff o safon, gan gynnwys o ganlyniad i raddfeydd cyflogau, o bosib.	Methu â chyflawni disgwyliadau cyfreithiol a pherfformiad (gan gynnwys gwallau ac oedi) o ganlyniad i broblemau staff	Coch	Melyn	1: Recriwtio swyddi gwag yn barhaus 2: Cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu ar gyfer recriwtio a chadw staff a chynllunio olyniaeth gan gynnwys ystyried lefelau gwaith yn y dyfodol ac adolygu strwythur y tîm 3: Hyfforddiant parhaus i unigolion sydd wedi'u recriwtio'n ddiweddar
Cyflogwyr: a: ddim yn deall eu cyfrifoldebau neu nad ydyn nhw'n eu cyflawni b: ddim yn gallu cael gafael ar ddulliau trawsyrru data effeithlon c: ddim yn dyrannu digon o adnoddau i faterion pensiynau (gan gynnwys yn sgil Covid-19)	Methu â chyflawni disgwyliadau cyfreithiol a pherfformiad (gan gynnwys gwallau ac oedi) o ganlyniad i broblemau staff	Oren	Gwyrdd	1: Gweithredu proses newydd ar gyfer cyflogwyr yn ymwneud â safonau gwasanaeth
Newidiadau mawr yn niferoedd y cyflogwyr neu aelodau'r cynllun, neu gynnydd annisgwyl yn y gwaith (er enghraifft, cynlluniau diswyddo)	Methu â bodloni disgwyliadau cyfreithiol a pherfformiad o	Coch	Oren	1: Ystyriaeth barhaus o'r effaith ar adnoddau yn sgil dyfarniadau cyflog wedi'u hôl-ddyddio, newidiadau cenedlaethol sy'n debygol a'r Dangosfwrdd Pensiynau.

Disgrifiad o'r Risg (os bydd hyn yn digwydd)	Trosolwg o'r Risg (bydd hyn yn digwydd)	Statws Risg ym mis Mawrth 2023	Statws Targed y Risg	Camau Pellach
neu ddiwygio rheoliadau, gan gynnwys McCloud, y Dangosfwrdd Pensiynau a'r cap posib ar derfyniadau, a dyfarniadau cyflog wedi'u hôl-ddyddio)	ganlyniad i ffactorau allanol			2: Gweithredu a symud tasgau nad ydynt yn 'fusnes yn ôl yr arfer' i dîm prosiect dros dro
Mae deunydd cyfathrebu'n anghywir, wedi'u drafftio'n wael, yn annigonol neu heb eu derbyn (gan gynnwys McCloud a'r cap posibl ar derfyniadau)	Nid yw aelodau'r cynllun yn deall nac yn gwerthfawrogi eu buddion	Melyn	Gwyrdd	1: Gweithredu strategaeth gyfathrebu newydd yn unol â chynllun busnes 2022/23+
Nid yw'r systemau'n cael eu diweddarau neu eu defnyddio'n briodol, neu mae prosesau eraill yn aneffeithiol (gan gynnwys McCloud a'r cap posibl ar derfyniadau)	Costau gweinyddu uchel a/neu wallau	Melyn	Gwyrdd	1: Penodi Darparwr Gwasanaeth Integredig ar gyfer y dangosfwrdd pensiynau yn unol ag amserlen y dangosfwrdd cenedlaethol newydd
Systemau'n methu neu ddim ar gael, gan gynnwys o ganlyniad i seiberddoseddu neu gyfyngiadau ar adnoddau	Tarfu ar ddarpariaeth y gwasanaeth	Oren	Gwyrdd	1: Datblygu cynllun parhad busnes wedi'i ddiweddarau ar gyfer y Gronfa 2: Gweithredu'r elfennau sydd ar ôl o ran y strategaeth seiber

Atodiad 2: Adroddiad Ymgynghorydd Annibynnol



Adroddiad Blyneddol Karen McWilliam

Cipolwg ar y sefyllfa....

Roedd y Gronfa wedi wynebu sawl her yn ystod 2022/23, o newidiadau i'r Pwyllgor a chyfarfodydd rhithiol i:

- cythrwbl y marchnadoedd ariannol,
- mwy o ddiddordeb allanol mewn buddsoddiadau a wnaed gan y Gronfa,
- yr angen i gytuno ar gyfraniadau cyflogwr newydd ar adeg o bwysau difrifol ar gyllidebau,
- effaith oedi mewn amrywiol fentrau cenedlaethol ac ansicrwydd cysylltiol, a
- heriau recriwtio a chadw staff ar adeg o lif gwaith cynyddol.

Mae strwythur rheoli risg a llywodraethu'r Gronfa wedi profi i fod yn effeithiol iawn wrth wynebu'r heriau hyn ac rwy'n falch o'r gwydnwch a ddangoswyd gan y Gronfa.

Mae meysydd lle bu cynnydd cadarnhaol yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- aelodau Pwyllgor newydd yn cwblhau hyfforddiant anwytho cynhwysfawr wrth iddynt dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am eu rolau,
- cwblhau'r prisiad actiwaraidd yn llwyddiannus,
- cymeradwyo Strategaeth Gyfathrebu newydd i wella profiad aelodau a chyflogwyr,
- cynnydd ardderchog ym maes Buddsoddiad Cyfrifol, gan gynnwys drafftio adroddiad TCFD cyntaf y Gronfa oedd yn arwain at adolygiad o ddull y Gronfa at newid hinsawdd o fewn ei strategaeth fuddsoddi a bod yn llofnodwr y Cod Stiwardiaeth,
- cynnal perfformiad gweinyddu, er gwaethaf cynnydd parhaus mewn nifer achosion a heriau recriwtio a chadw staff parhaus ochr yn ochr â phrosiectau allweddol sy'n ymwneud â newidiadau rheoleiddio.

Cyflawnwyd gymaint er gwaethaf yr anawsterau a wynebwyd, yn arbennig gyda chyfarfodydd Pwyllgor rhithiol, sydd bellach yn derbyn sylw. Yn fy marn i, mae rheolaeth a llywodraethu cyffredinol y Gronfa yn parhau i fod mewn sefyllfa gadarn iawn.

Wrth i ni symud ymlaen, yr hyn sy'n peri'r pryder mwyaf i mi yw nifer prosiectau a'r datblygiadau mawr y mae'n rhaid eu cwblhau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, llawer oherwydd newidiadau cenedlaethol; yn erbyn cefndir o anawsterau o ran recriwtio a chadw staff (ac ymddeoliadau posibl o fewn y tîm pensiynau). Mae recriwtio diweddar a'r adolygiad bwriedig o'r strwythur sefydliadol yn hynod gadarnhaol, yn ogystal ag ymrwymiad y sawl dan sylw, ond bydd angen hyfforddi a chadw staff newydd a monitro swyddi gwag i sicrhau y gellir cynnal safonau gwasanaeth.

Fy rôl

Rwy'n darparu cyngor annibynnol i Gronfa Bensiynau Clwyd (y Gronfa), yn bennaf ar faterion llywodraethu a gweinyddu. Mae hyn yn cynnwys adrodd yn flynyddol wrth y budd-ddeiliaid i ddweud a yw'r Awdurdod Gweinyddu (Cyngor Sir y Fflint) yn rheoli'r holl risgiau.

Mae'r risgiau hyn yn ymwneud â llywodraethu, buddsoddi, cyllid, gweinyddu a chyfathrebu ond nid oes angen i mi fod ac nid wyf yn arbenigwr ym mhob un o'r meysydd hyn. Yn benodol, mae gan y Gronfa eisoes Actiwari wedi'i benodi i'w chynghori ar faterion cyllid ac Ymgynghorydd Buddsoddi wedi'i benodi i roi cyngor ar faterion buddsoddi. Rydw i felly yn defnyddio fy ngwybodaeth ymarferol yn y meysydd hyn (a pherthynas waith agos gyda'r ymgynghorwyr penodedig hynny) i roi cyngor penodol ar drefniadau llywodraethu'r meysydd hyn yn hytrach na'r meysydd eu hunain.

Llywodraethu Effeithiol

Prif Fanteision

Mae rhai manteision allweddol i lywodraethu effeithiol, gan gynnwys:

- Trefn reoli risg gadarn all gynorthwyo i atal materion rhag codi neu o leiaf leihau eu heffaith
- Sicrhau bod adnoddau ac amser yn cael eu canolbwyntio'n briodol
- Gwneud penderfyniadau amserol a rhoi newid ar waith
- Gweledigaeth glir o sut mae'r Gronfa yn cael ei gweithredu ar gyfer y Pwyllgor Pensiynau.

Y dull a ddefnyddir gennyf i gynghori'r Gronfa yw i ystyried ei ddull ar gyfer llywodraethu yn erbyn y fframwaith llywodraethu Aon:

- **Cyfeiriad:** mae cael strategaethau a pholisïau clir sydd hefyd yn bodloni gofynion deddfwriaethol yn hanfodol
- **Darpariaeth:** mae bod â chynllun clir ar gyfer gweithredu strategaethau a pholisïau'r Gronfa, ynghyd â monitro priodol i weld a ydynt yn cael eu gwireddu, a rheolaeth risg dda, yn sicrhau darpariaeth effeithiol ac effeithlon
- **Penderfyniadau:** mae cael strwythur llywodraethu priodol, sy'n cynnwys y bobl gywir, gyda'r agwedd gywir a'r sgiliau a'r wybodaeth briodol, yn hanfodol.



Rwyf yn ystyried mai cyfrifoldebau allweddol y Gronfa, yn benodol mewn perthynas â phob un o'r meysydd hyn. Yn benodol:

- trefn **lywodraethu** gyffredinol y Gronfa (h.y. rheoli a gwneud penderfyniadau)
- bod ag ymagwedd briodol tuag at **gyllido'r** rhwymedigaethau
- diogelu a **buddsoddi** asedau
- **gweinyddu** buddion aelodau'r cynllun, a
- **chyfathrebu** â budd-ddeiliaid y Gronfa.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn nodi fy safbwyntiau ar reolaeth a gweinyddiaeth y Gronfa ac yn benodol, sut mae hyn wedi esblygu yn ystod 2022/23 (mis Ebrill i fis Mawrth). Mae hefyd yn cyffwrdd ar rai datblygiadau a gynhaliwyd ar ôl Mawrth 2023 ac mae'n amlygu rhai o'r heriau parhaus a wynebir gan y Gronfa.

Barn gyffredinol

- Mae'r **strwythur llywodraethu presennol wedi'i sefydlu'n dda ac yn gweithio yn ôl y bwriad**. Mae'n caniatáu i benderfyniadau gael eu gwneud ar frys ble bo'r angen ac yn lleihau'r risg o lywodraethu annigonol yn ystod cyfnodau heriol, fel cythrwbl y farchnad a brofwyd yn y farchnad gilt ar ddiwedd 2022.
- **Mae presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor, y Bwrdd a'r Panel Ymgynghorol** wedi bod yn dda drwy'r flwyddyn. Roedd rhai aelodau yn mynegi pryder bod cyfarfodydd rhithiol a sesiynau hyfforddiant yn llai effeithiol yn gyffredinol ac y ffefrir mwy o gyfarfodydd wyneb yn wyneb. Mae'r Gronfa wedi bod yn gweithio gyda'r Cyngor i

sicrhau y gellir cynnal cyfarfodydd Pwyllgor mewn fformat hybrid yn y dyfodol, i alluogi'r sawl sy'n dymuno ymuno wyneb yn wyneb i wneud hynny, heb ei gwneud yn ofynnol i aelodau fynychu yn bersonol yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Mae sesiynau hyfforddiant wedi bod yn ddigwyddiadau personol ble bo'n bosibl.

- Mae'r **Bwrdd Pensiynau** yn parhau i chwarae rôl bwysig yn llywodraethu'r Gronfa. Mae adroddiad y Bwrdd (sydd i'w weld yn adroddiad a chyfrifon blynyddol y Gronfa) sy'n amlinellu'r gwaith y mae wedi'i wneud, ac sydd yn dangos y bartneriaeth ardderchog sydd rhwng y Bwrdd, Pwyllgor a swyddogion y Gronfa, a'r manteision y mae'r Bwrdd yn eu darparu i reolaeth gyffredinol y Gronfa.
- Mae'r sawl sy'n ymwneud â rheoli'r Gronfa yn parhau i ddangos dealltwriaeth gadarn o'r **gwrthdaro buddiannau** posibl a chydymffurfio â Pholisi Gwrthdaro Buddiannau'r Gronfa. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw sefyllfaoedd posib' o wrthdaro na chawsant eu datgan yn unol â Pholisi'r Gronfa.
- Mae'r **fframwaith rheoli risg** wedi'i wreiddio yn nhrefniadau rheoli dydd i ddydd y Gronfa. Mae rheoli risg ar draws bob maes yn cael ei ystyried yn rheolaidd ac yn ffurfio rhan safonol o holl adroddiadau'r Pwyllgor. Rwy'n credu bod y rhai sydd ynghlwm â llywodraethiant y Gronfa'n deall y risgiau allweddol ac yn gweithio'n galed i barhau i ddatblygu rheolaethau mewnol cadarn lle bo hynny'n bosibl.
- Mae ystod eang o **fesurau perfformiad** ar waith sy'n cynnwys llywodraethu, gweinyddu, cyfathrebu, buddsoddi a chyllid. Yn ystod y flwyddyn, roedd gwelliannau pellach wedi eu gwneud i fesurau perfformiad mewn perthynas â chyfathrebu a buddsoddi cyfrifol (e.e. allyriadau carbon). Mae'r rhain yn rhoi sicrwydd y gall ac y bydd problemau'n cael eu datrys mewn modd amserol, yn ogystal â galluogi'r Gronfa i ddangos perfformiad cryf neu sy'n gwella mewn sawl maes. Yn ogystal, roedd yr adolygiad blynyddol o Fesurau Gwrthrychol ar gyfer Polisiâu/Strategaethau Cysylltiedig â Llywodraethu yn bennaf yn gadarnhaol iawn.
- Cymeradwywyd **cynllun busnes** 2022/23 i 2024/25 ym mis Mawrth 2022 a chafodd ei fonitro drwy gydol y flwyddyn. Mae'r cynllun yn parhau i fod yn gynhwysfawr ac yn gadarn. Mae swyddogion y gronfa wedi gwneud gwaith eithriadol i gyflawni llawer o'r prosiectau a'r tasgau yn y cynllun, er gwaethaf yr ansicrwydd oherwydd oedi mewn nifer o fentrau cenedlaethol.
- Mae **darparu adnoddau** yn parhau i fod yn faes canolbwyntio. Rwy'n falch fod y swydd Cymhorthydd Gweinyddol Llywodraethu wedi'i llenwi ar ddiwedd 2022 ac mae'r swydd Prif Gyfrifydd hefyd wedi'i llenwi (er hynny ar ôl diwedd y flwyddyn). Roedd y Tîm Gweinyddu wedi bod yn llwyddiannus iawn yn recriwtio ar ddiwedd 2022. Er gwaethaf hyn, mae yna swyddi gwag yn parhau yn y tîm, a chyfran uchel o staff newydd heb lawer o brofiad Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn golygu llai o effeithlonrwydd tra cynhelir hyfforddiant. Mae hyn yn golygu bod yna angen parhaus i wneud mwy o ddefnydd o ymgynghorwyr yn ystod 2022/23 i sicrhau bod amcanion y Gronfa a chyfrifoldebau

cyfreithiol yn parhau i gael eu diwallu. Mae gwaith yn parhau mewn cysylltiad â recriwtio, gan nodi heriau cyfyngiadau strwythurau tâl awdurdod lleol a'r nifer cyfyngedig o bobl gyda'r wybodaeth angenrheidiol.

Yn olaf, roeddwn yn falch fod Debbie Fielder, Dirprwy Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd a Karen Williams, Rheolwr Gweinyddu Pensiynau wedi eu cydnabod yng ngwobrau Merched mewn Pensiynau Proffesiynol 2022.

Yn yr adrannau i ddilyn rwy'n nodi isod arsylwadau ar ddatblygiadau penodol yn ystod 2022/23 o dan pob un o'r meysydd allweddol.

Llywodraethu

Llwyddiannau Allweddol

- Rhagori ar amcanion polisi'r Gronfa mewn perthynas â gwybodaeth a sgiliau
- Ffurio rôl Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd o fewn y strwythur llywodraethu a chyfansoddiad y Cyngor.
- Parhau i weithredu Strategaeth Seiber y Gronfa gan gydweithio gyda Chyngor Sir y Fflint.
- Darparu hyfforddiant anwytho cynhwysfawr i aelodau newydd y Pwyllgor

Aelodau Newydd y Pwyllgor

Yn dilyn etholiadau lleol ym mis Mai 2022 roedd y Gronfa yn croesawu 5 aelod newydd i'r Pwyllgor Cronfa Bensiynau. Fy argraff yw eu bod eisoes yn cyfrannu'n gadarnhaol at reoli'r Gronfa.

Newidiadau i'r Cynllun Dirprwyo a'r Cyfansoddiad

Cafodd Cyfansoddiad Cyngor Sir y Fflint ei ddiweddarau i:

- ffurfio rôl Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd o fewn y strwythur llywodraethu, gan gynnwys derbyn cyfrifoldeb am y rhan fwyaf o'r meysydd Cronfa Bensiynau a gynhaliwyd yn flaenorol gan y Prif Weithredwr ac
- adlewyrchu disodli'r Prif Weithredwr gan y Rheolwr Corfforaethol, Pobl a Datblygu Sefydliadol ar y Panel Ymgynghorol.

Yn fy marn i, mae'r newidiadau hyn wedi gweithio'n dda iawn ac mae'r Panel yn parhau i chwarae rôl bwysig i reoli'r Gronfa.

Cynnydd yn erbyn meysydd allweddol eraill yn y Cynllun Busnes

Gwybodaeth a Sgiliau

Roedd y mwyafrif o aelodau newydd y Pwyllgor wedi cwblhau cyfres gynhwysfawr o gyrsiau anwytho a ddyluniwyd o amgylch fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.

Yn fwy cyffredinol, mae aelodau'r Pwyllgor wedi parhau i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth drwy fynychu digwyddiadau hyfforddiant mewnol ac allanol. Rwy'n falch o adrodd bod amcanion y Polisi Gwybodaeth a Sgiliau ar gyfer presenoldeb wedi eu cwrdd gan aelodau yn y sesiynau hyfforddiant hanfodol a dymunol (neu ddewisol). Mae hyn yn cynrychioli ymrwymiad amser materol ond mae'n hanfodol ar gyfer rheoli'r Gronfa'n dda.

Parhad busnes a rheoli risg seiber

Mae'r Gronfa wedi parhau i weithredu **Strategaeth Seiber**, gan gydweithio gyda Chyngor Sir y Fflint. Mae digwyddiadau allanol dros 2022/23 ac ers diwedd y flwyddyn wedi ailgadarnhau pwysigrwydd dull effeithiol i reoli risg seiber ar waith ac mae'r Gronfa yn parhau i sicrhau bod hwn yn faes allweddol i ganolbwyntio arno.

Mae gwaith hefyd wedi parhau i weithredu elfennau allweddol o Bolisi **Parhad Busnes** y Gronfa a datblygu cynllun parhad busnes y Gronfa.

Adolygu penodiad aelodau'r Bwrdd

Roeddwn yn falch fod penodiad Phil Pumford ac Elaine Williams, dau o aelodau'n cynrychioli'r cynllun ar y Bwrdd wedi'i ymestyn am hyd at bum mlynedd. Mae parhad yn bwysig ar gyfer rhedeg y Gronfa'n llyfn ac mae eu hymrwymiad i'w rolau wedi ac yn parhau i fod yn rhagorol.

Arolwg effeithiolrwydd y Bwrdd Cronfa Bensiynau

Cafodd arolwg ar effeithiolrwydd y Bwrdd Cronfa Bensiynau ei gwblhau yn 2022/23. Roedd yna ymateb eithriadol o gadarnhaol gan aelodau'r Bwrdd ar draws meysydd fel darparu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth, gweinyddu cyfarfodydd a'r strwythur llywodraethu. Mewn ymateb i adborth bod cyfarfodydd rhithiol yn llai effeithiol yn gyffredinol, mae fformat cyfarfodydd y Bwrdd nawr wedi'i gytuno'n barhaus a chynhaliwyd y cyfarfod ym mis Mawrth 2023 yn bersonol.

Adolygu Contractau Arbenigwr Buddsoddi ac Ymgynghorydd Annibynnol

Y man brigo ar gyfer y contractau hyn oedd 31 Mawrth 2023. Ar gyfer y ddau gontract, roedd y Pwyllgor wedi ystyried y dewisiadau a chytuno i ymestyn y contractau am ddwy flynedd.

Adolygu polisiau cysylltiedig â llywodraethu

Cafodd Datganiad Cydymffurfio a Pholisi'r Llywodraeth ei adolygu ym mis Chwefror 2023 a chafodd Polisi Twyll a Gwrth-lygru ei gymeradwyo gan y Pwyllgor ym mis Mawrth 2023.

Roedd yna nifer o eitemau nad oedd wedi eu cwblhau oherwydd oedi yn genedlaethol, gan gynnwys Cod Ymarfer Cyffredinol newydd TRP a'r adolygiad llywodraethu da SAB. Mae'r rhain wedi eu cario ymlaen i gynllun busnes 2023/24 ac rwy'n credu bod y Gronfa eisoes mewn sefyllfa dda yn y meysydd hyn.

Edrych tua'r dyfodol

Mae tasgau cysylltiedig â llywodraethu allweddol y disgwylir i'r Gronfa fynd i'r afael â nhw yn ystod 2023/24 yn cynnwys:

- **Dadansoddiad Anghenion Hyfforddiant** i sicrhau bod hyfforddiant ar gyfer y Pwyllgor a Bwrdd Cronfa Bensiynau yn briodol i'w hanghenion a bod unrhyw fylchau mewn sgiliau yn cael eu nodi.
- Adolygu'r **ddau benodiad cyflogwr i'r Bwrdd Pensiynau**. Rwy'n falch iawn fod Steve Jackson wedi cael ei ailbenodi am ddwy flynedd arall. Yn anffodus, mae Steve Gadd yn camu i lawr o'r Bwrdd felly bydd y Gronfa angen ei ddisodli. Mae Steve wedi bod yn aelod gwerthfawr iawn o'r Bwrdd ers ei benodi a dymunaf ddiolch iddo am ei gyfraniad a dymuno'n dda iddo yn y dyfodol.
- Adolygiad yn erbyn **Cod Cyffredinol Newydd y Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR)**. Roedd cyhoeddiad y Cod newydd, fydd yn disodli'r Cod Gwasanaethau Cyhoeddus TPR wedi'i ohirio y llynedd a disgwylir iddo nawr ddod i rym yn yr hydref 2023.
- Datblygu **trefniadau parhad busnes**, gan gynnwys **rheoli risg seiber**. Mae llawer o waith da wedi cael ei wneud yn barod a disgwylir i'r rhain gael eu hintegreiddio'n llawn o fewn busnes fel arfer ar ddiwedd 2023/24.
- Parhad gwaith i sicrhau cynaliadwydd darparu adnoddau ar gyfer rhannau allweddol o'r Gronfa. Mae hyn yn cwmpasu **cynllunio olynol** yn sgil ymddeoliadau a drefnwyd a **monitro adnoddau parhaus** o ystyried newidiadau/mentrau cenedlaethol y disgwylir i'r Gronfa fynd i'r afael â nhw, ynghyd â llwyth gwaith busnes fel arfer cynyddol. Mae'n rhaid i'r Gronfa weithio o fewn polisiau Cyngor Sir y Fflint ac mae'n bosibl y bydd angen newidiadau i strwythur y tîm. Bydd angen **hyfforddiant** priodol i sicrhau y gall staff newydd gyfrannu'n llawn at weithgareddau'r Gronfa gynted â phosibl yn ogystal â chadw mwy o staff. Mae hyfforddi staff newydd ei hun yn golygu llawer o adnoddau felly mae angen rheoli hyn hefyd.
- Gweithredu'r argymhellion o **adolygiad llywodraethu da** Bwrdd Ymgynghorol y Cynllun. Mae disgwyl i'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC) gyhoeddi ymgynghoriad ar ddiwedd 2023. Mae'r argymhellion yn cynnig ymestyn y wybodaeth a'r sgiliau a

gofynion gwrthdaro buddiannau sy'n berthnasol ar hyn o bryd i aelodau'r bwrdd. Disgwylir hefyd y bydd gofyn am adrodd yn ehangach ynghylch cydymffurfiaeth ym maes llywodraethu a hefyd efallai archwiliad annibynnol. Er y bydd yn bwysig asesu camau'r Gronfa yn erbyn unrhyw ofynion newydd, rwy'n disgwyl i'r Gronfa fod mewn sefyllfa dda o ystyried y gwaith a wnaed mewn blynyddoedd diweddar.

- Mae **Polisi Risg a Pholisi Parhad Busnes** y Gronfa ar fin cael eu hadolygu yn ystod 2023/24. Mae'r Gronfa hefyd yn bwriadu datblygu polisi ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar ôl cyhoeddi canllawiau gan y Rheoleiddiwr Pensiynau ym mis Mawrth 2023.

Cyllid a Buddsoddiadau (gan gynnwys cyfrifyddu a rheolaeth ariannol)

Llwyddiannau Allweddol

- Adolygu'r Datganiad Strategaeth Ariannu a chwblhau'r Prisiad Actiwaraid Teirblwydd o fewn yr amserlen statudol, gydag ymgysylltu ardderchog gyda chyflogwyr y cynllun.
- Cynnydd parhaus mewn perthynas â strategaeth Buddsoddi Cyfrifol y Gronfa, gan gynnwys drafftio adroddiad yn unol ag egwyddorion y Tasglu Datgeliadau Ariannol Cysylltiedig â'r Hinsawdd
- Derbyn fel llofnodwr ar gyfer Cod Stiwardiaeth y DU ac ennill gwobr Cronfa Bensiynau'r flwyddyn Gwobrau Effaith Ariannol Amgylcheddol 2022
- Gweithrediad effeithiol y fframwaith Cyllid a Llwybr Hedfan yn ystod y cythrwbl ym marchnadoedd gilt a sgil effaith ar Fuddsoddiadau wedi eu Cymell gan Atebolrwydd.

Bydd yr Actiwari ac Ymgynghorydd Buddsoddi'r Gronfa yn cynhyrchu eu hadroddiad eu hunain, felly mae'r maes hwn yn fy adroddiad yn canolbwyntio ar sut y gwneir pethau, yn hytrach na manylion yr hyn a wneir.

Mae'r meysydd allweddol mewn perthynas â buddsoddi a chyllido eleni wedi cynnwys:

- **Adolygu'r Datganiad o'r Strategaeth Gyllido a'r Prisiad Actiwaraid Teirblwydd**
Roedd y Pwyllgor wedi cymerdwyo Datganiad Strategaeth Ariannu drafft ym mis Tachwedd 2022 ac roedd cyflogwyr wedi ymateb yn gadarnhaol i'r strategaeth arfaethedig a'r hyblygrwydd a gynigiwyd wrth reoli cynaliadwydd eu cyfraniadau. Roedd y Prisiad Teirblwydd (gan gynnwys cadarnhad o gyfraniadau cyflogwr rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2026) wedi'i gymeradwyo o fewn yr amserlen statudol o 12 mis o'r dyddiad prisio 31 Mawrth 2022. Roeddwn yn falch iawn o weld ymgysylltu mor gadarnhaol gan gyflogwyr ar yr hyn sy'n ymarfer pwysig ar gyfer y Gronfa ac yn hanfodol ar gyfer ei ddiogelwch ariannol hirdymor a rheoli risg ariannol.

- **Adolygu'r Strategaeth Fuddsoddi**

Roedd mân newidiadau i'r dyraniad asedau wedi eu cymeradwyo ym mis Chwefror 2023 ar ôl cwblhau'r prisiad actiwaraidd a chyngor gan yr Ymgynghorydd Actiwari a Buddsoddi.

- **Buddsoddi cyfrifol**

Roedd y Gronfa wedi drafftio ei hadroddiad cyntaf yn unol ag argymhellion y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol Cysylltiedig â'r Hinsawdd ym mis Chwefror 2023. Nid yw'n ofynnol adrodd ar gyfer cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol eto, ond roedd trafodaethau wedi arwain at adolygu camau'r Gronfa ar gyfer newid hinsawdd o fewn ei strategaeth fuddsoddi. Mae hyn yn dangos her rheoli newidiadau i aelodaeth y Pwyllgor (ble mae aelodau newydd yn cynnig barn wahanol) ond yn fy marn i mae fframwaith llywodraethu'r Fframwaith wedi galluogi'r farn newydd hon yn llwyddiannus i gael eu hystyried a ble bo'n briodol gweithredu arnynt.

Roedd y Gronfa wedi llwyddo i ymgeisio i fod yn lofnodwr Cod Stiwardiaeth y DU. Mae'r Cod yn cynnwys set o 12 egwyddor 'defnyddio ac egluro' ar gyfer perchnogion asedau ac mae yna lawer iawn o waith i gwrdd â gofynion y Cod a chwblhau'r cais i fod yn lofnodwr.

Cafodd y Gronfa hefyd ei chydnabod ymhellach yng Ngwobrau Effaith Ariannol Amgylcheddol 2022, gan ennill gwobr Cronfa Bensiwn y flwyddyn. Longyfarchiadau i bawb a gyfrannodd at yr holl gyflawniadau hyn.

- **Fframwaith Cyllid a Llwybr Hedfan**

Mae'r Gronfa yn anghyffredin, o ran ei chyfoedion Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, gyda Buddsoddiadau wedi eu Cymell gan Atebolrwydd (LDI), sy'n golygu buddsoddi mewn asedau sy'n creu arian i fodloni (neu "gyfateb") rhai neu holl daliadau budd-dâl o'r cynllun. Roedd yna faterion a adroddwyd yn dda gyda buddsoddiadau LDI yn ystod y flwyddyn oherwydd cythrwbl mewn marchnadoedd gilt a'r cynnydd mewn buddsoddiadau gilt yn dilyn y Gyllideb Fechan ar ddiwedd 2022, oedd yn effeithio'n ddifrifol ar sefyllfa ariannol rhai cynlluniau sector preifat. Rwy'n deall gan yr Ymgynghorydd Actiwari a Buddsoddi bod Fframwaith Cyllid a Llwybr Hedfan y Gronfa yn gweithio yn ôl y disgwyl yn ystod y flwyddyn ac yn darparu gwydnwch sydd ei angen i leihau effaith cythrwbl y farchnad, gan ddangos budd llywodraethu cadarn.

- **Cyfuno Asedau (PPC)**

Mae'r trefniadau cyfuno adnoddau yng Nghymru, drwy Bartneriaeth Pensiynau Cymru (PPC) yn awr wedi'u sefydlu'n dda ac mae asedau o Gronfa Bensiynau Clwyd wedi parhau i gael eu trosglwyddo i Bartneriaeth Pensiynau Cymru. Rwy'n credu fod y Gronfa yn cynnal diwydrwydd dyladwy ar bob trawsnewidiad, gan geisio cyngor gan yr Ymgynghorydd Buddsoddi a'r Panel Ymgynghorol fel bo'r angen.

Mae swyddogion cronfa (yn arbennig Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd, Phil Latham a Dirprwy Bennaeth y Gronfa, Debbie Fielder) a Chadeirydd y Pwyllgor (Cynghorydd Ted Palmer) yn parhau i wneud gwaith gwych yn cynrychioli'r Gronfa mewn cyfarfodydd Gweithgor Swyddogion ac is-grwpiau a Chydbwyllgor Llywodraethu. Roedd meysydd ffocws penodol yn 2022/23 yn cynnwys gweithio gyda PPC ar ymgysylltu gyda chwmnïau ar faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu, datblygu'r is-gronfa ecwiti cynaliadwy ac adrodd ar bleidleisio a benthyca stoc. Fy argraff yw bod y Gronfa yn parhau i chwarae rhan allweddol yn esblygiad PPC oherwydd cyfraniadau gweithredol cynrychiolwyr y Gronfa a'r amser maent yn ei ymrwymo.

Yn ystod y flwyddyn mae'r Gronfa wedi monitro datblygiadau sy'n ymwneud â gwerthu Gweithredwr y Cronfa, Link Fund Solutions ac wedi ymgysylltu â PPC i sicrhau bod y Pwyllgor a'r Bwrdd yn cael eu briffio'n briodol. Bydd y monitro hwn angen parhau, i ddeall goblygiadau'r trosglwyddo i Waystone Group fel y perchennog newydd disgwyledig (gan gymryd bod cymeradwyaeth rheoleiddio gofynnol yn cael ei warantu).

Edrych tua'r dyfodol

- safbwynt buddsoddi, rhoi Blaenoriaethau Buddsoddi Cyfrifol y Gronfa ar waith fydd elfen bwysicaf y gwaith yn ystod 2023/24. Mae'n faes cymhleth ac rwy'n ymwybodol o'r galw gan Lywodraeth Cymru, pwysau gan bartïon eraill yn cynnwys grwpiau dylanwadu ar bolisiau carbon, cyflogwyr a llywodraethau i alinio strategaeth fuddsoddi'r Gronfa â'u safbwyntiau neu i fuddsoddi mewn mentrau penodol. Rwy'n falch o'r cynnydd a wnaed i ddatblygu fframwaith ar gyfer gweithredu penderfyniadau buddsoddi mewn perthynas â newid hinsawdd ac ymgysylltu a thrafodaethau adeiladol mewn sesiynau hyfforddi diweddar ble trafodwyd hyn. Rwy'n edrych ymlaen at gasgliad y trafodaethau hyn a chymeradwyaeth y Datganiad Strategaeth Buddsoddi diwygiedig.
- Cafodd ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer canllawiau cronfa a ddiweddarwyd a newidiadau eraill i fuddsoddiadau ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ei gyhoeddi gan DHLUC ar 11 Gorffennaf 2023. Mae'r rhain yn cynnwys cynigion i gyflymu trosglwyddo asedau i gronfeydd ac adroddiadau cysylltiol; gofyniad i gyhoeddi cynllun i fuddsoddi 5% o asedau mewn buddsoddiadau lleol wedi'i alinio i raglen ffyniant bro'r Llywodraeth; a gofyniad i gael uchelgais ar gyfer dyraniad 10% i ecwiti preifat. Er bod y rhain yn parhau'n gynigion, bydd y Gronfa angen ystyried yn ofalus sut i weithredu unrhyw ofynion newydd maes o law, gan dderbyn cyngor gan ei Ymgynghorydd Buddsoddi a'r Panel Cynghori.
- Bydd contract Gweithredwr PPC gyda Link Fund Solutions (LFS) yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2024. Mae PPC eisoes wedi dechrau'r broses gaffael a disgwylir i'r meini prawf penodi gael ei rannu gyda chronfeydd Cymru gan gynnwys Cronfa Bensiynau Clwyd yn ystod 2023/24. Byddaf yn darparu cyngor a chefnogaeth llywodraethu i'r Gronfa yn

ystod y broses fel bo'r angen yn ogystal â monitro datblygiadau sy'n ymwneud â gwerthu LFS.

Gweinyddu a Chyfathrebu

Llwyddiannau Allweddol

- Cymeradwyo a gweithredu strategaeth gyfathrebu ddiwygiedig i wella profiad aelodau a chyflogwyr
- Nid oedd yna lawer o effaith ar berfformiad gweinyddol er gwaethaf heriau adnoddau sylweddol a gwaith ychwanegol annisgwyl oherwydd newidiadau'r Llywodraeth fel symud y dyddiad ailwerthuso CARE ymlaen, gofynion McCloud parhaus a phenderfyniadau cyflogwr, fel dyfarniadau tâl wedi eu hôl-ddyddio.
- Trosglwyddiad llyfn i system gyflogres well newydd mewn pryd ar gyfer cynnydd pensiwn Ebrill 2023

Gwelwyd llawer o waith yn cael ei wneud ar **gynllunio gweithlu a recriwtio** yn 2022/23. Cafodd nifer o swyddi ychwanegol eu cymeradwyo oherwydd y llwyth gwaith, gan gynnwys datblygiadau allanol, fel McCloud a datblygiadau mewnol fel dyfarniadau tâl wedi eu hôl-ddyddio. Roedd ymateb cadarnhaol iawn i'r ymgyrch recriwtio ar ddiwedd 2022 wedi arwain at fwy o ymgeiswyr llwyddiannus nag oedd yna o swyddi gwag. Roeddwn yn arbennig o falch fod y Gronfa yn gallu gwneud defnydd o ddirprwyaeth frys i osgoi methu'r cyfle recriwtio, gan arwain at amrywiaeth o brofiad gwaith o fewn y tîm ym mis Ionawr 2023. Fodd bynnag, mae yna nifer fach o swyddi gwag yn parhau (rhai o ganlyniad i ddiswyddiadau diweddar).

Mae'r tîm **Rhaglen adfer McCloud** wedi parhau â'i waith er bod yna oedi yn parhau mewn ymatebion i ymgynghoriad DLUHC ac roedd rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol drafft yn golygu nad oedd cynnydd cymaint â'r hyn a fwriadwyd yn ystod 2022/23. Derbyniwyd nifer o ddata sylweddol i ganiatáu ar gyfer ailgyfrif budd-daliadau ar gyfer y cyfnod adfer oherwydd cyfathrebu ardderchog gyda chyflogwyr a'u cynnwys yn y broses. Mae aelodau'r gronfa wedi parhau i gael eu hysbysu ac rwy'n falch o weld parhad yn yr adrodd rheolaidd ar gynnydd y rhaglen hon i'r Pwyllgor, y Bwrdd a'r Panel Ymgynghorol.

Mewn perthynas â **llwyth gwaith o ddydd i ddydd**, roedd y tîm gweinyddu pensiynau yr un mor brysur gyda bron 35,900 o achosion gweinyddu yn 2022/23 o'i gymharu â 35,150 yn 2021/22. Er gwaethaf yr heriau adnoddau parhaus, roedd y tîm wedi llwyddo i gynnal perfformiad yn gyffredinol yn ystod y flwyddyn, gydag ond cynnydd bach yn y nifer o achosion sy'n weddill. Mae hyn yn gyflawniad anhygoel ac yn dangos ymrwymiad a gwaith caled y tîm.

Mae **dangosyddion perfformiad allweddol** yn cael eu monitro ar gyfer mwyafrif helaeth o brosesau gweinyddu o ddydd i ddydd. Mae tri chyfnod gwahanol yn cael eu mesur ac mae'r canlyniadau ar gyfer 2022/23 fel a ganlyn:

- amserlenni mewnol ar gyfer y tîm gweinyddu - 91% (cynnydd o dros 6% o'i gymharu â 2021/22)
- amserlenni cyfreithiol - 90% (dim newid o'i gymharu â 2021/22)
- amser proses gyffredinol - 74% (cynnydd o 4% ar 2021/22)

Mae'n galonogol iawn gweld pob maes naill ai'n gwella neu'n aros yr un fath, yn arbennig o ystyried yr heriau recriwtio yn ystod y flwyddyn.

Roedd y Gronfa wedi cynnal **arolwg boddhad cyfathrebu** yn ddiweddar. Mae canlyniadau'r arolwg hwn yn dangos bod dros 80% o aelodau yn hapus gyda'r ohebiaeth maent yn ei derbyn gan y Gronfa gydag oddeutu 60% o'r aelodau yn dweud bod eu boddhad naill ai yn Dda neu yn Wych. Roedd cyflogwyr yn hynod gadarnhaol am y fformat, geirio a faint o fanylder oedd wedi'i gynnwys o fewn yr ohebiaeth a dderbyniwyd.

Cynnydd yn erbyn meysydd eraill yn y Cynllun Busnes

Gwnaed cynnydd da mewn meysydd allweddol o gynllun busnes y Gronfa, ble bo'n bosibl.

- **Paratoi Data Aelodau ar gyfer y Prisiad a'r Adolygiadau Cyllido**
Roedd y tîm Gweinyddu wedi bodloni'r holl amserlenni ar gyfer cyflwyno data i Actiwari'r Gronfa ar gyfer y Prisiad Teirblwydd. Roedd adborth o'r Actiwari yn amlygu gwelliannau mawr yn ansawdd y data o'i gymharu â phrisiad blaenorol, gan adlewyrchu manteision cyflogwyr yn cyflwyno eu data yn fisol drwy'r cyfleuster i-Connect.
- **Dangosfwrdd Pensiwn Cenedlaethol**
Roedd y prif ffocws am y flwyddyn ar wirio data cyn i wybodaeth Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol fod ar gael i aelodau drwy ddangosfyrddau. Mae Karen Williams, Rheolwr Gweinyddu Pensiynau hefyd yn rhan o'r Tîm Prosiect Dangosfwrdd Pensiynau Cynilion Oes a Phensiwn cenedlaethol.
- **Adolygu'r Strategaeth Gyfathrebu**
Roedd y Gronfa wedi cynnal adolygiad hanfodol o'i Strategaeth Gyfathrebu. Roedd y Strategaeth newydd wedi'i chymeradwyo gan y Pwyllgor ym mis Mehefin 2022 ac mae'n anelu i gynyddu cyfathrebu digidol tra'n sicrhau bod cyfathrebu'n fwy cynhwysol drwy ganiatau ar gyfer anghenion amrywiol rhanddeiliaid. Mae'n canolbwyntio ar wella profiad aelodau a chynyddu hunan-wasanaeth, symleiddio iaith a chyfathrebu'n fwy cyson, ehangu sianelau darparu a datblygu dull tameidiog ar gyfer ymgysylltu. Roedd y Gronfa hefyd wedi lansio ei logo a brand newydd ym mis Ebrill 2023, a ddyluniwyd gan Dîm Cyfathrebu mewnol y Gronfa. Rwy'n gyffrous iawn am y Strategaeth newydd ac

rwy'n siŵr y bydd aelodau a chyflogwyr yn sylwi ar welliannau wrth iddi gael ei gweithredu.

- **Adolygu gwiriadau bodolaeth pensiynwyr**

Gwnaed gwelliannau i sut mae'r Gronfa yn gwirio dilysrwydd pensiynwyr a dibynyddion o dramor. Oherwydd y cynnydd mewn trosedd seiber a thwyll arall, mae'n bwysig parhau i wella prosesau fel hyn.

- **Cynnal trefniadau caffael priodol ar gyfer system weinyddu**

Ar ôl adolygu'r farchnad, cafodd Heywood, darparwr system gweinyddu'r Gronfa ei ailbenodi tan fis Chwefror 2028, yn amodol ar fonitro blynyddol. Mae'r parhad hwn yn hanfodol o ystyried heriau gweithredu'r datrysiad McCloud a'r dangosfwrdd Pensiynau cenedlaethol.

Edrych tua'r dyfodol

- Mae gweithredu **datrysiad McCloud** yn parhau'n brif rhaglen waith, gyda'r mwyafrif yn disgyn ar y Tîm Gweinyddu Pensiynau. Bydd angen ei reoli'n dda gyda digon o adnoddau, gyda gwiriadau ansawdd cadarn ac effeithlonrwydd drwy brosesu crynswth ble bo'n bosibl. Yn anffodus, mae costau gweithredol y gwaith, yn cynnwys yr adnoddau ychwanegol, yn sylweddol (ac yn methu ei osgoi), er gwaethaf y ffaith y bydd o fantais i gyfran fach o aelodau'r cynllun yn unig.
- Mae dyddiad cau cysylltiad terfynol **Dangosfwrdd Pensiynau Cenedlaethol** ar gyfer pob cynllun pensiwn nawr wedi symud i 31 Hydref 2026. Mae'n parhau'n aneglur pa un a fydd y dyddiad ar gyfer y cynllun sector cyhoeddus sef 30 Medi 2024 yn parhau, ond mewn unrhyw achos bydd gweithredu'r Dangosfwrdd yn brosiect mawr arall sydd angen adnodd sylweddol gan Gronfa Pensiynau Clwyd yn y blynyddoedd i ddod.
- Rwy'n edrych ymlaen at fwy o ymgysylltu gan aelodau wrth i'r Gronfa barhau i weithredu ei **Strategaeth Gyfathrebu newydd. Mae cynlluniau yn cynnwys sefydlu grwpiau ffocws** a fideos newydd, gyda fideo ardderchog ar sut i gofrestru ar gyfer hunanwasanaeth aelodau newydd sydd eisoes ar gael i'w weld ar wefan y Gronfa.
- Oherwydd y prosiectau hyn, rhywbeth arall y mae'n rhaid i'r Tîm Gweinyddu sicrhau yw nad ydynt yn cael effaith niweidiol ar **fusnes a thasgau dydd i ddydd**. Bydd recriwtio a chadw staff yn hanfodol ar gyfer hyn, gan gynnwys adolygu strwythur y Tîm Gweinyddu a gynhelir yn ystod yr haf 2023.

Barn Derfynol

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Bwyllgor y Gronfa Bensiynau, y Bwrdd Pensiwn, swyddogion a budd-ddeiliaid eraill y Gronfa am barhau i fy nghroesawu, ac am fod mor agored a pharod i wrando ar fy awgrymiadau. Rwy'n parhau i edmygu'n fawr a chael fy ysbrydoli gan waith caled ac ymroddiad swyddogion y Gronfa, a'r ymrwymiad a'r ymgysylltiad a welaf gan aelodau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau a'r Bwrdd Pensiynau, sydd wedi ymroi oriau maith i fusnes y Pwyllgor / Bwrdd.

Aon plc(NYSE:AON) exists to shape decisions for the better - to protect and enrich the lives of people around the world. Mae ein cydweithwyr yn darparu cyngor ac atebion i'n cleientiaid mewn dros 120 o wledydd a sofraniaeth gyda chyngor ac atebion sy'n rhoi'r eglurder a'r hyder iddynt wneud penderfyniadau gwell i amddiffyn a datblygu eu busnes.

Dilynwch Aon ar [LinkedIn](#), [Twitter](#), [Facebook](#) ac [Instagram](#). Gallwch dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf drwy ymweld â'r [Ystafell Newyddion Aon](#) a chofrestru ar gyfer y diweddariadau newyddion yma.

Hawlfraint©Aon Solutions UK Limited and Aon Investments Limited. All rights reserved. aon.com. Aon Wealth Solutions' business in the UK is provided by Aon Solutions UK Limited - registration number 4396810, or Aon Investments Limited – registration number 5913159, both of which are registered in England and Wales have their registered office at The Aon Centre, The Leadenhall Building, 122 Leadenhall Street, London EC3V 4AN. Rhif ffôn: 020 7623 5500. Caiff Aon Investments Limited ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Mae'r ddogfen hon ac unrhyw atodiadau yn cael eu paratoi ar y ddealltwriaeth eu bod er budd y derbynnydd(ion) yn unig. Oni bai ein bod yn rhoi caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw, ni ddylid ailgynhyrchu unrhyw ran o'r ddogfen hon, ei dosbarthu na'i rhannu gydag unrhyw un arall, drwy ddarparu'r ddogfen hon, nid ydym yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddiben arall nac i unrhyw un oni bai eu bod yn dderbynnydd(ion) y ddogfen hon. Yn y cyd-destun hwn, mae "ni" yn cynnwys Actiwari Cynllun Aon a benodwyd gennych chi. I warchod cyfrinachedd a gwybodaeth briodol sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen hon, ni ddylid ei datgelu na'i darparu i unrhyw drydydd parti heb ganiatâd ysgrifenedig Aon ymlaen llaw. 2023

Atodiad 3: Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Pensiynau

Cyflwyniad

- Dyma adroddiad blynyddol Bwrdd Cronfa Bensiynau Clwyd sydd wedi'i seilio ar y flwyddyn ariannol o 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023.

Rôl ac Aelodaeth Bwrdd Cronfa Bensiynau Clwyd

- Mae Deddf Bensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Gweinyddol yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sefydlu Bwrdd Pensiynau lleol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o aelodau'r cynllun a chyflogwyr. Mae gan rai Byrddau Pensiynau hefyd Gadeirydd Annibynnol, a dyma'r achos gyda Bwrdd Cronfa Bensiynau Clwyd. Mae rôl y Cadeirydd yn un heb hawliau pleidleisio.
- Mae deddfwriaeth yn nodi mai rôl y Bwrdd Pensiynau yw cynorthwyo'r Awdurdod Gweinyddol i sicrhau cydymffurfiaid â rheoliadau ac â gofynion a orfodir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau, yn ogystal â chynorthwyo i sicrhau bod y Cynllun yn cael ei lywodraethu a'i weinyddu'n effeithiol ac yn effeithlon. Cafodd hyn ei ddehongli'n gyffredinol i olygu bod gan y Bwrdd Pensiynau rôl arolygu yn hytrach na gwneud penderfyniadau. Mae Bwrdd Cronfa Bensiynau Clwyd yn ystyried ein rôl fel partneriaeth. Rydym yn cydweithio'n agos â Phwyllgor y Gronfa Bensiynau (y pwyllgor sy'n gwneud penderfyniadau ar gyfer y Gronfa) a swyddogion y Gronfa yn y gobaith y bydd y cwestiynau y byddwn yn eu gofyn a'r heriau y byddwn yn eu gosod o bryd i'w gilydd, o fudd i sicrhau bod y Gronfa'n cael ei rheoli er budd gorau aelodau'r cynllun a'r cyflogwyr.
- Mae aelodau'r Bwrdd yn ymgymryd â'r rolau hyn am gyfnod o rhwng tair a phum mlynedd, er y gellir eu hailbenodi am dymhorau pellach os byddant yn cael eu dethol eto trwy'r broses recriwtio.

Aelodaeth, cyfarfodydd, hyfforddiant a phresenoldeb

Dangosir aelodaeth ein Bwrdd yn ystod 2022/23 yn y tabl isod. Yn ystod y flwyddyn, roeddem wedi cynnal tri chyfarfod Bwrdd Pensiynau (Mehefin 2022, Medi 2022 a Mawrth 2023). Roedd cyfarfod Mawrth 2023 wyneb yn wyneb a'r ddau arall yn rhithiol. Roedd presenoldeb fel a ganlyn:

		Mehefin 2022	Medi 2022	Mawrth 2023
Mr Phil Pumford	Cynrychiolydd Aelodau	✓	✓	
Mrs Elaine Williams	Cynrychiolydd Aelodau	✓	✓	✓
Mr Steve Jackson	Cynrychiolydd Cyflogwr	✓	✓	✓
Mr Steve Gadd	Cynrychiolydd Cyflogwr	✓		
Mrs Karen McWilliam	Cadeirydd Annibynnol	✓	✓	✓

Hefyd yn bresennol yn y cyfarfodydd oedd Ysgrifennydd y Bwrdd (Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd) a Swyddogion Cronfa Bensiynau sy'n cefnogi'r Bwrdd Pensiynau.

Fel aelodau o'r Bwrdd Pensiynau, rydym i gyd wedi ymrwymo i fodloni gofynion Polisi Gwybodaeth a Sgiliau Cronfa Bensiynau Clwyd, sydd hefyd yn sicrhau ein bod yn bodloni'r gofyniad cyfreithiol i gael y lefel gywir o wybodaeth a sgiliau i gyflawni ein rolau o fewn y Bwrdd Pensiwn. Mynychom nifer o ddigwyddiadau a hyfforddiant yn 2022/23 i gyd-fynd â'r hyfforddiant sefydlu rydym yn ei gyflawni ar ôl cael ein penodi. Rydym hefyd yn derbyn gwahoddiad i fynychu cyfarfodydd Pwyllgor y Gronfa Bensiynau a'u digwyddiadau hyfforddiant ynghyd â digwyddiadau a drefnwyd gan Bartneriaeth Bensiynau Cymru.

Mae'r Gronfa yn pennu nifer o aelodau'r Bwrdd sydd angen mynychu sesiynau hyfforddi hanfodol. Mae'r polisi Gwybodaeth a Sgiliau yn nodi ar hyn o bryd bod yn rhaid i 75% o aelodau'r Bwrdd fynychu pob sesiwn hyfforddi Pynciau Llosg, gan fod y rhain wedi eu categorio fel hyfforddiant hanfodol. Rydym yn falch o adrodd ein bod wedi mynd y tu hwnt i'r nifer hwnnw ym mhob sesiwn hyfforddiant hanfodol ers i'r polisi gael ei gytuno'n ffurfiol gan Bwyllgor y Gronfa Bensiynau ym mis Medi 2021.

Dangosir ein cofnod llawn o bresenoldeb mewn cyfarfodydd, hyfforddiant pynciau llosg a digwyddiadau eraill isod:

Digwyddiad	Steve Jackson	Phil Pumford	Elaine Williams	Steve Gadd	Karen McWilliam
Cyfarfodydd Pwyllgor					
Mehefin 2022		✓	✓		✓
Awst 2022			✓		✓
Tachwedd 2022			✓		✓
Chwefror 2023		✓	✓		
Mawrth 2023		✓			✓
Cyfarfodydd Eraill					
Cydgysfarfod Ymgynghorol Blyneddol	✓	✓			✓
Pwnc Llosg (hyfforddiant hanfodol)					
Adolygu'r Strategaeth Gyfathrebu	✓	✓	✓		✓
Ystyriaethau cyllid	✓	✓	✓	✓	✓

Digwyddiad	Steve Jackson	Phil Pumford	Elaine Williams	Steve Gadd	Karen McWilliam
Strategaeth Fuddsoddi	✓	✓	✓		✓
Marchnadoedd Preifat	✓	✓	✓	✓	✓
Adrodd ar TCFD			✓		✓
Ymwybyddiaeth Gyffredinol					
Digwyddiad Bwrdd Pensiwn Barnet Waddingham			✓		
Cynhadledd LGC Mawrth 2023	✓				
Dangosfwrdd Pensiwn Cenedlaethol			✓		
Hyfforddiant Arall Partneriaeth Pensiwn Cymru					
Dyranwyr Marchnadoedd Preifat/Ecwitiau Cynaliadwy Gweithredol PPC			✓	✓	✓
Llywodraethu a Gweinyddu / Rolau a Chyfrifoldebau PPC	✓		✓		
RI PPC / Cod Stiwardiaeth / Adroddiadau'r Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd			✓		
Cronfeydd a chydweithrediad Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol PPC			✓		
Benthyca stoc PPC					

Beth mae'r Bwrdd Pensiynau wedi'i wneud yn ystod 2022/23?

Mae ein cyfarfodydd yn cynnwys nifer o **eitemau sefydlog**, yn cynnwys:

- papurau diweddaraf Pwyllgor y Gronfa Bensiynau,
- adolygu gweinyddiaeth y Gronfa gan gynnwys perfformiad yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA), gan gynnwys i gyflogwyr, a gweithgarwch gwella data,
- rheoli seiber ddiogelwch, parhad busnes a sgamiau pensiwn,
- adolygu cofrestr risg y Gronfa, a chofnod toriadau'r Gronfa,
- derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am yr holl ganmolïaeth a chwynion, a
- monitro ein cyllideb ddyranedig.

Ymhlith y **materion llywodraethu allweddol** a drafodwyd yn ystod y flwyddyn mae:

- **Aelodaeth Pwyllgor a'r Bwrdd.** Roeddem yn falch iawn fod Phil Pumford ac Elaine Williams wedi eu hail-benodi fel cynrychiolwyr aelodau, gan sicrhau parhad ar adeg pan oedd yna newidiadau sylfaenol yn aelodaeth y Pwyllgor Cronfa Bensiynau yn dilyn etholiadau lleol. Roedd Karen McWilliam hefyd wedi ei hailbenodi fel y Cadeirydd Annibynnol. Roedd y Bwrdd hefyd wedi eu hysbysu am effaith y newidiadau ar aelodaeth y Pwyllgor yn dilyn etholiadau awdurdod lleol mis Mai (gyda dros 50% o newid yn yr aelodaeth) a'r hyfforddiant sefydlu a ddarparwyd i'r aelodau newydd. Yn anffodus, mae Steve Gadd yn camu i lawr o'r Bwrdd felly bydd y Gronfa angen ei ddisodli. Mae Steve wedi bod yn aelod gwerthfawr iawn o'r Bwrdd ers ei benodi a dymunaf ddiolch iddo am ei gyfraniad a dymuno'n dda iddo yn y dyfodol.
- Y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd ar **recrïwtio a chadw** o fewn y timau. Roedd y recrïwtio ar gyfer Cynorthwy-ydd Gweinyddol Llywodraethu, Swyddogion Cyfathrebu ac amrywiol swyddi gwag yn gadarnhaol iawn ond mae swyddi gwag parhaus o fewn y timau Cyllid a Gweithrediadau yn parhau'n bryder. Roedd y Bwrdd wedi gwneud cais i'r Panel Ymgynghorol i weithio gyda Chyngor Sir y Fflint i sicrhau bod y Gronfa'n parhau i allu recrïwtio'r staff yr oeddent eu hangen. Roeddem yn falch o'r cynnydd cychwynnol a wnaed gydag olynydd a chynllunio gweithlu, gan gynnwys gwaith cychwynnol ar gynnydd mewn llwyth gwaith penodol a chynlluniau gwrandawriad i greu tîm prosiect newydd o fewn Gweithrediadau, ond cynnal brîff gwylïo.
- **Rheoli llif arian.** Roeddem wedi derbyn hyfforddiant gan Ddirprwy Bennaeth y Gronfa ar sut mae'r Gronfa yn rheoli llif arian a'r mesurau lliniaru risg ar waith. Mae hwn yn faes cynyddol bwysig gan fod taliadau budd-dal yn fwy nag incwm cyfraniad ac mae yna berygl o golli asedau drwy dwyll neu weithgaredd troseddol arall. Roedd y sesiwn hon yn pwysleisio ymhellach yr angen i swydd wag Cyfrifydd y Gronfa gael ei llenwi.
- Ymateb y Gronfa i **newid hinsawdd**. Mae newid hinsawdd yn parhau i fod yn faes diddordeb allweddol i'r Gronfa, yn arbennig mewn perthynas â'i fuddsoddiadau. Roeddem yn falch o glywed am gyflawniadau'r Gronfa yn y maes hwn, gan gynnwys

drafftio adroddiad Tasglu cyntaf y Gronfa ar Ddatgeliadau Ariannol Cysylltiedig â'r Hinsawdd a derbyn fel llofnodwr i God Stiwardiaeth DU y Cyngor Adrodd Ariannol. Rydym hefyd wedi bod yn falch o gael y cyfle i ymuno â sesiynau hyfforddiant i oruchwylio sut mae'r Pwyllgor, swyddogion ac ymgynghorwyr yn ystyried y dewisiadau o amgylch buddsoddi ac ymgysylltu wrth i'r Pwyllgor ddatblygu fframwaith yn y maes hwn a monitro'r trefniadau llywodraethu yn y maes hwn.

- Cafodd **arolwg effeithiolrwydd** ei gwblhau gan aelodau o'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn. Roedd y canlyniadau yn hynod gadarnhaol er y codwyd nifer fach o bryderon mewn perthynas â'r fformat ac amser cyfarfodydd y Bwrdd a dichonolrwydd gwybodaeth adrodd ar sail eithriad yn unig oherwydd nifer y papurau. Mewn ymateb, roeddem wedi sicrhau bod strwythur rhaglenni cyfarfodydd y Bwrdd yn canolbwyntio ar dreulio mwy o amser yn trafod meysydd allweddol a llai ar eitemau er gwybodaeth yn unig. Newidiadau i amseriad cyfarfodydd yn y dyfodol i'w rhannu allan yn well yn ystod y flwyddyn hefyd yn cael ei symud ymlaen ac rydym hefyd yn cytuno i adolygu fformat cyfarfodydd yn y dyfodol (wyneb yn wyneb, rhithiol neu hybrid).
- Cynnydd **cyfuno asedau** trwy Bartneriaeth Pensiwn Cymru. Mae ein ffocws yn parhau ar Bartneriaeth Pensiwn Cymru. Yn ystod y flwyddyn, roeddem yn canolbwyntio ar ddatblygu polisiau allweddol a Chynllun Busnes PPC, a gweithgaredd yn ymwneud â gwerthu'r Gweithredwr a thaliadau unioni sy'n ddyledus yn dilyn ymchwiliad y Gweithredwr gan yr FCA. Mae Cadeirydd y Bwrdd yn parhau i fynychu cyfarfodydd ymgysylltu cronfa ased rheolaidd gyda Chadeiryddion eraill Bwrdd Pensiynau Cymru a swyddogion a chyflenwyr sy'n gyfrifol am PPC, sy'n caniatáu i farn y Gronfa a phryderon am y Strategaeth PPC gael eu mynegi'n uniongyrchol i PPC.
- **Strategaeth Gyfathrebu** newydd y Gronfa a gymeradwywyd gan y Pwyllgor ym mis Mehefin. Fel Bwrdd, rydym yn parhau wedi ymrwymo i weithio gyda swyddogion y Gronfa i sicrhau bod y Gronfa'n cyfathrebu'n effeithiol gydag aelodau'r cynllun a chyflogwyr ar draws ystod o gyfryngau ac rydym wedi derbyn diweddariadau ar weithredu'r strategaeth yn ystod y flwyddyn ac roeddem yn falch o allu rhoi barn i swyddogion o safbwynt aelod o'r Gronfa a Chyflogwr y Gronfa.
- Ymateb y Gronfa i **gythrwbl y farchnad** yn dilyn y digwyddiad cyllidol yn yr hydref 2022. Er nad yw ein cyfrifoldeb yn ymestyn i fuddsoddiadau, roeddem yn awyddus i ddeall sut oedd trefniadau rheoli risg a llywodraethu'r Gronfa yn perfformio pan oedd llog bondiau yn codi a phan oedd yna straen ar sefyllfa buddsoddiad wedi'i gymell gan atebolrwydd ar draws cynlluniau sector preifat. Cawsom gyflwyniadau gan Ysgrifennydd y Bwrdd oedd yn ddefnyddiol iawn i sicrhau ein bod yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf a chawsom ein sicrhau bod dull rheoli risg y Gronfa a chefnogi trefniadau llywodraethu o amgylch cyngor cadarn a gwneud penderfyniadau hyblyg yn gweithio yn ôl y disgwyl.

Roedd **materion gweinyddu allweddol** a drafodwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Diweddariadau ar raglen waith y Gronfa i weithredu **dyfarniad McCloud** ym mhob cyfarfod. Mae holl aelodau'r Bwrdd yn rhan o Grŵp Llywio McCloud sydd â throsolwg o'r holl feysydd yn ymwneud â McCloud. Roeddem yn darparu cyngor ar gyfathrebu i aelodau a chyflogwyr a chefnogi'r Gronfa i roi'r adnoddau angenrheidiol mewn lle i ddatblygu'r prosiect hwn. Rydym yn falch gyda'r cynnydd a wnaed gan y Gronfa ar raglen adfer McCloud, gan gynnwys derbyn a phrosesu data gan gyflogwyr, er y bydd oedi yn y rheoliadau a'r canllawiau canolog yn rhoi pwysau ar gronfeydd (gan gynnwys Cronfa Bensiynau Clwyd) i weithredu'r adferiad o 1 Hydref 2023.
- **Prisiad Actiwaraid 2022.** Roeddem wedi derbyn diweddariadau ar y cynnydd gyda'r prisiad yn ystod y flwyddyn, gan nodi bod hwn yn brosiect allweddol ac yn dibynnu ar gywirdeb y data a ddarparwyd. Roeddem yn falch fod y prosiect wedi'i gwblhau yn amserol ac roedd yna ymgysylltu da gyda chyflogwyr, gyda chanlyniad y prisiad ei hun hefyd yn gadarnhaol iawn.
- **Achosion Aelodau a dderbyniwyd, cwblhawyd ac sy'n weddill**, roedd y diweddariadau yn ein galluogi i fonitro effaith heriau recriwtio a chadw o fewn y timau gweinyddu, ynghyd â llwyth gwaith cynyddol. Roedd perfformiad yn gyffredinol yn dda o ystyried yr amgylchiadau, gan adlewyrchu gwaith caled ac ymrwymiad y timau gweinyddu, ond roedd yna rai meysydd **dangosyddion perfformiad allweddol** ble nad oedd targedau yn cael eu cyflawni'n gyson. Byddwn yn parhau i herio'r Gronfa ar wella'r meysydd hyn tra'n cydnabod bod perfformiad cyffredinol y Gronfa wedi bod yn dda iawn. Mae'r broses ar gyfer monitro **safonau lefel gwasanaeth cyflogwr** a gyflwynwyd y llynedd hefyd wedi bod yn ddefnyddiol iawn i sicrhau bod y Gronfa yn cwrdd â therfynau amser cyfreithiol ar gyfer darparu'r cynllun i aelodau ac rydym wedi derbyn diweddariadau rheolaidd, gan gynnwys sut mae'r Gronfa yn cyflwyno proses mwy ffurfiol o amgylch ymgysylltu gyda chyflogwyr nad ydynt yn cwrdd â'r amserlenni a gytunwyd arnynt.

Roeddem yn parhau i fonitro sut oedd y Gronfa yn trin **datblygiadau rheoleiddio a thestun arall**, fel y newid i ddyddiad ailbrisio CARE a newidiadau i dreth pensiynau. Rydym hefyd wedi cymryd diddordeb agos mewn datblygiadau sy'n ymwneud â'r Dangosfwrdd Pensiynau Cenedlaethol, y prosiect llywodraethu da a Chod Ymarfer Cyffredinol newydd y Rheoleiddiwr Pensiynau.

Dangosir crynodeb o gyllideb a gwariant terfynol y Bwrdd Pensiynau ar gyfer 2022/23 isod:

Eitem	Cyllideb 2022/23	Gwirioneddol 2022/23	Amrywiant
	£	£	£
Lwfansau a Threuliau	2,363	970	(1,393)
Hyfforddiant	33,403	23,947	(9,456)
Ffioedd Cyngori	72,313	67,235	(5,078)
Costau Eraill	4,700	4,328	(372)
Cyfanswm	112,779	96,480	(16,299)

Beth fydd y Bwrdd Pensiynau'n ei wneud yn y dyfodol (yn enwedig yn 2023/24)?

Mae gennym nifer o eitemau ar ein cynllun i'r dyfodol ar gyfer 2023/24, er y bydd yr union raglenni ac amserlenni o reidrwydd yn aros yn hyblyg er mwyn ystyried unrhyw faterion pellach allai godi. Mae'r canlynol eisoes yn rhan o'n cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod:

- Sicrhau fod y Gronfa yn cydymffurfio gyda Chod Ymarfer Unigol TPR a rheoliadau a chanllawiau Llywodraethu Da y Llywodraeth a chanllawiau y mae disgwyl iddynt ddod i rym yn ystod y flwyddyn.
- Dadansoddi nifer achosion, i fwydo i'r adolygiad o strwythur y Tîm Gweinyddu a niferoedd adnoddau.
- Ystyried adroddiad TCFD y Gronfa ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023, yn arbennig mewn perthynas â pha mor ddealladwy yw i holl rhanddeiliaid Cronfa Bensiynau Clwyd.
- Ystyriaeth bellach barhaus o'r meysydd, yn cynnwys:
 - Rhaglen unioni McCloud
 - Ymgysylltu gyda chyflogwyr sy'n methu â bodloni safonau gwasanaeth
 - Dangosfwrdd Pensiwn Cenedlaethol
 - Parhad Busnes
 - Seiberddiogelwch a chadernid systemau'r Gronfa
 - Llywodraethu asedau mewn cronfa a gwerthu'r Gweithredwr PPC
 - Monitro adnoddau'r tîm gweinyddol a'r tîm ariannol

Cytunwyd ar gyllideb ar gyfer 2023/24, fel a ganlyn:

Eitem	Cyllideb 2023/2024
	£
Lwfansau a Threuliau	2,130
Hyfforddiant	28,575
Ffioedd Cyngori	75,375
Costau Eraill	4,700
Cyfanswm	110,780

Casgliad a sylwadau terfynol

Teimlwn fod 2022/23 wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus a chynhyrchiol i'r Bwrdd ac rydym yn falch o'r gwaith rydym wedi'i gyflawni, gan gwmpasu ystod eang o feysydd rheoli cronfeydd. Mae ein perthynas waith gyda Phwyllgor y Gronfa Bensiynau a swyddogion y Gronfa'n parhau i fod yn un wych ac rydym yn ddiolchgar am y modd y maent oll wedi croesawu ein cyfranogiad ac am iddynt fod mor agored wrth ryngweithio gyda ni. Hoffem ddiolch i'r Pwyllgor am ein

croesawu i'w cyfarfodydd, sydd wedi ei gwneud yn haws i ni roi heriau a llwyddiannau'r Gronfa mewn cyd-destun. Edrychwn ymlaen at barhau'r berthynas honno.

Phil Pumford, Cynrychiolydd Aelodau

Elaine Williams, Cynrychiolydd Aelodau

Steve Jackson, Cynrychiolydd Cyflogwyr

Steve Gadd, Cynrychiolydd Cyflogwyr

Karen McWilliam, Cadeirydd Annibynnol

Bwrdd Cronfa Bensiynau Clwyd

Cyfeiriad e-bost: PensionBoard@flintshire.gov.uk

Atodiad 4: Adroddiad Gweinyddu

Cyflwyniad

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn disgrifio'r ffordd y mae'r Gronfa yn darparu ei gwasanaethau sy'n ymwneud â gweinyddu i aelodau a chyflogwyr. Mae'n nodi heriau presennol a phosibl yn y dyfodol, ac yn egluro'r ffordd y mae'r Tîm Gweinyddu yn eu bodloni nhw. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y Dangosydd Perfformiad Allweddol, canlyniadau'r arolwg boddhad a pheth gwybodaeth ynghylch aelodaeth y Cynllun.

Mae gwaith y Tîm Gweinyddu wedi'i yrru gan Strategaethau Cyfathrebu a Gweinyddu'r Gronfa.

Mae ein Strategaeth Gweinyddu Pensiynau ni'n sicrhau bod y Gronfa a'r cyflogwyr yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau dan y Cynllun, ac mae'n amlinellu'r safonau perfformiad y disgwylir iddynt eu bodloni, i sicrhau y darperir gwasanaeth gweinyddol proffesiynol, amserol o ansawdd uchel.

Cafodd ein Strategaeth Gyfathrebu ei chymeradwyo ym mis Mehefin 2022. Mae'r Strategaeth yn amlinellu sut yr ydym ni'n cyfathrebu ag aelodau'r cynllun a darpar aelodau, cyflogwyr y cynllun, Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd, Bwrdd Cronfa Bensiynau Clwyd, staff Cronfa Bensiynau Clwyd a sefydliadau eraill sydd â diddordeb.

Mae'r dulliau cyfathrebu a ddewiswyd yn cael eu monitro a'u hadolygu er mwyn sicrhau eu bod nhw'n effeithiol. Mae'r prif ddulliau o gyfathrebu â'r budd-ddeiliaid uchod wedi'u hamlinellu yn y Strategaeth Gyfathrebu sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod y cyfathrebu'n fwy perthnasol i'r gynulleidfa ac ar y defnydd o dechnoleg i sicrhau cyfathrebu cyflymach a mwy effeithiol. Mae'r Strategaeth Gyfathrebu a'r Strategaeth Gweinyddu Pensiynau ar gael i'w darllen ar wefan y Gronfa.

<https://cronfabensiynaclwyd.org.uk/cy/Llywodraethu/Strategaethau-a-Pholisiau/cartref.aspx>

Sut caiff ein gwasanaeth ni ei ddarparu

Mae Cronfa Bensiynau Clwyd wedi newid o weithio gartref yn gyfan gwbl yn ystod Pandemig Covid-19 i gyfuniad hybrid o weithio gartref a gweithio yn y swyddfa. Caiff y gwasanaeth gweinyddol o ddydd i ddydd ei ddarparu gan y Tîm Gweinyddu Pensiynau sy'n cynnwys 49.7 o aelodau o staff Cyfwerth â Llawn Amser, yn cynnwys Rheolwr Gweinyddu Pensiynau.

Mae wedi'i rannu rhwng:

- Tîm Gweithredol
- Tîm Technegol a Chyflogau
- Tîm Rheoliadau a Chyfathrebu
- Tîm Cyfathrebu â Chyflogwyr

- Tîm McCloud (tîm prosiect dros dro)

Mae ar wahân i'r Tîm Cyllid sy'n rheoli portffolio buddsoddi'r Gronfa, yn casglu cyfraniadau pensiwn gan gyflogwyr ac yn cynnal cyfrifon y Gronfa.

Mae'r Tîm Gweithredol yn darparu gwasanaeth pensiynau i dros 50,000 o aelodau'r cynllun. Mae hyn yn cynnwys cyfrifo amrywiaeth o fuddion, trosglwyddiadau i mewn ac allan â threfniadau pensiynau eraill, ad-daliadau cyfraniadau a chynnal cofnodion aelodau unigol o'r cynllun. Mae'r Tîm yn cyfrifo pensiynau ar gyfer aelodau ac maen nhw hefyd yn cyfrifo buddion goroeswyr i wŷr, gwragedd, partneriaid sifil, partneriaid sy'n cyd-fyw a phlant.

Mae'r Tîm Technegol a Chyflogau yn gweithredu ac yn cynnal systemau meddalwedd pensiynau (gan gynnwys cyfleusterau ar-lein Hunanwasanaeth Aelodau, ac i-Connect ar gyfer uwchlwytho data cyflogwyr), casglu a chysoni data aelodau o holl gyflogwyr y Gronfa ac yn darparu gwasanaeth cyflogau pensiynwyr i dros 15,000 o bensiynwyr a dibynyddion gan dalu mwy na £6 miliwn bob mis.

Mae'r Tîm Cyfathrebu â Chyflogwyr yn rhoi cymorth i gyflogwyr y Gronfa ddarparu hysbysiadau cywir a chyflawn i'r Gronfa gan sicrhau bod cyfrifoldebau arferol yn cael eu cyflawni yn ogystal â gwaith prosiect ad hoc. Mae'r Tîm Rheoleiddio a Chyfathrebu yn rhoi canllawiau ar faterion rheoleiddio i'r budd-ddeiliaid i gyd a gwasanaeth cyfathrebu ar gyfer cyflogwyr ac aelodau'r Cynllun.

Crynodeb o'r Gweithgaredd

Yn ogystal â gwaith o ddydd i ddydd yn ystod 2022/2023, mae'r Tîm Gweinyddu Pensiynau wedi bod yn rheoli darnau mawr eraill o waith a phrosiectau fel y disgrifir isod.

Ansawdd Data

Mae gofynion ansawdd data wedi'u hymgorffori yn Rheoliadau Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus (Cadw Cofnodion a Diwygiadau Amrywiol) yn 2014 a'r Rheoleiddiwr Pensiynau sy'n goruchwyllo'r maes hwn yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r Tîm Gweinyddol yn cydweithio i roi'r cynllun gwella data ar waith yn barod ar gyfer yr adolygiad blynyddol o ddata cyffredin a phenodol i'r cynllun, a chaiff y canlyniadau eu hadrodd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau. Mae effaith yr amser a'r ymdrech sy'n cael ei neilltuo i sicrhau data o ansawdd da wedi arwain at sgorau data cyffredin a phenodol i'r cynllun gwell dros y blynyddoedd diwethaf (gweler y tabl isod).

	Data Cyffredin %*	Data Penodol i'r Cynllun %*
2022 / 2023	98	98
2021 / 2022	98	98
2020 / 2021	97.7	97.3
2019 / 2020	97.4	97.2
2018 / 2019	96.8	92.7

*Y sgôr yw'r % o ddata sydd wedi bodloni targedau penodol a osododd y Rheoleiddiwr Pensiynau yn gysylltiedig â Data Cyffredin (Rhif Yswiriant Gwladol, Enw, Cyfeiriad ac ati) a Data Penodol i'r Cynllun (Buddion aelodau, manylion aelodau, manylion Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi ac ati). Caiff y sgôr ei hadrodd yn ôl i'r Rheoleiddiwr Pensiynau a rhoddir cynllun gwella data ar waith i wella sgorau pan fo'n berthnasol gwneud hynny.

Monitro yn defnyddio Dangosydd Perfformiad Allweddol

Mae'r Gronfa yn mesur ac yn adrodd ar berfformiadau misol i sicrhau bod terfynau amser yn cael eu bodloni, yn ôl Strategaeth Weinyddol y Gronfa. Ar hyn o bryd, mae'r Gronfa'n mesur 13 categori o lif gwaith, gan ystyried terfynau amser yn gysylltiedig â gofynion cyfreithiol (pan fo'n briodol), profiad cyffredinol aelodau a tharged mewnol y Gronfa, ar wahân.

Caiff adroddiadau misol cyflogwyr eu cynhyrchu i helpu i nodi cyflogwyr sydd wedi bodloni terfynau amser eu Cytundeb Lefel Gwasanaeth neu gyflogwyr nad ydynt wedi'u bodloni. Mae'r mesur hwn wedi helpu'r Gronfa a chyflogwyr i ddeall yr hyn sy'n cael ei gyflawni a pha welliannau sydd angen eu gwneud. Mae adolygiad o'r adroddiadau hyn ar y gweill ar hyn o bryd ynghyd â'r broses uwchgyfeirio sydd ar waith os nad yw terfynau amser yn cael eu bodloni. Bydd yr adolygiad yn rhoi sicrwydd i'r Gronfa a chyflogwyr bod yr adroddiadau'n adlewyrchu'r gweithgaredd misol yn gywir a bydd yn helpu i nodi unrhyw broblemau.

i-Connect

Yn 2022/23, gwnaeth y Gronfa barhau i gyflwyno'r system ddata electronig i-Connect i'w chyflogwyr. Mae i-Connect yn sicrhau bod data amserol a mwy cywir yn cael ei ddarparu i'r Gronfa ac yn cymryd lle'r gofyniad i gyflogwyr gyflwyno datganiad diwedd y flwyddyn. Mae'r swyddogaeth yn cynnwys hysbysu am ddechreuwyd newydd, unigolion sy'n gadael, newid enwau, newid cyfeiriad a newid swyddi. Mae'r system yn caniatáu i fanylion aelodau sy'n cael eu tynnu o systemau cyflogau eu cyflogwr gael eu huwchlwytho'n uniongyrchol i system weinyddol y Gronfa bob mis. Ar hyn o bryd mae 54 o'r 55 o gyflogwyr yn cyflwyno data yn ymwneud ag aelodau gweithredol trwy i-Connect. Mae'r cyflogwr olaf yn trosglwyddo i ddarparwr cyflogau newydd ac mae rhan o'r broses honno'n cynnwys ymuno ag i-Connect. Mae hyfforddiant yn cael ei gynnig i bob cyflogwr newydd i'r Gronfa gan fod gofyn iddyn nhw gyflwyno data trwy i-Connect fel sydd wedi'i nodi yn y Strategaeth Weinyddol.

Gwefan Cronfa Bensiynau Clwyd

Mae gwefan Cronfa Bensiynau Clwyd yn cynnwys gwybodaeth am y Gronfa a'r Cynllun ar gyfer aelodau presennol a darpar aelodau, ynghyd â gwybodaeth ar gyfer Cyflogwyr y Gronfa.

Cyfeiriad y wefan yw <https://cronfabensiynauclwyd.org.uk>. Mae holl bolisiâu a strategaethau'r Gronfa yn ogystal â gwybodaeth am fuddsoddiadau'r Gronfa ar gael ar ein gwefan.

Ceir nifer o adrannau ar y wefan (yn cynnwys mynediad at y porth Hunanwasanaeth i Aelodau) i helpu defnyddwyr ddefnyddio'r wefan a dod o hyd i'r wybodaeth maen nhw'n chwilio amdani. Gall defnyddwyr lawrlwytho llenyddiaeth a ffurflenni'r cynllun o'r wefan. Cafodd yr holl ffurflenni, canllawiau a thaflenni ffeithiau eu hailfrandio ddechrau 2023 i baratoi ar gyfer ein dyddiad ailfrandio, sef 1 Ebrill 2023. Mae'r set o ffurflenni aelodau y mae angen eu cwblhau yn rhan o broses yn cael eu gwneud yn rhai y mae modd eu golygu er mwyn galluogi aelodau i'w llenwi nhw ar-lein os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny. Mae datblygu'r ymarferoldeb wedi gwella effeithlonrwydd a phrydlondeb prosesau ac mae aelodau wedi ymateb yn gadarnhaol i'r newidiadau.

Trwy Google Analytics, gall y Gronfa fonitro a chynhyrchu adroddiadau chwarterol i nodi faint o ymweliadau y mae ein gwefan ni wedi'i chael a pha wybodaeth y mae gan aelodau ddiddordeb ynddi drwy nodi'r tudalennau y mae aelodau'n ymweld â nhw. Yn ddiweddar, mae'r Gronfa wedi dechrau creu ac uwchlwytho fideos esboniadol i'n gwefan:

<https://cronfabensiynauclwyd.org.uk/cy/Cymorth-ac-Arweiniad/Fideos/cartref.aspx>. Caiff sawl gwaith y mae'r fideos yn cael eu gwyllo ynghyd â'r data dadansoddol a soniwyd amdano uchod eu cynnwys ym mhecyn yr adroddiad sy'n cael ei roi i'r Bwrdd Pensiwn.

Yn unol â rheoliadau hygyrchedd gwefannau, mae'n ofynnol i wefannau'r sector cyhoeddus fodloni safonau hygyrchedd cenedlaethol a chyhoeddi datganiad hygyrchedd ar eu gwefannau. Er mwyn bodloni gofynion y llywodraeth, mae'n rhaid i wefannau gyrraedd lefel A o ran Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys y We (WCAG 2.1). Mae hyn yn golygu y dylai gwefannau fod yn hygyrch i bobl â nam ar eu golwg, clyw, symudedd, nam gwybyddol neu bobl sy'n ei chael yn anodd deall. Dylid ystyried hygyrchedd hefyd ar gyfer pobl sy'n ymweld â gwefannau gan ddefnyddio dyfais llechen, ffôn symudol neu ddyfeisiau eraill. Roedd WCAG 2.2 i fod i gael ei ryddhau ym mis Medi 2022 ond bu oedi o ran hyn. Credir y gallai'r rheoliadau newydd ddod i rym erbyn diwedd 2023.

Er mwyn sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â WCAG, mae'r Gronfa'n parhau i weithio gyda chwmni sy'n darparu meddalwedd adrodd sy'n caniatáu i bob tudalen ar wefan y Gronfa gael eu dadansoddi'n awtomatig bob wythnos. Mae'r adroddiad wythnosol hwn yn dangos ein sgorau ni'n gysylltiedig â meysydd penodol o ran hygyrchedd y wefan:

- Mynegai Sicrwydd Digidol
- Sicrwydd Ansawdd

- Hygyrchedd
- Optimeiddio Peiriannau Chwilio

Mae'r adroddiad yn ein galluogi ni i weld lle gallwn ni wella ein sgorau a pha rannau o'r wefan sydd angen eu diwygio neu eu trwsio er mwyn cydymffurfio.

Mae'r tabl isod yn dangos sgorau 31 Mawrth 2023 o gymharu â sgorau 31 Mawrth 2022. Fel y gallwch chi ei weld, mae'r sgorau ychydig yn is na sgorau 2022. Mae hyn o ganlyniad i'r ffaith bod gwaith cynnal a chadw wedi'i wneud i'r wefan yn rhan o'r ymarfer ailfrandio. Mae'r sgorau wedi gwella ers hynny ac maen nhw'n parhau i gael eu monitro.

	31/03/2022	31/03/2023
Mynegai Sicrwydd Digidol	93.18%	90.63%
Sicrwydd Ansawdd	98.88%	98.87%
Hygyrchedd	95.67%	90.84%
Optimeiddio Peiriannau Chwilio	84.98%	82.24%

Sesiynau 1 i 1 i Aelodau

Nid yw'r sesiynau 1 i 1 i aelodau yn cael eu cynnal bellach fel digwyddiad unwaith y flwyddyn. Yn lle hynny, maen nhw ar gael trwy gydol y flwyddyn pan fydd aelodau'n gofyn am un. Maen bosib iddyn nhw gael eu cynnal:

- Ar y ffôn
- Wyneb yn wyneb
- Dros y we ar Microsoft Teams

Ar gyfer 2022/2023, gwnaeth y Tîm Cyfathrebu gyfarfod ag aelodau gweithredol a gohiriedig. Isod, ceir ystadegau 2022/2023:

Nifer yr apwyntiadau 1 i 1 a drefnwyd (aelodau gweithredol)	57
Nifer yr apwyntiadau 1 i 1 a drefnwyd (aelodau gohiriedig)	2
Nifer yr apwyntiadau 1 i 1 a drefnwyd (aelod gweithredol a gohiriedig)	11
Nifer yr apwyntiadau 1 i 1 a drefnwyd (CYFANSWM)	70
Aelodau a aeth i'w hapwyntiad	67
Aelodau na aeth i'w hapwyntiad	3

Gwasanaethau'r Tîm Cyfathrebu â Chyflogwyr

Mae'r Tîm Cyfathrebu â Chyflogwyr yn parhau i weithio'n agos â'r cyflogwyr hynny y mae angen ei gymorth arnyn nhw i gyflawni'r Dangosydd Perfformiad Allweddol orau yn rhan o'r Strategaeth Weinyddol. Mae hyn yn cynnwys adolygu prosesau, rhoi a chael adborth ar feysydd i'w gwella.

Yn ystod 2022/23 mae'r Tîm Cyfathrebu â Chyflogwyr wedi gweld cynnydd bach yn nifer y staff er mwyn rheoli'r llif gwaith o ddydd i ddydd ochr yn ochr â'r gwaith prosiect ychwanegol sy'n gysylltiedig â chwblhau Rhaglen McCloud yn llwyddiannus. Mae'n ofynnol hefyd i'r tîm gyflenwi data aelodau i baratoi ar gyfer cyfrifiadau treth y Lwfans Blynnyddol, anghysondebau diwedd y flwyddyn, a chyfrifiadau Cyflog Pensiynadwy Tybiedig ar gyfer pob un o'i gyflogwyr.

Mae'r tîm wedi dod yn hyfedr mewn llywio, deall, a thynnu data o nifer o systemau cyflogau ac mae wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu a dylunio swyddogaethau ychwanegol a gallu i adrodd o fewn systemau cyflogau presennol. Mae hyn wedi cynnwys diweddaru adroddiadau cyfredol i gasglu gwybodaeth gywir sydd ei hangen ar gyfer Rhaglen McCloud a ffeiliau i-Connect yn y dyfodol.

Newidiadau i gynlluniau a datblygiadau cenedlaethol sy'n effeithio ar weinyddu a chyfathrebu

Achos Datrysiaid McCloud

Penderfynodd dyfarniad y Llys Apêl yn achos llys McCloud bod y mesurau diogelu y cafodd eu rhoi i aelodau hyn wrth gyflwyno'r cynllun Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbrisio (ECGA) newydd i Ddiffoddwyr Tân a Barnwyr ym mis Ebrill 2015 yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail oedran. Mae'r achos yn effeithio ar gynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus eraill yn cynnwys y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac yr oedd y cynllun ECGA newydd o fis Ebrill 2014 yn cynnwys cynhaliaeth statudol i aelodau hyn. Cyhoeddodd y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2020 yn nodi ei chynigion ar gyfer gweithredu dyfarniad McCloud yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Roedd cynigion datrys ymgynghoriad 2020 yn canolbwyntio ar gael gwared ar unrhyw wahaniaethu uniongyrchol ar sail oed o ddechrau cynllun 2014. Cafodd ymgynghoriad ychwanegol ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2023, sydd yn bennaf yn gofyn am adborth ynghylch cynigion am gyfuno a throsglwyddo pensiynau er mwyn bod yn gymwys ar gyfer yr addasiad cynhaliol. Y gobaith yw y bydd y cynigion ychwanegol hyn yn helpu i liniaru rhai o'r cymhlethdodau gweinyddol yn y maes hwn. Daeth yr ymgynghoriad hwn i ben ar 30 Mehefin 2023, ac mae disgwyl i'r newidiadau terfynol i reolau'r cynllun ddod i rym ar 1 Hydref 2023 o hyd.

O safbwynt gweinyddol, disgwylir i effaith yr achos llys arwain at newid o ran y ffordd y mae buddion yn cael eu cyfrifo ar gyfer nifer fawr o aelodau'r cynllun. Bydd y cynlluniau newydd yn

cael eu cymharu â'r hen gynlluniau, gan sicrhau bod buddion sy'n cael eu talu yn rhan o'r cynllun newydd yr un mor dda neu'n well na'r hen rai. Bydd y newid i reolau'r cynllun yn golygu y bydd buddion aelodau iau yn cael eu diogelu sy'n cyfateb i'r warchodaeth gynhaliol sydd eisoes wedi'i rhoi i aelodau hŷn. Mae'n annhebygol y bydd pensiwn nifer sylweddol o aelodau'n cynyddu. Fodd bynnag, bydd y datrysiad ôl-weithredol yn ymestyn i gyfran fawr o aelodau'r Gronfa, a bydd yn golygu newid prosesau gweinyddol, diweddaru systemau a bydd angen cyfathrebu'n effeithiol ag aelodau.

Mae'r Gronfa wedi sefydlu Rhaglen McCloud i weithredu'r datrysiad ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd. Mae casglu a gwirio data a diweddaru data hanesyddol gan gyflogwyr ar y system pensiynau wedi parhau yn 2022/2023. Mae rhai diweddariadau meddalwedd wedi'u gwneud i ddarparu ar gyfer y wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen er mwyn gallu cymharu'r buddion mewn swmp. Disgwylir i dîm McCloud allu symud ymlaen i ddatrys buddion unigol pan fydd y rheoliadau newydd ar gael yn nhymor yr hydref 2023. Disgwylir i brosiect McCloud ddod i ben ym mis Mawrth 2024, pryd rhagwelir y bydd yr addasiadau ôl-weithredol i gyd wedi'u cwblhau, a rheolau'r cynllun newydd wedi'u gwreiddio fel y norm.

Dangosfwrdd Pensiynau Cenedlaethol

Mae'r Dangosfwrdd Pensiynau Cenedlaethol yn cael ei roi ar waith i ganiatáu i bawb sy'n cronni pensiwn yn y DU weld gwerthoedd eu cronfeydd pensiwn i gyd, gan gynnwys pensiwn y wladwriaeth, drwy un llwyfan canolog. Mae'n rhaid i bob cynllun pensiwn gysylltu ag isadeiledd y dangosfwrdd erbyn y "dyddiad gweithredu" y mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi'i bennu, a bydd y dangosfwrdd ar gael i'r cyhoedd yn fuan wedi i'r cynllun ymuno. Y dyddiad gweithredu ar gyfer holl gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus, gan gynnwys y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, oedd 30 Medi 2024. Fodd bynnag, ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd y Gweinidog Pensiynau bod oedi o ran darparu'r Dangosfwrdd Pensiynau. Ar 8 Mehefin, cyhoeddodd y Gweinidog ddatganiad yn nodi rhagor o fanylion am yr oedi. Mae'r manylion wedi'u nodi isod.

- Bydd deddfwriaeth yn cael ei diweddaru i bennu terfyn amser cysylltu cyffredinol ar gyfer pob cynllun, sef 31 Hydref 2026.
- Bydd y terfynau amser cysylltu unigol ar gyfer y cynlluniau yn cael eu nodi mewn canllawiau a byddan nhw cyn y dyddiad cau terfynol, sef 31 Hydref 2026. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn bwriadu cydweithio â'r diwydiant eleni cyn cyhoeddi'r canllawiau hyn.
- Nid yw'r dyddiad y bydd Dangosfyrddau'n mynd yn fyw i'r cyhoedd wedi'i gyhoeddi eto, ond mae'r Gweinidog wedi dweud y gallai hyn fod yn gynt na 31 Hydref 2026. Mae hyn yn nodi y bydd gan Gynlluniau Sector Cyhoeddus ddyddiad gweithredu cynharach na 31 Hydref 2026.

Mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau wedi gosod canllawiau ar yr hyn y mae angen i gynlluniau ei wneud i baratoi a chafodd hwn ei ddiweddarau ar 8 Mehefin. Mae disgwyl i gynlluniau barhau â'u paratoadau o ran eu Dangosfyrddau er gwaethaf y newidiadau posibl i ddyddiadau gweithredu. Mewn ymateb i hyn mae'r Tîm Gweinyddol yn ystyried creu Tîm Prosiect a fydd yn ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen er mwyn i'r Gronfa fod yn barod i ymuno â hi pan fydd y dyddiad gweithredu wedi'i gadarnhau. Mae'r Rheolwr Gweinyddu Pensiynau yn parhau i fynd i gyfarfodydd rheolaidd â Heywood (y darparwr meddalwedd gweinyddu) a'r Gymdeithas Pensiynau a Chynilion Oes (PLSA) yn rhan o dîm prosiect PLSA.

Goblygiadau Treth a Chyllideb

Cyhoeddodd y Gyllideb ar 15 Mawrth 2023 y byddai'r lwfans oes yn cael ei ddiddymu yn gyfan gwbl o fis Ebrill 2024, er bod taliadau lwfans oes wedi'u dileu o fis Ebrill 2023. Mae'r lwfans blynyddol hefyd wedi cynyddu o £40,000 i £60,000 ers mis Ebrill 2023. Mae aelodau'r cynllun, a fyddai'n cael eu heffeithio gan y lwfansau hyn, yn eu croesawu nhw ac mae'r rhain hefyd yn ddefnyddiol i dîm gweinyddol y Gronfa gan ei bod yn debygol y byddan nhw'n gweld gostyngiad bach yn eu llwyth gwaith yn y maes hwn. Yn yr un modd â phob newid, bydd angen diweddarau rhywfaint ar brosesau gweinyddu'r Gronfa er mwyn gweithredu'r newidiadau.

Gwnaeth yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau ymgynghori ar reoliadau drafft a fydd yn gwneud newidiadau i geisio atal aelodau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol rhag wynebu tâl Lwfans Blynyddol o ganlyniad i anghysondeb rhwng ffigur y Mynegai Prisiau Defnyddwyr i'w ddefnyddio ar gyfer ailbrisio'r cynllun (sef 10.1% ar gyfer 2022/23) a ffigur y Mynegai Prisiau Defnyddwyr y gall pensiwn gynyddu heb gyfrannu at Swm Mewnbwn Pensiwn unigolyn ar gyfer blwyddyn dreth 2022/23 (3.1%). Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 24 Chwefror 2023 ac mae'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau wedi cadarnhau y bydd y newid yn mynd rhagddo nawr a bydd rheoliadau diwygio yn cael eu gwneud yn fuan.

Newidiadau Cenedlaethol Eraill a Ddisgwylir

Disgwylir nifer o newidiadau ychwanegol maes o law ond nid yw manylion terfynol eu heffaith nhw na'r terfynau amser ar gael eto. Mae'r rhain yn cynnwys y newidiadau canlynol y manylir arnynt isod. Mae'r esboniadau hyn yn seiliedig ar y sefyllfa ym mis Mehefin 2023.

Rheoli Costau

Cafodd Cynlluniau Pensiynau'r Sector Cyhoeddus (gan gynnwys y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol) eu dylunio i sicrhau cynaliadwyedd am 25 mlynedd. Roedd y dyluniad yn cynnwys mecanwaith rheoli costau ac ym mhriadiad 2016, pennwyd bod y trothwy is yn y mecanwaith hwnnw (h.y. terfyn isaf y costau) wedi cael ei dorri a oedd yn awgrymu y byddai angen cynyddu buddion aelodau neu leihau eu cyfraniadau. Yn dilyn dyfarniad McCloud, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai unrhyw gostau McCloud ychwanegol yn cael eu hystyried yn "gostau

aelodau” o fewn y mecanwaith rheoli costau. Ym mis Mehefin 2022, cadarnhawyd na fydd unrhyw newidiadau i fuddion neu gyfraniadau aelodau o ganlyniad i ymarfer 2016. Fodd bynnag, mae’r Undebau Llafur wedi cael caniatâd ar gyfer Adolygiad Barnwrol o’r penderfyniad i ddyrannu costau McCloud i aelodau a gallai canlyniadau’r Adolygiad Barnwrol newid canlyniad proses rheoli costau 2016.

O ran proses rheoli costau 2020, cyhoeddodd Prif Ysgrifennydd y Trysorlys Ddatganiad Gweinidogol Ysgrifenedig ar 24 Mehefin 2021 yn nodi y byddai ymgynghoriad yn cael ei gynnal ynghylch y diwygiadau arfaethedig i’r mecanwaith rheoli costau ar gyfer Cynlluniau Pensiwn Gwasanaethau Cyhoeddus yn sgil cyhoeddi adolygiad Actiwari’r Llywodraeth o’r mecanwaith hwnnw. Ar 4 Hydref 2021, cyhoeddodd y Trysorlys ei ymateb i’r ymgynghoriad, yn cadarnhau y byddai newidiadau i’r mecanwaith yn deillio o brisiadau cynllun 2020. Ar 30 Ionawr 2023 cyhoeddodd yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau ymgynghoriad ynglŷn â diwygio proses rheoli costau Bwrdd Cynghori’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sy’n ategol i broses y Trysorlys. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 24 Mawrth 2023. Er bod Adran Actiwari’r Llywodraeth wedi dechrau casglu data ar gyfer prisio costau rheoli 2020, nid yw’n hysbys eto a fydd gofyn gwneud unrhyw newidiadau i fuddion neu gyfraniadau aelodau ar sail ymarfer 2020. Y bwriad wrth ehangu’r terfynau ym mhroses y Trysorlys yw lleihau’r tebygolrwydd y bydd angen gwneud newidiadau, ac mae’r cynigion ar gyfer proses Bwrdd Cynghori’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cynnwys creu mwy o hyblygrwydd i’r Bwrdd Cynghori bennu ei argymhellion ynglŷn â chostau (mae’n ofynnol dan y Rheoliadau cyfredol i ddefnyddio proses Bwrdd Cynghori’r Cynllun i wneud unrhyw argymhellion i ddod â’r gost yn ôl at y targed os yw’r newid yn y costau’n gyfwerth â 2% o gyflogau neu fwy).

O safbwynt gweinyddol, pe byddai newidiadau mewn buddion a / neu gyfraniadau aelodau o ganlyniad i’r broses rheoli costau yn 2016 neu 2020, gallai hynny gael effaith sylweddol ar brosesau a systemau gweinyddol a chreu gofyn hefyd am ymarfer cyfathrebu cadarn gyda chyflogwyr ac aelodau’r cynllun.

Diwygio Taliadau Ymadael

Ar 4 Tachwedd 2020 daeth cap o £95,000 i rym ar daliadau ymadael sy’n cael eu gwneud gan gyflogwyr y sector cyhoeddus, yr oedd hyn yn cynnwys cost taliadau cynnar o bensiynau’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Yn sgil her gyfreithiol, fodd bynnag, cyhoeddodd y Trysorlys gyfarwyddyd i ddatgymhwyso’r cap ymadael o £95,000 o 12 Chwefror 2021. Ym mis Awst 2022, cyhoeddodd y Trysorlys ymgynghoriad ynglŷn â Thaliadau Ymadael y Sector Cyhoeddus a ddaeth i ben ar 17 Hydref, yn gofyn am sylwadau ynglŷn â threfn reoli weinyddol newydd ar gyfer taliadau ymadael yn y sector cyhoeddus gwerth mwy na £95,000, a diwygio’r drefn ar gyfer taliadau diswyddo arbennig. Nid yw canlyniad yr ymateb i’r ymgynghoriad yn hysbys eto, ond er ei fod yn ymwneud â staff llywodraeth ganolog, gallai rhai cyflogwyr yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gael eu heffeithio. Nid yw’n eglur ar hyn o bryd a fydd hyn hefyd yn

cynnwys diwygio taliadau ymadael yn ehangach a'r amodau'n gysylltiedig â'r dull o dalu buddion y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Nid oedd cyrff dan y gweinyddiaethau datganoledig wedi'u cynnwys yn ymgynghoriad diweddaraf y Trysorlys a bydd Llywodraeth Cymru efallai'n rhoi dull gwahanol ar waith i fodloni'r gofynion ar gyfer capiau ymadael i gyflogwyr y sector cyhoeddus yn y Gronfa.

Cynyddu isafswm yr oedran ymddeol

Ym mis Chwefror 2022 rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Cyllid 2022. Mae'r Ddeddf yn gweithredu cynigion blaenorol i gynyddu'r oedran pensiwn arferol o 55 i 57 ym mis Ebrill 2028. Nod y newid hwn yw cynnal bwlch o ddeng mlynedd rhwng yr isafswm oedran ymddeol ac oedran pensiwn y wladwriaeth fel y cadarnhawyd yn rhan o bolisi'r Llywodraeth yn 2014. Mae'r Ddeddf Cyllid yn darparu ar gyfer diogelu oedrannau pensiwn aelodau sy'n bodloni meini prawf penodol, ond er mwyn gallu gwneud hynny mae'n rhaid diwygio rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn unol â hynny, ac ar hyn o bryd nid yw'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau wedi rhoi unrhyw awgrym a yw'n bwriadu gwneud y newidiadau hyn.

Yn y cyfamser, mae angen i'r Gronfa gofnodi unrhyw oedrannau pensiwn a ddiogelir a allai aelodau newydd fod â hawl iddynt, a fydd yn deillio'n bennaf o aelodaeth bresennol o'r cynllun neu drosglwyddo o drefniant pensiwn arall.

Dyfarniad y Goruchaf Lys yn achos Harpur Trust v. Brazel

Ar 20 Gorffennaf 2022 cafodd Dyfarniad y Goruchaf Lys yn achos Harpur v. Brazel ei gyhoeddi. Mae'r achos hwn yn ymwneud â chyfrifo tâl gwyliau ar gyfer gweithwyr am ran o'r flwyddyn a gweithwyr â phatrymau gwaith afreolaidd, ac mae'r dyfarniad terfynol yn golygu y dylai cyflogwyr yn awr ystyried diwygio eu dull o gyfrifo tâl ar gyfer gweithwyr am ran o'r flwyddyn. Mae disgwyl hefyd i weithwyr am ran o'r flwyddyn gynnwys gweithwyr yn ystod y tymor yn unig a gweithwyr ar contractau dim oriau.

Er mai mater i gyflogwyr yw hwn yn bennaf, bydd rhai goblygiadau i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Yn gyntaf, mae'n debygol mai gweithwyr am ran o'r flwyddyn yn unig fydd yn cael codiad cyflog, ac ymddengys y bydd y cynnydd hwn yn bodloni'r diffiniad o dâl pensiynadwy. Gallai hyn beri sgil-ffeithiau wrth gyfrifo cyfraniadau pensiwn gweithwyr a chyflogwyr, yn enwedig felly i gyflogwyr ym myd addysg sy'n debygol o fod â nifer fawr o weithwyr yn ystod y tymor yn unig, gan olygu cynnydd yn y taliadau ar gyfer ECGA. Yn ail, gallai'r cynnydd mewn cyflogau gynyddu symiau'r buddion cyflog terfynol sy'n ddyledus i'r gweithwyr yr effeithir arnynt. Yn drydydd, mae'n bosib y gallai gweithwyr yr effeithir arnynt gyflwyno hawliadau ar gyfer blynnyddoedd blaenorol, a gallai hynny arwain at orfod ail-gyfrifo buddion pensiwn drachefn (gan gynnwys buddion gyrfa cyfartalog).

Mae goblygiadau posib i adnoddau'r timau gweinyddol (a chyflogwyr wrth gasglu cyfraniadau hanesyddol a darparu gwybodaeth hanesyddol i'r awdurdodau gweinyddu).

Dulliau Mesur Strategaeth


Adborth aelodau a chyflogwyr 2022/2023

Mae'r Gronfa'n cynnal arolygon boddhad ag aelodau a chyflogwyr i gael adborth ynghylch a ydym ni'n cyflawni ein nod a'n amcanion fel y nodwyd yn Strategaethau Gweinyddu a Chyfathrebu'r Gronfa.


Canlyniadau'r arolwg aelodau

Mae'r graffiau isod yn cynrychioli canlyniadau'r arolygon ac yn dangos sut yr ydym ni'n perfformio o safbwynt aelodau o ran cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r ffordd mae'r Cynllun a'r Gronfa yn gweithio. Mae'r canlyniadau hefyd yn ffordd dda i ni fonitro sut yr ydym ni'n cynnal ac yn adeiladu profiadau cadarnhaol i aelodau a chyflogwyr.


Sut fydddech chi'n dymuno cael gwybodaeth am eich pensiwn?




Pa bynciau y mae gennych chi ddiddordeb mewn cael gwybodaeth amdanynt?




Pa mor aml fydddech chi'n dymuno cael newyddion am eich buddion Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol?



Pe bai gennych chi gwestiwn am eich buddion Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, ydych chi'n hyderus y byddai Cronfa Bensiynau Clwyd yn eich helpu chi i ddod o hyd i'ch ateb?



Ar raddfa o 0 i 5 (mae 0 yn wael a 5 yn wych) sut fydddech chi'n disgrifio'ch profiad cyffredinol â dulliau cyfathrebu Cronfa Bensiynau Clwyd?



Noder: Gwnaeth 2 aelod sy'n bensiynwyr ymateb â "4 neu 5" a gwnaeth 2 arall ymateb â "3 neu 4". Mae eu hymatebion nhw wedi'u cynnwys dan 4 a 3.

Sylwadau o'r arolwg aelodau

Pan wnes i ymddeol rai blynyddoedd yn ôl, yr oeddwn i'n bryderus iawn ynghylch fy ymddeoliad ac yr oedd gen i lawer o gwestiynau am fy mhensiwn. Atebwyd nhw â dealltwriaeth. Gwnaethon nhw helpu'r broses o drosglwyddo o fyd gwaith fod yn ddidrafferth.

Yn fy mhrofiad i, rwy'n cael fy nhrosglwyddo o un aelod o staff i'r llall tan fod rhywun yn gallu ateb fy nghwestiwn.

Rwy'n falch iawn o allu cael apwyntiad wyneb yn wyneb ynghylch fy nghynllun pensiwn newydd.

Y rheswm yr wyf i wedi rhoi sgôr isel ar ei gyfer yw oherwydd byddwn i'n dymuno siarad â rhywun wyneb yn wyneb wrth drafod rhywbeth pwysig fel fy mhensiwn.

Mae'r staff ar gael i drafod ar y ffôn. Mae'n ddefnyddiol iawn gwybod eu bod nhw'n gallu rhoi cyngor a gwybodaeth i egluro materion sy'n anodd eu deall.

Anodd cael ateb ar y ffôn. Mae'r ffôn yn canu ond does neb yn ateb neu nid oes unigolyn addas ar gael. Mae diffyg siaradwyr Cymraeg yn achosi anawsterau.

Rwy'n gallu mynd at yr holl gynlluniau a'r wybodaeth am fy mhensiwn drwy'r wefan.

Mae'r wefan yn anodd ei defnyddio ac mae ailosod yn anodd.

Mae'r wybodaeth sy'n cael ei rhannu yn ddealladwy ac yn glir a manwl gywir.

Rwy'n credu eich bod chi wedi dweud o'r blaen eich bod chi wedi ymrwymo i ddefnyddio iaith glir. Er eich bod chi wedi dweud hyn, nid yw'r eitemau ar y dudalen gyntaf fel "Gweminar", "Diagramau Llif Gwaith", "Ffeithluniau" yn enghreifftiau o iaith glir. Rwy'n eu deall nhw ond efallai na fydd pobl eraill.

Hapus iawn â'r cyfathrebu. Rwy'n hoffi'r logo newydd.

Byddai'n ddiddorol gwybod faint wnaeth yr ailfrandio hwn gostio. Dylai'r wybodaeth hon gael ei chynnwys mewn newyddlen yn y dyfodol. Mae newid logos a lliwiau'n gwbl ddibwrpas!!!

Yn 2023, rydym ni hefyd yn y broses o sefydlu Grwpiau Ffocws aelodau. Bydd y grwpiau hyn yn cynnwys nifer fach o aelodau Cronfa Bensiynau Clwyd a fyddai'n rhoi eu hadborth a'u barn ar yr ohebiaeth yn y dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau bod Cronfa Bensiynau Clwyd yn darparu gohebiaeth y mae aelodau ei eisiau ac yn gallu ei ddeall. Y bwriad yw y bydd y Grwpiau Ffocws yn cynnwys amrywiaeth o aelodau fel ein bod ni'n ystyried safbwyntiau amrywiol yn dibynnu ar:

- Statws aelod
- Oedran
- Rhywedd
- Math o swydd

Canlyniadau'r arolwg gweithwyr


Gwnaethom ni gasglu'r canlyniadau canlynol gan ein cyflogwyr y gofynnwyd y cwestiynau canlynol iddynt:

Y deunyddiau yr ydym ni'n eu hanfon atoch chi...


Explain and clarify the information we need from you to administer the LGPS on your behalf.

Encourage and empower you to help employees understand and appreciate their benefits.


Help to maintain and strengthen good working relationships between all parties involved in the Fund.



Beth yw eich barn chi am y ffordd yr ydym ni'n cyfathrebu?



Beth yw eich barn chi am ein gwasanaeth gweinyddol?



Hunanwasanaeth Aelodau (HWA)

Mae HWA yn galluogi i aelodau'r cynllun fewngofnodi i ardal gwe ddiogel i weld y wybodaeth sydd wedi'i chadw ar eu cyfrif pensiwn.

Mae HWA yn galluogi i'n haelodau ni:

- ddiweddarau eu manylion personol
- cynnal amcangyfrifon ar gyfer ymddeol gan ddefnyddio eu dyddiadau ymddeol dewisol
- cynnal amcangyfrifon ar gyfer gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod (ar gael ar gyfer aelodau gohiriedig yn unig i drosglwyddo eu buddion pensiwn i ddarparwr pensiwn newydd)
- addasu eu buddiolwyr grant marwolaeth
- gofyn am becynnau ymddeoliad ar gyfer aelodau gohiriedig sydd am ddechrau cael eu pensiwn
- gweld pob dogfen sy'n benodol i aelodau (e.e. datganiadau buddion blynyddol) ac
- uwchlwytho ffurflenni wedi'u llenwi i Gronfa Pensiynau Clwyd i'w prosesu

Mae aelodau sy'n defnyddio HWA yn cael eu gohebiaeth yn electronig, wedi'i huwchlwytho'n awtomatig i'w cyfrif. Cânt eu hysbysu drwy e-bost bob tro y bydd gwybodaeth yn cael ei huwchlwytho.


Ar 31 Mawrth 2023, yr oedd 52% o aelodau Cronfa Bensiynau Clwyd wedi cofrestru ar gyfer HWA. I gymharu, ar 31 Mawrth 2022, yr oedd 48% o aelodau Cronfa Bensiynau Clwyd wedi cofrestru, sy'n golygu cynnydd o 4% yn nifer y bobl sydd wedi cofrestru yn ystod y cyfnod hwn.

Ar 31 Mawrth 2023, yr oedd 17% o aelodau Cronfa Bensiynau Clwyd wedi cofrestru ar gyfer cael gohebiaeth drwy'r post. I gymharu, ar 31 Mawrth 2022, yr oedd 12% o aelodau Cronfa Bensiynau Clwyd wedi cofrestru, sy'n golygu cynnydd o 5% yn dewis cael gohebiaeth drwy'r post yn ystod y cyfnod hwn.

I grynhoi, mae 70% o'n haelodau ni'n ymgysylltu ac wedi dewis naill ai HWA neu ohebiaeth drwy'r post at ddibenion cyfathrebu. Mae Cronfa Bensiynau Clwyd yn ceisio ymgysylltu ag aelodau nad ydynt wedi dewis dull cyfathrebu i sicrhau nad ydyn nhw'n colli cysylltiad â ni.

Gall y gymhareb o ran dewis cael deunydd cyfathrebu drwy'r post neu drwy HWA gael ei rhannu i'r gwahanol fathau o statws aelodaeth, fel y gwelir yn y graff canlynol.

Canran wedi'i rhannu yn ol statws




Mae HWA yn parhau i fod yn ddull effeithiol o gyfathrebu gan alluogi Cronfa Bensiynau Clwyd i uwchlwytho dogfennau fel pecynnau ymddeol ac amcangyfrifon i gyfrifon HWA yr aelodau. Golyga hyn y gall aelodau gael eu gohebiaeth gennym ni yn gynt ac yn fwy diogel o'i gymharu â chael gohebiaeth drwy'r post.

Mae aelodau hefyd wedi gallu uwchlwytho ffurflenni wedi'u llenwi i'w cyfrifon HWA er mwyn i'r Gronfa dalu eu buddion yn gynt.

Bydd gwelliannau parhaus i hyrwyddo HWA a pha mor ymarferol ydyw yn parhau yn ystod y 12 mis nesaf.

Ystadegau HWA ac i-Connect



Manylion Aelodaeth y Cynllun

Mae'r adran hon yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth sy'n ymwneud â nifer y staff, cyflogwyr ac aelodau'r cynllun yn ystod 2022/2023.

Staff cyfystyr â llawn amser yn y Tim Gweinyddu Pensiynau 34.6	Cyfanswm aelodau'r Gronfa 51,246	Cymhareb staff i aelodau'r Gronfa 1:1,481	Achosion cyfartalog a gwblhawyd fesul aelod o staff 883
---	-------------------------------------	--	--

Crynodeb o'r Cyflogwyr ar 31 Mawrth 2023

Cyflogwyr	Gweithredol	Wedi terfynu	Cyfanswm
Cyrff rhestredig	35	20	55
Cyrff a dderbyniwyd	17	21	38
Cyfanswm	52*	41	93

*ac eithrio Cyngorwyr

Pensiynwyr Newydd 2022/2023

Math o Ymddeoliad	Nifer yr Ymddeoliadau
Salwch	31
Cynnar	550
Oedran Ymddeol Arferol	58
Hwyr	172
Dileu Swyddi / Effeithlonrwydd	16
Hyblyg	20
Cyfnewidiad Bychan	72
Cyfanswm	919

Tueddiadau Aelodau

Blwyddyn	Cyfranwyr	Gohiriedig (yn cynnwys heb benderfynu ac ad-daliadau wedi rhewi)	Pensiynwyr	Pensiynwyr Dibynnol	Nifer y buddion ychwanegol ar gyfer Effeithlonrwydd a Dileu Swyddi	Nifer y buddion ychwanegol yn sgil Salwch: Haen 1 yn unig
2019/20	17,211	17,745	12,751	1,988	54	18
2020/21	17,542	17,275	12,996	2,041	43	21
2021/22	17,073	17,888	12,613	1,921	25	34
2022/23	17,671	18,424	13,161	1,990	16	20

Dadansoddiad o Ordaliadau Pensiwn a Gordaliadau Pensiwn a Ddiddymwyd

	2022/23		2021/22		2020/21		2019/20	
	Swm	Achosion	Swm	Achosion	Swm	Achosion	Swm	Achosion
Symiau dan £100	£5,906	162	£6,516	166	£6,348	151	£4,435	129
Gordaliadau a Adenillwyd	£46,954	103	£38,056	92	£26,716	92	£29,277	76
Gordaliadau a Ddiddymwyd	£0	0	£0	0	£498	2	£0	0

Mae gan y Gronfa bolisi nad yw'n ceisio adennill unrhyw ordaliadau o daliadau cyflogau pensiynwyr sydd dan £100. Mae manylion y rhain ar gael isod. Gwneir pob ymdrech i adennill unrhyw ordaliadau cyflogau dros £100. Mewn rhai amgylchiadau gellir diddymu'r rhain drwy gytundeb Swyddog Adran 151.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA)

Mae'r Gronfa'n mesur sawl tasg weinyddol yn erbyn safonau gwasanaeth y cytunwyd arnynt. Mae'r DPA hyn yn helpu i sicrhau ein bod ni'n rhoi gwybodaeth i aelodau ein cynllun mewn modd amserol. Yn flaenorol, adroddodd y gronfa ar saith mesur, fodd bynnag, mae'r Gronfa wedi datblygu rhagor o fesuriadau o ddarpariaeth gwasanaeth i gynyddu tryloywder perfformiad ac maen nhw bellach yn adrodd ar 13 o fesurau. Mae gofynion y DPA i'w gweld yn Strategaeth Weinyddol y Gronfa ac maen nhw'n cynnwys targedau o 90% o'r safon gwasanaeth y cytunwyd arni ar gyfer elfen weinyddol Cronfa Bensiynau Clwyd a 100% ar gyfer elfen y gofyniad cyfreithiol.

Mae'r mesurau newydd yn y tabl isod wedi'u nodi â *, noder nad oes gan bob un o'r mesurau hyn ofyniad cyfreithiol ac felly bydd ganddyn nhw 'Amh.' yn y meysydd gofyniad cyfreithiol.

Proses	Nifer yr achosion wedi'u cwblhau	Gofyniad Cyfreithiol	% yr achosion wedi'u cwblhau o fewn y targed (Cyfreithiol)	Targed elfen weinyddol Cronfa Bensiynau Clwyd	% yr achosion wedi'u cwblhau o fewn y targed (Cronfa Bensiynau Clwyd)
Anfon Hysbysiad ynghylch Ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol at aelodau'r cynllun	4,299	2 fis o'r dyddiad ymuno (gan dybio y cafwyd yr hysbysiad gan y cyflogwr) neu o fewn 1 mis o gael gwybodaeth am ddeiliad y swydd os yw'r unigolyn yn cael ei gofrestru / ail-gofrestru'n awtomatig	86%	30 diwrnod gwaith ar ôl cael yr holl wybodaeth	99%
Rhoi gwybod i'r aelodau sy'n gadael y cynllun am eu hawliau a'u dewisiadau.	2,222	Cyn gynted ag sy'n ymarferol, a dim mwy na 2 fis ar ôl dyddiad yr hysbysiad cyntaf (gan y cyflogwr neu aelod o'r cynllun)	99%	15 diwrnod gwaith ar ôl cael yr holl wybodaeth	89%
Cael manylion trosglwyddo ar gyfer trosglwyddo i mewn, a chyfrifo a darparu dyfynbris i aelodau	386	2 fis ar ôl dyddiad y cais	85%	20 diwrnod gwaith ar ôl cael yr holl wybodaeth	78%
Rhoi manylion y gwerth trosglwyddo ar gyfer trosglwyddo allan, ar gais.	549	3 mis ar ôl dyddiad y cais (amcangyfrif CETV)	99%	20 diwrnod gwaith ar ôl cael yr holl wybodaeth	85%

Proses	Nifer yr achosion wedi'u cwblhau	Gofyniad Cyfreithiol	% yr achosion wedi'u cwblhau o fewn y targed (Cyfreithiol)	Targed elfen weinyddol Cronfa Bensiynau Clwyd	% yr achosion wedi'u cwblhau o fewn y targed (Cronfa Bensiynau Clwyd)
Hysbysiad ynghylch y swm o fuddiannau ymddeol	1,632	1 mis ar ôl y dyddiad ymddeol os yw'r unigolyn wedi cyrraedd oedran pensiwn arferol neu os yw ar ôl hynny, neu 2 fis ar ôl dyddiad ymddeol os yw cyn i unigolyn gyrraedd Oedran Pensiwn Arferol ⁴	83%	10 diwrnod gwaith ar ôl cael yr holl wybodaeth	94%
Darparu dyfynbrisiau ar gais ar gyfer ymddeoliadau	802	Cyn gynted ag sy'n ymarferol, ond dim mwy na 2 fis ar ôl dyddiad y cais oni bai bod cais eisoes wedi'i wneud yn y 12 mis diwethaf	99%	15 diwrnod gwaith ar ôl cael yr holl wybodaeth	88%
Cyfrifo a hysbysu dibynydd(ion) o swm y buddion marwolaeth	190	Cyn gynted ag sy'n bosibl ond dim mwy na 2 fis ar ôl cael gwybod am y farwolaeth, neu ar ôl dyddiad y cais gan drydydd parti (e.e. cynrychiolydd personol)	74%	10 diwrnod gwaith ar ôl cael yr holl wybodaeth	65%


Proses	Nifer yr achosion wedi'u cwblhau	Gofyniad Cyfreithiol	% yr achosion wedi'u cwblhau o fewn y targed (Cyfreithiol)	Targed elfen weinyddol Cronfa Bensiynau Clwyd	% yr achosion wedi'u cwblhau o fewn y targed (Cronfa Bensiynau Clwyd)
*Cyfrifo a Hysbysu aelod o CETV ar gyfer Dyfynbris Ysgaru/Diddymu	110	3 mis ar ôl dyddiad y cais	100%	20 diwrnod gwaith ar ôl cael yr holl wybodaeth	100%
*Cyfrifo a Hysbysu Aelodau o'u Cyfran yn sgil Ysgariad	3	4 mis ar ôl dyddiad y gorchymyn rhannu pensiwn, neu'r dyddiad y ceir y wybodaeth ddigonol i gyd i weithredu'r gorchymyn	100%	15 diwrnod gwaith ar ôl cael yr holl wybodaeth	100%
*Cyfrifo a thalu ad-daliad cyfraniadau	444	Amh.		10 diwrnod gwaith ar ôl cael yr holl wybodaeth	89%
*Cyfrifo a Thalu cyfandaliad ymddeoliad	993	Amh.		15 diwrnod gwaith ar ôl cael yr holl wybodaeth	95%
*Cyfrifo a Hysbysu aelod o Fuddion Gohiriedig	1,244	Amh.		30 diwrnod gwaith ar ôl cael yr holl wybodaeth	73%
*Llythyr cyntaf yn cydnabod marwolaeth aelod	417	Amh.		3 diwrnod gwaith ar ôl cael yr holl wybodaeth	82%

Gwybodaeth arall am berfformiad

Mae cyfanswm yr achosion a gwblhawyd yn 2022/2023 wedi gostwng ychydig o gymharu â 2021/2022. Mae hyn o ganlyniad i gadw aelodau staff ac effaith hyfforddi aelodau newydd o staff. Er gwaethaf hynny, mae effaith gadarnhaol wedi bod ar lefelau perfformiad a gyflawnwyd ym mhob maes. Mae adnoddau ychwanegol a datblygiadau mewn technoleg wedi cyfrannu at y llwyddiant hwn a bydd yn parhau i gael ei fonitro er mwyn sicrhau nad yw safonau'r gwasanaeth yn gostwng. Er mwyn bodloni gofynion cyfreithiol, caiff y dangosyddion perfformiad allweddol a nodir uchod eu mesur ar bwynt penodol yn yr achos. Felly, ni fydd y rhifau hyn yn gweddu'r achosion a gwblhawyd sydd wedi'u nodi isod, sydd hefyd yn cynnwys meysydd gwaith eraill.

Achosion wedi'u Cwblhau 2022/2023

Math o Achos	Achosion
Gweithwyr Newydd	3,712
Newid cyfeiriad post (yn cynnwys drwy HWA)	2,162
Gohiriadau	1,453
Ad-daliadau	1,038
Ymddeoliadau (pob math)	1,575
Amcangyfrifon (pob math)	799
Marwolaethau (gohiriedig, gweithredol a phensiynwyr)	524
Trosglwyddiadau i mewn	349
Trosglwyddiadau allan	495
Dyfnbris Ysgariad	110
Cyfranddaliad Ysgariad	3
Cydgrynhoi	1,348



Symudiad Achos

	Ebrill	Mai	Mehefin	Goffennaf	Awst	Medi	Hydref	Tachwedd	Rhag-fyr	Ionawr	Chwefror	Mawrth
Cyfanswm Cychwynnol	4909	4993	4816	5285	5274	5382	5418	5868	5425	5041	4871	5874
Cwblhawyd	3726	2910	2459	2764	2587	2843	3122	3250	2235	2997	2769	3071
Derbyniwyd	3905	2753	2939	2769	2706	2883	3582	2823	1902	2849	3770	3000
Wedi’u Dileu	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Yn Weddill	5088	4836	5296	5290	5393	5422	5878	5441	5092	4893	5872	5803

Datganiad Gwerth am Arian

Mae’r Gronfa yn mesur Gwerth am Arian drwy gyflawni’r amcanion sydd wedi’u nodi yn y Strategaeth Weinyddu a’r Strategaeth Gyfathrebu a’r amcanion canlynol yn benodol:

- Gweinyddu’r Gronfa mewn ffordd effeithlon ac effeithiol o ran cost gan ddefnyddio technoleg yn briodol i gael gwerth am arian
- Sicrhau y telir y buddion cywir i’r bobl gywir ar yr amser iawn, ac y cesglir yr incwm cywir ganddyn nhw yn yr un modd
- Cadw cofnodion cywir
- Sicrhau ein bod ni’n defnyddio’r dulliau mwyaf priodol o gyfathrebu, gan ystyried gwahanol anghenion y gwahanol fudd-ddeiliaid, ond gan ffafrio defnyddio gohebiaeth electronig os yw’n effeithlon ac yn effeithiol i wneud hynny
- Chwilio am ffyrdd cost-effeithlon ac amgylcheddol gyfrifol o gyfathrebu drwy ddefnyddio mwy o dechnoleg a gweithio mewn partneriaeth

I gyflawni’r amcanion hyn yn llwyddiannus, mae Cynllun Busnes cadarn a Chynllun Gwellu Data ar waith, mae rheoli risg wedi’i integreiddio i’n gwaith o ddydd i ddydd ac yr ydym ni’n parhau i fesur llwyddiant yn erbyn yr amcanion hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd fel ein dangosyddion perfformiad allweddol, arolygon boddhad a’n Cofrestr Torri Cytundebau. Adroddir ar gynnydd y rhain yn rheolaidd i’r Pwyllgor a’r Bwrdd.

Mae rhai o’r mesurau allweddol i ddangos Gwerth am Arian fel a ganlyn:

- Mae ansawdd y data yn hanfodol i brisiad rhwymedigaethau’r Gronfa a sut y caiff hyn ei adrodd yng nghyfrifon y Gronfa. Fel y soniwyd yn gynharach, ein sgorau ansawdd data cyffredin a phenodol i’r cynllun yw 98% a 98%, sy’n dangos bod y data bellach o ansawdd uchel.
- Rydym ni’n anelu at 5% o gynnydd y flwyddyn o ran y gyfradd o aelodau’r cynllun sydd wedi cofrestru ar yr Hunanwasanaeth Aelodau, sy’n arwain yn uniongyrchol at arbedion effeithlonrwydd. O ran mis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2023, gwnaethom ni

gyflawni cynnydd o 4% ar gyfer cofrestriadau HWA a 5% ar gyfer gohebiaeth drwy'r post.

- Rydym ni'n ceisio defnyddio dulliau cyfathrebu digidol ymhob sefyllfa oni bai bod rhesymau dilys i beidio â gwneud hynny am resymau effeithlonrwydd neu effeithiolrwydd.
- Rydym ni'n adolygu ein cynnydd yn rheolaidd yn erbyn ystod eang o ddangosyddion perfformiad allweddol (yn cynnwys terfynau amser cyfreithiol, terfynau amser prosesau cyffredinol ac amseroedd gweithredu mewnol y Gronfa), rhifau achos llwyth gwaith (rhai a gafwyd, rhai a gwblhawyd a'r rhai sy'n weddill) a gofynion ein cynllun busnes i sicrhau bod ein hadnoddau ni'n briodol i fodloni ein hamcanion.
- Ein nod yw sicrhau na fydd cost i bob aelod yn y chwarteli uchaf neu isaf wrth gael ei feincnodi yn erbyn holl Gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan ddefnyddio data cenedlaethol. Mae'r mesur diweddaraf yn cadarnhau mai ein cost weinyddol fesul aelod (mesur Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth) yw £37.44 ac mae hyn yn cynrychioli safle o fewn chwarteli canol y Cronfeydd sydd wedi'u cynnwys yn y gymhariaeth. O ran costau cyffredinol fesul aelod ar gyfer gweinyddu, goruchwyllo a llywodraethu, cadarnhaodd y mesur diweddaraf bod hwn yn £96.79 fesul aelod. Mae hyn yn cynrychioli safle o fewn chwartel uchaf y Cronfeydd sydd wedi'u cynnwys yn y gymhariaeth.

Yn ogystal â hyn, yn 2022/23 cyflawnwyd gweinyddiaeth y Gronfa o fewn y gyllideb y cytunwyd arni.

Proses Gwynion

Enw swyddogol proses gwynion y Gronfa yw Gweithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol (IDRP).

Fel arfer, cyn ysgogi IDRP, caiff cwyn 'anffurfiol' ei chodi gan aelod, a bydd y Rheolwr Gweinyddu Pensiynau neu'r Prif Swyddog Pensiynau yn ceisio datrys y gŵyn a chadarnhau hyn yn ysgrifenedig pan fo'n bosibl. Os yw'r gŵyn yn erbyn penderfyniad cyflogwr, cyfrifoldeb y cyflogwr yw ceisio datrys y gŵyn. Os yw'r aelod yn anfodlon â'r ymateb, mae modd iddyn nhw apelio. Mae gan yr IDRP broses dau gam dan reoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Mae'n rhaid i geisiadau ysgrifenedig gael eu gwneud gan ddefnyddio ffurflenni IDRP ffurfiol y Gronfa ac mae'n rhaid eu dychwelyd nhw i'r Gronfa o fewn chwe mis ar ôl dyddiad y penderfyniad y mae'r aelod yn apelio yn ei erbyn.

Mae Cam Un o broses yr apêl yn ei gwneud yn ofynnol i 'unigolyn enwebedig' y Gronfa ymchwilio i'r gŵyn. Ar gyfer Cam Un, yr unigolyn enwebedig hwn yw Rheolwr Datblygu Busnes Cronfa Bensiwn Gorllewin Swydd Efrog. Mae'n adolygu'r anghydfod ac yn penderfynu a gafodd y penderfyniad ei wneud yn unol â rheoliadau'r Cynllun. Os yw'r aelod yn dal i fod yn anfodlon â'r canlyniad, gallan nhw wneud cais dan Gam Dau, sydd wedyn yn gallu cael ei anfon ymlaen at y Gronfa. Bydd Swyddog Monitro Cyngor Sir y Fflint yn gwrando ar apeliadau Cam Dau.

Os ydyn nhw'n dal i fod yn anfodlon, gall yr aelodau wedyn fynd â'u cwyn ger bron y gwasanaeth MoneyHelper newydd ac yna ymlaen at yr Ombwdsmon Pensiynau. Mae'r tabl isod yn crynhoi ceisiadau IDRP y Gronfa a gafwyd yn 2022/2023 a'r canlyniadau:

2022/2023	Derbyniwyd	Cadarnhawyd	Gwrthodwyd	Yn parhau
Cam 1: Yn erbyn cyflogwyr	9	1	4	4
Cam 1: Yn erbyn yr Awdurdod Gweinyddu	0	0	0	0
Cam 2: Yn erbyn cyflogwyr	1	0	1	0
Cam 2: Yn erbyn yr Awdurdod Gweinyddu	0	0	0	0

Manylion cyswllt apelio:	Mrs Karen Williams Rheolwr Gweinyddu Pensiynau, Cronfa Bensiynau Clwyd, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NA
---------------------------------	--

Mae rhagor o wybodaeth am y broses apelio ar gael yn ein Pecyn Gweithdrefn Datrys Anghydfod yn:

<https://cronfabensiynauclwyd.org.uk/cy/CPLIL/Ffurflenni-ac-Adnoddau/cartref.aspx>

Manylion Cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth am yr adran hon o'r Adroddiad Blynyddol, cysylltwch â:

Mrs Karen Williams, Rheolwr Gweinyddu Pensiynau

Cronfa Bensiynau Clwyd, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NA

E-bost: karen.williams@sirymfflint.gov.uk

Rhif ffôn: 01352 702963

Atodiad 5: Adolygiad Cyllid a Llwybr Hedfan

Y wybodaeth ddiweddaraf gan yr Actiwari

Mae'n bleser gen i unwaith eto gyflwyno fy niweddariad blynyddol o safbwynt actiwaraid ar weithgareddau Cronfa Bensiynau Clwyd (y Gronfa) yn ystod 2022/23. Roedd hwn yn gyfnod arbennig o brysur o ystyried bod prisiad actiwaraid 2022 wedi'i gynnal dros y cyfnod hwn, effaith chwyddiant cyson uchel a chynnydd mewn cyfraddau llog, a'r heriau parhaus mewn economïau mawr.

Yn ogystal â chythrwfl yn y marchnadoedd yn dilyn y datganiad cyllidol ym mis Medi 2022, mae cynnydd parhaus wedi bod yng nghyfraddau llog y DU mewn ymgaïs i reoli chwyddiant.

Mae effaith gyfunol y ffactorau hyn dros y flwyddyn wedi golygu bod Swyddogion y Gronfa, y Pwyllgor a'r ymgynghorwyr wedi gorfod ymateb i'r heriau. Yr oedd yn braf gweld bod y Gronfa wedi parhau i fod yn gadarn ac mewn sefyllfa ariannol dda o ganlyniad i'r Fframwaith Rheoli Risg sydd ar waith, sydd wedi'i gefnogi gan Fframwaith Llywodraethu cryf sy'n caniatáu i benderfyniadau gael eu gwneud yn gyflym ac yn effeithiol. Cafodd hyn ei brofi'n drylwyr gan y cythrwfl a achosodd y datganiad cyllidol.

Mae'n braf gweld bod y sefyllfa gyllido a amcangyfrifwyd yn y diweddariad mwyaf diweddar ym mis Mai 2023 yn dangos lefel ariannu o 107%.

Yr her barhaus yn sgil yr amgylchedd economaidd a'r chwyddiant yw ystyried sut y gallwn ni gynnal sefyllfa'r strategaeth fuddsoddi a chyfraniadau'r cyflogwr, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd parhaus o ran cyllid a chyfraniadau i'r cyflogwyr (sy'n dod i'r amlwg o brisiad 2022), gan gydnabod risgiau arwyddocaol eraill fel effeithiau newid hinsawdd. Mae hyn yn gydbwysedd bregus sy'n gofyn am fonitro a chynllunio gofalus.

Prisiad Actiwaraid 2022

Gwnaeth prisiad actiwaraid teirblwydd y Gronfa ddod yn weithredol ar 31 Mawrth 2022. Gwnaeth hyn roi cyfle i ni adolygu sefyllfa ariannol y Gronfa a diweddarau'r amcanion. Mae'r amcanion hyn wedi'u nodi yn Natganiad y Strategaeth Ariannu. Canlyniad y prisiad yw nodi lefelau cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2026 ac mae'r cyfraniadau hyn wedi'u nodi yn fy adroddiad prisio actiwaraid ffurfiol (sydd ar gael yn: <https://cronfabensiynauclwyd.org.uk/SiteElements/Documents/finance/cy/Adroddiad-Prisiad-Actiwaraid.pdf>)

Mae rhai cyflogwyr yn bwriadu talu mwy nag isafswm y cyfraniadau sydd eu hangen i gefnogi cynaliadwyedd eu cyfraniadau yn y dyfodol, a oedd yn ganlyniad cadarnhaol gan ei fod yn dangos yr ymagwedd gydweithredol rhwng pob budd-ddeiliad yn y broses. Ar y cyfan, mae'r adborth gan gyflogwyr ynghylch y broses yn gadarnhaol.

Wrth asesu'r lefelau cyfrannu hyn, ystyriais brofiad y Gronfa ers y prisiad blaenorol (gan gynnwys ffactorau demograffig fel newidiadau i ddisgwyliad oes a newidiadau o ran aelodaeth). Gwnes i hefyd ystyried gallu cyflogwr i gefnogi ei rwymedigaethau i'r Gronfa Bensiynau drwy asesu ei gyfamod ariannol. Roedd canlyniadau'r prisiad yn dangos gwelliant

sylfaenol o ran y sefyllfa ariannu gan fynd o 91% i 105% ar 31 Mawrth 2022. Gwnaeth y gwelliant hwn ganiatáu i ni leihau'r cyfraniadau cyfartalog cyffredinol gan gyflogwyr sy'n ofynnol, yn bennaf o ganlyniad i'r ffaith bod yr arian dros ben yn cael ei ddefnyddio dros gyfnod o 12 mlynedd i wrthbwysu costau cyfraniadau parhaus i gyflogwyr yn gysylltiedig â'u haelodau sy'n cyfrannu.

Rhan bwysig o'r dadansoddiad risg sy'n sail i'r strategaeth gyllido yw i'r Actiwari nodi effaith risg trosglwyddo newid hinsawdd (tymor byrrach) a risgiau corfforol (tymor hwy) ar y canlyniadau ariannu posibl. O ran y prisiad presennol, mae dadansoddiad o wahanol sefyllfaoedd newid hinsawdd ar y lefel Cronfa Lawn yn berthnasol i'r sefyllfa llinell sylfaen gan gymryd bod rhagdybiaethau cyllido wedi'u hystyried ar sail amcangyfrif gorau. Bwriedir i'r rhagamcanion ddangos y gwahanol elfennau risg dan dair sefyllfa newid hinsawdd yn seiliedig ar y dyraniad strategol presennol. Mae crynodeb o'r dadansoddiad hwn wedi'i gynnwys yn fy adroddiad prisiad actiwaraid.

Yn dilyn cwblhau'r broses brisio, bydd Adran Actiwari'r Llywodraeth yn cyflawni adolygiad o'r prisiadau actiwaraid o gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar 31 Mawrth 2022, yn unol ag Adran 13 Deddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013. Bydd Adran Actiwari'r Llywodraeth yn cymharu nifer o ffactorau allweddol, yn cynnwys y rhagdybiaethau a'r cyfnodau adfer sydd wedi'u mabwysiadu, a lefelau ariannu a chyfraddau cyfraniadau a nodwyd. Bydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi pan fydd yr adolygiad wedi'i gwblhau.

Fframwaith Rheoli Risg

Strategaeth Llwybr Hedfan

Agwedd hanfodol o reoli risg yw'r Strategaeth Llwybr Hedfan sy'n greiddiol i ddarparu sefydlogrwydd ariannu a chyfraddau cyfraniadau cyflogwyr yn yr hirdymor. Mae'r strategaeth hon wedi bod ar waith ers 2014 a'r bwriad gwreiddiol oedd cyrraedd lefel ariannu o 100% erbyn 2026. Rhagorwyd ar y bwriad hwn fel y gwelir yng nghanlyniad prisiad 2022.

Dros y flwyddyn, cynyddodd lefel yr amlygiad i fondiau llywodraeth (giltiau) yn y fframwaith yn sylweddol wrth i sbardunau'r farchnad gael eu taro ac wrth i'r Gronfa ymrwymo i'r asedau hyn am brisiau atyniadol. Mae'r amlygiad hwn i giltiau yn sicrhau incwm risg isel i'r Gronfa sy'n uwch na chwyddiant, gan roi mwy o sicrwydd ynghylch enillion mewn amgylchedd economaidd ansicr.

Mae lefel y cyllid yn debygol o ostwng dros amser wrth i gyflogwyr ddefnyddio'r arian dros ben i wrthbwysu'r gofynion cyfrannu. Yn gyffredinol, amcangyfrifwyd bod y sefyllfa gyllido yn 104% ar 31 Mawrth 2023 (dyddiad y cyfrifon) yn seiliedig ar ddiweddariad cyllid bras o brisiad actiwaraid 2022, a oedd ar ei hôl hi ychydig o ran y disgwyliadau ond mae lefel y cyllid wedi gwella ers hynny i 107%, sy'n dangos bod y sefyllfa'n parhau i fod yn gyfnewidiol o ganlyniad i sefyllfa'r farchnad ar hyn o bryd a'r rhagolygon o ran chwyddiant. Mae sbardun lefel cyllido o 110% ar waith i annog trafodaethau lleihau risg yn y dyfodol yn unol â'r protocol ffurfiol y cytunwyd arno â'r Pwyllgor. Y nod yw ystyried a ddylid gwneud unrhyw

newidiadau i'r strategaeth fuddsoddi gyffredinol er mwyn sicrhau bod cyfraniadau cyflogwyr yn fwy cynaliadwy heb roi pwysau cynyddol ar gyfraniadau yn y dyfodol yn anfwriadol.

Er bod monitro'r sefyllfa ariannu yn ganolog i fy swydd, mae hefyd yn bwysig ein bod ni'n sicrhau bod agweddau gweithredol eraill ar y Llwybr Hedfan sy'n cael ei gynnal gan Insight Investment Management (Insight) yn gweithio'n gywir, gan fod hyn yn hanfodol i lwyddiant y strategaeth. Felly, yr ydym ni'n monitro'n fisol gan ddefnyddio system raddio coch/oren/gwyrdd ("COG") ac mae crynodeb mis Mai 2023 ar gael isod.

Executive summary



= as per or above expectations



= to be kept under review



= action required

 Overall funding position at 31 May 2023 • Broadly in line with expected funding level • Funding level above 100%	The funding position is 107% which is ahead of the expected funding level from the 2022 valuation by 2%. There is continuing uncertainty in the outlook for future returns and inflation which is being considered when updated the funding position.
 Liability hedging mandate at 31 March 2023 • Insight in compliance with investment guidelines • Underperformed the benchmark over Q1 2023 • Hedge ratios broadly in line with new target levels	No interest rate triggers breached in Q1 2023. Interest rate triggers were hit in May 2023.
 Synthetic equity mandate at 31 May 2023 • Insight in compliance with investment guidelines • Underperformed the benchmark over the month	A dynamic protection structure was implemented in late May 2018, with refinements made in November 2020. The TRS structure rolled on 23 May 2021 with no further changes to the strategy. No action required.
 Currency hedging at 31 May 2023 • Currency hedging overlay implemented in the QIAIF in August 2019 • As at 31 May 2023, the market value of the currency hedge on physical equities since inception on 22 August 2019 was -£14.4m	No action required.
 Cash Plus Funds, collateral and counterparty position at 31 March 2023 • The Cash Plus Fund has underperformed the benchmark since inception and also over the quarter. We will continue to monitor performance. • The Insight QIAIF can sustain over a 3.0% rise in interest rates or over 3.0% fall in inflation without eliminating all headroom.	Overall, the collateral waterfall has returned £6.5m at 31 March 2023 since implementation at 31 January 2019 versus the previous structure. The Fund has sufficient collateral to withstand the stresses as at 31 March 2023. No action required.

Gellir gweld bod pob agwedd yn unol â'r disgwyliadau ar wahân i'r cronfeydd 'Cash Plus', sydd wedi'i raddio'n "oren" gan ei fod wedi tanberfformio ers ei sefydlu. Mae'r sgôr oren hwn hefyd yn adlewyrchu amodau heriol y farchnad a'r angen i fonitro'r sefyllfa gyfochrog yn ofalus. Mae hyn oherwydd bod posibilrwydd i fwy o sbardunau marchnad gael eu taro o ganlyniad i ragor o gynnydd mewn cyfraddau llog (h.y. gwneud prisiau giltiau yn fwy atyniadol) a'r angen i sicrhau bod y fframwaith yn ddigon cadarn i wrthsefyll unrhyw ysgytiadau i'r farchnad yn y dyfodol fel yr hyn a brofwyd o ganlyniad i'r cyhoeddiad am y datganiad cyllidol ym mis Medi 2022.

Sut mae'r Fframwaith Rheoli Risg wedi esblygu dros y flwyddyn?

Er bod amgylchedd y farchnad wedi achosi llawer o heriau, yr oedd hefyd yn caniatáu i'r Gronfa fanteisio ar nifer o gyfleoedd i gynyddu sicrwydd ei phroffil risg/enillion am gost dderbyniol.

O ganlyniad i'r cynnydd sylweddol yn y gyfradd llog a'r straen disgwyledig y byddai hyn yn ei roi ar y sicrwydd cyfochrog sydd ar gael, penderfynodd y Gronfa'n rhagweithiol i atal y gyfradd llog a'r fframwaith sbarduno chwyddiant a oedd ar waith ddechrau mis Medi. Roedd y strwythur llywodraethu a oedd ar waith yn galluogi'r Swyddogion i wneud penderfyniadau cyflym, a weithiodd yn dda ac a wnaeth atal sefyllfa lle byddai sicrwydd cyfochrog wedi dod i ben a lle byddai angen lleihau'r amlygiad i giltiau, sy'n ychwanegu at enillion asedau'r Gronfa.

Yn dilyn y datganiad cyllidol a natur gyfnewidiol y farchnad wedi hynny, mae cyrff rheoleiddio gan gynnwys Y Rheoleiddiwr Pensiynau wedi cyflwyno lefelau gofynnol o sicrwydd cyfochrog sy'n llawer uwch na'r sicrwydd oedd ar waith yn flaenorol yn y diwydiant. Gwerthodd y Gronfa rai o'i ecwitiâu ffisegol ac ailstrwythuro ei sefyllfa gyfochrog ym mis Hydref a mis Tachwedd 2022 cyn i'r rheoliadau hyn ddod i rym mewn ffordd sy'n effeithlon o ran cyfalaf a oedd yn diogelu dyraniad asedau strategol y Gronfa a'r enillion disgwyledig.

Gwnaeth y sicrwydd cyfochrog ychwanegol hwn ganiatáu i'r Gronfa adfer y gyfradd llog a'r fframwaith sbarduno chwyddiant ar ddiwedd 2022, wrth i ragor o sbardunau cyfraddau llog gael eu taro ym mis Mai, Mehefin a Gorffennaf 2023, gan nodi rhagor o gyfleoedd yn y farchnad. Mae'r Gronfa yn parhau i gynnal sicrwydd cyfochrog ymhell dros yr hyn sy'n ofynnol dan reoliad Y Rheoleiddiwr Pensiynau.

Bydd fframwaith y Llwybr Hedfan yn parhau i gael ei fonitro yn rhan o gyfarfodydd rheolaidd y Grŵp Rheoli Risg a Chyllid rhwng Swyddogion a chynghorwyr yn unol â'r dirprwyaethau gan y Pwyllgor.

I grynhoi, mae'r flwyddyn wedi bod yn un o'r blynyddoedd mwyaf heriol ond mae'r Gronfa wedi bod yn gadarn ac mae'n parhau i fod mewn sefyllfa dda iawn. Er bod amgylchedd y farchnad a'r economi yn parhau i fod yn ansicr, rwy'n dal i fod yn hyderus bod y Gronfa yn y lle gorau posibl i fynd i'r afael â'r amgylchedd economaidd heriol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf a thu hwnt o ystyried y fframweithiau ariannol a llywodraethu cryf sydd ar waith.

Paul Middleman FIA

Aelod Panel Ymgynghorol Pensiynau ac Aciwtari'r Gronfa

Atodiad 6: Polisi Buddsoddi ac Adroddiad Perfformiad

Mae'r adroddiad canlynol yn darparu diweddariad o safbwynt buddsoddiad ar weithgareddau Cronfa Bensiynau Clwyd (y Gronfa) yn ystod 2022/23.

Datganiad y Strategaeth Fuddsoddi (DSF)

Wrth ystyried buddsoddiadau'r Gronfa, mae'n briodol dechrau â'r amcanion buddsoddi cyffredinol sydd wedi'u nodi yn Natganiad y Strategaeth Fuddsoddi. Mae'r DSF diwygiedig wedi'i atodi i'r adroddiad hwn ac mae'n nodi'r amcanion cyllido a buddsoddi ar gyfer y Gronfa. Yr amcanion buddsoddi penodol yw:

- Cyflawni a chynnal asedau sy'n hafal i 100% o rwymedigaethau o fewn y terfyn amser cyfartalog o 12 mlynedd, gan aros o fewn terfynau risg rhesymol.
- Pennu gofynion cyfraniadau'r cyflogwyr, gan gydnabod y cyfyngiadau ar fforddiadwyedd a chryfder cyfamod pob cyflogwr, gyda'r nod o sicrhau bod y cyfraniad y gofynnir amdano gan y cyflogwyr mor rhagweladwy â phosib.
- Gan gydnabod y cyfyngiadau ar fforddiadwyedd i gyflogwyr, anelu at ddigon o elw dros ben ar fuddsoddiadau o gymharu â'r twf mewn rhwymedigaethau.
- Taro cydbwysedd priodol rhwng perfformiad cyson hirdymor buddsoddiadau a'r amcanion cyllido.
- Rheoli rhwymedigaethau cyflogwyr yn effeithiol drwy fabwysiadu amcanion cyllido penodol i bob cyflogwr.
- Sicrhau y gellir cwrdd â gwariant arian parod net os a phan gyfyd yr angen.
- Cadw swm dyledion nad oes modd eu hadennill mor isel â phosib wrth derfynu cyfranogiad cyflogwyr.
- Sicrhau bod ei strategaeth, gweithredoedd rheoli buddsoddiadau, gweithdrefnau llywodraethu ac adrodd yn rhoi ystyriaeth lawn i risgiau tymor hwy ac ystyriaethau cynladwyedd.
- Sicrhau bod buddsoddiadau'r Gronfa'n cyd-fynd â'r newid i economi carbon isel drwy ymrwymiad i gyflawni targed allyriadau sero carbon deuocsid net erbyn 2045.
- Hyrwyddo derbyn egwyddorion cynladwyedd a gweithio gyda phartïon eraill (fel y pennir yn briodol) i wella effeithiolrwydd y Gronfa wrth roi'r egwyddorion hynny ar waith.
- Anelu at ddefnyddio Partneriaeth Pensiwn Cymru fel y dewis cyntaf i fuddsoddi asedau'r Gronfa, yn ddibynnol arni'n gallu bodloni gofynion strategaeth ac amcanion buddsoddi'r Gronfa (yn cynnwys gofynion cynaliadwyedd), o fewn costau tymor hir derbyniol i ddarparu'r buddion disgwylidig ac yn destun hyder parhaus wrth lywodraethu'r Bartneriaeth.

Wrth wraidd pob un o'r amcanion penodol hyn mae dyhead y Gronfa i gynnwys cynaliadwyedd yn ei dull gweithredu hirdymor ac i ddangos ei bod yn gweithredu'n effeithiol fel buddsoddwr cyfrifol.

Ar ddyddiad yr adroddiad, roedd DSF y Gronfa dan adolygiad yn dilyn yr adolygiad strategaeth fuddsoddi teirblwydd.

Strategaeth Fuddsoddi

Gweler Strategaeth Fuddsoddi'r Gronfa yn y tabl isod:

Dosbarth Asedau Strategol	Dyraniad Strategol (%)	Ystod Strategol (%)	Ystod Amodol (%)
Ecwiti Byd-eang wedi'i Ddatblygu	15.0	10.0 – 20.0	0 – 30
Ecwiti Marchnadoedd Newydd	5.0	2.5 – 7.5	0 – 15
Cronfeydd mantoli	5.0	2.5 – 7.5	0 – 15
DAT / Syniadau Gorau	11.0	9.0 – 13.0	0 – 20
Credyd Aml-ased	12.0	10.0 – 14.0	0 – 20
Fframwaith Rheoli Risg ac Arian Parod	23.0	10.0 – 35.0	0 – 40
Marchnadoedd Preifat			
Eiddo	4.0	2.0 – 6.0	0 – 8
Ecwiti Preifat	8.0	6.0 – 10.0	0 – 15
Lleol / Effaith	6.0	4.0 – 8.0	0 – 15
Isadeiledd	8.0	6.0 – 10.0	0 – 15
Credyd Preifat	3.0	1.0 – 5.0	0 – 6

Mae Strategaeth Fuddsoddi'r Gronfa yn hynod amrywiol ac yn ymgorffori Fframwaith Rheoli Risg. Nod strategaeth y Gronfa yw parhau i leihau ansefydlogrwydd enillion, yn unol â'r amcan o sefydlogi cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr. Mae'r Fframwaith Rheoli Risg ac Arian Parod yn nodwedd allweddol o Strategaeth Fuddsoddi'r Gronfa ac yn edrych ar reoli llawer o'r risgiau allweddol. Caiff y portffolio hwn ei esbonio'n fanylach yn adran Rheoli Risg adroddiad yr Actiwari.

Dyraniad Strategol o'i gymharu â Dyraniadau Gwirioneddol

Rheolwr	Mandad	Gwirioneddol 31/03/2022 (%)	Gwirioneddol 31/03/2023 (%)	Dyraniad Strategol 22/23 (%)
Ecwiti Byd-eang wedi'i Ddatblygu				15.0
PPC	Ecwiti Byd-eang	5.3	5.7	15.0
BlackRock	Ecwiti Byd-eang	5.4	0.0	
Ecwiti Marchnadoedd Newydd				5.0
PPC	Ecwiti sy'n dod i'r amlwg	9.0	5.1	5.0
Cronfeydd mantoli				5.0
ManFRM	Cronfeydd mantoli	6.4	7.0	5.0
DAT / Syniadau Gorau				11.0
Mewnol	Portffolio Syniadau Gorau	11.1	11.5	11.0
Credyd Aml-ased				12.0
PPC	Credyd Aml-ased	10.0	10.1	12.0
Fframwaith Rheoli Risg ac Arian Parod				23.0
Insight	Fframwaith Rheoli Risg ac Arian Parod	25.5	29.0	23.0
Marchnadoedd Preifat				29.0
Amrywiol	Eiddo	6.0	5.9	4.0
Amrywiol	Ecwiti Preifat	7.9	8.8	8.0
Amrywiol	Lleol / Effaith	2.7	3.9	6.0
Amrywiol	Isadeiledd	4.8	5.6	8.0
Amrywiol	Credyd Preifat	2.1	2.6	3.0
Amrywiol	Coed / Amaethyddiaeth	0.5	0.5	0.0
Arian Parod		3.2	4.3	0.0

Sylwch: Mae'n bosibl na fydd y rhain yn symio gan eu bod wedi cael eu talgrynnu.

Mae'r tabl uchod yn adlewyrchu'r dyraniad strategol newydd, a gytunwyd ym mis Mawrth 2023. Roedd gweithrediad y strategaeth newydd ar y gweill ar adeg ysgrifennu'r adroddiad. At hynny, yn Ch2 20232, trosglwyddwyd holl asedau Ecwiti Byd-eang PPC i strategaeth ecwiti cynaliadwy.

Yn ystod cyfnod 2022/2023, dad-fuddsoddodd y Gronfa'n llawn o Gronfa Ecwiti ESG Black Rock a throsglwyddo'r holl enillion i Fframwaith Rheoli Risg ac Arian Parod i ddiwallu gofynion sicrwydd yn y mandad. Mae'r enillion hyn hefyd yn galluogi'r Gronfa i gymryd camau i gynyddu'r gyfradd llog a mantoli chwyddiant os yw sbardunau'n seiliedig ar y farchnad yn cael eu taro drwy'r fframwaith sbarduno.

Cefndir y farchnad

Roedd y cyfnod o 12 mis hyd at 31 Mawrth 2023, yn amgylchedd marchnad hynod heriol ar gyfer buddsoddwyr. Gwerthwyd ecwiti yn yr holl farchnadoedd ac eithrio marchnad y DU, a oedd yr unig farchnad ecwiti i gynhyrchu enillion cadarnhaol dros y cyfnod (+2.9%). Dirywiodd ecwiti byd-eang -5.0% mewn Sterling, tra bu i ecwiti'r farchnad sy'n dod i'r amlwg ddirywio -6.2% mewn Sterling.

Cyrhaeddodd yr anwadalrwydd uchafbwynt ym marchnadoedd y DU ar ddiwedd Ch3 2022, wrth i Ganghellor Trysorlys y DU gyflwyno datganiad o'r enw'r Cynllun Twf, y cyfeiriwyd ati fel y gyllideb fechan. Roedd y datganiad yn cynnwys cyfres o bolisïau economaidd a thoriadau treth, nad oeddent wedi'u hariannu. Roedd pwysau sylweddol ar y farchnad gilt yn yr wythnosau ar ôl cyhoeddi'r datganiad, gyda'r cynnyrch nominal a gwirioneddol yn cynyddu o dros 1% o fewn ychydig ddyddiau gwaith, cyn troi'n ôl yn sydyn yn dilyn ymyrraeth gan Fanc Lloegr.

Roedd chwyddiant a pholisi banc canolog yn gymhellwyr allweddol yn y marchnadoedd yn ystod y cyfnod, wrth i chwyddiant aros yn uchel yn y mwyafrif o ardaloedd. Felly parhaodd y banciau canolog i dynhau polisïau ariannol a chynnal rhagolygon barcut, gan arwain at anwadalrwydd yn y farchnad. Ymhellach i hyn, roedd y marchnadoedd yn prisio y risg uwch o ddirwasgiad gan arwain at dynhau ariannol.

Mae'r gwrthdaro yn Wcráin hefyd wedi achosi safbwynt negyddol wrth i Rwsia gynyddu eu syniadaeth gwrth-orllewin a chyflenwadau nwy naturiol cyfyngedig pellach yn Ewrop, gan arwain at bwysau uwch ar brisiau ynni.

Perfformiad Buddsoddi 2022/23

Mae gwerth y Gronfa ar y farchnad wedi cynyddu o oddeutu £1,175.1m ym mis Mawrth 2013 i £2,289.2m ym Mawrth 2023. Mae'r tabl isod yn dangos crynodeb o'r perfformiad buddsoddi blyneddol dros yr 10 mlynedd diwethaf o'i gymharu â meincnod y Gronfa a chronfa bensiynau llywodraeth leol.

Cyfnod (Blynnyddoedd)	Cronfa Bensiynau Clwyd (% y flwyddyn)	Meincnod Clwyd (% y flwyddyn)	Cyfartaledd Awdurdodau Lleol (% y flwyddyn)
1	-6.4	-4.6	-1.7
3	+9.5	+7.5	+9.5
5	+5.5	+5.4	+5.9
10	+6.7	+6.7	+7.3

Ffynhonnell: Mercer, PIRC.

Datganodd y Gronfa enillion negyddol ar fuddsoddiad o -6.4% ar gyfer y 12 mis o 31 Mawrth 2023, yn erbyn meincnod cyfansawdd o -4.6%. Er nad enillion negyddol yw'r canlyniad dymunol, yn amlwg, mae disgwyl i hyn ddigwydd o bryd i'w gilydd wrth i'r marchnadoedd ddatblygu'n naturiol dros amser. Mae'r swyddogion a'r Pwyllgor wedi adolygu perfformiad y portffolio'n fanwl, a deallir cefndir y perfformiad yn llwyr.

Y darlun mwy y dylid canolbwyntio arno yw sefyllfa gyllid gyffredinol a statws ariannol y Gronfa, sy'n cael ei egluro'n fanwl yn adran adroddiad yr Actiwari. Yn ffodus, parhaodd y cyllid yn wydn yn ystod amgylchedd heriol ar gyfer y marchnadoedd buddsoddi; amcangyfrifwyd lefel cyllid o 104% ar 31 Mawrth 2023, o gymharu â 105% ar 31 Mawrth 2022.

Mae hefyd yn bwysig ystyried perfformiad yng nghyd-destun gorwel tymor hwy. Dros dair blynedd, hyd at 31 Mawrth 2023, llwyddodd y Gronfa i gyflawni enillion o +9.5% y flwyddyn o gymharu â meincnod cyfansawdd o +7.5% y flwyddyn. Mae'r perfformiad hwn hefyd ar y blaen i darged y gwasanaeth i'r dyfodol o MPD +2.25% y flwyddyn. (8.2% y flwyddyn).

Perfformiad a Sefyllfa Strategaeth Hanesyddol

Mae'r tabl cyntaf isod yn dangos perfformiad y cronfeydd sylfaenol presennol yn erbyn eu targedau ôl-weithredol dros gyfnod o 10 mlynedd hyd at 31 Mawrth 2023.

Mae'r tabl o dan y tabl perfformiad hanesyddol dros 10 mlynedd yn dangos newidiadau i Strategaeth Fuddsoddi'r Gronfa ers 2001. Fel y gwelir, mae'r dyraniad asedau yn wahanol iawn i ddyraniad asedau cronfa pensiynau llywodraeth leol gyffredinol. Mae'r Gronfa wedi bod yn benodol weithredol ac yn gynnar iawn o ran ei rhwymedigaethau i asedau eraill trwy ystod eang o reolwyr arbenigol.

Perfformiad hyd at 31 Mawrth 2023

Cronfa	Rheolwr Buddsoddi	Ch1 2023 (%)	Meincn od (%)	1 fl (%)	Meincn od (%)	3 bl (%)	Meincn od (%)	5 ml (%)	Meincn od (%)	10 ml	Meincn od (%)
Cyfanswm		3.7	4.5	-6.4	-4.6	9.5	7.5	5.5	5.4	6.7	6.7
Cyfanswm Ecwiti		4.5	3.2	-2.2	-1.9	12.4	13.4	5.3	7.2	8.1	9.6
Cyfleodd Byd-eang PPC	Russell	3.4	4.9	0.2	0.5	16.4	17.8	--	--	--	--
Ecwiti Marchnadoedd Newydd PPC	Russell	5.7	1.5	-1.6	-3.5	--	--	--	--	--	--
Cyfanswm Credyd		1.9	1.9	-7.1	6.3	3.1	4.3	-0.3	3.4	0.5	2.0
Credyd Aml-ased PPC	Russell	1.9	1.9	-7.1	6.3	--	--	--	--	--	--
Cyfanswm Cronfeydd Mantoli		-0.6	1.8	0.8	5.8	4.2	4.4	1.1	4.4	--	--
Cronfeydd mantoli	Man	-0.6	1.8	0.8	5.8	4.2	4.4	1.1	4.4	--	--
Cyfanswm Dyraniad Tactegol		0.4	2.1	-3.9	13.3	12.0	8.7	6.6	7.1	3.5	5.7
Syniadau Gorau	Amrywiol	0.4	2.1	-3.8	13.3	12.2	8.2	7.3	6.8	2.7	5.6
Cyfanswm Marchnadoedd Preifat		-0.4	1.8	10.1	3.9	13.3	5.5	11.4	5.4	--	--
Eiddo	Amrywiol	-4.6	0.2	-9.2	-14.7	2.4	2.7	4.1	2.8	6.4	7.2
Ecwiti Preifat	Amrywiol	-0.4	2.2	13.7	7.4	19.8	5.9	16.4	5.9	13.7	5.7

Cronfa	Rheolwr Buddsoddi	Ch1 2023 (%)	Meincn od (%)	1 fl (%)	Meincn od (%)	3 bl (%)	Meincn od (%)	5 ml (%)	Meincn od (%)	10 ml	Meincn od (%)
Lleol / Effaith	Amrywiol	3.3	2.2	22.9	7.4	--	--	--	--	--	--
Isadeiledd	Amrywiol	1.8	2.2	19.6	7.4	12.2	5.9	11.5	5.9	12.6	5.7
Credyd Preifat	Amrywiol	-1.8	1.8	9.5	7.5	7.4	7.5	6.0	7.5	--	--
Coed / Amaethyddiaeth	Amrywiol	6.0	2.2	29.2	7.4	10.3	5.9	6.6	5.9	4.3	5.7
Cyfanswm CRMF		11.6	11.6	-34.8	-34.8	5.4	5.4	2.0	2.0	--	--
Fframwaith Rheoli Risg ac Arian Parod (CRMF)	Insight	11.6	11.6	-34.8	-34.8	5.4	5.4	2.0	2.0	--	--

Ffynhonnell: Rheolwyr Buddsoddi.

Sylwch: Mae'r ffigurau a ddangosir yn net o ffioedd ac yn seiliedig ar berfformiad a ddarparwyd gan y Rheolwyr Buddsoddi, amcangyfrifon Mercer a Refinitiv. Am gyfnodau dros flwyddyn, mae'r ffigurau yn y tabl uchod wedi'u rhoi fesul blwyddyn.

Sefyllfa Strategaeth Hanesyddol

Dosbarth Asedau	2001 (%)	2004 (%)	2007 (%)	2011 (%)	2015 (%)	2017 (%)	2020 (%)	2023 (%)	Cyfartaledd CPLIL (%)
Ecwitiâu									
Byd-Eang Digyfyngiad	-	-	5.0	5.0	8.0	4.0	5.0	-	
Byd-Eang Datblygedig (Beta Clyfar)	-	-	-	-	-	4.0	-	-	
Byd-Eang Datblygedig (Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethol)	-	-	-	-	-	-	5.0	15.0	
Byd-Eang Alpha Uchel/ Absoliwt	-	-	-	5.0	-	-	-	-	
Gweithredol y DU (Traddodiadol)	35.0	29.0	15.0	-	-	-	-	-	
Gweithredol y DU (Alpha Cludadwy)	10.0	10.0	12.0	-	-	-	-	-	
Gweithredol UDA	7.0	8.0	5.0	-	-	-	-	-	
Gweithredol yn Ewrop (ac eithrio'r DU)	11.0	9.0	6.0	-	-	-	-	-	
Gweithredol Japan	4.0	4.0	4.0	-	-	-	-	-	

Dosbarth Asedau	2001 (%)	2004 (%)	2007 (%)	2011 (%)	2015 (%)	2017 (%)	2020 (%)	2023 (%)	Cyfartaledd CPLIL (%)
Gweithredol y Dwyrain Pell (heb gynnwys y DU)	2.5	3.0	4.0	7.0	-	-	-	-	
Marchnadoedd Newydd Gweithredol	2.5	3.0	4.0	7.0	6.5	6.0	10.0	5.0	
Marchnadoedd Ymylol Gweithredol	-	-	-	-	2.5	-	-	-	
Goddefol Datblygedig	-	-	-	19.0	-	-	-	-	
	72.0	66.0	55.0	43.0	17.0	14.0	20.0	20.0	51.0
Llog Sefydlog									
Bondiau Traddodiadol	10.0	9.5	-	-	-	-	-	-	
Arenillion Uchel/ sy'n Datblygu	1.5	2.0	-	-	-	-	-	-	
Digyfyngiad	-	-	13.0	15.0	15.0	12.0	12.0	12.0	
Credyd Preifat (caeth)	-	-	-	-	-	3.0	3.0	3.0	
Arian Parod / Arall	2.5	0.5	-	-	-	-	-	-	
	14.0	12.0	13.0	15.0	15.0	15.0	15.0	15.0	19.0

Dosbarth Asedau	2001 (%)	2004 (%)	2007 (%)	2011 (%)	2015 (%)	2017 (%)	2020 (%)	2023 (%)	Cyfartaledd CPLIL (%)
Buddsoddiad wedi'i gymell gan rwymedigaeth									
	-	-	-	-	19.0	19.0	23.0	23.0	
Buddsoddiadau amgen									
Eiddo	5.0	7.0	6.5	7.0	7.0	4.0	4.0	4.0	
Isadeiledd	0.5	5.0	1.5	2.0	2.0	6.0	8.0	8.0	
Coed/ Dewisiadau Eraill	-	-	1.5	2.0	2.0	2.0	-	-	
Nwyddau	-	-	2.0	4.0	-	-	-	-	
Ecwiti Preifat a Manteisgar	4.5	4.5	6.5	10.0	10.0	10.0	8.0	8.0	
Lleol / Effaith	-	-	-	-	-	-	4.0	6.0	
Cronfeydd Mantoli o Gronfeydd	4.0	4.0	5.0	5.0	-	-	-	-	
Llwyfan Cyfrif a Reolir gan Gronfeydd Mantoli	-	-	-	-	9.0	9.0	7.0	5.0	
Cronfa Arian Cyfred	-	4.0	4.0	-	-	-	-	-	
Dyraniad Asedau Tactegol (DAT)	-	2.0	5.0	12.0	-	-	-	-	

Dosbarth Asedau	2001 (%)	2004 (%)	2007 (%)	2011 (%)	2015 (%)	2017 (%)	2020 (%)	2023 (%)	Cyfartaledd CPLIL (%)
Dyraniad Tactegol (Twf Amrywiol)	-	-	-	-	10.0	10.0	-	-	
Dyraniad Tactegol (Syniadau Gorau)	-	-	-	-	9.0	11.0	11.0	11.0	
	14.0	22.0	32.0	42.0	49.0	52.0	42.0	42.0	30.0

Buddsoddi cyfrifol

Mae Datganiad Strategaeth Fuddsoddi'r Gronfa yn cynnwys y Polisi Buddsoddi Cyfrifol llawn ac yn cynnwys y dull o Gyfuno Buddsoddiadau, Stiwardiaeth ac Ymgysylltu ac Adrodd a Datgeliad. Mae'r Polisi yn cynnwys credoau Buddsoddi Cyfrifol y Gronfa a chyfres o Egwyddorion. Mae hefyd yn nodi pum Blaenoriaeth Buddsoddi Cyfrifol Strategol allweddol ar gyfer y gwaith yn y maes hwn dros y tair blynedd nesaf.

Mae'r Gronfa wedi parhau i ddatblygu'n sylweddol drwy'r gwaith a gwblhawyd dros y flwyddyn ddiwethaf. Gwnaethpwyd cynnydd ar draws y Blaenoriaethau Buddsoddi Cyfrifol fel y manylir yn Natganiad y Strategaeth Fuddsoddi.

Cytunodd y Pwyllgor ar darged uchelgeisiol ar gyfer y buddsoddiadau yng Nghronfa Bensiynau Clwyd, yn gyffredinol, i sicrhau allyriadau carbon net-sero erbyn 2045, gyda tharged interim o leihau carbon 50% erbyn 2030. Mae'r Gronfa wedi parhau i gyflwyno dyraniadau i fuddsoddiadau marchnad preifat cynaliadwy, mae gan nifer o'r rhain ffocws effaith uniongyrchol, ac mae rhai o'r dyraniadau wedi'u llunio er budd uniongyrchol i'r Gronfa yn yr ardal leol.

Mae'r Pwyllgor wedi derbyn cyfres o sesiynau hyfforddiant dynodedig ar draws ystod o feysydd Buddsoddi Cyfrifol ac mae'r Gronfa'n parhau i gymryd camau i fod mewn lle blaenllaw yn y tirlun Buddsoddi Cyfrifol.

Yn ystod y cyfnod, cyflwynodd y Gronfa ei Adroddiad Stiwardiaeth cyntaf yn llwyddiannus ac ym mis Chwefror 2023 cyflawnodd statws llofnodwr i God Stiwardiaeth DU Cyngor Adroddiadau Ariannol.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, mae Swyddogion y Gronfa gyda chefnogaeth eu hymgyngorydd buddsoddi Mercer, yn gosod fframwaith yn ymwneud â buddsoddi cyfrifol yn benodol, yn canolbwyntio ar feysydd eithrio penodol gan dargedu ecwiti rhestredig. Bydd y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y fframwaith a gweithrediad y fframwaith yn yr adroddiad y flwyddyn nesaf.

Ymgysylltu a Phleidleisio

Mae'r Gronfa yn gofyn bod rheolwyr yn rhoi gwybod sut y gwnaethant bleidleisio ar y cyfranddaliadau a gedwir o fewn eu portffolios. Mae crynodeb o weithgarwch pleidleisio rheolwyr ar gyfer 2022/23 i'w weld yn y tabl canlynol.

Rheolwr/ Cronfa	Blynyddol/ Cyfarfodydd Arbennig	Cynigion	Pleidleisiau o blaid	Pleidleisiau yn erbyn	Pleidleisiau a ymatalwyd	Heb Bleidleisio / Atgyfeirio / Tynnu yn Ôl
Russell Cyfleoedd Byd-eang PPC	539	6,903	5,970	800	58	75

Rheolwr/ Cronfa	Blynyddol/ Cyfarfodydd Arbennig	Cynigion	Pleidleisiau o blaid	Pleidleisiau yn erbyn	Pleidleisiau a ymatalwyd	Heb Bleidleisio / Atgyfeirio / Tynnu yn Ôl
Russell Marchnad oedd Newydd PPC	561	6,128	5,119	915	40	54
Portffolio Syniadau Gorau						
BlackRock Cyfleoedd UDA	96	1,270	1,180	79	1	5
Ninety One Adnoddau Naturiol Byd-eang	53	732	675	40	17	0
LGIM Isadeiledd Rhestredig	86	1,073	817	256	0	0
LGIM Mynegai Ecwiti Gogledd America	676	8,543	5,587	2,952	5	0
LGIM Ecwiti y Byd ac Ewrop yn y Dyfodol (ac eithrio'r DU)	431	7,617	6,265	1,319	33	0
LGIM Bondiau arenillion uchel	3	14	12	2	0	0

Ffynhonnell: Rheolwyr Buddsoddi.

Sylwch: Nid oes gan Gronfa Hylifedd Sterling LGIM na Mynegai Nwyddau LGIM ddata pleidleisio. Mae'n bosibl na fydd ffigurau'n symio gan eu bod wedi cael eu talgrynnu.

Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Buddsoddi Cyfrifol

Mae'r Gronfa'n ymgysylltu â phob rheolwr asedau i sicrhau eu bod yn llwyr ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cynaliadwyedd, ac un ffordd y gall y diwydiant rheoli cronfeydd ddangos ei fod o ddifrif am ei gyfrifoldebau yw ymrwymo i Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig (UN PRI). Mae gofyn i gwmnïau sydd wedi ymrwymo i UN PRI ymrwymo i chwech o egwyddorion yn hyrwyddo ac yn cynnwys egwyddorion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG) ym mhob agwedd o'u gwaith. Mae rheolwyr asedau sylweddol y Gronfa i gyd wedi ymrwymo i UN PRI. Er mwyn cwblhau, ni ystyrir Russell yn rheolwr uniongyrchol o asedau gan fod y cwmni'n rheoli portffolio o reolwyr buddsoddiad gwaelodol. Anogir y rheolwyr buddsoddiad gwaelodol hyn i ymrwymo i UN PRI.

Daliadau Marchnad Breifat

Mae crynodeb o'r holl ddaliadau marchnad breifat ym mhob mandad wedi'i nodi ymhellach ymlaen.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaed yr ymrwymïadau canlynol i gronfeydd lleol / effaith neu gynaliadwy:

Rheolwr Marchnad Breifat	Enw'r Gronfa	Cyfalaf a Fuddsoddwyd (£miliwn)	Disgrifiad o'r Buddsoddiad
Capital Dynamics	Clwyd Clean Energy Wales	50	Cyfrif a Reolir Ar Wahân sy'n buddsoddi'n uniongyrchol mewn prosiectau yng Nghymru, gan ddarparu capasiti ynni glân a gwrthbwyso allyriadau carbon.
Copenhagen Infrastructure	Energy Transition Fund I	17	Bydd yr Energy Transition Fund yn Gronfa Erthygl 9 o dan Reoliad Datganiad Cyllid Cynaliadwy. Mae'r Gronfa'n buddsoddi mewn electroleiddwyr, ffatrioedd amonia, yn ogystal â chynhyrchu pŵer adnewyddadwy cenhedlaeth gyntaf megis gwynt a solar i gynhyrchu hydrogen gwyrdd, amonia ac eMethanol.
Activate Capital Partners	Activate Capital II	11	Bydd y gronfa'n gwneud buddsoddiadau cyfalaf menter ac ecwiti twf mewn cwmnïau sy'n darparu cynnyrch technoleg, gwasanaethau a datrysiadau sy'n galluogi datblygiad ynni, symudedd clyfar a digideiddio diwydiannol.

Rheolwr Marchnad Breifat	Enw'r Gronfa	Cyfalaf a Fuddsoddwyd (£miliwn)	Disgrifiad o'r Buddsoddiad
ECI Partners	ECI 12	20	Yn Gronfa Erthygl 8 dan y Rheoliad Datganiad Cyllid Cynaliadwy. Bydd y Gronfa'n buddsoddi mewn is-adrannau lle bo gan y Cwmni brofiad cadarn; gan gynnwys; Yswiriant, Data a Dadansoddi, Cydymffurfiaeth, Teithio, gwasanaethau SME, Rhyngwryd y Pethau, Llwyfannau Digidol, HCM, Gwasanaethau Cwmwl a Digidol a Gofal Iechyd Digidol.
Newcore	Strategic Situations Fund V	15	Mae'r Gronfa yn arbenigwr eiddo tirol bach, annibynnol yn y DU, yn canolbwyntio ar fuddsoddiadau isadeiledd cymdeithasol. Mae'n cael ei gyfrif fel Buddsoddwr Cynaliadwy, gan olygu bod canolbwynt cryf ar gynaliadwyedd.
Sandbrook Capital	Climate Infrastructure Fund I	17	Mae'r Gronfa'n canolbwyntio ar gyfleoedd tir glas a thir llwyd ar draws pum sector craidd: cynhyrchu ynni glân, trosglwyddo a storio, defnydd ynni ac effeithlonrwydd, cadwyni cyflenwi carbon isel a gwasanaethau carbon isel.

Sylwch: Lle bo'n briodol, mae symiau ymrwymiad mewn Ewro (€) a Doleri'r UDA (\$) wedi'u trosi i symiau ymrwymiad mewn Sterling (£) gan ddefnyddio'r cyfraddau trosi ar adeg cyflawni'r ymrwymiad.

Hefyd fe ymgysylltodd y Gronfa gyda 'The Good Economy' (TGE) i asesu effaith gymdeithasol buddsoddiadau marchnad breifat y Gronfa. Gan ddefnyddio Fframwaith Adrodd ar Effaith yn Seiliedig ar Le y TGE, mae TGE wedi mapio a dosbarthu cyfraniadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i ddatblygiad economaidd cynhwysol y mae portffolio buddsoddiadau'r Gronfa yn eu gwneud. Bydd hyn yn caniatáu i'r Gronfa rannu'r effaith gymdeithasol yn eglur ac effeithiol gyda budd-ddeiliaid y Gronfa.

Mae crynodeb o uchafbwyntiau allweddol yr adroddiad isod:

- 19.7% o bortffolio Effaith ac yn Seiliedig ar Le y Gronfa wedi'i fuddsoddi yng Nghymru.
- Mae 86 o fusnesau bach a chanolig wedi'u cefnogi drwy gyllid ecwiti neu ddyled ers 2013, 20 o'r rhain yng Nghymru.
- Mae dros 13,400 o bobl wedi'u cyflogi ac o leiaf 1,800 o swyddi wedi'u creu yn y busnesau hyn yn ystod cyfnod buddsoddi'r Gronfa (11% o'r swyddi a 12% o'r swyddi sydd wedi'u creu yng Nghymru)

- Mae 3,369 o gartrefi newydd wedi'u datblygu mewn ardaloedd lle bo angen cartrefi am bris is, 27% o'r rhain yn dai fforddiadwy.
- Mae 34 cyfleuster addysgol wedi'u caffael, gan greu 2700 o leodd ychwanegol i blant (85% lleoedd meithrin, 10% AAA, 5% lleoedd ysgol annibynnol).
- £50 miliwn wedi'i ymrwymo i ddatblygu ynni glân yng Nghymru yn dechrau cael ei gyflwyno yn 2023.

Mae rhagor o wybodaeth ac enghreifftiau o sut mae'r buddsoddiadau'n cefnogi Cymru a'r DU wedi'i fanylu'n llawn yn yr adroddiad a fydd ar gael ar [wefan y Gronfa](#).

Dosbarth Asedau	Nifer y Cronfeydd
Daliadau Eiddo Penagored	5
Schroders	1
Hermes	1
LAMIT	1
Legal & General	1
BlackRock	1
Daliadau Eiddo Caeedig	21
Aberdeen Property Asia Select	1
Basecamp	1
BlackRock European Feeder	2
BlackRock US Residential	1
Darwin Leisure Property	2
Franklin Templeton	1
InfraRed Active Property	3
Newcore	2
North Haven Global Real Estate	3
Paloma Real Estate	2
Partners Group Global Real Estate	2
Threadneedle	1
Coed	4
BGT Pactual Timberland	1
Stafford Timberland	3

Dosbarth Asedau	Nifer y Cronfeydd
Amaethyddiaeth	2
Insight Global Farmland	1
GMO	1
Isadeiledd	21
Access Capital Infrastructure	1
Arcus European Infrastructure	1
Brookfield	1
Carlyle Global Infrastructure	1
Copenhagen Infrastructure Partners	1
GSAM West Street Infrastructure	1
HarbourVest Real Assets	1
Hermes Infrastructure	1
InfraRed	3
Infravia	1
Innisfree	1
JP Morgan Infrastructure	1
Marine Capital	1
North Haven Global Infrastructure	3
Pantheon	1
Partners Group Direct Infrastructure	1

Dosbarth Asedau	Nifer y Cronfeydd
Ecwiti Preifat – Cronfeydd Uniongyrchol	29
Access Capital	1
Activate	1
Apax	5
Astorg	1
August Equity	3
Capital Dynamics	3
Carlyle Group	1
Charterhouse	2
Dyal Capital Partners	1
ECI	2
FSN	1
Livingbridge	1
Marquee	1
North Haven	1
Oakley	1
Partners Direct	2
Permira	1
Unigestion	1
Ecwiti Preifat - Cronfa o Gronfeydd	31
Access Capital	4
Capital Dynamics	7
HarbourVest	5
JP Morgan Secondary's	1
Partners Group	10
Standard Life	2
Unigestion	2

Dosbarth Asedau	Nifer y Cronfeydd
Lleol / Effaith	22
Aviva	1
Bridges	6
Circularity	1
Banc Datblygu Cymru	1
Environmental Technologies	3
Fairfax	1
Foresight	2
Generation	1
Harbour Vest	1
Hermes	1
Impax	2
Infrared	1
Partners Group	1
Dyledion Preifat	9
BlackRock	1
Bridgepoint	1
Carlyle Group	3
Neuberger Berman	2
Permira	1
Pinebridge	1

Atodiad 7: Cyfrifon Cronfa Bensiynau Clwyd am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

Cyfrif Y Gronfa

2021/22 £000		Nodyn	2022/23 £000
	Ymwneud ag aelodau, cyflogwyr ac eraill sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r Gronfa		
(85,253)	Cyfraniadau	7	(92,123)
(6,956)	Trosglwyddiadau i mewn	8	(6,244)
(92,209)			(98,367)
	Buddion sy'n daladwy:		
66,875	Pensiynau	9	70,631
14,572	Cyfandaliadau (ymddeoliad)		14,354
2,251	Cyfandaliadau (grantiau marwolaeth)		2,913
83,698			87,898
4,456	Taliadau i ac oherwydd ymadawyr	10	5,972
88,154			93,870
(4,055)	(ychwanegiadau)/alldyniadau net yn sgil ymwneud ag aelodau		(4,497)
25,766	Treuliau rheoli	11	28,701
21,711	(ychwanegiadau)/alldyniadau net yn cynnwys treuliau rheoli'r gronfa		24,204
	Enillion ar Fuddsoddiadau		
(23,589)	Incwm Buddsoddi	12	(34,269)
(262,709)	Newid yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad	13A	198,262
(286,298)	Enillion net ar fuddsoddiadau		163,993
(264,587)	(Cynnydd)/gostyngiad net yn yr asedau net sydd ar gael ar gyfer buddion yn ystod y flwyddyn		188,197
(2,226,208)	Asedau net agoriadol y gronfa		(2,490,795)
(2,490,795)	Asedau net terfynol y gronfa		(2,302,598)

Datganiad Asedau Net

2021/22 £000 Ailddatganwyd		Nodyn	2022/23 £000
2,406,125	Asedau Buddsoddi	13	2,199,900
2,406,125	Asedau Buddsoddi Net		2,199,900
294	Dyledwyr hirdymor	19	378
6,962	Dyledwyr dyledus o fewn 12 mis	19	6,624
(2,231)	Credydwyr	20	(2,585)
79,645	Arian yn y Banc		98,281
2,490,795	Asedau net y gronfa sydd ar gael i ariannu buddion ar ddiwedd y cyfnod adrodd		2,302,598

Mae ailddatganiadau wedi eu gwneud i gywiro dosbarthiad y balansau yng nghyfrif cyfredol y Gronfa Bensiynau.

Sylwer: Nid yw datganiadau ariannol y Gronfa'n ystyried rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion eraill ar ôl diwedd y cyfnod. Mae gwerth actiwaraidd presennol y buddion ymddeol a addawyd i'w weld yn adroddiad yr actiwari (Nodyn 25).

Nodiadau Cyfrifon Cronfa Bensiynau Clwyd am y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2023

Nodyn 1: Disgrifiad o'r Gronfa

Cyffredinol

Mae Cronfa Bensiynau Clwyd (y Gronfa) yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) ac mae'n cael ei weinyddu gan Gyngor Sir y Fflint. Y Cyngor Sir yw'r endid adrodd ar gyfer y gronfa.

Llywodraethir y CPLIL gan Ddeddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 a'r ddeddfwriaeth eilaidd ganlynol:

- Rheoliadau CPLIL 2013 fel y'u diwygiwyd;
- Rheoliadau CPLIL (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Diwygio) 2014, fel y'u diwygiwyd; a
- Rheoliadau CPLIL (Rheoli a Buddsoddi Arian) 2016.

Mae'r CPLIL yn gynllun diffiniedig cyfrannol sy'n darparu pensiynau a buddion eraill i weithwyr a chyn-weithwyr Cyngor Sir y Fflint a'r cyrff eraill yng Ngogledd Ddwyrain Cymru sydd wedi eu rhestru ac wedi eu derbyn i fod yn rhan o'r cynllun. Nid yw athrawon, swyddogion heddlu a diffoddwyr tân wedi eu cynnwys oherwydd eu bod wedi eu cynnwys mewn cynlluniau pensiwn cenedlaethol eraill. Caiff y Gronfa ei goruchwyllo gan Bwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd, sy'n un o bwyllgorau Cyngor Sir y Fflint.

Paratowyd y cyfrifon yn unol â gofynion y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol 2020/21 sy'n seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Aelodaeth

Mae aelodaeth o'r CPLIL yn wirfoddol ac mae gweithwyr yn rhydd i ddewis ymuno â'r cynllun neu beidio, aros yn y cynllun neu wneud eu trefniadau personol eu hunain y tu allan i'r cynllun. Mae'r sefydliadau sy'n cymryd rhan yn y Gronfa yn cynnwys:

- Cyrff rhestredig, sy'n awdurdodau lleol a chyrff tebyg y mae eu staff yn gymwys yn awtomatig i fod yn aelodau o'r Gronfa.
- Cyrff a dderbyniwyd, sy'n sefydliadau sy'n cyfrannu at y Gronfa o dan delerau cytundeb mynediad rhwng y Gronfa a'r sefydliad perthnasol. Mae'r cyrff a dderbyniwyd yn cynnwys cyrff gwirfoddol, elusennol a'u tebyg neu gontractwyr preifat sy'n ymgymryd â swyddogaeth awdurdod lleol drwy gontract gyda'r sector preifat.

Nodir manylion aelodaeth mewn mwy o fanylder isod:

2021/22		2022/23
Nifer		Nifer
52	Nifer o gyflogwyr gydag aelodau gweithredol	52
	Nifer y gweithwyr yn y cynllun	
5,552	Cyngor Sir y Fflint	5,440
11,521	Cyflogwyr eraill	12,231
17,073	Cyfanswm	17,671
	Nifer y pensiynwyr	
4,234	Cyngor Sir y Fflint	4,473
10,300	Cyflogwyr eraill	10,678
14,534	Cyfanswm	15,151
	Pensiynwyr gohiriedig	
5,525	Cyngor Sir y Fflint	5,703
12,363	Cyflogwyr eraill	12,721
17,888	Cyfanswm	18,424
49,495	Cyfanswm y gweithwyr	51,246

Cyllid

Ariennir buddion gan gyfraniadau ac enillion buddsoddiadau. Gwneir cyfraniadau gan aelodau gweithredol yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013, fel y'u diwygiwyd, ac maent yn amrywio o 5.5% i 12.5% o gyflog pensiynadwy ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2023. Mae cyflogwyr hefyd yn talu cyfraniadau i'r Gronfa yn seiliedig ar brisiadau cyllido teirblynyddol. Gwnaed y prisiad diwethaf ar 31 Mawrth 2022, a daeth ei ganfyddiadau i rym ar 1 Ebrill 2023. Roedd cyfraddau cyfraniadau cyflogwr tuag at fuddion a gronnir yn y dyfodol ar gyfer y flwyddyn hyd at Fawrth 2023 yn amrywio o 11.5% i 29.4% o gyflog pensiynadwy. O Ebrill 2023 mae'r cyfraddau yn amrywio o 10.5% i 33.1% o gyflog pensiynadwy.

Buddion

Cyn 1 Ebrill 2014, roedd buddion pensiwn o dan y CPLIL yn seiliedig ar dâl pensiynadwy terfynol a hyd gwasanaeth. O 1 Ebrill 2014 ymlaen, daeth y CPLIL yn gynllun cyfartaledd gyrfa, gydag aelodau'n cronni buddion yn seiliedig ar eu tâl pensiynadwy yn y flwyddyn honno ar gyfradd gronni o 1/49. Caiff pensiwn cronedig ei uwchraddio'n flynyddol yn unol a'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Mae'r cynllun yn cynnig amrywiaeth o fuddiannau eraill, yn cynnwys ymddeoliad cynnar, pensiynau anabledd a budd-dâl marwolaeth, fel y nodir ar wefan y CPLIL, gweler

www.lgpsmember.org

Yn ychwanegol at hynny, mae'r Gronfa'n cynnig cynllun cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (CGY) ar gyfer ei haelodau, gydag asedau'r cyfraniadau hynny'n cael eu buddsoddi ar wahân i'r Gronfa. Mae'r Gronfa'n defnyddio Prudential and Utmost (Equitable Life gynt) fel ei darparwyr CGY. Telir

CGYau i'r darparwyr CGY gan gyflogwyr ac maent yn rhoi buddion ychwanegol i gyfranwyr unigol.

Nodyn 2: Sail Paratoi

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Gronfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 a'i sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2023. Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022/23 sy'n seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), fel y'u diwygiwyd ar gyfer sector cyhoeddus y DU.

Mae'r cyfrifon yn adrodd am yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion pensiwn. Nid yw'r cyfrifon yn rhoi ystyriaeth i rwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion sy'n ddyledus ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r Cod yn rhoi opsiwn i'r awdurdodau sy'n gweinyddu i ddatgelu'r wybodaeth hon yn y datganiad asedau net, yn y nodiadau ynglŷn â'r cyfrifon neu drwy atodi adroddiad actiwaraid a baratoir at y diben hwn. Mae'r Gronfa wedi dewis datgelu'r wybodaeth hon yn Nodyn 25.

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol.

Mae paragraff 3.3.1.2 y Cod yn dweud y dylid datgelu unrhyw safonau cyfrifyddu a gyflwynwyd ond nas mabwysiadwyd eto. Mae'r Cod wedi cyflwyno'r newidiadau, y diwygiadau a'r dehongliadau a ganlyn i'r safonau presennol:

- Diffiniad o Fusnes: Newidiadau i SAARh 3 Cyfuniadau Busnes
- Diwygio Meincnod Cyfraddau Llog: Newidiadau i SAARh 9, SCRh 39 a SAARh 7
- Diwygio Meincnod Cyfraddau Llog Cam 2: Newidiadau i SAARh 9, SCRh 39, SAARh 7, SAARh 4 a SAARh 16
- Lesoedd SAARh 16: bydd gofyn i awdurdodau lleol sy'n lesddeiliaid gydnabod y rhan fwyaf o lesoedd ar eu mantolen fel asedau y mae hawl i'w defnyddio, gyda rhwymedigaethau les cyfatebol (mae cydnabyddiaeth ar gyfer lesoedd gwerth isel a byrdymor). Mae CIPFA/LASAAC wedi gohirio gweithredu SAARh 16 gyfer llywodraeth leol tan fis Ebrill 2024.

Roedd y newidiadau hyn yn orfodol ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu'r Gronfa sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2021 neu gyfnodau diweddarach ac efallai y bydd angen gwneud newidiadau i bolisiau cyfrifo yng nghyfrifon y dyfodol. Ni ddisgwylir iddynt gael effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol y gronfa.

Nodyn 3: Crynodeb O Bolisiau Cyfrifo Sylweddol

I grynhoi, mae'r polisiau cyfrifo a fabwysiadwyd wedi eu nodi fel a ganlyn:

Cyfrif y Gronfa: Cydnabod refeniw Incwm cyfraniadau

Rhoddir cyfrif am gyfraniadau arferol ar sail croniadau fel a ganlyn:

- Gosodir cyfraddau cyfraniadau gan weithwyr yn unol â rheoliadau'r CPLIL, gan ddefnyddio cyfraddau canrannau cyffredin ar gyfer pob cynllun sy'n codi yn unol â chyflog pensiynadwy.

- Gosodir cyfraniadau gan gyflogwyr ar y gyfradd canrannau a argymhellir gan actiwari'r Gronfa ar gyfer y cyfnod y maent yn berthnasol iddo.

Rhoddir cyfrif am gyfraniadau cyllido diffyg cyflogwyr ar y sail a argymhellir gan actiwari'r Gronfa yn y dystysgrif cyfraddau a newidiadau a roddir i'r corff cyflogi perthnasol. Rhoddir cyfrif am gyfraniadau ychwanegol y cyflogwr mewn perthynas â salwch ac ymddeoliadau cynnar yn y flwyddyn y cododd y digwyddiad. Bydd unrhyw swm sy'n ddyledus ond heb ei dalu yn cael ei ystyried yn ased ariannol cyfredol. Bydd symiau nad ydynt yn ddyledus tan flynyddoedd sydd i ddod yn cael eu hystyried yn asedau ariannol hirdymor.

Trosglwyddiadau i mewn ac allan o gynlluniau eraill

Mae trosglwyddiadau i mewn ac allan yn ymwneud ag aelodau sydd naill ai wedi ymuno â'r Gronfa, neu ymadael â hi.

Rhoddir cyfrif am drosglwyddiadau i mewn / allan wrth dderbyn neu dalu. Rhoddir cyfrif am drosglwyddiadau i mewn gan aelodau sy'n dymuno defnyddio enillion eu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (gweler isod) i brynu buddion y cynllun ar sail derbynebaw ac maent wedi eu cynnwys yn y trosglwyddiadau i mewn (Nodyn 8).

Rhoddir cyfrif am drosglwyddiadau swmpus (grŵp) yn unol â thelerau'r cytundeb trosglwyddo.

Incwm Buddsoddi

- Cydnabyddir incwm llog yng Nghyfrif y Gronfa wrth iddo gronni, gan ddefnyddio cyfradd llog effeithiol yr offeryn ariannol ar y dyddiad derbyn neu gychwyn.
- Cydnabyddir incwm difidend ar y dyddiad y dyfynnir y cyfranddaliadau cyn difidend. Datgelir unrhyw swm na dderbynnir erbyn diwedd y cyfnod adrodd yn y datganiad asedau net fel ased ariannol cyfredol.
- Cydnabyddir dosraniadau o gronfeydd wedi eu cronni ar y dyddiad cyhoeddi. Datgelir unrhyw swm na dderbynnir erbyn diwedd y cyfnod adrodd yn y datganiad asedau net fel ased ariannol cyfredol.
- Cydnabyddir newidiadau yng ngwerth buddsoddiadau (yn cynnwys eiddo buddsoddi) fel incwm ac maent yn cynnwys pob elw/colled sylweddol ac ansylweddol yn ystod y flwyddyn.

Cyfrif y gronfa: eitemau traul

Buddion sy'n daladwy

Mae'r pensiynau a'r buddion lwmp-swm sy'n daladwy yn cynnwys pob swm y gwyddys ei fod yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Rhoddir cyfrif am gyfandaliadau yn y cyfnod y daw'r aelod yn bensiynwr. Datgelir unrhyw symiau sy'n ddyledus ond sydd heb eu talu yn y Datganiad Asedau Net fel rhwymedigaethau cyfredol.

Treuliau rheoli

Mae'r Gronfa'n datgelu ei threuliau rheoli yn unol â chanllawiau Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), Cyfrifyddiaeth ar gyfer Treuliau Rheoli Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (2016). Codir pob eitem gwariant ar y Gronfa ar sail croniadau.

Codir holl gostau staff yn ymwneud â threuliau gweinyddu yn uniongyrchol ar y Gronfa, a dosberthir costau rheoli, llety a gwasanaethau cefnogi eraill i'r Gronfa yn unol â pholisi'r Cyngor.

Caiff yr holl gostau sy'n gysylltiedig â llywodraethu a goruchwyllo eu hadnabod ar wahân, eu dosbarthu i'r gweithgarwch hwn a'u codi fel treuliau ar y Gronfa. Mae treuliau rheoli buddsoddiadau yn cynnwys y ffioedd a dalwyd ac sy'n ddyledus i reolwyr y gronfa a ffioedd y ceidwad, ffioedd actiwaraidd, a ffioedd rheoli perfformiad ac ymgynghori ynghylch buddsoddiadau. Lle mae ffioedd yn cael eu debydu oddi ar brisiadau chwarterol gan reolwyr buddsoddiadau, cynhwysir y treuliau hyn yn nodyn 11A a'u grosio er mwyn cynyddu'r newid yng ngwerth buddsoddiadau.

Lle mae'r Gronfa wedi buddsoddi mewn trefniadau Cronfa o Gronfeydd a bod ffioedd tanategol yn cael eu hennyn, ni chydabyddir y rhain yng nghyfrifon y Gronfa, yn unol â chanllawiau gan CIPFA. Gellir gweld manylion ffioedd tanategol yn Adroddiad Blyneddol y Gronfa.

Trethiant

Mae'r Gronfa'n gynllun gwasanaeth cyhoeddus cofrestredig o dan Adran 1(1) Atodlen 36 Deddf Cyllid 2004 ac o'r herwydd mae wedi'i heithrio rhag treth incwm y DU ar log a dderbynnir a rhag treth ar enillion cyfalaf ar enillion y buddsoddiadau a werthir. Mae incwm o fuddsoddiadau tramor yn destun treth ataliedig yng ngwlad y tarddiad, oni bai bod eithriad wedi ei ganiatáu. Rhoddir cyfrif am dreth anadferadwy fel un o dreuliau'r gronfa wrth iddo godi.

Gan mai Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu'r Gronfa, mae TAW wrth brynu yn adferadwy o holl weithgareddau'r Gronfa, yn cynnwys gwariant ar dreuliau buddsoddi.

Datganiad Asedau Net

Asedau Ariannol

Cynhwysir yr asedau buddsoddi i gyd yn y datganiadau ariannol ar sail gwerth teg fel y maent ar y dyddiad adrodd. Cydnabyddir ased ariannol yn y Datganiad Asedau Net ar y dyddiad y daw'r Gronfa'n barti i gaffael yr ased fel rhan o gontract. O'r dyddiad hwn cydnabyddir unrhyw enillion neu golledion sy'n codi o newidiadau yng ngwerth teg yr ased yng Nghyfrif y Gronfa. Rhoddir cyfrif am unrhyw symiau sy'n ddyledus neu'n daladwy mewn perthynas â busnes yr ymgwymerwyd ag ef ond nad yw wedi ei gwblhau ar 31 Mawrth bob blwyddyn fel offerynnau ariannol a ddelir ar gost wedi ei hamorteiddio ac adlewyrchir hynny wrth gysoni symudiadau mewn buddsoddiadau a deilliadau yn Nodyn 13A. Cydnabyddir newidiadau yng ngwerth net buddsoddiadau ar y farchnad fel incwm ac maent yn cynnwys pob elw/colled sylweddolig ac ansylweddolig yn ystod y flwyddyn.

Mae gwerth buddsoddiadau fel y'u dangosir yn y Datganiad Asedau Net wedi eu pennu ar werth teg yn unol â gofynion y Cod ac IFRS13 (gweler Nodyn 15). At ddibenion lefelau datgelu hierarchaeth gwerth teg, mae'r Gronfa wedi mabwysiadu'r canllawiau dosbarthu a argymhellir yn Practical Guidance on Investment Disclosures (PRAG/Investment Association, 2016).

Gweithrediadau masnachol mewn arian cyfredol tramor

Rhoddwyd cyfrif am ddifidendau, llog, a phwrcasu a gwerthu buddsoddiadau mewn arian cyfredol tramor gan ddefnyddio cyfraddau'r farchnad ar y pryd ar ddyddiad y gweithrediad. Defnyddir cyfraddau cyfnewid y farchnad ar ddiwedd blwyddyn i brisio balansau arian parod a ddelir mewn cyfrifon banc sy'n defnyddio arian cyfredol tramor, a gwerth y farchnad ar gyfer buddsoddiadau a phryniannau a gwerthiannau sydd heb eu setlo ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

Arian parod a chywerthoedd arian parod

Mae arian parod yn cynnwys arian mewn llaw ac adnau hawlio ac yn cynnwys symiau a gedwir gan reolwyr allanol y gronfa. Mae pob balans arian parod yn fuddsoddiadau hynod hylifol, byrdymor, sy'n hawdd eu cyfnewid am symiau hysbys o arian parod gyda risg ansylweddol o unrhyw newid yn eu gwerth.

Rhwymedigaethau ariannol

Cydnabyddir rhwymedigaethau ariannol yn ôl eu gwerth teg ar y dyddiad y daw'r Gronfa'n gyfrifol yn gyfreithiol am y rhwymedigaeth. O'r dyddiad hwn ymlaen cydnabyddir unrhyw enillion neu golledion sy'n codi o newidiadau yng ngwerth teg y rhwymedigaeth gan y Gronfa fel rhan o'r newid yng ngwerth buddsoddiadau.

Gwerth presennol actiwaraid buddion ymddeol a addawyd at y dyfodol

Asesir gwerth actiwaraid buddion ymddeol a addawyd at y dyfodol ar sail teirblynyddol gan actiwari'r gronfa yn unol â gofynion y Cod ac IAS 26. Fel a ganiateir o dan y Cod, mae'r Gronfa wedi dewis datgelu gwerth presennol actiwaraid y buddion ymddeol a addawyd mewn adroddiad gan yr actiwari (nodyn 25).

Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY)

Mae'r Gronfa'n cynnig cynllun cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (CGY) ar gyfer ei haelodau, gydag asedau'r cyfraniadau hynny'n cael eu buddsoddi ar wahân i rai'r Gronfa. Ni chynhwysir CGY yn y cyfrifon, yn unol â Rheoliad 4(1)(b) Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoliadau Rheoli a Buddsoddi Arian 2016), ond yn hytrach fe'u datgelir fel nodyn yn unig (gweler Nodyn 21).

Nodyn 4: Dyfarniadau Beirniadol Wrth Gymhwyso Polisiâu cyfrifo

Rhwymedigaeth y gronfa bensiynau

Ailgyfrifir rhwymedigaeth net y gronfa bensiynau bob tair blynedd gan yr actiwari penodedig, gyda diweddariadau blynyddol yn y blynyddoedd yn y cyfamser. Mae'r fethodoleg a ddefnyddir yn unol â'r canllawiau a dderbyniwyd. Mae'r amcangyfrif hwn yn gallu amrywio'n sylweddol ar sail newidiadau i'r rhagdybiaethau tanategol, a chytunir ar y rhain gyda'r actiwari ac fe'u nodi yn adroddiad yr actiwari ar ddiwedd y cyfrifon hyn. Defnyddir yr ailwerthusiadau actiwaraid hyn er mwyn gosod y cyfraddau cyfrannu at y dyfodol ac er mwyn bod yn sail i bolisiâu rheoli buddsoddiadau mwyaf arwyddocaol y Gronfa, er enghraifft yn nhermau'r cydbwysedd rhwng twf buddsoddiadau hirdymor ac arenillion/derbyniadau byrdymor.

Nodyn 5: Rhagdybiaethau Ynghylch Y Dyfodol A Ffynonellau Ansicrwydd Eraill

Fel rhan o'r gwaith o baratoi datganiadau ariannol mae'n rhaid i reolwyr wneud penderfyniadau, amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar y symiau a nodir. Mae amcangyfrifon a rhagdybiaethau'n cymryd profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a disgwyliadau ynghylch y dyfodol i ystyriaeth. Fodd bynnag, gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon. Mae'r eitemau yn y Datganiad Asedau Net ar 31 Mawrth 2023, y mae perygl mawr y byddant yn newid yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod, fel a ganlyn.

Eitem	Ansicrwydd	Effaith os bydd y canlyniadau gwirioneddol yn wahanol i'r rhagdybiaethau
Gwerth presennol actiwaraidd buddiannau ymddeol a addawyd	Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaeth net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â'r gyfradd gostyngiad a ddefnyddir, y gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau'n codi, newidiadau mewn oedranau ymddeol, cyfraddau marw a'r adenillion disgwylidig ar asedau'r gronfa pensiynau. Mae cwmni o actiwariaid ymgynghorol yn ymgymryd â'r gwaith o ddarparu cyngor arbenigol ynglŷn â'r rhagdybiaethau y dylid eu cymhwyso.	Gellir mesur yr effeithiau ar rwymedigaeth pensiwn net y newidiadau mewn gwerth asedau a rhagdybiaethau unigol. Er enghraifft, byddai gostyngiad o 10% yng ngwerth asedau wedi gostwng lefel gyllido prisiadau 2022 o 105% i 95% fel ar 31 Mawrth 2022. Byddai gostyngiad o 0.25% y flwyddyn yn y gyfradd ostyngiad, ar ei ben ei hun, wedi gostwng y lefel gyllido i 101% (byddai cynnydd o 0.25% y flwyddyn mewn chwyddiant rhagdybiedig ar ei ben ei hun wedi cael effaith debyg). Byddai cyfuniad o'r newidiadau i'r asedau a'r gyfradd ostyngiad wedi gostwng y lefel gyllido i 91%.
Gwerth buddsoddiadau ar lefel 3	Mae'r Gronfa'n cynnwys buddsoddiadau mewn ecwiti preifat, cronfeydd mantoli a chronfeydd wedi'u cronni sy'n cynnwys eiddo, isadeiledd, coed ac amaethyddiaeth, a ddosberthir o fewn y datganiadau ariannol fel buddsoddiadau lefel 3 yn nodyn 15 y cyfrifon hyn. Amcangyfrifir gwerth teg y buddsoddiadau hyn gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau sy'n cynnwys peth hyblygrwydd o gylch y gwerthoedd a nodwyd yn y Datganiad Asedau Net.	Mae Nodyn 15 yn crynhoi'r technegau a ddefnyddiwyd, y sensitifeddau allweddol sy'n tanategu'r prisiadau a'r sensitifedd neu'r hyblygrwydd o gylch y prisiadau a adroddir.

Nodyn 6: Digwyddiadau Sy'n Dilyn Y Fantolen

Mae'r cyfrifon a amlinellir yn y datganiad yn cyflwyno sefyllfa ariannol Cronfa Bensiynau Clwyd ar 31 Mawrth 2023. Gall perfformiad marchnadoedd ariannol y byd ers y dyddiad hwn fod wedi effeithio ar werth ariannol buddsoddiadau y gronfa pensiynau fel y maent wedi eu nodi yn y Datganiad Asedau Net, ond nid yw'n effeithio ar allu'r Gronfa i dalu ei phensiynwyr.

Nodyn 7: Dadansoddiad O'r Cryfraniadau Derbyniadwy

Yn ôl cyflogwr

2021/22 £000		2022/23 £000
(28,080)	Awdurdod Gweinyddol: Cyngor Sir y Fflint	(30,101)
(52,973)	Cyrff rhestredig	(57,964)
(4,200)	Cyrff a dderbyniwyd	(4,058)
(85,253)	Cyfanswm	(92,123)

Yn ôl math

2021/22 £000		2022/23 £000
(18,250)	Cyfraniadau gweithwyr	(20,006)
	Cyfraniadau cyflogwyr:	
(51,918)	Cyfraniadau arferol	(56,795)
(14,378)	Cyfraniadau adfer diffyg	(14,770)
(707)	Cyfraniadau ychwanegol	(552)
(67,003)	Cyfanswm cyfraniadau cyflogwyr	(72,117)
(85,253)	Cyfanswm cyfraniadau	(92,123)

Nodyn 8: Trosglwyddiadau O Gronfeydd Pensiwn Erail

2021/22 £000		2022/23 £000
(6,956)	Trosglwyddiadau unigol	(6,244)
(6,956)	Cyfanswm	(6,244)

Nodyn 9: Buddion Taladwy

Yn ôl cyflogwr

2021/22 £000		2022/23 £000
29,132	Awdurdod Gweinyddol: Cyngor Sir y Fflint	29,631
52,662	Cyrff rhestredig	56,439
1,904	Cyrff a dderbyniwyd	1,828
83,698		87,898

Yn ôl math

2021/22 £000		2022/23 £000
66,875	Pensiynau	70,631
14,572	Cyfnewidiadau a chyfandaliadau buddion ymddeol	14,354
2,251	Cyfandaliadau buddion marwolaeth	2,913
83,698		87,898

Nodyn 10: Taliadau I Ac Oherwydd Ymadawyr

2021/22 £000		2022/23 £000
4,054	Trosglwyddiadau unigol	5,543
220	Ad-daliadau i aelodau'n gadael y gwasanaeth	328
182	Arall	101
4,456	Cyfanswm	5,972

Nodyn 11: Treuliau Rheoli

2021/22 £000		2022/23 £000
2,242	Costau gweinyddu	2,467
20,595	Treuliau rheoli buddsoddiadau	22,386
2,929	Costau goruchwyllo a llywodraethu	3,848
25,766	Cyfanswm	28,701

Mae'r costau Goruchwyllo a Llywodraethu yn cynnwys y ffioedd sy'n daladwy i Archwilio Cymru am archwiliad allanol y Gronfa o £47k ar gyfer 2022/23 (£41k yn 2021/22).

Nodyn 11A: Treuliau Rheoli Buddsoddiadau

2022/23	Ffioedd Rheoli	Ffioedd sy'n berthnasol i berfformiad	Costau Gweithrediadau	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000
Asedau Buddsoddi				
Cyllid wedi'i Gronni	3,177	0	1,003	4,180
Buddsoddiadau eraill				
Buddsoddiadau eiddo wedi'u cronni	2,015	792	196	3,003
Cronfeydd ecwiti preifat a chydfentrau	4,489	1,854	106	6,449
Cronfeydd isadeiledd	3,055	631	81	3,767
Coed ac Amaethyddiaeth	148	0	0	148
Dyledion Preifat	1,111	160	100	1,371
Effaith / Lleol	1,944	988	378	3,310
	15,939	4,425	1,864	22,228
Ffioedd Dal				158
Cyfanswm				22,386

2021/22	Ffioedd Rheoli	Ffioedd sy'n berthnasol i berfformiad	Costau Gweithrediadau	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000
Asedau Buddsoddi				
Cyllid wedi'i Gronni	2,946	0	1,285	4,231
Buddsoddiadau eraill				
Buddsoddiadau eiddo wedi'u cronni	2,103	61	260	2,424
Cronfeydd ecwiti preifat a chydfentrau	4,618	1,990	99	6,707
Cronfeydd isadeiledd	1,699	579	101	2,379
Coed ac Amaethyddiaeth	158	0	0	158
Dyledion Preifat	607	265	0	872
Effaith / Lleol	2,054	1,504	160	3,718
	14,185	4,399	1,905	20,489
Ffioedd Dal				106
Cyfanswm				20,595

Nodyn 11B: Treuliau rheoli Partneriaeth Bensiynau Cymru

2021/22		2022/23
£000		£000
135	Goruchwyllo a llywodraethu	158
622	Costau Gweithrediadau	524
376	Ffioedd Rheoli'r Gronfa	406
67	Ffioedd Dal	123
1,200	Cyfanswm	1,211

Yn gynwysedig yn y Treuliau Rheoli yn nhabl cyntaf y nodyn hwn y mae cost cyfranogiad y Gronfa yn nhrefniant cronni buddsoddiadau Partneriaeth Bensiynau Cymru. Dadansoddir y rhain yn fanylach yn y tabl uchod. Y costau Goruchwyllo a Llywodraethu yw costau rhedeg blynyddol y gronfa sy'n cynnwys costau'r awdurdod cynnal a chostau ymgynghorwyr allanol eraill. Caiff y costau hyn eu cyllido yn gyfartal gan bob un o'r wyth cronfa bensiwn awdurdod lleol yng Nghymru. Mae Ffioedd Rheoli'r Gronfa yn daladwy i Link Fund Solutions (gweithredwr Partneriaeth Bensiynau Cymru) ac maent yn cynnwys ffi'r gweithredwr a chostau cysylltiedig eraill. Caiff y costau hyn eu seilio ar gyfran ganrannol pob Cronfa o asedau wedi'u cyfuno Partneriaeth Bensiynau Cymru ac fe'u didynnir o'r Incwm Buddsoddiad. Nid yw ffioedd rheolwyr tanategol wedi eu cynnwys yn y tabl hwn, ond fe'u datgelir yn yr Adroddiad Cyllid mewn lle arall yn yr Adroddiad Blynyddol. Gellir gweld rhagor o fanylion am Bartneriaeth Bensiynau Cymru yn yr Adroddiad Cyllid.

Nodyn 12: Incwm Buddsoddi

2021/22		2022/23
£000		£000
Cronfeydd wedi eu cronni		
6,043	Incwm credyd aml-ased	8,392
2,254	Incwm o ecwiti byd-eang	3,045
1,486	Incwm o ecwiti marchnad ddatblygol	7,086
Buddsoddiadau eraill		
3,529	Incwm o fuddsoddiadau eiddo wedi eu cronni	4,083
1,225	Incwm o gronfeydd ecwiti preifat a chydfentrau	363
5,169	Incwm o gronfeydd isadeiledd	4,292
60	Incwm o gronfeydd coed ac amaethyddiaeth	0
3,088	Incwm o ddyledion preifat	3,091
677	Incwm o gronfeydd effaith	3,230
17	Llog ar adneuoan arian parod	556
41	Incwm arall	131
23,589		34,269

Nodyn 13: Buddsoddiadau

2021/22 Ailddatganwyd		2022/23
£000		£000
Asedau Buddsoddi		
Cronfeydd wedi eu cronni		
246,032	credyd aml-ased	230,688
273,120	Cronfeydd twf amrywiol	262,537
596,076	Buddsoddiadau a lywir gan rwymedigaethau	663,896
157,982	Cronfeydd Mantoli o Gronfeydd	159,281
263,295	Ecwiti byd-eang	130,027
220,789	Ecwiti marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg	115,712
Buddsoddiadau eraill		
146,325	Buddsoddiadau eiddo wedi'u cronni	133,422
201,521	Cronfeydd ecwiti preifat a chydffentrau	205,945
124,721	Cronfeydd isadeiledd	130,888
14,125	Coed ac Amaethyddiaeth	12,074
52,592	Dyledion Preifat	61,769
79,332	Effaith	93,352
2,375,910		2,199,591
30,215	Arian Parod	309
2,406,125	Cyfanswm asedau buddsoddi	2,199,900

Yn ystod y flwyddyn fe drosglwyddodd y Gronfa £215.5m o Ecwiti Byd-eang o BlackRock ac Ecwiti Marchnad sy'n Datblygu o Russell (Partneriaeth Bensiynau Cymru) i Arian a Buddsoddiad wedi'i Gymell gan Rwymedigaeth. Fe ddangosir y dadansoddiad isod.

Rheolwr / Mandadu	Adbryniadau £000s	Tanysgrifiadau £000s
Russell (Partneriaeth Bensiynau Cymru) Ecwiti marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg	(90,000)	
BlackRock Ecwiti byd-eang	(125,471)	
Insight Buddsoddiadau a lywir gan rwymedigaethau		210,000
Arian Parod		5,471
	(215,471)	215,471

Nodyn 13A: Cysoni Symudiadau Mewn Buddsoddiadau A Deilliadau

	Gwerth ar y farchnad 1 Ebrill 2022 Ailddatganwyd £000	Pryniannau yn ystod y flwyddyn £000	Gwerthiannau yn ystod y flwyddyn £000	Newid mewn gwerth ar y farchnad £000	Gwerth ar y farchnad 31 Mawrth 2023 £000
Asedau Buddsoddi					
Cronfeydd wedi eu cronni					
Credyd aml-ased	246,032	8,181	0	(23,525)	230,688
Cronfeydd twf amrywiol	273,120	0	(153)	(10,430)	262,537
Buddsoddiadau a lywir gan rywmedigaethau	596,076	390,000	(152,725)	(169,455)	663,896
Cronfeydd Mantoli o Gronfeydd	157,982	0	(130)	1,429	159,281
Ecwiti byd-eang	263,295	2,833	(125,497)	(10,604)	130,027
Ecwiti marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg	220,789	6,456	(90,000)	(21,533)	115,712
Buddsoddiadau eraill					
Buddsoddiadau eiddo wedi'u cronni	146,325	10,225	(5,805)	(17,323)	133,422
Cronfeydd ecwiti preifat a chydfentrau	201,521	29,123	(50,454)	25,755	205,945
Cronfeydd isadeiledd	124,721	13,591	(23,320)	15,896	130,888
Coed ac Amaethyddiaeth	14,125	0	(3,939)	1,888	12,074
Dyledion Preifat	52,592	12,572	(6,854)	3,459	61,769
Effaith / Lleol	79,332	17,354	(9,515)	6,181	93,352
Cyfanswm asedau buddsoddi	2,375,910	490,335	(468,392)	(198,262)	2,199,591
Adneuron arian parod	30,215				309
Cyfanswm Asedau	2,406,125			(198,262)	2,199,900

	Gwerth ar y farchnad 1 Ebrill 2021 Ailddatganwyd £000	Pryniannau yn ystod y flwyddyn £000	Gwerthiannau yn ystod y flwyddyn £000	Newid mewn gwerth ar y farchnad £000	Gwerth ar y farchnad 31 Mawrth 2022 Ailddatganwyd £000
Asedau Buddsoddi					
Cronfeydd wedi eu cronni					
Credyd aml-ased	250,378	5,842	0	(10,188)	246,032
Cronfeydd twf amrywiol	231,022	0	(143)	42,241	273,120
Buddsoddiadau a lywir gan rywmedigaethau	500,832	0	(1,624)	96,868	596,076
Cronfeydd Mantoli o Gronfeydd	145,594	0	(185)	12,573	157,982
Ecwiti byd-eang	231,367	2,031	(14)	29,911	263,295
Ecwiti marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg	231,836	240,924	(230,949)	(21,021)	220,789
Buddsoddiadau eraill					
Buddsoddiadau eiddo wedi'u cronni	132,870	4,582	(9,195)	18,068	146,325
Cronfeydd ecwiti preifat a chydffentrau	193,497	24,639	(59,574)	42,960	201,521
Cronfeydd isadeiledd	106,609	13,133	(16,254)	21,233	124,721
Coed ac Amaethyddiaeth	17,555	0	(5,544)	2,114	14,125
Dyledion Preifat	52,967	8,077	(12,588)	4,136	52,592
Effaith / Lleol	58,170	16,513	(19,232)	23,881	79,332
Cyfanswm asedau buddsoddi	2,152,698	315,740	(355,302)	262,776	2,375,910
Adneuon arian parod	30,205				30,215
Arian a gollwyd	0			(67)	
Symiau derbyniadwy ar gyfer gwerthiannau	2,812			0	
Cyfanswm asedau	2,182,903			262,709	2,406,125

Nodyn 13B: Dadansoddiad gan Reolwr y Gronfa

2021/22			2022/23		
£000	%		£000	%	
Buddsoddiadau Partneriaeth Bensiynau Cymru					
596,583	24.8%	Russell Investments	476,427	21.7%	
133,533	5.5%	Blackrock (Goddefol)	0	0.0%	
730,116	30.3%		476,427	21.7%	
Buddsoddiadau a reolir y tu allan i Bartneriaeth Bensiynau Cymru					
626,291	26.0%	Insight	664,205	30.2%	
273,120	11.4%	Mobius	262,537	11.9%	
157,982	6.7%	MAN Group	159,281	7.2%	
618,616	25.7%	Marchnadoedd Preifat	637,450	29.0%	
1,676,009	69.8%		1,723,473	78.3%	
2,406,125	100%		2,199,900	100%	

Mae'r buddsoddiadau a ganlyn yn cynrychioli mwy na 5% o asedau net y cynllun. Mae'r holl gwmnïau hyn wedi eu cofrestru yn y DU. Pan mae'r tabl yn dangos daliad o fwy na 5% ond nad yw'r rheolwr yn ymddangos yn y rhestr isod, mae hynny oherwydd bod y buddsoddiadau'n cael eu dal mewn mwy nag un gronfa.

2021/22		Rheolwr	Daliad	2022/23	
£000	%			£000	%
626,291	26	Insight	Cronfa Weithredol 22 LDI	664,205	30

Nodyn 13C: Stoc yn Arwain

Mae Strategaeth Fuddsoddi'r Gronfa'n gosod y ffiniau ar gyfer ei rhaglen fenthycy stoc. Mae'r Gronfa'n rhoi benthyg stoc drwy ei buddsoddiadau gyda Phartneriaeth Bensiynau Cymru. Ar 31 Mawrth 2023 roedd cyfanswm gwerth yr holl stoc a fenthycwyd gan Bartneriaeth Bensiynau Cymru yn £454,055,992. Cyfanswm y refeniw net yn ystod 2022/23 oedd £1,129,506 a derbyniodd Cronfa Bensiynau Clwyd £55,787 ohono.

Nodyn 14: Deilliadau

Ni ddeldid offerynnau deilliadau gan Gronfa Bensiynau Clwyd ar 31 Mawrth 2023 na 31 Mawrth 2023.

Nodyn 15: Gwerth teg buddsoddiadau

Gwerth teg: Sail y prisio

Caiff yr holl asedau buddsoddi eu prisio gan ddefnyddio technegau gwerth teg sy'n seiliedig ar briodoleddau pob offeryn, gan ddefnyddio gwybodaeth sy'n seiliedig ar y farchnad lle bo hynny'n bosibl. Nid oes unrhyw newid wedi bod yn y technegau prisio a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn.

Mae buddsoddiadau a rhwymedigaethau wedi eu dosbarthu'n dair lefel, yn ôl ansawdd a dibynadwyedd yr wybodaeth a ddefnyddir i bennu gwerthoedd teg.

Lefel 1: Lle mae gwerthoedd teg yn deillio o brisiau heb eu haddasu a ddyfynnwyd mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu rwymedigaethau unfath.

Lefel 2: Lle nad yw prisiau'r farchnad a ddyfynnwyd ar gael, defnyddir technegau prisio i bennu gwerth teg yn seiliedig ar ddata arsylladwy.

Lefel 3: Lle nad yw o leiaf un mewnbwn a allai gael effaith sylweddol ar brisiad y buddsoddiad yn seiliedig ar ddata arsylladwy'r farchnad.

Nodir sail prisio pob categori o ased buddsoddi isod.

Disgrifiad o'r ased	Hierarch aeth prisio	Sail y prisio	Mewnbynnau arsylladwy ac anarsylladwy	Y prif sensitifeddau sy'n effeithio ar y prisiadau a ddarparwyd
Cronfeydd Buddsoddi Cyfun a Restrir	Lefel 1	Pris cynnig y farchnad a restrir ar y gyfradd gyfnewid berthnasol	Ddim yn ofynnol	Ddim yn ofynnol
Seilwaith	Lefel 1	Dyfarniad pris cyhoeddedig y cynnig ar ddiwrnod olaf y cyfnod cyfrifo	Ddim yn ofynnol	Ddim yn ofynnol
Arian parod a chywertoedd arian parod	Lefel 1	Ystyrir bod y gwerth cario yn werth teg oherwydd natur fyrdymor yr offerynnau ariannol hyn	Ddim yn ofynnol	Ddim yn ofynnol
Symiau derbyniadwy o werthiannau buddsoddiadau	Lefel 1	Ystyrir bod y gwerth cario yn werth teg oherwydd natur fyrdymor yr offerynnau ariannol hyn	Ddim yn ofynnol	Ddim yn ofynnol

Disgrifiad o'r ased	Hierarch aeth prisio	Sail y prisio	Mewnbynau arsylladwy ac anarsylladwy	Y prif sensitifeddau sy'n effeithio ar y prisiadau a ddarparwyd
Dyledwyr a chredydwyr buddsoddiadau	Lefel 1	Ystyrir bod y gwerth cario ymlaen yn werth teg oherwydd natur fyrdymor yr offerynnau ariannol hyn.	Ddim yn ofynnol	Ddim yn ofynnol
Buddsoddiadau ecwiti heb eu rhestru	Lefel 2	Cyfartaledd prisiau broceriaid	Ffrydiau prisiau wedi'u gwerthuso	Ddim yn ofynnol
Bondiau incwm sefydlog ac ymddiriedolaethau unedau heb eu rhestru	Lefel 2	Cyfartaledd prisiau broceriaid	Ffrydiau prisiau wedi'u gwerthuso	Ddim yn ofynnol
Buddsoddiadau cronfeydd cyfun heb eu rhestru	Lefel 2	Cyfartaledd prisiau broceriaid	Gwerth net enillion/colledion heb eu gwireddu ar fantoli	Cyfradd enillion fewnol
Cronfeydd eiddo cyfun a chronfeydd mantoli lle mae masnachu arferol yn digwydd	Lefel 2	Pris cynnig terfynol lle cyhoeddir prisiau cynnig a gofyn; pris sengl terfynol lle cyhoeddir prissengl	Prisio yn seiliedig ar Werth Asedau Net ar sail prisio ymlaen	Ddim yn ofynnol
Cronfa Fantoli	Lefel 2	Prisir yn fisol gan ddefnyddio'r pris cynnig terfynol lle cyhoeddir prisiau cynnig a gofyn, neu bris sengl terfynol lle cyhoeddir pris sengl	Prisio yn seiliedig ar Werth Asedau Net ar sail prisio ymlaen	Ddim yn ofynnol
Cronfeydd Eiddo Cyfun a chronfeydd mantoli lle nad yw masnachu	Lefel 3	Prisiwyd gan reolwyr buddsoddi ar sail gwerth teg bob blwyddyn gan ddefnyddio canllawiau PRAG	Prisio yn seiliedig ar Werth Asedau Net ar sail prisio ymlaen	Effeithir ar brisiadau gan unrhyw newidiadau i werth yr offeryn

Disgrifiad o'r ased	Hierarch aeth prisio	Sail y prisio	Mewnbynau arsylladwy ac anarsylladwy	Y prif sensitifeddu sy'n effeithio ar y prisiadau a ddarparwyd
arferol yn digwydd				ariannol y mantolir yn ei erbyn
Ecwitiau preifat ac ecwitiau eraill heb eu rhestru	Lefel 3	Prisiad cyffelyb o gwmnïau tebyg yn unol â Chanllawiau Prisio Cyfalaf Menter ac Ecwiti Preifat Rhyngwladol 2018 a Chanllawiau Prisio Arbennig Bwrdd IPEV (Mawrth 2020)	EBITDA lluosog Refeniw lluosog Gostyngiad oherwydd diffyg marchnadwydd Premiwm rheoli	Gallai newidiadau i lif arian disgwylidig neu newidiadau rhwng cyfrifon wedi'u harchwilio a heb eu harchwilio effeithio ar brisiadau

Sensitifrwydd asedau a brisiwyd ar Lefel 3

Mae'r gronfa wedi penderfynu bod y dulliau prisio a ddisgrifir uchod ar gyfer buddsoddiadau lefel 3 yn debygol o fod yn gywir o fewn yr amrediadau canlynol, ac mae wedi nodi isod yr effaith bosibl ar werth terfynol buddsoddiadau a ddelid ar 31 Mawrth 2023 a 31 Mawrth 2022.

2022/23	Amrywiad posibl mewn gwerth teg %	Gwerth ar 31 Mawrth £000	Gwerth posibl gyda chynnydd £000	Gwerth posibl gyda lleihad £000
Buddsoddiadau eraill				
Buddsoddiadau eiddo wedi'u cronni	15.3	121,233	139,781	102,684
Cronfeydd ecwiti preifat a chydfentrau	24.4	205,945	256,195	155,694
Cronfeydd isadeiledd	15.8	121,603	140,816	102,390
Coed ac Amaethyddiaeth	5.5	12,074	12,738	11,410
Dyledion Preifat	11.1	61,769	68,625	54,913
Lleol/Effaith	24.5	93,352	116,223	70,481
		615,976	734,378	497,572

2021/22	Amrywiad posibl mewn gwerth teg %	Gwerth ar 31 Mawrth £000	Gwerth posibl gyda chynnydd £000	Gwerth posibl gyda lleihad £000
Buddsoddiadau eraill				
Buddsoddiadau eiddo wedi'u cronni	14.1	132,233	150,878	113,588
Cronfeydd ecwiti preifat a chydfentrau	25.0	201,521	251,901	151,140
Cronfeydd isadeiledd	15.0	114,553	131,736	97,370
Coed ac Amaethyddiaeth	8.7	14,125	15,354	12,896
Dyledion Preifat	10.6	52,592	58,167	47,017
Lleol/Effaith	25.0	79,332	99,165	59,499
		594,356	707,201	481,510

Nodyn 15A: Gwerth teg hierarchaeth

Mae'r tabl canlynol yn dangos sefyllfa asedau'r Gronfa ar 31 Mawrth 2023 yn seiliedig ar hierarchaeth Gwerth Teg:

Gwerth ar 31 Mawrth 2023	Pris dyfynedig y farchnad £000	Defnyddio mewnbynnau arsylladwy £000	Mewnbynnau anarsylladwy arwyddocaol £000	Cyfanswm £000
Asedau Buddsoddi				
Cronfeydd wedi eu cronni		230,688		230,688
Credyd aml-ased		262,537		262,537
Cronfeydd twf amrywiol		663,896		663,896
Buddsoddiadau a lywir gan rwymedigaethau		159,281		159,281
Cronfeydd Mantoli o Gronfeydd		130,027		130,027
Ecwiti byd-eang		115,712		115,712
Buddsoddiadau eraill				
Buddsoddiadau eiddo wedi'u cronni		12,189	121,233	133,422
Cronfeydd ecwiti preifat a chydfentrau			205,945	205,945
Cronfeydd isadeiledd	9,285		121,603	130,888
Coed ac Amaethyddiaeth			12,074	12,074
Dyledion Preifat			61,769	61,769
Lleol/Effaith			93,352	93,352
Adneuon arian parod	309			309
Cyfanswm asedau buddsoddi	9,594	1,574,330	615,976	2,199,900
Adneuon arian parod	98,281			98,281
Cyfanswm asedau	107,875	1,574,330	615,976	2,298,181

Gwerth ar 31 Mawrth 2023	Pris dyfynedig y farchnad £000	Defnyddio mewnbynnau arsylladwy £000	Mewnbynnau anarsylladwy arwyddocaol £000	Cyfanswm £000
Asedau Buddsoddi				
Cronfeydd wedi eu cronni		246,032		246,032
Credyd aml-ased		273,120		273,120
Cronfeydd twf amrywiol		596,076		596,076
Buddsoddiadau a lywir gan rwymedigaethau		157,982		157,982
Cronfeydd Mantoli o Gronfeydd		263,295		263,295
Ecwiti byd-eang		220,789		220,789
Buddsoddiadau eraill				
Buddsoddiadau eiddo wedi'u cronni		14,092	132,233	146,325
Cronfeydd ecwiti preifat a chydffentrau			201,521	201,521
Cronfeydd isadeiledd	10,168		114,553	124,721
Coed ac Amaethyddiaeth			14,125	14,125
Dyledion Preifat			52,592	52,592
Lleol/Effaith			79,332	79,332
Adneuon arian parod	30,215			30,215
Cyfanswm asedau buddsoddi	40,383	1,771,386	594,356	2,406,125
Adneuon arian parod	79,645			79,645
Cyfanswm asedau	120,028	1,771,386	594,356	2,485,770

Nodyn 15B: Cysoni mesuriadau Gwerth Teg o fewn Lefel 3

	Gwerth ar 31 Mawrth 2022 £000	Pryniannau £000	Gwerthiannau £000	Enillion a cholledion heb eu gwireddu £000	Enillion a cholled sylweddol £000	Gwerth ar 31 Mawrth 2023 £000
Buddsoddiadau eraill						
Buddsoddiadau eiddo wedi'u cronni	132,233	10,225	(5,798)	(18,009)	2,582	121,233
Cronfeydd ecwiti preifat a chydffentrau	201,521	29,123	(50,454)	6,262	19,493	205,945
Cronfeydd isadeiledd	114,553	13,112	(23,320)	14,939	2,319	121,603
Coed ac Amaethyddiaeth	14,125	0	(3,939)	261	1,627	12,074
Dyledion Preifat	52,592	12,572	(6,854)	3,459	0	61,769
Lleol/Effaith	79,332	17,354	(9,515)	2,205	3,976	93,352
	594,356	82,386	(99,880)	9,117	29,997	615,976
	Gwerth ar 31 Mawrth 2021 £000	Pryniannau £000	Gwerthiannau £000	Enillion a cholledion heb eu gwireddu £000	Enillion a cholled sylweddol £000	Gwerth ar 31 Mawrth 2022 £000
Buddsoddiadau eraill						
Buddsoddiadau eiddo wedi'u cronni	121,401	4,582	(7,796)	11,314	2,731	132,233
Cronfeydd ecwiti preifat a chydffentrau	193,496	24,639	(56,121)	16,221	23,286	201,521
Cronfeydd isadeiledd	91,550	12,678	(15,501)	19,578	6,248	114,553
Coed ac Amaethyddiaeth	17,555	0	(5,412)	648	1,334	14,125
Dyledion Preifat	52,968	8,077	(12,413)	3,960	0	52,592
Lleol/Effaith	58,171	16,513	(17,064)	15,470	6,242	79,332
	535,140	66,489	(114,307)	67,191	39,841	594,356

Nodyn 16: Dosbarthu Offerynnau Ariannol

2021/22				2022/23		
Gwerth teg drwy elw a cholled £000	Benthyciadau a symiau derbyniadwy £000	Rhwymedigaetha u ariannol ar gost amorteiddiedig £000		Gwerth teg drwy elw a cholled £000	Benthyciada u a symiau derbyniadwy £000	Rhwymedigaethau ariannol ar gost amorteiddiedig £000
			Asedau Ariannol			
			Cronfeydd wedi eu cronni			
246,032			Credyd aml-ased	230,688		
273,120			Cronfeydd twf amrywiol	262,537		
596,076			Buddsoddiadau a lywir gan rwymedigaethau	663,896		
157,982			Cronfeydd Mantoli o Gronfeydd	159,281		
263,295			Ecwiti byd-eang	130,027		
220,789			Ecwiti marchnadoedd sy’n dod i’r amlwg	115,712		
			Buddsoddiadau eraill			
146,325			Buddsoddiadau eiddo wedi’u cronni	133,422		
201,521			Cronfeydd ecwiti preifat a chydfentrau	205,945		
124,721			Cronfeydd isadeiledd	130,888		
14,125			Coed ac Amaethyddiaeth	12,074		
52,592			Dyledion Preifat	61,769		
79,332			Effaith	93,352		
30,215	79,645		Arian Parod	309	98,281	
	0		Balansau buddsoddi eraill		0	
	392		Dyledwyr		431	
2,406,125	80,037	0		2,199,900	98,712	0
			Rhwymedigaethau ariannol			
		(543)	Credydwyr			(744)
2,406,125	80,037	(543)		2,199,900	98,712	(744)

Mae'r tabl uchod yn dadansoddi symiau cario ymlaen offerynnau ariannol yn ôl categori a phenawdau'r datganiad asedau net. Ni aildosbarthwyd unrhyw offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod cyfrifo.

Nodyn 17: Natur A Hyd A Lled Risgiau Sy'n Codi O Offerynnau Ariannol

Gweithdrefnau ar gyfer rheoli risgiau

Prif risg hirdymor y Gronfa yw y bydd ei hasedau'n disgyn yn brin o'i rhwymedigaethau (h.y. y buddion sy'n ddyledus i aelodau). Bwriad rheoli risg buddsoddiadau yw lleihau'r risg o leihad cyffredinol yng ngwerth y gronfa, a chynyddu'r cyfleoedd i greu enillion ar draws y portffolio cyfan. Mae'r gronfa'n cyflawni hyn drwy amrywio asedau fel eu bod yn wynebu risgiau'r farchnad (risg prisiau, risg arian cyfredol a risg cyfraddau llog) a risg credyd ar lefel dderbyniol. Yn ychwanegol at hynny mae'r gronfa'n rheoli ei risg hylifedd er mwyn sicrhau bod digon o hylifedd i fodloni llif arian rhagweledig y Gronfa. Mae'r gronfa'n rheoli'r risgiau buddsoddi hyn fel rhan o raglen rheoli risgiau'r gronfa bensiynau.

Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd sy'n gyfrifol am strategaeth rheoli risgiau'r gronfa. Sefydlir polisiau rheoli risgiau er mwyn adnabod a dadansoddi'r risgiau a wynebir gan weithrediadau'r gronfa bensiynau, ac fe'u hadolygir yn rheolaidd i adlewyrchu newidiadau mewn gweithgarwch ac yn amodau'r farchnad.

Risg y Farchnad

Risg y farchnad yw'r perygl o wneud colled oherwydd amrywiadau mewn ecwiti a phrisiau nwyddau, cyfraddau llog a chyfraddau'r gyfnewidfa dramor ac ymlediad credyd. Mae'r gronfa'n agored i risgiau'r farchnad oherwydd ei gweithgareddau buddsoddi, ac yn benodol drwy ei daliadau ecwiti. Mae lefel y risg yn dibynnu ar amodau'r farchnad, y disgwyliadau o ran prisiau yn y dyfodol, symudiadau ildio a'r gymysgedd o asedau. Nod strategaeth rheoli risg y gronfa yw adnabod a rheoli'r risgiau a wynebir oddi mewn i ffiniau derbyniol, gan geisio cael yr enillion mwyaf ar y buddsoddiadau.

Yn gyffredinol, rheolir anwadalrwydd yn risgiau'r farchnad drwy amrywio'r portffolio o ran daearyddiaeth a sectorau diwydiant a gwarannau unigol. Er mwyn lliniaru risgiau'r farchnad mae'r gronfa bensiynau a'i hymgynghorwyr buddsoddi yn monitro amodau'r farchnad ac yn gwneud dadansoddiadau meincnodol ac yn rheoli unrhyw risgiau a nodir mewn dwy ffordd:

- Caiff faint o risgiau'r farchnad a wynebir gan y gronfa ei fonitro drwy ddadansoddiad o risgiau ffactor er mwyn sicrhau bod y risg yn aros ar lefelau rhesymol.
- Cyfyngir ar y risgiau penodol a wynebir drwy gymhwyso uchafswm o ran y risgiau a wynebir gan fuddsoddiadau unigol.

Gellir defnyddio contractau dyfodol ecwiti a chontractau opsiynau masnachu ar warannau unigol hefyd er mwyn rheoli risg y farchnad i fuddsoddiadau ecwiti. Mae'n bosibl defnyddio contractau deilliad ecwiti dros-y-cownter mewn amgylchiadau eithriadol er mwyn rheoli agweddau penodol ar risg y farchnad.

Risg prisiau eraill

Mae risg prisiau eraill yn cynrychioli'r risg y bydd gwerth offeryn ariannol yn ansefydlog o ganlyniad i newidiadau ym mhrisiau'r farchnad (heblaw'r rhai sy'n codi o risg cyfraddau llog neu risg cyfnewid tramor), boed y newidiadau hynny o ganlyniad i ffactorau sy'n benodol i'r offeryn unigol neu ei roddwyr neu ffactorau sy'n effeithio ar yr holl offerynnau o'r fath.

Mae'r gronfa yn agored i risgiau cyfranddaliadau a phris deilliadol. Mae rheolwyr buddsoddi'r gronfa'n lliniaru'r risg prisiau drwy amrywio a thrwy ddewis gwarannau a chaiff offerynnau ariannol eraill eu monitro er mwyn sicrhau eu bod o fewn cyfyngiadau a nodwyd yn strategaeth fuddsoddi'r gronfa.

Risg prisiau eraill: dadansoddiad o sensitifrwydd

Mewn ymgynghoriad â'i chynghorwyr buddsoddi, mae'r gronfa wedi penderfynu bod y symudiadau canlynol yn risg prisiau'r farchnad yn rhesymol bosibl ar gyfer 2021/22, gan gymryd bod yr holl newidion, yn benodol cyfraddau cyfnewid tramor a chyfraddau llog, yn aros yr un fath:

Asedau sy'n wynebu risg prisiau	Gwerth £000s	Ystod anwadalrwydd 3 blynedd %	Gwerth ar ôl cynnydd £000s	Gwerth ar ôl lleihad £000s
Fel ar 31 Mawrth 2022	2,485,821	8.30%	2,692,134	2,279,508
Fel ar 31 Mawrth 2023	2,298,181	8.26%	2,487,962	2,108,401

Risg Cyfraddau Llog

Mae'r gronfa'n cydnabod y gall cyfraddau llog amrywio ac effeithio ar incwm i'r gronfa a gwerth cario ymlaen asedau'r gronfa, dau beth sy'n effeithio ar werth yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion. Mae symudiad o 100 pwynt sylfaen mewn cyfraddau llog yn gyson â'r lefel o sensitifrwydd a gymhwysir fel rhan o strategaeth rheoli risg y gronfa. Mae ymgynghorwr buddsoddi'r gronfa wedi dweud bod disgwyl i gyfraddau cyfartalog hirdymor symud llai na 100 pwynt sylfaen (1%) o un flwyddyn i'r nesaf, ac mae profiad yn awgrymu bod symudiadau o'r fath yn debygol.

Fodd bynnag, yn y 12 mis diwethaf, fe brofodd marchnadoedd ddigwyddiad eithriadol o brin yng ngoleuni'r argyfwng marchnad ym Medi yn dilyn cyhoeddi'r gyllideb fechan. Fe anfonodd y cyhoeddiad farchnadoedd i argyfwng wrth i hyder buddsoddwr mewn dyledion a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ostwng. O ganlyniad, fe gynyddodd yr elw ar fondiau'r llywodraeth yn sylweddol, a arweiniodd yn y pen draw at Fanc Lloegr yn camu i mewn i atal cynnwrf pellach mewn marchnadoedd a cheisio ad-ennill sefydlogrwydd o fewn marchnadoedd.

Dros y 12 mis hyd at 31 Mawrth 2023, fe gynyddodd elwau gilt hir-ddyddiedig sefydlog o dros 2%.

Risg cyfraddau llog: dadansoddiad o sensitifrwydd

Mae'r dadansoddiad a ganlyn yn cymryd y bydd pob newidyn arall, yn benodol cyfraddau cyfnewid, yn aros yn gyson, ac yn dangos yr effaith yn y flwyddyn ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion o +/- 1% o newid mewn cyfraddau llog. Mae'r dadansoddiad yn dangos na fydd cynnydd o 1% mewn cyfraddau llog yn effeithio ar y llog a dderbynnir ar asedau llog sefydlog, ond bydd yn lleihau eu gwerth teg, ac fel arall. Nid yw newidiadau mewn cyfraddau llog yn effeithio ar werth balansau arian parod a chywerthoedd arian parod ond byddant yn effeithio ar yr incwm llog a dderbynnir ar y balansau hynny.

Risg cyfradd llog yw'r risg y bydd gwerth teg asedau'r Gronfa yn cael ei effeithio gan newidiadau mewn cyfraddau llog. Caiff y swm lle caiff gwerth teg asedau'r Gronfa ei effeithio gan gyfraddau llog ei benderfynu nid yn unig gan faint y symudiad mewn cyfraddau llog ond hefyd gan hyd yr asedau. Hyd yw'r mesur o ba mor sensitif yw ased i newidiadau mewn cyfraddau llog, felly yr uchaf yw'r hyd y mwyaf yw'r newid yng ngwerth teg asedau pan fo cyfraddau llog yn symud. Mae enghraifft o berthynas rhwng cyfraddau llog a hyd fel a ganlyn: os yw cyfraddau llog yn cynyddu 1% byddai ased sydd â hyd o 2 yn profi gostyngiad o 2% ($1\% \times 2$) yng ngwerth teg ei ased.

Asedau sy'n wynebu risg cyfraddau llog		Gwerth	Gwerth ar ôl cynnydd o 1%
	£000s	£000s	£000s
Fel ar 31 Mawrth 2022	951,968	877,556	1,047,329
Fel ar 31 Mawrth 2023	993,175	902,484	1,105,862

Risg arian cyfredol

Mae risg arian cyfredol yn cynrychioli'r risg y bydd llif arian yn y dyfodol yn amrywio oherwydd newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid tramor. Mae'r gronfa'n wynebu risg arian cyfredol ar unrhyw falansau arian parod ac asedau buddsoddi nad ydynt mewn punnoedd sterling. Yn dilyn dadansoddi'r data hanesyddol mewn ymgynghoriad ag ymgynghorwyr buddsoddi'r gronfa, mae'r gronfa'n ystyried na fydd yr anwadalrwydd sy'n gysylltiedig â symudiadau cyfraddau cyfnewid tramor yn fwy na 15%. Pe bai'r bunt yn cryfhau / gwanhau 15% yn erbyn yr amrywiol arian cyfredol y mae gan y gronfa fuddsoddiadau ynddynt, byddai'r asedau net sydd ar gael i dalu buddion yn cynyddu / gostwng fel a ganlyn.

Risg arian cyfredol: dadansoddiad o sensitifrwydd

Asedau sy'n wynebu risg arian cyfredol	Gwerth	% newid	Gwerth ar ôl cynnydd	Gwerth ar ôl lleihad
	£000s	%	£000s	£000s
Fel ar 31 Mawrth 2022	1,011,606	16.29%	1,176,427	846,785
Fel ar 31 Mawrth 2023	891,012	15.00%	1,024,663	757,360

Mae'r tabl uchod yn dangos y datguddiadau FX heb eu rhagfantoli yn y portffolio, noder bod gan y Gronfa ddatguddiadau FX mewn mannau eraill yn y portffolio ond mae'r rhain wedi'u rhagfantoli i sterling i ddileu'r risg FX.

Risg credyd

Mae risg credyd yn cynrychioli'r risg y gallai cyd-barti mewn gweithrediad ariannol fethu â chyflawni dyletswydd ac achosi i'r gronfa ddioddef colled ariannol. Mae'r asedau y gallai'r risg hon effeithio arnynt yn cynnwys asedau buddsoddi, adneuon arian parod, a benthyciadau trydydd parti. Mae dewis cyd-bartion, broceriaid a sefydliadau ariannol o ansawdd uchel yn lleihau risg credyd, ac mae gwerth buddsoddiadau ar y farchnad yn gyffredinol yn adlewyrchu asesiad o risg credyd.

Gall risg credyd hefyd ddigwydd os nad yw corff sy'n cyflogi nad yw'n cael ei gefnogi gan lywodraeth ganolog yn talu ei gyfraniadau'n brydlon, neu os yw'n cefnu ar ei rwymedigaethau. Nid oes neb wedi cefnu ar y gronfa bensiynau yn y blynyddoedd diweddar. Derbyniwyd yr holl gyfraniadau a oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2023 ym misoedd cyntaf y flwyddyn ariannol.

Risg hylifedd

Risg hylifedd yw'r risg na fydd y Gronfa'n gallu bodloni ei hoblygiadau ariannol pan fyddant yn ddyledus. Mae'r Pwyllgor yn monitro llif arian yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn, ac fel rhan o'r adolygiad cyllid teirblynyddol, ac mae'n gweithredu i sicrhau bod digon o adnoddau arian parod ar gael i fodloni'r ymrwymadau.

Mae gan y Gronfa fynediad uniongyrchol at ei daliadau arian parod. Mae'r Gronfa'n diffinio asedau hylifol fel asedau y gellid eu trosi'n arian parod cyn pen tri mis, cyhyd â bod cyflwr y farchnad yn normal. Ar 31 Mawrth 2023, roedd asedau hylifol yn £1,584m, gan gynrychioli 72% o gyfanswm asedau'r gronfa (£1,782m ar 31 Mawrth 2022, gan gynrychioli 75% o'r Gronfa ar y dyddiad hwnnw). Gellir hylifo mwyafrif y buddsoddiadau hyn mewn mater o ddyddiau.

Risg ailariannu

Y brif risg yw y byddai angen i'r gronfa bensiynau ail-lenwi cyfran helaeth o'i hofferynnau ariannol mewn cyfnod lle byddai cyfraddau llog yn anffafriol. Nid oes gan y gronfa bensiynau unrhyw offerynnau ariannol y mae risg ailariannu'n berthnasol iddynt fel rhan o'i strategaeth fuddsoddi.

Nodyn 18: Gwerth presennol actiwaraid buddion ymddeol a addawyd

Yn ychwanegol at y prisiad teirblynyddol, mae actiwari'r gronfa'n cynnal gwerthusiad o rwymedigaethau'r gronfa bensiynau, ar sail IAS 19, bob blwyddyn gan ddefnyddio'r un data sylfaenol wrth i brisiad yr arian rowlio ymlaen i'r flwyddyn ariannol gyfredol, ond gan ystyried newidiadau yn nifer yr aelodau a diweddarau rhagdybiaethau i'r flwyddyn gyfredol. Nid yw'r prisiad yn cael ei gynnal ar yr un sail â'r un a ddefnyddir i nodi cyfraniadau'r gronfa ac nid yw cyfrifon y gronfa'n ystyried y rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion eraill yn y dyfodol. Er mwyn asesu gwerth y buddion ar y sail hwn, mae'r actiwari wedi diweddarau'r rhagdybiaethau actiwaraid (a amlinellir isod) o'r rhai a ddefnyddir at ddibenion cyllido.

2021/22		2022/23
£000		£000
3,401	Gwerth presennol y buddion ymddeol a addawyd	2,398
(2,486)	Gwerth teg asedau'r cynllun	(2,298)
915	Cyfanswm	100

Fel y nodwyd uchod, mae'r rhwymedigaethau uchod yn cael eu cyfrifo ar sail IAS 19 ac felly byddant yn wahanol i ganlyniad prisiad ariannu teirblynyddol 2019 gan fod IAS 19 yn defnyddio cyfradd ostyngol yn hytrach na chyfradd sy'n adlewyrchu cyfraddau'r farchnad. Y rhagdybiaethau allweddol eraill a ddefnyddir yw:

2021/22		2022/23
%		%
3.30	Cyfradd ragdybiedig cynnydd chwyddiant/pensiynau	2.70
4.55	Cyfradd cynnydd cyflogau	3.95
2.80	Cyfradd gostyngiadau	4.80

Nodyn 19: Asedau Cyfredol

2021/22		2022/23
£000		£000
294	Dyledwyr hirdymor	378
	Dyledwyr byrdymor	
1,642	Cyfraniadau dyledus – Gweithwyr	1,588
4,882	Cyfraniadau dyledus – Cyflogwyr	4,583
389	Rhagdaliadau	431
49	Mân ddyledwyr	22
6,962	Cyfanswm dyledwyr byrdymor	6,624
7,256	Cyfanswm	7,002

Nodyn 20: Rhwymedigaethau cyfredol

2021/22 £000		2022/23 £000
(170)	Cyfraniadau a dderbyniwyd ymlaen llaw	(166)
(1,234)	Buddion sy'n daladwy	(1,319)
(7)	Awdurdod gweinyddu	(14)
(17)	CThEM	(16)
(803)	Mân gredydwy	(1,070)
(2,231)	Cyfanswm	(2,585)

Nodyn 21: Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY)

Mae Cronfa Bensiynau Clwyd wedi penodi dau ddarparwr cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol: Prudential Assurance Company Ltd ac Utmost Life and Pensions Limited. Dangosir gwerth y symiau a fuddsoddwyd gyda'r ddau ddarparwr cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol isod. Mae'r cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol a delir yn uniongyrchol i Prudential i'w gweld isod.

Yn unol â Rheoliad 4(1)(b) Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Arian 2016), nid yw'r cyfraniadau a delir ac asedau'r buddsoddiadau hyn yn cael eu cynnwys yng Nghyfrifon y Gronfa.

2021/22 £000		2022/23 £000
1,089	Cyfraniadau yn ystod y flwyddyn	1,101
	Gwerth arian CGY ar 31 Mawrth:	
6,551	Prudential	5,585
300	Utmost (Equitable Life gynt)	289
6,851	Cyfanswm	5,874

Nodyn 22: Gwasanaethau Asiantaethau

Mae Cronfa Bensiynau Clwyd yn talu buddion yn ôl disgrisiwn i gyn-weithwyr yr awdurdodau unedol cyfredol, Coleg Cambria a rhai cyflogwyr eraill. Mae'r symiau a delir yn cael eu hadfer yn llawn gan y cyrff cyflogi.

2021/22		2022/23
£000		£000
453	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	430
1,579	Cyngor Sir Ddinbych	1,524
2,916	Cyngor Sir y Fflint	2,849
18	Cyngor Sir Powys	17
1,954	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	1,896
51	Coleg Cambria	47
49	Cyflogwyr eraill	51
7,020	Cyfanswm	6,814

Nodyn 23: Gweithrediadau Partïon Cysylltiedig

Llywodraethu

O dan ddeddfwriaeth a gyflwynwyd yn 2004, mae gan Gynghorwyr hawl i ymuno â'r Cynllun Pensiwn. Ar 31 Mawrth 2023, roedd pedwar aelod o Bwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd wedi dewis yr opsiwn hwn, gyda dau yn derbyn pensiwn.

Mae dau o'r pedwar Aelod Cyfetholedig ar Bwyllgor y Gronfa Bensiynau yn gymwys i dderbyn ffioedd mewn perthynas â'u cyfrifoldebau penodol fel aelodau o'r Pwyllgor ar ffurf lwfans mynychu sy'n unol â'r hyn sydd wedi'i fabwysiadu gan Gyngor Sir y Fflint. Cyfanswm y lwfansau oedd £4,107 ar gyfer 2022/23 (£7,611 yn 2021/22).

Cyngor Sir y Fflint

Yn ystod y flwyddyn, wynebodd Cyngor Sir y Fflint gostau o £2.3m (£2.1m in 2021/22) mewn perthynas â gweinyddu'r Gronfa, ac fe'i digolledwyd am y costau hyn gan y Gronfa yn ddiweddarach. Mae'r costau wedi eu cynnwys gyda'r costau Goruchwyllo a Llywodraethu a'r treuliau gweinyddu yn Nodyn 11.

Personél rheoli allweddol

Personél rheoli allweddol y Gronfa yn ystod 2022/23 oedd Cadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn, Prif Weithredwr Sir y Fflint (hyd at Hydref 2022), Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd (o Hydref 2022) a Swyddog Adran 151 Sir y Fflint. Mae cyfanswm y buddion a briodolir i bersonél rheoli allweddol wedi eu hamlinellu isod:

2021/22		2022/23
£000		£000
20	Buddion byrdymor	46
5	Buddion ôl-gyflogaeth	(176)
25	Cyfanswm	(130)

Nodyn 24: Rhwymedigaethau digwyddiadol ac ymrwymïadau contract

Roedd yr ymrwymïadau cyfalaf heb eu setlo (buddsoddiadau) ar 31 Mawrth 2023 yn £277m (31 Mawrth 2022: £188m). Mae'r ymrwymïadau hyn yn ymwneud â thaliadau am alwadau heb eu casglu sy'n ddyledus ar arian partneriaethau cyfyngedig annyfynedig a ddelir yn rhannau ecwiti preifat ac isadeiledd y portffolio. Mae'r symiau a 'elwir' gan y cronfeydd hyn yn afreolaidd o ran maint ac amseru a byddant yn dibynnu ar gyfnod buddsoddi pob Cronfa unigol.

Nodyn 25: Cronfa Bensiynau Clwyd Cyfrifon Y Flwyddyn A Ddaeth I Ben Ar 31 Mawrth 2023 (Datganiad Gan Yr Actiwari Ymgynghorol)

Mae'r datganiad hwn wedi ei ddarparu er mwyn diwallu gofynion Rheoliad 57 (1)(d) Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013.

Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd o Gronfa Bensiynau Clwyd ar 31 Mawrth 2022 i benderfynu ar y cyfraddau cyfrannu o 1 Ebrill 2023 tan 31 Mawrth 2026.

Ar sail y rhagdybiaethau a fabwysiadwyd, roedd gwerth asedau'r Gronfa o £2,491 miliwn yn cynrychioli 105% o rwymedigaethau gwasanaeth blaenorol y Gronfa o £2,366 miliwn (y "Targed Ariannu Diddyledrwydd") ar ddyddiad y prisiad. Y diffyg felly ar y dyddiad prisio oedd £125 miliwn.

Dangosodd y prisiad hefyd fod angen i gyfradd gyffredin cyfraniadau'r cyflogwyr gyfateb i 18.8% o dâl pensiynadwy bob blwyddyn. Cyfrifir bod y gyfradd gyffredinol yn ddigonol, ynghyd â chyfraniadau a delir gan aelodau, i dalu'r holl rwymedigaethau sy'n codi mewn perthynas â gwasanaeth ar ôl y dyddiad prisio.

Yr amcan ariannu a nodwyd yn y Datganiad Strategaeth Ariannu (FSS) yw cyflawni ac yna cynnal lefel ariannu o 100% o'r dyledion (y targed ariannu diddyledrwydd). Yn unol â'r FSS, lle mae diffyg yn bodoli ar y dyddiad y daw'r prisiad i rym, bydd cynllun adfer diffyg yn cael ei sefydlu a fydd yn gofyn am gyfraniadau ychwanegol i gywiro'r diffyg. Yn yr un modd, pan fo gwarged mae'n bosibl y byddai'n briodol i wrthbwysu hyn yn erbyn cyfraniadau ar gyfer y gwasanaeth yn y dyfodol, yn yr achos hwnnw byddai gostyngiadau mewn cyfraniadau yn cael eu rhoi mewn grym i ganiatáu ar gyfer hyn.

Mae Datganiad y Strategaeth Gyllido'n pennu'r broses ar gyfer penderfynu'r cynllun adfer mewn perthynas â phob cyflogwr. Ar adeg y prisiad actiwaraidd diwethaf y cyfnod adfer cyfartalog a fabwysiadwy oedd 12 mlynedd. Roedd cyfanswm y tâl adfer (y "gyfradd eilaidd" ar gyfer 2023/26) ar gyfartaledd yn neilltuo gwarged o tua £10.0m y flwyddyn (sy'n caniatáu ar gyfer y cynlluniau cyfrannu sydd wedi eu gosod ar gyfer cyflogwyr unigol o dan ddarpariaethau Datganiad y Strategaeth Gyllido), er bod hyn yn amrywio flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Mae manylion pellach ynglŷn â chanlyniadau'r prisiad wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ffurfiol ar y prisiad actiwaraidd dyddiedig 31 Mawrth 2023.

Yn ymarferol, mae sefyllfa pob cyflogwr unigol yn cael ei hasesu ar wahân ac mae'r cyfraniadau sy'n ofynnol i'w gweld yn yr adroddiad. Yn ogystal â'r cyfraddau cyfrannu a ardystiwyd, bydd y cyflogwyr

yn gwneud taliadau i'r Gronfa i fodloni rhwymedigaethau ychwanegol sy'n deillio o ymddeoliadau cynnar (ar wahân i ymddeoliadau ar sail iechyd).

Mae'r cynllun ariannu a fabwysiadwyd wrth asesu cyfraniadau pob cyflogwr unigol yn unol â'r Datganiad Strategaeth Ariannu. Mae'r gwahanol ddulliau a fabwysiadwyd e.e. o ran gweithredu cynnydd mewn cyfraniadau a chyfnodau adennill diffyg, yn unol â'r hyn a bennwyd drwy broses ymgynghori'r Datganiad Strategaeth Ariannu.

Cynhaliwyd y prisiad gan ddefnyddio dull actiwaraid uned ragamcanol, ac roedd y prif ragdybiaethau actiwaraid a ddefnyddiwyd i asesu'r Targed Ariannu Diddyledrwydd a'r gyfradd gyfrannu sylfaenol fel a ganlyn:

	Ar gyfer rhwymedigaethau gwasanaeth yn y gorffennol (Targed Ariannu Hydodedd)	Ar gyfer rhwymedigaethau gwasanaeth yn y dyfodol (cyfradd cyfraniad sylfaenol)
Cyfradd enillion ar fuddsoddiadau (cyfradd gostyngiadau)	4.60% y flwyddyn	5.10% y flwyddyn
Cyfradd cynnydd tâl (tymor hir)*	4.35% y flwyddyn	4.35% y flwyddyn
Cyfradd cynnydd o ran pensiynau mewn taliadau (yn fwy na GMP)	3.10% y flwyddyn	3.10% y flwyddyn

*ar gyfer rhai cyflogwyr gwnaed lwfans hefyd ar gyfer atal cyflog y sector cyhoeddus yn y tymor byr dros gyfnod o 3 blynedd.

Cafodd yr asedau eu hasesu ar sail eu gwerth ar y farchnad.

Disgwylir y bydd prisiad actiwaraid teirblynyddol nesaf y Gronfa'n cael ei gynnal ar 31 Mawrth 2025. Caiff y cyfraddau cyfrannu sy'n daladwy gan gyflogwyr unigol eu hadolygu ar sail canlyniadau'r prisiad hwn, a byddant yn dod i rym ar 1 Ebrill 2026.

Gwerth Presennol Actiwaraid Buddion Ymddeol a Addawyd at Ddibenion IAS 26

Mae IAS 26 yn ei gwneud yn ofynnol datgelu gwerth presennol buddion ymddeol a addawyd gan y Gronfa, ac at y diben hwn dylai'r rhagdybiaethau actiwaraid a'r fethodoleg a ddefnyddir fod yn seiliedig ar IAS 19 yn hytrach na'r rhagdybiaethau a'r fethodoleg a ddefnyddir at ddibenion ariannu.

I asesu gwerth y buddion ar y sail hon, rydym wedi defnyddio'r rhagdybiaethau ariannol a ganlyn ar 31 Mawrth 2023 (mae rhagdybiaethau 31 Mawrth 2022 wedi eu cynnwys er mwyn cymharu):

	31 Mawrth 2022	31 Mawrth 2023
Cyfradd enillion ar fuddsoddiadau (cyfradd disgownt)	2.8% y flwyddyn	4.8% y flwyddyn
Cyfradd Chwyddiant CPI / ailbrisió budd-dal CARE	3.3% y flwyddyn	2.7% y flwyddyn
Cyfradd cynnydd tâl	4.55% y flwyddyn*	3.95% y flwyddyn**
Cyfradd cynnydd o ran pensiynau mewn taliadau (yn fwy na GMP) / Ailbrisiad gohiriedig	3.4% y flwyddyn	2.8% y flwyddyn

* Dyma'r dybiaeth hirdymor. Cynhwyswyd hefyd lwfans yn cyfateb i'r hyn a wnaed ym mhrisiad actiwaraid 2019 ar gyfer ataliad cyflog tymor byr yn y sector cyhoeddus.

** Dyma'r dybiaeth hirdymor. Cynhwyswyd hefyd lwfans yn cyfateb i'r hyn a wnaed ym mhrisiad actiwaraid 2022 ar gyfer ataliad cyflog tymor byr yn y sector cyhoeddus.

Mae'r tybiaethau demograffig yr un fath â'r rhai a ddefnyddiwyd at ddibenion ariannu:

- mae tybiaethau dechrau'r cyfnod wedi eu seilio ar dybiaethau prisiad actiwaraid 2019 (ond wedi eu diweddarau i dablau gwelliant yn y dyfodol CMI 2021)
- mae tybiaethau diwedd y cyfnod wedi eu seilio ar y dybiaeth a ddiweddarwyd a fabwysiadwyd ar gyfer prisiad actiwaraid 2022, gyda chyfradd hirdymor o welliant mewn disgwyliad bywyd o 1.5% y flwyddyn.

Mae manylion llawn ynglŷn â'r tybiaethau demograffig wedi eu nodi yn yr adroddiadau ffurfiol i'r prisiadau priodol.

Mae'r symudiad yng ngwerth y buddiannau ymddeol a addawyd ar gyfer y Gronfa ar gyfer Safonau Cyfrifo Rhyngwladol 26 fel a ganlyn:

Dechrau'r cyfnod o rwymedigaethau	£3,401m
Llog ar rwymedigaethau	£94m
Buddion net a gronnwyd/talwyd dros y cyfnod* (Enillion)/colledion actiwaraid (gweler isod)	£57m (£1,154m)
Diwedd cyfnod y rhwymedigaethau	£2,398m

*Mae hyn yn cynnwys unrhyw gynnydd mewn rhwymedigaethau sy'n codi o ganlyniad i ymddeoliadau cynnar

Y ffactorau allweddol sy'n arwain at yr enillion actiwaraid uchod yw:

- **Newidiadau mewn tybiaethau ariannol:** Cynyddodd elw bondiau corfforaethol yn sylweddol dros y flwyddyn, gyda chynnydd cyfatebol mewn cyfradd ostyngiad i 4.8% y

flwyddyn o 2.8% y flwyddyn. Hefyd mae gostyngiad wedi bod yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr tybiedig hirdymor a hynny i 2.7% y flwyddyn o 3.3% y flwyddyn. Gyda'i gilydd mae'r ffactorau hyn yn arwain at ostyngiad sylweddol mewn rhwymedigaethau.

- **Newidiadau mewn tybiaethau demograffig:** Fel nodwyd uchod mae'r tybiaethau wedi eu diweddarau i adlewyrchu tybiaethau prisiau actiwaraid 2022, gyda chyfradd is o welliant hirdymor o 1.5%. Mae hyn yn gweithredu i leihau'r rhwymedigaethau.
- **Cynnydd mewn pensiwn / chwyddiant uchel tymor byr:** Mae'r ffigyrau'n caniatáu ar gyfer effaith y cynnydd mewn pensiwn yn Ebrill 2023 o 10.1%, yn ogystal â'r lefelau uchel o Fynegai Prisiau Defnyddwyr ers Medi 2022 (a fydd yn bwydo i gynnydd pensiwn 2024). Gan fod chwyddiant presennol yn uwch na'r rhagdybiaeth hirdymor, mae hyn yn cynyddu'r rhwymedigaethau.
- **Prisiad Actiwaraid 2022:** Mae rhwymedigaethau diwedd y flwyddyn yn caniatáu ar gyfer canlyniadau prisiad terfynol 2022, a bydd felly yn caniatáu ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y rhagdybiaethau a gwir brofiad yr aelod dros 2019/22. Bydd hyn yn cynnwys ffactorau fel effaith y cynnydd gwirioneddol mewn cyflog a ddyfarnwyd, gwir gyfraddau ymddeoliad ar sail afiechyd, ayb.

Paul Middleman
Cymrawd Sefydliad a
Chyfadrn yr Actiwarïaid

Mark Wilson
Cymrawd Sefydliad a
Chyfadrn yr Actiwarïaid

Mercer Limited
Awst 2023

Datganiad o Gyfrifoldebau dros y Datganiad Cyfrifon

Cyfrifoldebau'r Cyngor

Mae'n ofynnol i'r Cyngor:

- wneud trefniadau i sicrhau y caiff ei faterion ariannol eu gweinyddu'n gywir ac y rhoddir y cyfrifoldeb am hynny i un o'i swyddogion. Yn y Cyngor hwn, y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fel Swyddog Adran 151 sy'n gyfrifol am hynny;
- rheoli ei fusnes i sicrhau ei fod yn defnyddio'i adnoddau a'i asedau'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol.
- cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

Y Cyng. Ted Palmer

Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau

Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Ariannol

Dan fodel gweithredu cyfredol y Cyngor, mae rôl y Prif Swyddog Cyllid (A151) wedi'i dirprwyo i'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol. Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyngor yn unol â'r arferion priodol sydd wedi'u nodi yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig ('y Cod').

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon, mae'r Prif Swyddog Cyllid wedi:

- dewis polisiau cyfrifyddu priodol a'u gweithredu'n gyson;
- cyflwyno barn ac amcangyfrifon sy'n rhesymol a darbodus;
- cydymffurfio â'r Cod.

Yn ogystal, mae'r Prif Swyddog Cyllid wedi:

- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir a'u diweddarau yn ôl yr angen
- cymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll ac anghysonderau eraill.

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol, incwm a gwariant y Cyngor ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

Gary Ferguson CPFA

Rheolwr Cyllid Corfforaethol (Swyddog Adran 151)

Adroddiad Archwilio

Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer aelodau Cyngor Sir y Fflint sy'n gweithredu fel awdurdod gweinyddu ar gyfer Cronfa Bensiwn Clwyd

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol y Gronfa Bensiwn Clwyd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yn 31 Mawrth 2023 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae datganiadau ariannol y Gronfa Bensiwn Clwyd yn cynnwys cyfrif y gronfa, datganiad o'r asedau net a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiâu cyfrifyddu perthnasol. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o drafodiadau ariannol y gronfa bensiwn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, ac o swm a threfniadaeth ei hasedau a'i rhwymedigaethau ar y dyddiad hwnnw;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (Y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y gronfa bensiwn yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r gronfa bensiwn i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad, mae'r wybodaeth a geir yn yr adroddiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer, yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r adroddiad blynyddol yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am Cronfa Bensiwn Clwyd a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr adroddiad blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

Cyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y datganiadau ariannol, y swyddog cyllid cyfrifol sy'n gyfrifol am:

- baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun cywir a theg;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall; ac
- asesu gallu y Gronfa Bensiwn Clwyd i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y swyddog cyllid cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Cronfa Bensiwn Clwyd yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cronfa Bensiwn Clwyd sy'n ymwneud ag:
 - i. adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
 - ii. canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
 - iii. y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll yn rheolwyr yn diystyru rheolaethau.
- Cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Cronfa Bensiwn Clwyd, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cronfa Bensiwn Clwyd yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith

uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cronfa Bensiwn Clwyd.

- Cael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Penisynau ac ymgynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r awdurdod gweinyddu; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o wyrduedd bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cronfa Bensiwn Clwyd, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Yr wyf yn tystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cronfa Bensiwn Clwyd yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
30 Tachwedd 2023

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn Cyngor Sir y Fflint/Cronfa Bensiynau Clwyd sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal cywirdeb gwefan Cyngor Sir y Fflint / Cronfa Bensiynau Clwyd nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac felly nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan yn gyntaf.

Atodiad 8: Adroddiad Ariannol

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys adroddiadau monitro ariannol ar gyfer y flwyddyn 2022/23 sy'n dangos y llif arian ac incwm a gwariant o'i gymharu â'r gyllideb. Mae hefyd yn manylu ar gyfraniadau gan gyflogwyr a gweithwyr, ac yn dangos gwybodaeth bellach ar gyfraniadau, asedau, incwm o fuddsoddiad, a ffioedd rheoli.

Caiff prosesau a gweithgareddau ariannol y Gronfa eu craffu gan swyddogion archwilio mewnol ac allanol, sy'n helpu i leihau'r risg o gamgymeriadau a thwyll. Mae'r Gronfa yn derbyn adroddiadau gan Dîm Archwilio Mewnol Cyngor Sir y Fflint ac Archwilio Cymru, ac yn rhoi argymhellion ar waith yn briodol.

Llif Arian 2022/2023

Mae'r Gronfa'n gweithredu llif arian treigl tair blynedd a gaiff ei amcangyfrif a'i fonitro bob chwarter. Mae yna nifer o faterion anhysbys o fewn y llif arian, megis trosglwyddiadau i mewn ac allan o'r gronfa a rhandaliadau a dosbarthiadau ar draws Portffolio Marchnad Breifat y Gronfa, y mae'r dyraniad strategol presennol yn 29% o'r Gronfa. Mae rhagfynegiadau llif arian ar gyfer yr hawliadau am randaliadau a dosbarthiadau yn cael eu hailasesu bob blwyddyn i ymgorffori'r ffigurau gwirioneddol am y flwyddyn ac unrhyw ymrwymïadau pellach y cytunwyd arnynt yn ystod y cyfnod. Mae'r tabl canlynol yn dangos crynhoad o'r llif arian terfynol ar gyfer 2022/23. Mae hyn wedi'i seilio'n gyfan gwbl ar arian parod ac nid yw'n ystyried unrhyw symudiadau yng ngwerth asedau na ffioedd buddsoddi rheoli sy'n cael eu cynnwys yn y cronfeydd cyfun ac yn cael eu cyfrif ar ddiwedd y flwyddyn, nac unrhyw groniadau diwedd blwyddyn.

2022/23	Cyllideb £000	Gwirioneddol £000	Amrywiant £000
Arian Agoriadol	(75,898)	(79,645)	
Taliadau			
Pensiynau	68,400	70,660	2,260
Cyfandaliadau a Grantiau Marwolaeth	16,000	17,183	1,183
Trosglwyddiadau allan	6,000	5,974	(26)
Treuliau (ac eithrio buddsoddiadau)	6,800	6,128	(672)
Treth a Dalwyd	100	111	11
Gwasanaethau Cefnogi	200	131	(69)
Cyfanswm Taliadau	97,500	100,187	2,687
Incwm			
Cyfraniadau Cyflogwyr	(49,000)	(56,977)	(7,977)
Cyfraniadau Gweithwyr	(17,200)	(20,070)	(2,870)
Taliadau Diffyg Cyflogwyr	(15,000)	(14,889)	111
Trosglwyddiadau i mewn	(6,000)	(6,245)	(245)
Elfen Bensiwn	(1,200)	(670)	530
Incwm	(40)	(479)	(439)
Cyfanswm Incwm	(88,440)	(99,330)	(10,890)
Llif Arian Net o Incwm Buddsoddi	9,060	857	(8,203)
Incwm Buddsoddi	(8,000)	(12,130)	(4,130)
Treuliau Buddsoddi	4,000	6,999	2,999
Cyfanswm Net o Fuddsoddiadau Mewnol	5,060	(4,274)	(9,334)
Buddsoddiadau Mewnol			
Rhandaliadau	103,661	82,865	(20,796)
Dosbarthiadau	(98,146)	(91,626)	6,520
Gwariant Net/ (Incwm)	5,515	(8,761)	(14,276)
Cyfanswm Llif Arian Net	10,575	(13,035)	(23,610)
Symudiadau i/gan Reolwyr	0	(5,602)	(5,602)
Arian Terfynol	(65,323)	(98,282)	

Rhagolwg Llif Arian 3 Blynedd

Mae'r tabl canlynol yn dangos y rhagolygon llif arian ar gyfer y tair blynedd nesaf hyd at fis Mawrth 2026.

	2023/24 £000	2024/25 £000	2025/26 £000
Arian Agoriadol	(96,470)	(27,227)	(121)
Taliadau			
Pensiynau	76,800	80,800	85,140
Cyfandaliadau a Grantiau Marwolaeth	16,000	16,000	16,000
Trosglwyddiadau allan	6,000	6,000	6,000
Treuliau (ac eithrio buddsoddiadau)	5,900	5,900	5,900
Treth a Dalwyd	100	100	100
Gwasanaethau Cefnogi	135	135	135
Cyfanswm Taliadau	104,935	108,935	113,275
Incwm			
Cyfraniadau Cyflogwyr	(60,000)	(62,800)	(65,200)
Cyfraniadau Gweithwyr	(20,200)	(21,000)	(21,800)
Cyflogwr (Taliadau Diffyg) / Neilltuo Gwarged	9,200	11,600	12,000
Trosglwyddiadau i mewn	(6,000)	(6,000)	(6,000)
Elfen Bensiwn	(1,200)	(1,200)	(1,200)
Incwm	(200)	(80)	(80)
Cyfanswm Incwm	(78,400)	(79,480)	(82,280)
Llif Arian Net o Incwm Buddsoddi	26,535	29,455	30,995
Incwm Buddsoddi	(12,000)	(12,000)	(12,000)
Treuliau Buddsoddi	6,000	6,000	6,000
Cyfanswm Net o Fuddsoddiadau Mewnol	20,535	23,455	24,995
Buddsoddiadau Mewnol			
Rhandaliadau	131,210	147,151	171,795
Dosbarthiadau	(82,502)	(73,500)	(73,300)
Gwariant Net/ (Incwm)	48,708	73,651	98,495
Cyfanswm Llif Arian Net	69,243	97,106	123,490
Ail-gydbwyso Portffolio	0	(70,000)	(131,000)
Arian Terfynol	(27,227)	(121)	(7,631)

Dadansoddiad o Dreuliau Gweithredu

Mae'r tabl canlynol yn dangos treuliau gweithredu gwirioneddol y Gronfa ar gyfer 2022/23 o'u cymharu â 2021/22. Mae ffioedd rheoli cyffredinol wedi cynyddu'n bennaf oherwydd y cynnydd yn ffioedd marchnad breifat o'r ymrwymadau ychwanegol a wnaed yn ystod y flwyddyn. Roedd y newidiadau sylweddol eraill yn deillio o gostau y broses brisio actiwaraid, a chostau ymgynghorydd buddsoddi mewn perthynas â'r portffolio marchnadoedd preifat ac adroddiad buddsoddi cyfrifol.

	Gwirioneddol 2021/22 £000	Gwirioneddol 2022/23 £000	Amrywiant 2021/22 I 2022/23 £000
Treuliau Llywodraethu			
Costau Gweithwyr	299	281	(18)
Costau Cefnogi a Gwasanaethau (Ad-daliadau Mewnol) gan gynnwys TG	23	18	(5)
Arall (Cludiant, Cyflenwadau a Gwasanaethau)	65	64	(1)
Ffioedd Archwilio	41	47	6
Ffioedd Actiwaraid	493	926	433
Ffioedd Ymgynghori	1,066	1,548	482
Cronni (Costau Cynnal ac Ymgynghori)	144	163	19
Ffioedd Cynghori	533	586	53
Ffioedd Cyfreithiol	113	74	(39)
Bwrdd Pensiwn	101	96	(5)
Cyfanswm Treuliau Llywodraethu	2,878	3,803	925
Treuliau Rheoli Buddsoddiadau			
Ffioedd Rheolwyr Cronfa	19,490	21,298	1,808
Ffioedd Cadw	106	158	52
Ffioedd Monitro Perfformiad	53	46	(7)
Cronni (Gweithredwr a chostau FM)	998	930	(68)
Cyfanswm Treuliau Rheoli Buddsoddiadau	20,647	22,432	1,785
Treuliau Gweinyddol			
Costau Gweithwyr	1,242	1,391	149
Costau Gwasanaethau Cymorth (ad-daliadau CSyFf)	150	114	(36)
Adeiladau	0	0	0
TG (Gwasanaethau a godir amdanynt yn uniongyrchol neu'n allanol)	488	515	27
Arall (Cyflenwadau a Gwasanaethau ac ati)	102	125	23
Contractau Allanol	41	0	(41)
Cyfanswm Treuliau Gweinyddol	2,023	2,146	123
Tîm Cyfathrebu â Chyflogwyr			
Costau Uniongyrchol	218	320	102
Cyfanswm Tîm Cyfathrebu â Chyflogwyr	218	320	102
Cyfanswm y Costau	25,766	28,701	2,935

Mae'r tabl canlynol yn dangos gwir gostau 2022/23 o'u cymharu â'r costau a gyllidwyd ynghyd â'r gyllideb ar gyfer 2023/24. Dros 2022/23, ac eithrio ffioedd rheolwr cronfa, roedd y Gronfa yn gweithredu o dan y gyllideb yn ystod y flwyddyn. O ystyried bod ffioedd rheoli cronfa yn seiliedig ar werth asedau a gall gynnwys ffioedd perfformiad, roedd y gyllideb ddisgwyliedig ar gyfer 2022/23 yn is na'r union gostau. Roedd prif amrywiaethau yn erbyn y gyllideb yn ystod y flwyddyn yn danwariant ar ffioedd ymgynghorydd, TG a chostau gweithwyr oherwydd swyddi gwag yn parhau heb eu llenwi.

	Gwirioneddol 2022/23 £000	Cyllideb 2022/23 £000	Amrywiant 2022/23 £000	Cyllideb 2023/24 £000
Treuliau Llywodraethu				
Costau Gweithwyr	281	397	(116)	413
Costau Cefnogi a Gwasanaethau (Ad-daliadau Mewnol) gan gynnwys TG	18	27	(11)	17
Arall (Cludiant, Cyflenwadau a Gwasanaethau)	64	95	(31)	95
Ffioedd Archwilio	47	45	2	45
Ffioedd Actiwaraidd	926	879	47	722
Ffioedd Ymgynghori	1,548	1,627	(79)	1,087
Cronni (Costau Cynnal ac Ymgynghori)	163	197	(34)	215
Ffioedd Cyngori	586	517	69	598
Ffioedd Cyfreithiol	74	100	(26)	30
Bwrdd Pensiwn	96	113	(17)	111
Cyfanswm Treuliau Llywodraethu	3,803	3,999	(196)	3,333
Treuliau Rheoli Buddsoddiadau				
Ffioedd Rheolwyr Cronfa	21,298	16,275	5,023	19,755
Ffioedd Cadw	158	112	46	192
Ffioedd Monitro Perfformiad	46	53	(7)	46
Cronni (Gweithredwr a chostau FM)	930	500	430	885
Cyfanswm Treuliau Rheoli Buddsoddiadau	22,432	16,940	5,492	20,878
Treuliau Gweinyddol				
Costau Gweithwyr	1,391	1,433	(42)	1,636
Costau Gwasanaethau Cymorth (ad-daliadau CSyFf)	114	158	(44)	114
Adeiladau	0	0	0	0
TG (Gwasanaethau a godir amdanynt yn uniongyrchol neu'n allanol)	515	715	(200)	718
Arall (Cyflenwadau a Gwasanaethau ac ati)	125	146	(21)	146
Contractau Allanol	0	0	0	0
Cyfanswm Treuliau Gweinyddol	2,146	2,452	(306)	2,614
Tîm Cyfathrebu â Chyflogwyr				
Costau Uniongyrchol	320	363	(43)	396
Cyfanswm Tîm Cyfathrebu â Chyflogwyr	320	363	(43)	396
Cyfanswm Costau	28,701	23,754	4,947	27,221

Cyflogwyr sy'n rhan o'r Gronfa ar 31 Mawrth 2023

Cyfraniadau

Cyfrannodd 52 o gyrff at y Gronfa yn ystod 2022/23, 33 rhestredig a 19 wedi'u derbyn. Telir cyfraniadau i'r Gronfa erbyn y 19eg diwrnod o'r mis sy'n dod ar ôl y mis y mae'r cyfraniadau yn berthnasol iddo. Mae cyfraniadau cyflogwyr a gweithwyr (gan gynnwys taliadau diffyg) a ddaeth i law yn ystod 2022/23 i'w gweld yn y tabl isod, yn ogystal â chyfradd y cyfraniad fel canran o'r cyflog pensiynadwy.

Ni ymunodd unrhyw gorff newydd â'r Gronfa yn ystod 2022/23 ac mae 2 gorff wedi rhoi'r gorau i gyfranogiad yn y flwyddyn (cyrff a dderbyniwyd) h.y. ar 31 Mawrth 2023. Mae 50 o gyflogwyr sy'n cyfranogi yn parhau. Nid oes unrhyw fondiau nac unrhyw drefniadau ariannu gwarantedig eraill wedi cael eu gwneud.

Cyrff rhestredig	Cyfraniadau Cyflogwyr £	%	Cyfraniadau Gweithwyr £	% Cyfarta ledd
Cyngor Sir y Fflint	23,422,485	22.7	6,388,073	6.2
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	21,023,807	22.6	5,731,735	6.2
Cyngor Sir Ddinbych	17,458,075	23.4	4,645,468	6.2
Coleg Cambria	3,505,058	21.0	1,075,855	6.5
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru	894,589	15.3	373,611	6.4
Prifysgol Glyndŵr	1,914,499	21.0	619,355	6.8
Tribiwnlys Prisiad Gogledd Cymru	50,684	32.1	12,693	8.0
Cyngor Tref y Rhyl	44,157	34.8	9,413	7.4
Cyngor Cymuned Penarlâg	41,938	19.6	15,063	7.0
Cyngor Tref Prestatyn	28,796	18.0	11,228	7.0
Cyngor Tref yr Wyddgrug	20,732	16.9	7,990	6.5
Cyngor Cymuned Coedpoeth	14,073	16.8	5,025	6.0
Cyngor Cymuned Rhos	22,688	22.4	6,012	5.9
Cyngor Tref Treffynnon	16,719	20.1	5,232	6.3
Cyngor Tref Bwcle	9,091	13.4	5,569	6.1
Cyngor Cymuned Parc Caia	14,918	12.1	7,379	6.0
Cyngor Tref Dinbych	7,714	18.5	2,608	6.3
Cyngor Cymuned Offa	8,950	16.0	3,400	6.1
Cyngor Tref Shotton	5,071	20.0	1,163	4.6
Cyngor Cymuned Cefn Mawr	7,554	11.7	3,288	5.1
Cyngor Cymuned Acton	7,188	23.6	1,754	5.7
Cyngor Tref y Fflint	8,169	17.5	2,986	6.4
Cyngor Cymuned Gresffordd	5,610	22.3	1,440	5.7
Rhuthun	6,843	16.0	2,704	6.3
Cyngor Cymuned Marchwiall	3,618	29.8	887	7.3

Cyngor Cymuned Penyffordd	5,322	16.1	1,873	5.7
Cyngor Cymuned yr Hôb	2,478	17.1	797	5.5
Brychdyn a Bretton	3,942	21.9	1,044	5.8
Cyngor Cymuned Bagillt	2,105	18.1	641	5.5
Cyngor Tref Llaneurgain	2,072	21.9	527	5.6
Cyngor Cymuned Gwernymynydd	1,945	31.3	371	6.0
Cyngor Cymuned Argoed	895	6.9	717	5.5
Cyngor Tref Cei Connah	0	0.0	5,938	6.0
Cyfanswm Cyrff Rhestredig	68,561,785		18,950,376	

Cyrff a dderbyniwyd	Cyfraniadau Cyflogwyr	%	Cyfraniadau Gweithwyr	% Cyfarta ledd*
	£		£	
Newydd Catering & Cleaning Cyf	518,670	21.8	135,340	5.7
Hamdden Sir Ddinbych	956,252	16.8	347,490	6.1
Hamdden a Llyfrgelloedd Aura Cyf.	514,906	17.2	188,074	6.3
Gyrfa Cymru	260,469	15.9	104,823	6.4
Civica UK	82,348	15.5	34,918	6.6
Home Farm Trust Cyf	79,942	17.5	27,336	6.0
Freedom Leisure	100,598	16.0	40,049	6.4
Holywell Leisure Cyf	35,026	14.7	12,823	5.4
Undeb Myfyrwyr Glyndŵr	19,474	12.1	9,953	6.2
Aramark Cyf	16,846	16.8	5,613	5.6
Cartref NI	13,545	21.0	3,863	6.0
Hafan Deg (KL Care)	4,875	23.0	1,206	5.7
Churchills	5,891	19.6	1,653	5.5
Dolce	7,298	21.7	1,850	5.5
Prosiect Ieuenctid Dinbych	3,950	14.2	7,810	28.0
Cartref Dyffryn Ceiriog	0	0.0	4,385	6.0
Ymddiriedolaeth Cerdd Theatr Clwyd	92,857	19.5	28,665	6.0
Ymddiriedolaeth Theatr Clwyd	251,410	18.4	90,380	6.6
Aramark Cyf B	38,460	26.6	9,148	6.3
Cyfanswm Cyrff a dderbyniwyd	3,002,817		1,055,379	
Cyfanswm y Cyfraniadau	71,564,602		20,005,755	

*Ar gyfer rhai cyflogwyr, mae ffigurau cyfraniadau gweithwyr yn cynnwys cyfraniadau tuag at Gontractau Pensiwn Ychwanegol (CPY) yn ychwanegol at y % cyfraniadau rheolaidd sy'n daladwy. Mewn rhai achosion, gall talu CPY ystumio cyfradd gyfartalog ymhlyg y gweithwyr o ystyried maint cymharol y cyfraniadau a dalwyd.

Gallwn godi llog ar gyfraniadau hwyr yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r dadansoddiad isod yn dangos nifer y cyfraniadau hwyr a wnaed i'r Gronfa, ynghyd â'r symiau a'r achlysuron dan

sylw. Newidiodd cyflogwr D yn y tabl canlynol ei ddarparwr cyflogau yn ystod y flwyddyn gan arwain at daliadau hwyr ar ddau achlysur. Mae cyflogwr F wedi gadael y Gronfa yn awr.

Ni wnaeth y Gronfa arfer yr opsiwn i godi llog ar unrhyw un o'r cyflogwyr yn ystod y flwyddyn ond fe gofrestrwyd yr achosion yng nghofrestr torri cytundebau'r Gronfa ac fe gawsant eu hadrodd wrth Bwyllgor y Gronfa Bensiynau. Cyfanswm yr holl daliadau hwyr oedd £248,478 (0.35% o gyfanswm cyfraniadau gweithiwr).

Cyflogwr	Achlysuron Hwyr	Cyfraniadau (£)
A	3	2,419
B	1	3,535
C	1	427
D	2	224,475
E	1	500
F	7	3,635
G	1	4,745
H	1	8,742

Asedau'r Gronfa

Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o asedau'r Gronfa fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2023.

	Y DU £000	Ddim yn y DU £000	Byd-eang £000	Cyfanswm £000
Ecwitiai	0	115,712	130,027	245,739
Asedau amgen	251,476	385,974	421,818	1,059,268
Bondiau a buddsoddiadau'n seiliedig ar ddyledion (LDI)	663,896	0	230,688	894,584
Eiddo (Uniongyrchol)	0	0	0	0
Arian Parod	98,590			98,590
Cyfanswm	1,013,962	501,686	782,533	2,298,181

Mae'r portffolio o asedau amgen yn cynnwys buddsoddiadau cyfun yn y dosbarthiadau canlynol o asedau:

Cyfrif Cronfa Fantoli a Reolir, Cronfeydd Twf Amrywiaethol a Marchnadoedd Preifat, yn cynnwys Eiddo, Dyled Breifat, Ecwiti Preifat ac Effaith/Lleol, Isadeiledd, Coed ac Amaethyddiaeth.

Incwm Buddsoddi

Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o incwm buddsoddi'r Gronfa fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2023.

	Y DU £000	Ddim yn y DU £000	Byd- eang £000	Cyfanswm £000
Ecwitiau	0	7,086	3,044	10,130
Asedau amgen	10,274	4,785	0	15,059
Bondiau a buddsoddiadau'n seiliedig ar ddyledion (LDI)	0	0	8,392	8,392
Eiddo (Uniongyrchol)	0	0	0	0
Arian Parod	688	0	0	688
Cyfanswm	10,962	11,871	11,436	34,269

Treuliau Rheolwr y Gronfa (gan gynnwys ffioedd tanategol)

Mae'r ffioedd a ddatgelir yn y datganiad cyfrifon yn yr Adroddiad Blynnyddol wedi'u datgelu yn unol â chanllawiau Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) sy'n datgan y dylai ffioedd a threuliau gael eu cynnwys os oes gan y Gronfa berthynas uniongyrchol â'r rheolwr buddsoddi yn unig. Mae'r ffioedd hyn yn cynnwys cost rheoli flynyddol yn ogystal â chostau ychwanegol megis treuliau gweithredol, gweinyddol a chyfreithiol. Datgelir unrhyw gostau am ffioedd perfformiad a thrafodion hefyd. Datgelir y rhain yn Nodyn 11 yng nghyfrifon y Gronfa.

Nid oes yn rhaid datgelu ffioedd sy'n gysylltiedig â rheolwyr tanategol yn y rheoliadau cyfrifeg, fodd bynnag mae'r Gronfa'n credu y dylem ddarparu gwybodaeth am yr holl ffioedd sy'n ymwneud â'n buddsoddiadau i'n budd-ddeiliaid.

Mae'r Gronfa'n agored i reolwyr tanategol drwy fuddsoddiadau mewn mandadau amgen gan gynnwys Cronfeydd Mantoli, y Portffolio Asedau Tactegol a Marchnadoedd Preifat.

Mae'r tabl isod yn dangos y ffioedd a'r treuliau a fyddai wedi cael eu datgelu pe bai ffioedd tanategol a'u ffioedd perfformiad wedi cael eu cynnwys.

Mae'r tabl hefyd yn dangos cyfartaledd o'r pwyntiau sylfaen a godwyd am bob categori ffi ar gyfer prisio asedau craidd, asedau eraill a chyfanswm y gronfa.

Ffioedd Rheoli'r Gronfa	Pwyntiau sylfaen ar gyfartaledd	22/23 £000	Pwyntiau sylfaen ar gyfartaledd	21/22 £000
CRAIDD (71% o'r Gronfa)	63	9,765	54	9,526
Cyfanswm y treuliau gan gynnwys Tâl Rheoli Blyneddol	20	3,177	17	2,946
Ffioedd Tanategol (gan gynnwys ffioedd perfformiad a thrafodion)	36	5,585	30	5,295
Ffioedd Perfformiad	0	0	0	0
Ffioedd Trafodion	7	1,003	7	1,285
DDIM YN GRAIDD (29% o'r Gronfa)	311	19,848	302	18,643
Cyfanswm y treuliau gan gynnwys Tâl Rheoli Blyneddol	200	12,762	182	11,239
Ffioedd Tanategol (gan gynnwys ffioedd perfformiad a thrafodion)	28	1,800	39	2,386
Ffioedd Perfformiad	69	4,425	71	4,399
Ffioedd Trafodion	14	861	10	619
Cyfanswm ffioedd tanategol	34	7,385	32	7,681
Cyfanswm ffioedd uniongyrchol	101	22,228	86	20,488
Cyfanswm ffioedd	135	29,613	118	28,169
Asedau Net (Craidd)		1,562,141		1,757,294
Asedau Net (Nad ydynt yn rhai craidd)		637,450		618,616
Cyfanswm Asedau Net (heb gynnwys arian mewn llaw)		2,199,591		2,375,910

Mae asedau o fewn y datgeliad "Craidd" yn cynnwys: Ecwitiai Gweithredol, Incwm Sefydlog Digyfngiad, Buddsoddiadau'n Seiliedig ar Ddyledion, Platfform Cyfrif Cronfa Fantoli a Reolir, Cronfeydd Twf Amrywiaethol a'r Portffolio Asedau Tactegol. Mae'r rhain yn cyfrif am 71% (74% yn 2021/22) o asedau'r Gronfa ond dim ond 33% (34% yn 2021/22) o gyfanswm y ffioedd. Mae asedau o fewn y datgeliad "rhai nad ydynt yn rai craidd" yn cynnwys: Dyled Breifat, Ecwiti Preifat (Uniongyrchol a Chronfa o Gronfeydd), Eiddo (Pen Agored a Chaeedig), Isadeiledd, Coed ac Amaethyddiaeth. Tra bo'r rhain yn dod i 29% (26% yn 2021/22) o asedau'r Gronfa, mae cyfran o'r ffioedd yn dod i 67% (66% yn 2021/22). Mae'r ffigurau hyn

yn cynnwys ffioedd tanategol. O'i gymharu, gan eithrio'r ffioedd tanategol, mae cyfran y ffioedd ar gyfer asedau craidd yn 19% (21% yn 2021/22) a rhai nad ydynt yn graidd, 81% (79% yn 2021/22). Mae nifer o reolwyr y Gronfa wedi cofrestru ar gyfer Menter Tryloywder Cost ac yn darparu ffioedd drwy dempled Menter Tryloywder Cost.

Symudiadau yn yr Asedau Cyfredol a'r Rhwymedigaethau Cyfredol

Bu gostyngiad mewn asedau cyfredol o £254,000 yn 2022/23. Cynyddodd y rhwymedigaethau cyfredol o £354,000 o ganlyniad i gynydd yn y symiau dyledus i'r Credydwy'r Amrywiol.

Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC)

Sefydlwyd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn 2017 er mwyn darparu:

- arbedion maint
- trefniadau llywodraethu a gwneud penderfyniadau cryf
- lleihau costau a gwerth am arian gwych, a
- gwella'r gallu i fuddsoddi mewn isadeiledd


Mae PPC yn un o wyth cronfa bensiwn llywodraeth leol ac mae'n cynnwys wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru, yn cynnwys Caerdydd a Bro Morgannwg, Clwyd, Dyfed, Gwent Fwyaf (Torfaen), Gwynedd, Powys, Rhondda Cynon Taf ac Abertawe. Mae gan yr wyth gronfa hanes llwyddiannus o gydweithio gan gynnwys tendr cydweithredol ar gyfer darparwr ecwiti goddefol unigol i gronfeydd Cymru sydd yn ôl-ddyddio menter cronni'r llywodraeth.

Mae rheoli buddsoddiadau ar y cyd yn gynnig y posibilrwydd ar gyfer arbedion ffioedd buddsoddi, cyfleoedd i ehangu portffolios buddsoddi, gwella gweithgareddau pleidleisio ac ymgysylltu yn ogystal â chael mynediad at wybodaeth a rennir ac arfer orau. Tra bod PPC yn gyfrifol am ddarparu datrysiadau buddsoddi ar y cyd, mae pob awdurdod sy'n aelod yn gyfrifol am osod eu strategaethau buddsoddi eu hunain.

Mae model gweithredu PPC wedi'i lunio i fod yn hyblyg ac i ddarparu gwerth am arian. Penododd PPC weithredwr cyllid allanol a defnyddio ymgynghorwyr allanol i ddod â'r arbenigedd orau i gefnogi cynnal y Gronfa. Y Gweithredwr yw Link Fund Solutions ac maent wedi ffurfio partneriaeth gyda Russell Investments i ddarparu datrysiadau rheoli buddsoddiadau effeithiol a darparu rhwyd gref o berfformiad ffi ar gyfer yr holl Awdurdodau Cyfansoddol.

Llywodraethu

Mae PPC yn manylu ar sut mae'n delio â phob agwedd ar lywodraethu drwy ei Gytundeb Rhyng Awdurdod a gymeradwywyd gan yr wyth awdurdod sy'n aelodau ym mis Mawrth 2017. Mae'r cytundeb yn diffinio'r safonau, rolau a chyfrifoldebau Awdurdodau Cyfansoddol, ei aelodau, pwyllgorau a swyddogion ac yn cynnwys Cynllun Dirprwyo sy'n amlinellu'r broses o wneud penderfyniadau. Yn unol â'i gred y dylai llywodraethu da arwain at ganlyniadau gwell i fudd-ddeiliaid, mae PPC wedi rhoi strwythur llywodraethu cadarn ar waith:



Wyth Awdurdod Cyfansoddol PPC yw:

- Cyngor Sir Gâr (Yn cynnal)
- Cyngor Dinas a Sir Abertawe
- Cyngor Dinas Caerdydd
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn eistedd ar frig strwythur llywodraethu PPC. Maent yn cadw rheolaeth ar holl weithgareddau PPC ac yn gyfrifol am gymeradwyo Cynllun Busnes PPC, sy'n amlinellu cyllideb a chynllun gwaith PPC yn ogystal â chredoau ac amcanion PPC.

Mae'r Cydbwyllgor Llywodraethu yn goruchwylio ac yn adrodd ar PPC ac mae'n cynnwys un aelod etholedig o bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol a chynrychiolydd aelod cynllun cyfetholedig (heb bleidlais).

Mae'r Gweithgor Swyddogion yn darparu cymorth a chynghor i'r Cydbwyllgor Llywodraethu ac yn cynnwys ymarferwyr a swyddogion Adran 151 o bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol.

Cyngor Sir Gâr yw Awdurdod Cynnal PPC ac mae'n gyfrifol am ddarparu cefnogaeth weinyddol ac ysgrifenyddol i'r Cydbwyllgor Llywodraethu a'r Gweithlu Swyddogion, a chysylltu'n ddyddiol gyda'r Gweithredwr ar ran cronfeydd Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru.

Mae Link Fund Solutions (Gweithredwr) yn ymgymryd ag amrywiaeth o wasanaethau ar gyfer PPC, gan gynnwys hwyluso cerbydau buddsoddi ac is-gronfeydd, adrodd ar berfformiad, gweithredu trawsnewidiadau, monitro rheolwyr a thrafod ffioedd. Mae Cytundeb Gweithredwr ar waith sy'n gosod dyletswyddau contract y Gweithredwr ac yn

rheoli'r berthynas rhwng y Gweithredwr a PPC. Mae'r Cydbwyllgor Llywodraethu a'r Gweithgor Swyddogion, gyda chefnogaeth Hymans Robertson, yn arolygu'r gwaith y mae Link Fund Solutions yn ei gyflawni ar ran PPC. Mae Link yn ymgysylltu â'r Awdurdodau Cyfansoddol drwy:

- Ymgysylltu uniongyrchol: mynd i gyfarfodydd blynyddol y pwyllgor
- Ymgysylltu anuniongyrchol: gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol ar y cyd, drwy'r Cydbwyllgor Llywodraethu a'r Gweithgor Swyddogion

Mewn cydweithrediad â Link Fund Solutions, mae Russell Investments yn darparu gwasanaethau datrys rheoli buddsoddiadau i PPC ac maent yn gweithio mewn ymgynghoriad gydag wyth Awdurdod Cyfansoddol PPC i sefydlu cerbydau buddsoddi.


Northern Trust yw'r storfa ar gyfer cerbyd ACS PPC ac mae'n darparu amryw o wasanaethau yn cynnwys benthyca gwarantau, gweinyddu cronfeydd, monitro cydymffurfio ac adrodd.

Hymans Robertson yw Ymgynghorydd Arolygu PPC ac mae eu rôl yn cynnwys arolygu a rhoi cyngor ar drefniadau rheoli, gwasanaethau gweithredwr, agweddau buddsoddi strategol a chefnogaeth rheoli prosiectau.

Burges Salmon yw ymgynghorwyr cyfreithiol PPC ac maent yn darparu cyngor cyfreithiol mewn perthynas â chronfeydd, treth a threfniadau llywodraethu sydd wedi'u rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, gan gynnwys cynorthwyo gyda phrosesau caffael cymhleth.

Mae Robeco UK wedi'u penodi'n ddarparwyr Pleidleisio ac Ymgysylltu ac maent yn gyfrifol am weithredu'r Polisi Pleidleisio ar draws portffolio PPC ac am gynnal gweithgareddau ymgysylltu ar ran PPC.

Mae credoau PPC yn sylfeini ar gyfer ei fframwaith llywodraethu ac wedi'u defnyddio i arwain holl weithgareddau a phenderfyniadau'r bartneriaeth, yn cynnwys ei hamcanion a'i pholisïau. Mae PPC, mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau Cyfansoddol, wedi datblygu cyfres o bolisïau llywodraethu. Ymhob achos, mae polisïau a gweithdrefnau PPC wedi'u datblygu naill ai i ategu neu ychwanegu at weithdrefnau a pholisïau presennol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Mae polisïau, cofrestrau a chynlluniau allweddol PPC wedi'u rhestru isod ac ar gael ar wefan PPC.



Mae Buddsoddi Cyfrifol wedi bod yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer y PPC ers ei sefydlu yn 2017. Cynhaliwyd sawl gweithgaredd i weithio tuag at uchelgais PPC o fod yn arweinydd ym maes Buddsoddi Cyfrifol. Yn wreiddiol roedd y ffocws ar lunio Polisi Buddsoddi Cyfrifol ond ers hynny mae PPC wedi llunio Polisi Risg Hinsawdd ac wedi gweithio gyda'r darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu, Robeco, i gytuno ar Bolisi Pleidleisio. Mae PPC wedi sefydlu is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol i fod yn gyfrifol am ffrydiau gwaith a chamau gweithredu buddsoddi cyfrifol sydd eu hangen i gyflawni'r ymrwymadau a geir ym Mholisiau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd PPC.

Mae'r Cynllun Busnes, y Llawlyfr Llywodraethu a'r holl bolisiau a nodir yn y siart uchod ar gael ar wefan PPC: <https://www.partneriaethpensiwnwymru.org/>

Risg

Mae rheoli risg yn elfen allweddol o ymrwymiad PPC i lywodraethu da, mae PPC wedi datblygu strategaeth risg strwythuredig, helaeth a chadarn sy'n ceisio nodi a mesur risgiau allweddol a sicrhau bod rheolaethau a gweithdrefnau llywodraethu addas yn cael eu rhoi ar waith i reoli'r risgiau hynny. Mae Polisi Risg PPC wedi'i ddatblygu fel bod modd rhagweld a delio â risgiau yn gyflym ac effeithiol i leihau colled neu niwed posibl i PPC a'r budd-ddeiliaid.

Mae PPC yn cadw Cofrestr Risg a gaiff ei hadolygu'n rheolaidd gan Is-Grŵp Risg, sydd wedyn yn adrodd yn ôl i'r Gweithgor Swyddogion a'r Cydbwyllgor Llywodraethu bob chwarter.

Hyfforddiant

Mae gan PPC ei Bolisi Hyfforddiant ei hun ac mae hefyd yn datblygu cynllun hyfforddi blynyddol sydd wedi'i ddylunio i ategu cynlluniau hyfforddi'r Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn dal yn mynd i'r afael ag anghenion hyfforddiant lleol, gyda PPC yn cynnig hyfforddiant sy'n berthnasol i weithgareddau cronni PPC.

Mae'n arfer gorau i bersonél PPC feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth briodol o:

- Y rheoliadau a'r farchnad sy'n ymwneud â phensiynau;
- Cyfuno Cynlluniau Pensiwn Awdurdodau Lleol;
- Cyfleoedd buddsoddi perthnasol.

Yn unol â'r cynllun hyfforddi cymeradwy, roedd yr hyfforddiant canlynol ar gael i aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd yn ystod 2022/23:

Pwnc	Gwybodaeth Cynnyrch	Dyddiad
Dyranwyr Marchnadoedd Preifat/Ecwitiau Cynaliadwy Gweithredol	Ecwiti cynaliadwy: Credyd Preifat / Dosbarthiadau Asedau Isadeiledd a rôl y Dyranwyr	22 Medi 2022
Llywodraethu a Gweinyddu / Rolau a Chyfrifoldebau	Llywodraethu a Gweinyddu PPC, a Rolau a Chyfrifoldebau o fewn y PPC	19 Hydref 2022
Buddsoddiadau Cyfrifol PPC / Cod Stiwardiaeth / Adroddiadau'r Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd	Buddsoddiadau Cyfrifol PPC / Cod Stiwardiaeth / Adroddiadau'r Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd	5 Rhagfyr 2022
Benthyca Stoc	Benthyca Stoc	13 Chwefror 2023
Cronfeydd a chydweithrediad Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	Cynnydd Cronfeydd CPLIL / Cyfleoedd Cydweithio	27 Chwefror 2023

Cynnydd cronni hyd yma

Mae PPC yn ceisio darparu datrysiadau buddsoddi sy'n caniatáu'r Awdurdodau Cyfansoddol i weithredu eu strategaethau buddsoddi eu hunain gydag arbedion cost deunyddiau gan barhau i ddarparu perfformiad buddsoddi i'w budd-ddeiliaid. Mae PPC wedi gwneud cynnydd sylweddol i gyrraedd y nod hwn. Mae lansio tair is-gronfa ecwiti gweithredol cyntaf y PPC yn 2019/20, pump is-gronfa incwm sefydlog yn 2020/21, a'r is-gronfa ecwiti Marchnadoedd Datblygol yn 2021/22, ynghyd â buddsoddiadau goddefol presennol yr Awdurdodau Cyfansoddol, wedi golygu bod PPC wedi cronni 70% o asedau.

Ar 31 Mawrth 2023 mae gwerth asedau PPC yn £22.5 biliwn, gydag £15.6 biliwn o'r swm yma'n rhan o'r gronfa. Gweler y dadansoddiad isod:

Dosbarth Asedau	Rheolir gan	Dyddiad Lansio	31 Mawrth 2023 £000	%
Cronfa Twf Ecwiti byd-eang	Link Fund Solutions	Chwefror 2019	3,274,153	14.6
Cronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang	Russell Investments	Chwefror 2019	3,269,124	14.6
Cronfa Ecwiti Cyfleoedd y DU	Russell Investments	Medi 2019	760,143	3.4
Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Newydd	Russell Investments	Hydref 2021	354,601	1.6
Cronfa Gredyd Fyd-eang	Russell Investments	Gorffennaf 2020	693,665	3.1
Cronfa Bondiau'r Llywodraeth Fyd-eang	Russell Investments	Gorffennaf 2020	481,417	2.1
Cronfa Gredyd y DU	Link Fund Solutions	Gorffennaf 2020	520,721	2.3
Cronfa Gredyd Aml-ased	Russell Investments	Gorffennaf 2020	655,191	2.9
Cronfa Bondiau Enillion Absoliwt	Russell Investments	Medi 2020	559,107	2.5
Buddsoddiadau Goddefol	BlackRock	Mawrth 2016	5,074,366	22.6
Buddsoddiadau heb eu cronni			6,812,892	30.3
Cyfanswm Buddsoddiadau ar draws yr 8 Cronfa Bensiynau			22,455,380	100

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi asedau Cronfa Bensiynau Clwyd a reolir gan PPC ar hyn o bryd ar 31 Mawrth 2023, ynghyd â'r asedau sy'n parhau i fod dan oruchwyliaeth uniongyrchol y Gronfa, gan eithrio arian parod.

	31 Mawrth 2023 £000	%
Cronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang	130	5.9
Credyd Aml-ased	231	10.5
Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Newydd	116	5.3
Buddsoddiadau heb eu cronni	1,723	78.3
Cyfanswm Asedau Net (heb gynnwys arian mewn llaw)	2,200	100

Costau cyfuno

Cyngor Sir Gâr yw Awdurdod Cynnal PPC ac mae'n gyfrifol am ddarparu cefnogaeth weinyddol ac ysgrifenyddol a chysylltu'n ddyddiol gyda'r Gweithredwr ar ran cronfeydd Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru. Mae cyllideb PPC wedi'i chynnwys yng Nghynllun Busnes PPC ac yn cael ei chymeradwyo'n flynyddol gan yr wyth Awdurdod Cyfansoddol.

Mae costau'r Awdurdod Cynnal a'r Ymgynghorwr Allanol (y costau rhedeg) yn cael eu hariannu'n gyfartal (oni bai bod prosiectau penodol wedi'u cytuno ar gyfer Cronfeydd unigol) gan yr wyth Awdurdod Cyfansoddol ar sail flynyddol. Roedd y swm a ail godwyd i Gronfa Bensiynau Clwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 yn £158,000, gwelwch y tabl isod.

Yn ogystal â'r costau rhedeg, mae yna hefyd gostau pontio sy'n gysylltiedig â symud asedau i'r gronfa; mae modd categorio'r costau hyn yn gostau uniongyrchol ac yn gostau anuniongyrchol. Mae'r costau uniongyrchol yn cynnwys penodi rheolwr pontio i ymgymryd â'r gwaith pontio, ynghyd ag unrhyw oruchwylio ychwanegol yn sgil y broses hon o safbwynt ymchwil a myfyrio. Mae'r costau anuniongyrchol yn cynnwys costau penodol ac amhenodol, fel comisiynau, gwahaniaeth rhwng costau ac effaith a chostau costau cyfle a elwir yn Ddiffyg Gweithred. Mae'r costau pontio i'w priodoli'n uniongyrchol i'r asedau sy'n mynd drwy'r broses bontio ac felly'n cael eu tynnu o'u gwerth ased net o'u cyferbynnu â chost uniongyrchol i'r Gronfa.

Mae manylion y costau a ysgwyddir gan Gronfa Bensiynau Clwyd mewn perthynas â PPC i'w gweld isod.

2021/22 £000	Costau cyfuno PPC	2022/23 £000
20	Costau Awdurdod Cynnal *	21
114	Costau Ymgynghorwyr Allanol *	137
622	Costau Trafodion (Uniongyrchol) **	524
756	Cyfanswm	682

* Caiff costau'r Awdurdod Cynnal a'r Ymgynghorwyr Allanol eu had-dalu'n uniongyrchol i'r gronfa

** Mae costau trafodion (uniongyrchol) yn cael eu rhannu fel cyfran o gyfanswm AUM.

Costau Rheoli Buddsoddiad Parhaus

Mae'r tabl isod yn datgelu costau rheoli buddsoddiad wedi'i rannu rhwng y rhai sy'n cael eu dal gan PPC (gan gynnwys ecwiti goddefol) a'r rhai sy'n cael eu dal tu allan i PPC. Mae'r rhain yn cael eu rhannu i gostau uniongyrchol sy'n cael eu datgelu yng nghyfrifon y Gronfa fel y cyfarwyddir gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, a'r costau anuniongyrchol i reolwyr tanategol yr ydym yn eu datgelu ar dudalen 141 yr Adroddiad Blynnyddol hwn.

	Ffioedd a godwyd £000				
	Cyfanswm y treuliau gan gynnwys Tâl Rheoli Blynnyddol	Ffioedd Perfformiad	Costau Trafodion	Costau Cadw	Cyfanswm
Cyfuno Asedau					
Uniongyrchol	432	0	524	123	1,079
Anuniongyrchol (Tanategol)	1,302	0	0	0	1,302
Cyfanswm	1,734	0	524	123	2,381
bps	0.36	0.00	0.11	0.03	0.50
Cronfa heb asedau	15,507	4,425	1,340	35	21,307
Uniongyrchol	3,209	2,487	387	0	6,083
Anuniongyrchol (Tanategol)	18,716	6,912	1,727	35	27,390
Cyfanswm	1.09	0.40	0.10	0.00	1.59
bps	15,507	4,425	1,340	35	21,307
Cyfanswm y Gronfa	20,450	6,912	2,251	158	29,771
bps	0.93	0.31	0.10	0.01	1.35

Dyrannu Asedau a Pherfformiad

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos sut mae pob un o'r mandadau buddsoddi wedi perfformio yn ystod y flwyddyn, gyda gwerthoedd agor a chau a pherfformiad blwyddyn wedi'u cynnwys yn net o ffioedd lle bo ar gael. Yn ogystal, mae'r tabl yn rhannu buddsoddiadau o dan drefniadau wedi'u cronni gyda PPC a'r rhai sy'n parhau o dan drefniadau buddsoddi heb eu cronni gyda rheolwyr etifeddol y Gronfa ar 31 Mawrth 2023.

	Gwerth Agor £000	%	Gwerth Cau £000	%	Perfformiad Net %	Targed Lleol %
Asedau Cyfunol						
Ecwiti Byd-eang Goddefol	133,533	5.4	0	0.0	Amh.	Amh.
Ecwiti Marchnad Newydd Gweithredol	220,789	8.9	115,712	5.0	-1.6	-3.5
Ecwiti Byd-eang Gweithredol	129,762	5.2	130,027	5.7	0.2	0.5
Bondiau Gweithredol	246,032	9.9	230,688	10.0	-7.1	6.3
Cyfanswm Asedau wedi'u Cronni	730,116	29.4	476,427	20.7		
Asedau heb eu cronni						
Twf Amrywiol	273,120	11.0	262,537	11.4	-3.8	13.3
Buddsoddiad wedi'i gymell gan rwymedigaeth	596,076	24.0	663,896	28.9	-34.8	-34.8
Cronfeydd mantoli	157,982	6.4	159,281	6.9	0.8	5.8
Eiddo	146,325	5.9	133,422	5.8	-9.2	-14.7
Ecwiti Preifat	201,521	8.1	205,945	9.0	13.7	7.4
Lleol / Effaith	79332	3.2	93,352	4.1	22.9	7.4
Isadeiledd	124,721	5.0	130,888	5.7	19.6	7.4
Dyledion Preifat	52,592	2.1	61,769	2.7	9.5	7.5
Coed ac Amaethyddiaeth	14,125	0.5	12,074	0.5	29.2	7.4
Arian Parod*	109,860	4.4	98,590	4.3		
Cyfanswm yr asedau heb eu cronni	1,755,654	70.6	1,821,754	79.3		
Cyfanswm Asedau	2,485,770	100	2,298,181	100	-6.4	-4.6

Sylwch: Dangosir perfformiad ar gyfer y 12 mis hyd at 31 Mawrth 2023.

*Mae arian parod yn cynrychioli arian parod yn y cyfrif banc.

Benthycu Gwarannau

Dechreuwyd benthycu gwarannau ym mis Mawrth 2020. Caiff refeniw ei rannu ar sail 85:15 rhwng PPC a Northern Trust gyda'r holl gostau rhedeg y rhaglen benthycu gwarannau yn cael eu cymryd o gyfran Northern Trust o'r rhaniad ffi. Mae isafswm o 5% o swm nominal pob daliad ecwiti unigol yn cael ei gadw'n ôl ac mae uchafswm o 25% o gyfanswm yr AUM ar

fenthyc ar y tro. Cyfanswm refeniw Refeniw LF Cymru yn ystod 2022/32 oedd £1,328,759 (gros) / £1,129,506 (net) a derbyniodd Cronfa Bensiynau Clwyd £55,787 ohono gyda £454,055,992 allan ar fenthyciad ar 31 Mawrth 2023.

Ceir rhagor o fanylion ar Ffurflen Flynyddol PPC a gyhoeddir ar y wefan:

<https://www.partneriaethpensiwnycymru.org/>

Amcanion 2023/24

Yn dilyn lansiad nifer o is-gronfeydd, bydd cynnydd yn parhau o ran rhesymoli'r gyfres bresennol o fandadau. Bydd y gweithredwr/dyranwyr yn datblygu ac yn lansio cyfres arall o is-gronfeydd a fydd, gyda'i gilydd, yn adlewyrchu anghenion dyrannu asedau strategol wyth cronfa'r awdurdodau cyfansoddol ac yn hwyluso symudiad sylweddol yr asedau i'w cyfuno.

Is-Gronfeydd y Farchnad Breifat

Wrth sefydlu cronfa PPC, y prif ffocws oedd cyfuno'r asedau mwyaf hylifol, sef ecwiti ac incwm sefydlog. Ym mis Gorffennaf 2021, penododd y Cydbwyllgor Llywodraethu bfinance yn Gyngorwyr Dyrannu PPC ac maent wedi cynorthwyo PPC i nodi Dyranwyr Marchnadoedd Preifat ar gyfer Dosbarthiadau Asedau'r Farchnad Breifat. Mae dyranwyr Isadeiledd, Credyd Preifat ac Ecwiti Preifat wedi'u penodi ac mae gwaith ar y gweill o ran Eiddo Tirol.

Is-gronfeydd newydd

Lansiwyd rhaglenni buddsoddi Isadeiledd a Chredyd Preifat PPC gyda rhaglen fuddsoddi Ecwiti Preifat yn cael ei lansio yn 2022/23. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, ni throsglwyddwyd unrhyw arian i'r rhaglenni hyn eto.

Mae amserlen bontio wedi'i darparu isod:

Portffolio Buddsoddi	Amserlen Lansio / Gweithredu
Ecwiti Cynaliadwy	Lansio ganol-2023
Dyled Breifat / Isadeiledd	Buddsoddiadau i ddechrau yn 2023/24
Ecwiti Preifat	Buddsoddiadau i ddechrau yn 2023/24

Amcanion Eraill

Yn ystod 2022/23, cyhoeddodd PPC ei ail Adroddiad Stiwardiaeth blyneddol gan barhau fel llofnodwr i God Stiwardiaeth y DU 2020. Eleni cafwyd dull gweithredu gwell fel buddsoddwr cyfrifol drwy sefydlu fframwaith ymgysylltu i adolygu'r themâu ymgysylltu, gan wella adrodd yn unol â gofynion Cod Stiwardiaeth y DU a pharhau i adolygu mandadau presennol yr is-gronfeydd i sicrhau eu bod yn gydnaws â Buddsoddiad Cyfrifol a Chredoau Risg Hinsawdd PPC.

Bydd rhagor o welliannau yn 2023/24, gyda chyflwyno adroddiad hinsawdd PPC, i baratoi ar gyfer gofynion adrodd y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â Hinsawdd. Mae

PPC hefyd yn gweithio'n agos gyda'r darparwyr gwasanaeth i wella eu hamcanion buddsoddiadau cyfrifol, gan gynnwys datblygu'r Polisi Pleidleisio i gyflwyno Polisi Stiwardiaeth cynhwysol, gyda chynlluniau i sefydlu Polisi Uwchgyfeirio priodol.

Mi fydd yna hefyd ffocws ar adolygu a datblygu polisiau ychwanegol ar gyfer PPC, yn ogystal â darparu hyfforddiant amserol a pherthnasol wedi'i hwyluso gan y gronfa er budd ei budd-ddeiliaid ehangach.

Adran 3: Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Rolau a Chyfrifoldebau

Mae Cyngor Sir y Fflint (y Cyngor) yn gyfrifol am weinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd (y Gronfa), ar ran ei hun ac ar ran 2 awdurdod lleol arall (Wrecsam a Sir Ddinbych) a 47 o gyflogwyr bach a mawr yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.

Y prif weithgarwch sy'n rhan o reoli'r Gronfa yw gwneud a rheoli buddsoddiadau a gweinyddu taliadau buddion y cynllun. Caiff hyn ei gyflawni yn unol â gofynion Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) 2013, Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016 a Deddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod ei holl fusnes, gan gynnwys busnes y Gronfa, yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i reoli'n gywir a bod trefniadau iawn yn eu lle i ddefnyddio'r arian yn economaidd, yn effeithiol ac yn effeithlon. Rhaid i'r Cyngor hefyd sicrhau bod y Gronfa yn cael ei rheoli i ddarparu'r gwerth gorau.

Llywodraethu a Dirprwyo

Mae fframwaith llywodraethu'r Cyngor yn cynnwys cyfres sylfaenol o ofynion deddfwriaethol, egwyddorion arferion da a phrosesau rheoli, sy'n cefnogi athroniaeth gweithgarwch y Cyngor, y safonau mae'n ei osod, yr ymddygiad mae'n ei ddisgwyl a'r egwyddorion mae'n eu dilyn.

Er mwyn helpu i sicrhau bod y fframwaith llywodraethu'n gadarn, mae'r Cyngor wedi datblygu Cod Lleol ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol (y Cod) sy'n diffinio'r egwyddorion sy'n sail i lywodraethu'r sefydliad ac yn gyson ag egwyddorion y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a Fframwaith Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol: Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol. Mae'r Cod yn ffurfio rhan o Gyfansoddiad y Cyngor a gellir ei weld ar wefan y Cyngor. Mae gweithrediad y Gronfa yn cael ei lywodraethu gan y cod hwn. Mae'r Cyngor yn cynhyrchu ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ei hun sy'n adolygu effeithiolrwydd ei amgylchedd rheoli.

Mae gan y Gronfa ei Bolisi Llywodraethu ei hun mewn grym. Mae'r polisi hwn yn pennu trefniadau llywodraethu'r Gronfa, gan gynnwys ei strwythur llywodraethu a'r gweithdrefnau gweithredol ar gyfer dirprwyo cyfrifoldebau. Mae hefyd yn nodi nodau ac amcanion y Gronfa o ran ei llywodraethu. Yn unol â gofynion Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013, mae'r Gronfa wedi sefydlu Bwrdd Pensiynau Lleol (y Bwrdd) i weithredu fel partner i gynorthwyo'r Gronfa i ddiwallu ei gofynion rheoliadol a statudol a gweinyddu'r Gronfa'n effeithiol.

Mae'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd fel awdurdod gweinyddu drwy ddirprwyaeth i'r Pwyllgor Cronfa Bensiynau (y Pwyllgor). Mae'r Pwyllgor yn cynnwys pump o gynghorwyr y Cyngor a 4 aelod cyfetholedig, yn cynrychioli'r 2 awdurdod lleol arall, cyflogwyr eraill ac


aelodau'r cynllun. Mae'r Pwyllgor yn cael cyngor gan Banel Ymgynghori Cronfa Bensiynau Clwyd (y Panel) sy'n cynnwys swyddogion y Cyngor a chynghorwyr i'r Gronfa.

Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am weithgareddau'r Gronfa. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y trefniadau ar gyfer buddsoddi asedau, derbyn cyfraniadau a thalu buddion yn cael eu rheoli'n gywir.

Mae Rheolwr Cyllid Corfforaethol y Cyngor, fel y Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am drefnu gweinyddiaeth materion ariannol y Gronfa. Mae'n gymwys gyda Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ac â phrofiad addas i arwain y swyddogaeth ariannol.

Yn ogystal â hynny, o dan gytundeb rhyng-awdurdod, mae dirprwyaeth i Gydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Bensiynau Cymru er mwyn adlewyrchu'r symudiad i gronni asedau cronfeydd pensiynau ar draws 8 cronfa pensiynau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru.

Dangosir y strwythur llywodraethu ar gyfer y Gronfa isod. Mae'r cyrff y dirprwyir cyfrifoldeb iddynt yn ffurfiol yn cael eu cefnogi gan y Bwrdd, a hefyd y Panel Ymgynghorol a nifer o weithgorau.



Strategaeth a Pholisi

Mae rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gofyn i'r Gronfa gadw nifer o ddogfennau strategaeth a pholisi sydd ar gael ar ei wefan. Y rhai allweddol ymysg y rhain yw Datganiad Polisi Llywodraethu, Datganiad Strategaeth Ariannu, Datganiad Strategaeth Fuddsoddi, Strategaeth Gyfathrebu a'r Strategaeth Weinyddu. Mae'r dogfennau hyn yn disgrifio amcanion y Gronfa ynghyd â phrif risgiau sy'n wynebu'r Gronfa a'r rheolyddion

allweddol sy'n eu lliniaru. Yn ogystal â hynny, mae gan y Gronfa Gynllun Busnes, Gweithdrefn Torri Rheolau, Polisi Risg, Polisi Gwrthdaro Buddiannau, Polisi Gwybodaeth a Sgiliau, Strategaeth Seibr a Pholisi Gwrth-dwyll a Llygredigaeth sy'n cefnogi'r fframwaith llywodraethu.

Defnyddio data ariannol

Defnyddir a rheolir y data ariannol gan y Gronfa mewn nifer o wahanol ffyrdd:

- Mae prisiad actiwaraid teirblwydd sy'n penderfynu llif arian hirdymor, rhwymedigaethau a chyfraniadau'r gronfa. Yn ogystal, mae rhagamcaniadau ariannol misol yn cael eu cynhyrchu gan yr actwari er mwyn cynorthwyo'r Gronfa i gynnal ei sefyllfa ariannol.
- Mae cofnodion buddsoddi manwl yn cael eu cadw a'u cynnal gan reolwyr buddsoddi partner allanol gan gynnwys Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) a cheidwad byd-eang y Gronfa. Mae adroddiadau perfformiad bob chwarter i'r Gronfa ar sefyllfa'r buddsoddiadau.
- Defnyddir data rhagweld yr economi a'r farchnad i lywio strategaeth fuddsoddi'r Gronfa, a gynlluniwyd i gefnogi gofynion strategaeth ariannu'r Gronfa.
- Mae'r Gronfa yn darparu datganiad o gyfrifon blynyddol, cynllun busnes (yn cynnwys cyllideb a llif arian) ac adroddiadau monitro ariannol. Mae'r Gronfa yn defnyddio system cyfrifyfr ariannol y Cyngor, Masterpiece i gynnal ei wybodaeth ariannol.
- Mae'r Gronfa yn defnyddio system reoli Altair i reoli taliadau buddion i fuddiolwyr. Gwneir taliadau i fuddiolwyr drwy gyfrif banc y Cyngor ac yn cael eu trosglwyddo yn uniongyrchol o gyfrif banc y Gronfa Bensiynau. Mae Datganiadau Buddion Blynyddol yn cael eu paratoi a'u dosbarthu i aelodau. Mae gan y Gronfa system Hunan Wasanaeth i Aelodau, sy'n eu galluogi i gael mynediad at eu gwybodaeth aelodaeth eu hunain.

Mae Adroddiadau archwilio blynyddol a datganiadau rheoli mewnol i'w cael gan reolwyr buddsoddi'r Gronfa ac yn cael eu hadolygu gan swyddogion i roi sicrwydd bod y buddsoddiadau yn cael eu rheoli mewn amgylchedd rheoli digonol. Mae unrhyw faterion sylweddol o fewn yr adroddiadau hyn yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor ar sail eithriadau.

Rheoli Risg

Mae'r Gronfa yn cydnabod fod rheoli risg yn effeithiol yn elfen hanfodol o lywodraethu da. Mae gan y Gronfa bolisi a strategaeth rheoli risg effeithiol sy'n:

- Dangos arferion gorau
- Gwellu rheolaeth ariannol
- Lleihau'r effaith o amodau niweidiol
- Nodi a gwneud y mwyaf o gyfleoedd a allai godi
- Lleihau bygythiadau

Mae'r risgiau sy'n ymwneud â chronfeydd pensiwn fel arfer tu hwnt i reolaeth y Gronfa. Mae trefniadau rheoli risg y Gronfa'n canolbwyntio ar fesur y risg presennol yn erbyn risg targed y Gronfa y cytunwyd arno a nodi'r dulliau rheoli a chamau gweithredu y gellir eu rhoi ar waith. Yna gweithredir y camau hyn fel rhan o'r gwaith rheoli o ddydd i ddydd neu drwy Gynllun Busnes y Gronfa.

Mae'r risgiau sy'n cael eu nodi fel risgiau allweddol yn cael eu dangos yn adran Adroddiad Blynnyddol y Gronfa sy'n delio gyda Llywodraethu, Hyfforddiant a Rheoli Risg (Atodiad 1).

Adolygu Effeithiolrwydd

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am sicrhau effeithiolrwydd parhaus y fframwaith llywodraethu a'r system rheoli mewnol y mae'r Gronfa'n gweithredu oddi mewn iddi. Wrth ddirprwyo'r cyfrifoldeb hwn, mae'n dibynnu ar sicrwydd gan swyddogion, monitro ariannol ac adroddiadau eraill, gwaith archwilio mewnol a gwaith archwilwyr allanol.

Mae'r Bwrdd yn cynorthwyo'r Pwyllgor i sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac unrhyw ddeddfwriaethau eraill sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r cynllun, ac i sicrhau bod y Gronfa'n cael ei llywodraethu'n effeithiol ac yn effeithlon.

Mae gan y Gronfa Ymgynghorydd Annibynnol, a rhan o rôl yr ymgynghorydd yw cyflawni adolygiad blynnyddol sy'n cael ei gynnwys yn Adroddiad Blynnyddol y Gronfa (Atodiad 2).

Mae Adroddiad Blynnyddol y Gronfa'n cynnwys datganiad cydymffurfiaeth llywodraethu (Atodiad 3). Mae hyn yn mesur i ba raddau mae trefniadau llywodraethu'r Gronfa yn cydymffurfio â'r canllawiau statudol.

Fel rhan o'i ddyletswyddau, mae'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol yn sicrhau bod y Cyngor yn derbyn archwiliad mewnol o amgylchedd rheoli'r Cyngor a'r Gronfa. Mae'r archwiliad yn cynnwys adolygiad o'r amgylchedd rheoli o fewn y Gronfa ac yn helpu i sicrhau bod trefniadau cadarn yn eu lle er mwyn:

- Diogelu'r cyfraniadau a wneir gan gyflogwyr a gweithwyr a ddefnyddir i ariannu'r rhwymedigaethau pensiwn
- Sicrhau bod rheolaeth yn cael ei gynnal dros reolwyr buddsoddiadau partner sy'n gyfrifol am sicrhau y gwneir y mwyaf o'r arian er mwyn bodloni rhwymedigaethau
- Sicrhau y gwneir taliadau cywir ac amserol i aelodau o'r gronfa sydd wedi ymddeol a buddiolwyr y Gronfa

Y wybodaeth ddiweddaraf ar faterion llywodraethu arwyddocaol a adroddwyd yn flaenorol

Nid oedd unrhyw faterion llywodraethu arwyddocaol yn 2022/23 yn benodol o ran y Gronfa.

Materion llywodraethu arwyddocaol

Mae Pennaeth Archwilio Mewnol wedi cadarnhau nad oedd unrhyw faterion llywodraethu arwyddocaol oedd angen adrodd amdanynt o ganlyniad i'r gwaith a gyflawnwyd gan Archwiliad Mewnol ar systemau rheoli'r Cyngor na'r Gronfa.

Effaith COVID-19 ar lywodraethu

Er y bu newid o weithio o bell i weithio'n hybrid yn 2022/23, parhaodd cyfarfodydd y Pwyllgor a'r Bwrdd Pensiwn yn rhithiol drwy gydol y flwyddyn. Mae newid tuag at gyfarfodydd hybrid ar y gweill.

Barn Archwilio Mewnol

Yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar gyfer y Cyngor a'r sicrwydd a gafwyd gan y Prif Weithredwr, y Rheolwr Cyllid Corfforaethol a Phennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd, barn y Pennaeth Archwilio yw bod y rheolyddion allweddol yn gweithredu'n effeithiol yn ystod 2022/23 ond y byddai rhywfaint o fireinio neu ychwanegu rheolyddion yn gwella'r amgylchedd rheoli a byddai modd cyflawni amcanion allweddol yn well gyda rhai mân addasiadau.

Ardystiad

Ein barn ni yw y gellid rhoi sicrwydd rhesymol ar ddigonoldeb ac effeithiolrwydd y systemau llywodraethu sy'n gweithredu ar Gronfa Bensiynau Clwyd. Mae'r gwaith a gyflawnwyd gan Archwilio Mewnol wedi dangos fod trefniadau sydd yn eu lle yn gweithredu fel y cynlluniwyd. Rydym yn ystyried bod yr amgylchedd llywodraethu a rheoli mewnol yn ystod 2022/23 yn darparu sicrwydd rhesymol a gwrthrychol y bydd unrhyw risgiau sylweddol sy'n effeithio ar allu'r Gronfa i gyflawni ei hamcanion yn cael eu nodi ac y bydd camau'n cael eu cymryd i rwystro neu leihau eu heffaith.

Philip Latham

Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd

Y Cyng Ted Palmer

Cadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd

Adran 4: Geirfa

Aelod gweithredol	Rhywun sydd wedi'u cyflogi ar hyn o bryd ac sy'n talu cyfraniadau i'r Gronfa.
Actwari	Gweithiwr proffesiynol annibynnol sy'n rhoi cyngor i'r Awdurdod Gweinyddu ar sefyllfa ariannol y Gronfa. Bob tair blynedd bydd yr Actiwari'n prisio asedau a rhwymedigaethau'r Gronfa ac yn pennu lefel y cyllid a'r cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr - i ddiwallu costau unrhyw groniat buddion yn y dyfodol a hefyd i unioni unrhyw wahaniaeth mewn asedau a rhwymedigaethau ar gyfer buddion cronnus.
Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY)	Mae opsiwn ar gael i aelodau gweithredol sicrhau buddion pensiwn ychwanegol drwy wneud cyfraniadau rheolaidd i gronfeydd buddsoddi ar wahân a reolir gan ddarparwr Cyfraniadau Gwirfoddol ychwanegol y Gronfa.
Awdurdod Gweinyddu	Cyngor Sir y Fflint yw Awdurdod Gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac yn gyfrifol am reoli a gweinyddu'r CPLIL ar ran aelodau'r cynllun. Mae hyn yn cynnwys cynnal a buddsoddi yn asedau'r Gronfa.
Corff a Dderbyniwyd	Sefydliad sydd wedi ymrwymo i gytundeb gwasanaeth gydag un o gyflogwyr y Cynllun. Bydd Cyngor Sir y Fflint, fel yr Awdurdod Gweinyddu, a'r partïon sy'n rhan o'r cytundeb gwasanaeth, yn ymrwymo i gytundeb derbyn er mwyn caniatáu i staff a drosglwyddodd i'r sefydliad newydd gymryd rhan yn y CPLIL.
Buddsoddiad Amgen	Buddsoddiad Amgen yw ased nad yw'n un o'r mathau arferol o fuddsoddiadau, er enghraifft stociau, bondiau ac arian parod. Mae buddsoddiadau amgen yn cynnwys ecwiti preifat, cronfeydd mantoli, contractau eiddo, nwyddau a deilliadau.
Dyrannu Asedau	Dyrannu asedau cronfa rhwng gwahanol fathau o fuddsoddiadau neu ddosbarthiadau o asedau. Caiff dyraniad asedau ei fonitro'n rheolaidd yn ddibynnol ar yr hyblygrwydd cytunedig a nodir yn y Strategaeth Fuddsoddi. Bydd dyraniad asedau strategol hirdymor cronfa yn adlewyrchu amcanion buddsoddi'r gronfa.
Meincnod	Mesur y gellir cymharu'r polisi buddsoddi neu berfformiad rheolwr buddsoddi yn ei erbyn.
Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD/CPI)	Mae'r MPD yn fodd o fesur chwyddiant drwy gyfrifo prisiau basged o nwyddau ar sail flynyddol. Mae codiadau pensiwn yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gysylltiedig â'r newid blynyddol yn y MPD. Ar hyn o bryd mae'r MPD yn is na'r Mynegai Prisiau Manwerthu (MPM/RPI)

Mynegai Prisiau Defnyddwyr a Chostau Tai (CPIH)	Mae hwn yn fesur ehangach o chwyddiant yn seiliedig y MPD sy'n cynnwys costau tai perchen-feddianwyr.
Bondiau Corfforaethol	Gwarannau llog sefydlog neu fynegrifol a gyhoeddir gan gwmnïau sydd wedi'u cofrestru yn y DU neu dramor. Maent yn cynrychioli 'benthyciadau' i'r cwmnïau sy'n ad-daladwy ar ddyddiad penodol yn y dyfodol (am ddiffiniadau o 'log sefydlog' a mynegrifol gweler "Gwarannau Llog Sefydlog a Gwarannau Mynegrifol y Llywodraeth).
Ceidwad	Sefydliad ariannol yw hwn sy'n dal gwarannau cwsmeriaid yn ddiogel er mwyn lleihau'r perygl o ddwyn neu golled. Mae'r rhan fwyaf o geidwaid yn cynnig gwasanaeth gweinyddu cyfrifon, setliad trafodion, casglu difidendau a thaliadau llog, cymorth treth a chyfnewidfa dramor.
Aelodau Gohiriedig	Aelodau o'r cynllun sydd wedi gadael cyflogaeth neu sy'n dal wedi'u cyflogi ond wedi peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun, ond sy'n parhau i fod a hawl i bensiwn o'r Cynllun.
Eiddo Uniongyrchol	Mae buddsoddiad uniongyrchol mewn eiddo yn golygu prynu rhan o eiddo corfforol neu'r eiddo i gyd Gall perchnogion eiddo dderbyn rhent yn syth gan y tenantiaid gan wneud enillion neu golledion o werthiant yr eiddo.
Cronfeydd Twf Amrywiol	Ffordd arall o fuddsoddi mewn cyfranddaliadau, bondiau, eiddo neu fathau eraill o asedau.
Cyfraddau Cyfraniadau Cyflogwyr	Cyfran cyflogau aelodau y mae cyflogwyr yn ei dalu fel cyfraniad tuag at bensiynau aelodau.
Ecwitiai	Cyfranddaliadau cyffredin mewn cwmnïau yn y DU a thramor sy'n cael eu masnachu ar y gyfnewidfa stoc. Mae gan randdeiliaid fudd yn elw'r cwmni ac mae ganddynt hawl i bleidleisio mewn cyfarfodydd rhanddeiliaid.
Premiwm Risg Ecwiti	Hefyd yn cael ei gyfeirio ato fel premiwm ecwiti, dyma'r elw dros ben y mae buddsoddi yn y farchnad stoc yn ei roi yn hytrach na chyfradd rhydd o risg megis elw o fondiau trysorlys llywodraeth. Mae'r elw dros ben hwn yn digolledu buddsoddwyr am risg cymharol uwch buddsoddiadau ecwiti.
Gwarannau Llog Sefydlog	Buddsoddiadau yn stoc y llywodraeth yn bennaf sy'n gwarantu cyfradd llog sefydlog. Mae'r gwarannau'n cynrychioli benthyciadau sy'n ad-daladwy ar ddyddiad yn y dyfodol ond y gellir eu masnachu ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig yn y cyfamser.
Datganiad Strategaeth Gyllido	Dogfen ffurfiol yw hon sy'n nodi sut y bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn pennu cyfraniad cyflogwyr i'r Gronfa a sut y bydd yn rheoli ei risgiau cyllido. Dylid adolygu'r datganiad o leiaf bob tair blynedd a dylid ymgynghori â'r rhanddeiliaid ynghylch unrhyw newidiadau.

Cronfeydd Mantoli	Yn cael eu galw hefyd yn 'gronfeydd elw absoliwt', pwrpas y cronfeydd hyn yw bod â tharged perfformiad a fynegir fel maint uwch na'r elw y gellid ei gael ar adneuon arian parod.
Mynegai	Cyfrifiad o bris cyfartalog cyfranddaliadau, bondiau neu asedau eraill mewn marchnad benodol i roi syniad o berfformid cyfartalog a thueddiadau cyffredinol yn y farchnad.
Gwarannau Mynegrifol y Llywodraeth	Buddsoddiadau yn stociau'r Llywodraeth (yn y DU a thramor) lle mae'r taliad llog blyneddol a'r swm cyfalaf sy'n ad-daladwy gan y Llywodraeth yn cael eu haddasu i ganiatáu ar gyfer chwyddiant. Buddsoddiadau yn stociau'r llywodraeth sy'n ad-daladwy ar ddyddiad penodedig yn y dyfodol.
Datganiad Strategaeth Fuddsoddi	Dogfen ffurfiol yw hon sy'n nodi amcanion ac agwedd yr Awdurdod Gweithredu tuag at risg buddsoddi ac yn nodi beth fydd y strategaeth fuddsoddi hirdymor, h.y. pa mor hir y bydd asedau'r Gronfa wedi'u dosbarthu ymhlith gwahanol ddosbarthiadau o asedau Dylid adolygu'r datganiad o leiaf bob tair blynedd a dylid ymgynghori â'r rhanddeiliaid ynghylch unrhyw newidiadau.
Buddsoddiad wedi'i gymell gan rwymedigaethau (LDI)	Mae LDI yn strategaeth rheoli risg sy'n anelu at liniaru amlygiad y Gronfa i risgiau cyfraddau llog a chwyddiant.
Gwerth ar y Farchnad	Y pris y gellir gwerthu neu brynu buddsoddiad amdano ar ddyddiad penodedig.
Credyd Aml-ased	Y pris y gellir gwerthu neu brynu buddsoddiad amdano ar ddyddiad penodedig.
Buddsoddi Goddefol (Mynegeo)	Strategaeth fuddsoddi lle mae'r rheolwr yn atgynhyrchu mynegrif er mwyn cynhyrchu cyfradd elw sy'n cyd-fynd â'r mynegai. Ni fydd gan y rheolwr unrhyw ddisgresiwn ynghylch y stoc a ddewisir o fewn y mynegai. Os yw'n bortffolio aml-ased, bydd cyfrannau'r asedau wedi'u rhagnodi yn o fewn y mandad.
Cronfeydd wedi'u Cronni	Cronfeydd sy'n rheoli buddsoddiadau mwy nag un buddsoddwr ar sail gyfunol. Dyrennir unedau i bob buddsoddwr sy'n cael eu hailbrisio ar gyfnodau rheolaidd. Caiff incwm o'r buddsoddiadau hyn fel arfer ei ddychwelyd i'r gronfa gyfunol a bydd yn cynyddu gwerth yr unedau.
Ecwiti Preifat	Ecwiti preifat yw perchnogaeth cwmnïau nad ydynt wedi'u rhestru ar gyfnewidfa stoc gyhoeddus.
Mynegai Prisiau Manwerthu (MPM/RPI)	Mesur o lefel gyffredinol chwyddiant yn seiliedig ar y newid ym mhris based benodedig o nwyddau a gwasanaethau megis bwyd, ynni, petrol, costau teithio, taliadau llog morgeisi a Threth y Cyngor. O 2030 ymlaen bydd cyfrifiad y MPM wedi'i alinio'n agosach â'r CPIH.

Elw	Yr enillion hollgynhwysfawr o ddal buddsoddiad dros gyfnod penodol, yn cynnwys incwm ac unrhyw gynnydd neu ostyngiad yng ngwerth y farchnad.
Fframwaith Rheoli Risg	Mae'r Gronfa wedi sefydlu fframwaith gyda'r nod o ddarparu sefydlogrwydd o ran cyllido a chyfraddau cyfraniad cyflogwyr yn yr hirdymor. Mae'r fframwaith yn cynnwys y strategaethau canlynol sydd â'r nod o reoli amrywiaeth o risgiau ariannol - monitro lefelau cyllido, mantoli Atebolrwydd, Ecwitiau Synthetig, Mantoli Arian Cyfred, rheoli gwarantau cyfochrog, gwireddu buddsoddiadau, rheoli arian parod a benthyca stoc.
Corff Cofrestredig	Sefydliad sydd â hawl i ddod yn aelod o'r CPLIL o dan reoliadau'r cynllun. Nid oes yn rhaid derbyn y fath sefydliad gan fod ei hawl i aelodaeth yn awtomatig.
Enillion a cholledion heb eu gwireddu	Cynnydd neu ostyngiad yng ngwerth y farchnad buddsoddiadau sy'n cael eu dal gan y gronfa ers dyddiad eu prynu.
Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC)	Cronfa fuddsoddi gyfunol sy'n cynnwys cronfeydd CPLIL Cymru. Mae PPC yn un o wyth cronfa fuddsoddi CPLIL gyfunol yng Nghymru a Lloegr. Nod cronfeydd buddsoddi cyfunol CPLIL yw cynyddu effeithlonrwydd.

Adran 5: Dogfennau Rheoleiddio

Adroddiad Blynnyddol Cronfa Bensiynau Clwyd 2022/23

Mae'r dogfennau rheoleiddio atodedig yn rhan o'r fframwaith Llywodraethu a Pherfformiad y mae'r Gronfa'n gweithredu oddi mewn iddo. Mae dogfennau arfer gorau eraill hefyd ar gael ar wefan Cronfa Bensiynau Clwyd. Mae rhestr o'r dogfennau hyn a chyfeiriad y wefan ar gael ar dudalen gynnwys yr adroddiad.

Atodiad 9: Polisi Llywodraethu a Datganiad Cydymffurfio (Tachwedd 2022)

Cyflwyniad a Gofynion Cyfreithiol

Cyngor Sir y Fflint yw'r Awdurdod Gweinyddu sy'n gyfrifol am gynnal a rheoli Cronfa Bensiynau Clwyd ar ran ei budd-ddeiliaid; aelodau'r cynllun a chyflogwyr sy'n cymryd rhan yn y Gronfa. Mae'r cyfrifoldebau hyn wedi'u nodi yn bennaf yn y rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Mae hyblygrwydd yn cael ei roi i bob Awdurdod Gweinyddu bennu eu trefniadau llywodraethu eu hunain. Serch hynny, mae Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gofyn i bob Awdurdod Gweinyddu baratoi, cyhoeddi a chynnal polisi llywodraethu a datganiad cydymffurfio sy'n nodi a yw'r Awdurdod Gweinyddu yn dirprwyo ei swyddogaethau, neu ran o'i swyddogaethau i bwyllgor, is-bwyllgor neu swyddog o'r awdurdod, ac os felly:

- telerau, strwythur a gweithdrefnau gweithredol y drefn dirprwyo,
- amlder unrhyw bwyllgor neu gyfarfod is-bwyllgor,
- p'un a yw pwyllgor neu is-bwyllgor o'r fath yn cynnwys cynrychiolwyr o gyflogwyr neu aelodau'r Cynllun, ac os felly, p'un a oes gan y cynrychiolwyr hynny hawliau pleidleisio
- i ba raddau y mae dirprwyo, neu ddiffyg dirprwyo, yn cydymffurfio â'r canllawiau a roddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac, i'r graddau nad yw'n cydymffurfio, y rhesymau dros beidio â chydymffurfio, a
- manylion y telerau, strwythur a'r gweithdrefnau gweithredol yn ymwneud â'r bwrdd pensiwn lleol.

Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Gweinyddu ymgynghori â'r unigolion hynny y mae'n eu hystyried yn briodol wrth baratoi'r datganiad polisi a chydymffurfio.

Y ddogfen hon yw'r Polisi Llywodraethu a'r Datganiad Cydymffurfio ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd a baratowyd i fodloni gofyniad Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r datganiad cydymffurfio sydd ei angen erbyn pwynt (d) wedi'i gynnwys fel Atodiad A.

Nodau ac Amcanion

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cydnabod pwysigrwydd ei rôl fel Awdurdod Gweinyddu ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd ar ran ei fudd-ddeiliaid sy'n cynnwys:

- tua 50,000 o aelodau presennol a blaenorol y Gronfa, a'u dibynnyddion
- tua 54 o gyflogwyr yn ardaloedd Cynghorau Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Wrecsam
- y trethdalwyr lleol yn yr ardaloedd hynny

Datganiad Cenhadaeth ein Cronfa yw:

- Byddwn yn cael ein hadnabod fel sefydliad blaengar, ymatebol, rhagweithiol a phroffesiynol sy'n darparu gwasanaeth ardderchog sy'n canolbwyntio ar y cwsmeriaid, sydd ag enw da ac sy'n gredadwy, i'n holl gwsmeriaid.
- Byddwn wedi gwreiddio diwylliant corfforaethol o ymwybyddiaeth risg a llywodraethu ariannol, a byddwn yn darparu gwasanaethau nodedig o'r safon uchaf gyda'r adnoddau sydd ar gael i ni.
- Byddwn yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid, gan ganolbwyntio ar atebion, gydag ymagwedd sy'n credu yn ein gallu i gyflawni.

Mewn perthynas â llywodraethu'r Gronfa, ein nod fydd:

- Gweithredu er budd pennaf aelodau a chyflogwyr y Gronfa
- Sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith, i hwyluso gwneud penderfyniadau deallus, a gefnogir gan gyngor, polisïau a strategaethau priodol
- Sicrhau bod y Gronfa Bensiynau yn cael ei rheoli, a'r gwasanaethau'n cael eu darparu, gan bobl sydd â'r wybodaeth a'r arbenigedd priodol
- Gweithredu'n onest a bod yn atebol i'n budd-ddeiliaid am ein penderfyniadau, gan sicrhau eu bod yn gadarn a bod sail dda iddynt
- Deall a monitro risg
- Ymdrechu i sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth briodol a chanllawiau statudol, a gweithredu yn ysbryd canllawiau perthnasol eraill ac arweiniad arfer orau
- Mynegi'n glir beth yw ein hamcanion a sut yr ydym yn bwriadu cyflawni'r amcanion hynny trwy gynllunio busnes, a mesur a monitro llwyddiant yn barhaus
- Sicrhau bod cyfrinachedd, uniondeb a hygyrchedd data'r Gronfa, ei systemau a'i gwasanaethau yn cael eu gwarchod a'u cynnal.

Cefndir y Trefniadau Llywodraethu

Adolygodd Cyngor Sir y Fflint ei drefniadau llywodraethu ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd yn 2014. Cyn y dyddiad hwn, y Pennaeth Cyllid oedd â chyfrifoldeb am Gronfa Bensiynau Clwyd ac roedd yn atebol i Banel Cronfa Bensiynau Clwyd a oedd yn cynnwys aelodau etholedig o Gyngor Sir y Fflint, Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Hefyd, roedd gan y panel aelodau heb bleidlais, gan gynnwys ymgynghorydd annibynnol a chynrychiolydd a oedd yn aelod o'r cynllun.

Canfu adolygiad annibynnol gan CIPFA yn 2010 bod llywodraethiad y Gronfa yn dda iawn, ond cydnabu nad oedd y strwythur llywodraethu hwn yn bodloni'r arfer gorau, yn arbennig argymhellwyd:


- Y dylid trosglwyddo'r cyfrifoldeb am reoli Cronfa Bensiynau Clwyd o'r Pennaeth Cyllid i'r Pwyllgor newydd ei sefydlu
- Y dylid cael cynrychiolaeth ehangach o fudd-ddeiliaid ar y pwyllgor newydd ei sefydlu gyda hawliau pleidleisio yn ymestyn i holl aelodau'r pwyllgor

O ganlyniad, ym mis Mai 2014, adolygwyd trefniadau llywodraethu'r Gronfa a sefydlodd y Cyngor Bwyllgor Cronfa Bensiynau ffurfiol, wedi'i gefnogi gan Banel Ymgynghorol ar

Bensiynau. Y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fel y Swyddog Adran 151 sydd â chyfrifoldeb statudol dros faterion ariannol priodol Cyngor Sir y Fflint sy'n cynnwys materion Cronfa Bensiynau Clwyd. Hefyd, mae'r Cyngor wedi dirprwyo cyfrifoldebau penodol ar gyfer Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd.

Cafodd y strwythur llywodraethu hwn ei ehangu ar ddechrau 2015 yn sgil gofyniad Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 i gyflwyno bwrdd pensiwn lleol i gynorthwyo â chydymffurfiaeth â materion Cronfa Bensiynau. Fe'i hehangwyd ymhellach ym Mawrth 2017 er mwyn sefydlu Pwyllgor Cydwodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru a'r Gweithgor Swyddogion ac i hwyluso'r gwaith o gyfuno asedau cronfeydd pensiwn yr wyth Cronfa Bensiynau Llywodraeth Leol yng Nghymru.

Dangosir strwythur llywodraethu'r Cyngor ar gyfer materion Cronfa Bensiynau isod:



Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd

Prif nod Pwyllgor y Gronfa Bensiynau yw cyflawni swyddogaethau Cyngor Sir y Fflint fel Rheolwr Cynllun ac Awdurdod Gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd yn unol â deddfwriaeth Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Nid yw aelodau Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd yn ymddiriedolwyr y Gronfa, ond mae ganddynt ddyletswydd gofal sy'n cyfateb i gyfrifoldebau ymddiriedolwyr yn y sector preifat a gellir eu disgrifio'n fwy cywir fel 'Lles Ymddiriedolwyr'. Mae rheolaeth Cronfa Bensiynau Clwyd yn anwleidyddol.

Gweler rolau penodol y Pwyllgor fel yr amlinellir yng Nghyfansoddiad y Cyngor yn Atodiad B. Gall y Pwyllgor hefyd ddirprwyo ystod gyfyngedig o'i swyddogaethau i un neu fwy o swyddogion Cyngor Sir y Fflint.

Ni chaiff unrhyw faterion yn ymwneud â chyfrifoldebau Cyngor Sir y Fflint fel cyflogwr sy'n cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Clwyd eu dirprwyo i Bwyllgor y Gronfa Bensiynau.

Mae Pwyllgor y Gronfa Bensiynau yn cyfarfod o leiaf bob chwarter ac mae'n cynnwys naw aelod fel a ganlyn:

- Pump o Gynghorwyr Cyngor Sir y Fflint fel y'u pennir gan y Cyngor.
- Pedwar aelod cyfetholedig sy'n cynnwys:
 - Un Cynghorydd o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, a bennir gan y Cyngor.
 - Un Cynghorydd o Gyngor Sir Ddinbych, a bennir gan y Cyngor.
 - Un cynrychiolydd o gyflogwyr eraill y Cynllun (nid cyrff derbyn) Cronfa Bensiynau Clwyd fel y diffinnir gan Atodlen 2 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd, a benodir yn unol â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd mewn ymgynghoriad ag aelodau o Banel Ymgynghorol y Gronfa Bensiynau.
 - Un Cynrychiolydd aelodau cynllun Cronfa Bensiynau Clwyd, a benodir yn unol â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd.

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn caniatáu dirprwyon enwebedig ar gyfer aelodau Cyngor Sir y Fflint yn unig, ar yr amod eu bod yn bodloni polisi gwybodaeth a sgiliau'r Gronfa Bensiynau. Mae Cynghorwyr Cyngor Sir y Fflint yn cael eu penodi'n flynyddol. Fel arall, mae cylch gorchwyl ar gyfer yr aelodau'n amrywio o bedair i chwe blynedd. Efallai caiff aelodau eu hailbenodi am dymhorau pellach.

Mae gan bob aelod hawl cyfartal i bleidleisio.

Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd

Dan Gyfansoddiad y Cyngor, Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd sy'n gyfrifol am y materion canlynol:

- Mae rheolaeth ddyddiol materion Cronfa Bensiynau Clwyd yn cynnwys sicrhau trefniadau ar gyfer buddsoddiad asedau a gweinyddu cyfraniadau a budd-daliadau, ac eithrio materion sydd wedi'u dirprwyo i Bwyllgor y Gronfa Bensiynau.
- Sefydlu a Chadeirio Panel Ymgynghorol Cronfa Bensiynau Clwyd, sy'n cynnwys swyddogion y Cyngor ac ymgynghorwyr i Gronfa Bensiynau Clwyd, i ddarparu cyngor a chynnig argymhellion i Bwyllgor y Gronfa Bensiynau, ac i gynnal materion fel y'u dirprwyir o bryd i'w gilydd gan Bwyllgor y Gronfa Bensiynau.

Swyddog Adran 151: Rheolwr Cyllid Corfforaethol

Dan fodel gweithredu cyfredol y Cyngor, mae rôl y Prif Swyddog Cyllid (A151) wedi'i dirprwyo i'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol. Felly, mae gan y Rheolwr Cyllid Corfforaethol

gyfrifoldeb statudol dros weinyddu cyllidol cywir Cronfa Bensiynau Clwyd, yn ychwanegol at Gyngor Sir y Fflint.

Panel Ymgynghorol Cronfa Bensiynau Clwyd

Sefydlwyd Panel Ymgynghorol Cronfa Bensiynau Clwyd i ddarparu cyngor a chynnig argymhellion i Bwyllgor y Gronfa Bensiynau, ac ymgymryd ag unrhyw faterion a ddirprwyir iddo o bryd i'w gilydd gan Bwyllgor y Gronfa Bensiynau.

Mae ei aelodaeth yn cynnwys:

- Y Rheolwr Corfforaethol: Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol Cyngor Sir y Fflint
- Prif Swyddog Cyllid Cyngor Sir y Fflint
- Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd
- Ymgynghorydd Buddsoddi
- Actiwari'r Gronfa
- Ymgynghorydd Annibynnol

Pwyllgor Cydlywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru

Er mwyn bodloni gofynion y Llywodraeth i leihau costau sy'n ymwneud â buddsoddi, mae'r wyth awdurdod gweinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru, gan gynnwys Cyngor Sir y Fflint, wedi ymrwymo i Gytundeb Rhwng Awdurdodau i gyfuno asedau cronfa bensiynau, bydd rhan allweddol o hyn yn cael ei wneud trwy benodi Gweithredwr Cynllun Contract Awdurdodedig i wneud buddsoddiadau ar ran yr awdurdodau gweinyddu. Cafodd hyn ei gymeradwyo yng nghyfarfod Cyngor Sir y Fflint ar 1 Mawrth 2017. Mae'r adroddiad a'r atodiadau i'w gweld [yma](#).

Fel rhan o'r trefniant cydgyfrannu, mae'r awdurdodau wedi sefydlu Pwyllgor Cydlywodraethu gyda nifer o gyfrifoldebau, gan gynnwys y canlynol:

- Monitro perfformiad y Gweithredwr
- Gwneud penderfyniadau ar is-gronfeydd dosbarth asedau i'w gwneud yn hygyrch gan y Gweithredwr i weithredu strategaethau buddsoddi'r wyth Cronfa
- Darparu atebolrwydd i'r Gronfeydd sy'n cymryd rhan ar reolaeth y Cydgyfraniad
- Adrodd ar y Cydgyfraniad i Lywodraeth y DU a budd-ddeiliaid eraill
- Cael trosolwg o'r Gweithgor Swyddogion

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi penderfynu mai cynrychiolydd Cronfa Bensiynau Clwyd ar y Pwyllgor Cydlywodraethu fydd Cadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiynau. Yn eu habsenoldeb, bydd yr Is-gadeirydd yn gweithredu fel Dirprwy.

Bydd Pwyllgor y Gronfa Bensiynau yn pennu pa swyddogion o Gronfa Bensiynau Clwyd sy'n eistedd ar y Gweithgor Swyddogion.

Mae'r Pwyllgor Cydlywodraethu yn cwrdd pedair gwaith y flwyddyn o leiaf, ac mae'n cynnwys un aelod etholedig o bob Awdurdod gweinyddu sy'n gyfrifol am gynnal Cronfa Bensiynau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru. Y rhain yw:

- Cyngor Sir Gâr
- Cyngor Dinas a Sir Abertawe
- Cyngor Dinas Caerdydd
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Mae gan bob aelod sy'n bresennol yn y Pwyllgor Cydlywodraethu hawl i bleidleisio ac mae gan bob aelod yr un hawliau pleidleisio.

Yn ogystal, mae yna gynrychiolydd cyfetholedig heb bleidlais o aelodau'r cynllun ar y Pwyllgor Cydlywodraethu.

Mae Cyngor Sir Gâr yn gweithredu fel Cyngor Cynnal mewn perthynas â Chytundeb Rhwng Awdurdod Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae'r rôl hon yn cynnwys y canlynol, mewn perthynas â rheoli trefniadau'r cydgyfrannu:

- Gweithredu fel y prif bwynt cyswllt
- Darparu adnoddau a chyfleusterau gweinyddol, a gwasanaethau llywodraethu a gweinyddu
- Ymrwymo i gontract ar gyfer cyflenwadau a gwasanaethau
- Ymgysylltu gyda'r Gweithredwr

Gweithgor Swyddogion Partneriaeth Pensiwn Cymru

Sefydlwyd Gweithgor Swyddogion Partneriaeth Pensiwn Cymru fel rhan o Gytundeb Partneriaeth Pensiwn Rhwng Awdurdodau Cymru i gefnogi a chynghori'r Pwyllgor Cydlywodraethu ar faterion rhesymol ar gais y Pwyllgor Cydlywodraethu neu unrhyw faterion yn ymwneud â'r Cytundeb cronni a godir gan unrhyw un o Swyddogion Adran 151 neu Swyddogion Monitro'r awdurdodau.

Mae pob awdurdod yn dirprwyo swyddogion i'r Gweithgorau Swyddogion. Mewn perthynas â Chronfa Bensiynau Clwyd, mae Pwyllgor y Gronfa Bensiynau yn pennu pa un o'i swyddogion sy'n eistedd ar y Gweithgor Swyddogion. Mae hawl gan Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro pob awdurdod i fod yn bresennol yn y Gweithgor Swyddogion.

Mae'r rhestr lawn o gyfrifoldebau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â'r Pwyllgor Cydlywodraethu, Gweithgor Swyddogion a'r Cyngor Cynnal wedi'i chynnwys yn y Cytundeb Rhwng Awdurdodau.

Bwrdd Pensiwn

Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Gweinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sefydlu Bwrdd Pensiwn lleol i'w cynorthwyo nhw â:

- sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun, a'r gofynion a osodir mewn perthynas â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan y Rheoleiddiwr Pensiynau
- sicrhau y caiff y Gronfa Bensiynau ei llywodraethu a'i gweinyddu'n effeithiol ac effeithlon

Nid yw Byrddau Pensiwn o'r fath yn bwyllgorau awdurdod lleol; nid yw Cyfansoddiad Cyngor Sir y Fflint felly fel y cyfryw yn berthnasol i'r Bwrdd Pensiwn oni bai y cyfeirir yn benodol ato ym Mhrotocol y Bwrdd. Sefydlwyd Bwrdd Pensiwn Clwyd gan Gyngor Sir y Fflint ym mis Mawrth 2015, a gellir gweld Protocol llawn y Bwrdd yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Crynhoir y pwyntiau allweddol isod.

Mae'r Bwrdd Pensiwn yn darparu trosolwg o'r materion a amlinellir uchod. Fodd bynnag, nid yw'r Bwrdd Pensiwn yn gorff sy'n gwneud penderfyniadau o ran rheoli'r Gronfa Bensiynau, ac mae pwerau a chyfrifoldebau rheoli'r Gronfa Bensiynau sydd wedi eu dirprwyo gan y Cyngor i Bwyllgor y Gronfa Bensiynau neu fel arall yn parhau i fod yn bwerau a chyfrifoldebau i'r Pwyllgor hwnnw yn unig, gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i osod a darparu strategaethau'r Gronfa, dyrannu asedau'r Gronfa a phenodi contractwyr, ymgynghorwyr a rheolwyr y gronfa. Mae'r Bwrdd Pensiwn yn gweithredu'n annibynnol o Bwyllgor y Gronfa Bensiynau.

Mae'r Bwrdd Pensiwn yn cynnwys 5 aelod fel a ganlyn:

- Dau Gynrychiolydd Cyflogwr
- Dau Gynrychiolydd Aelod y Cynllun, un a enwebir gan y cyd-undebau llafur ac un sy'n aelod o Gronfa Bensiynau Clwyd
- Un Aelod Annibynnol sy'n gweithredu fel cadeirydd y Bwrdd Pensiwn

Mae gan bob aelod o'r Bwrdd Pensiwn, heb gynnwys yr Aelod Annibynnol, hawliau pleidleisio unigol, ond y disgwyl yw y bydd y Bwrdd Pensiwn, cyn belled ag y bo modd, yn dod i gonsensws.

Ystyrir bod cyfarfod y Bwrdd Pensiwn yn gworwm pan fydd o leiaf tri o'r pum aelod yn bresennol, gan gynnwys o leiaf un Cynrychiolydd y Cyflogwr, un Cynrychiolydd Aelod y Cynllun a'r Aelod Annibynnol.

Mae'n ofynnol i Aelodau'r Bwrdd Pensiwn ddatgan, ar benodiad ac ym mhob cyfarfod, unrhyw fuddiannau a allai arwain at wrthdaro buddiannau mewn perthynas â materion y Gronfa Bensiynau neu eitemau ar y rhaglen.

Mae'r Bwrdd Pensiwn yn cyfarfod o leiaf ddwywaith a dim mwy na phedair gwaith ym mhob blwyddyn galendr yn ystod busnes arferol. Efallai y bydd cyfarfodydd ychwanegol yn cael eu trefnu, yn amodol ar gymeradwyaeth gan Ysgrifennydd y Bwrdd (Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd), i hwyluso'r gwaith.

Hyfforddiant

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cydnabod bod rheolaeth, gweinyddiaeth a gwneud penderfyniadau'n effeithiol yn cael ei gyflawni pan mae gan y sawl sy'n gysylltiedig y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol yn unig. Felly, mewn perthynas â rheolaeth Cronfa Bensiynau Clwyd, rydym yn mabwysiadu argymhellion allweddol Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar Wybodaeth a Sgiliau Cyllid Pensiynau y Sector Cyhoeddus.

Mae hyn yn golygu y byddwn yn sicrhau bod gennym amcanion, polisïau ac ymarfer, strategaethau a threfniadau adrodd cynhwysfawr ar gyfer caffael a chynnal Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol perthnasol yn effeithiol, yn ogystal â gwybodaeth a sgiliau ar gyfer y sawl sy'n gyfrifol am reoli, gweinyddu a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r Gronfa. Bydd y polisïau a'r ymarferion hyn yn cael eu llywio wrth gyfeirio at y fframwaith gwybodaeth a sgiliau fel y'i diffinnir o fewn Fframweithiau Gwybodaeth a Sgiliau Cyllid Pensiynau CIPFA.

Mae polisi Gwybodaeth a Sgiliau'r Gronfa ar gael ar wefan y Gronfa:

<https://cronfabensiynauclwyd.org.uk>

Byddwn yn adrodd yn flynyddol pa mor dda y cydymffurfir â'r Polisi drwy gydol y flwyddyn ariannol fel rhan o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Gronfa.

Mae'r Cyngor wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb am weithredu gofynion Cod Ymarfer CIPFA i Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd a fydd yn gweithredu yn unol â Pholisï'r Gronfa.

Yn ychwanegol at hynny, yn unol â Chytundeb Rhwng Awdurdodau Partneriaeth Pensiwn Cymru, mae gofyn i'r Pwyllgor Cydlywodraethu baratoi, cynnal a glynu at Bolisi Hyfforddiant. Mae gofyn i bob aelod ymgymryd â'r hyfforddiant a ddarperir.

Gwrthdaro Buddiannau

Mae gwrthdaro buddiannau wedi bodoli erioed ar gyfer y rhai sydd â chyfrifoldebau awdurdod gweinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, yn ogystal ag ar gyfer ymgynghorwyr cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Yn syml, mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y bydd gan nifer o'r rhai sy'n rheoli neu gynghori cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, nifer o rolau a chyfrifoldebau eraill, er enghraifft fel aelod o'r cynllun, fel aelod etholedig cyflogwr sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu fel ymgynghorydd ar gyfer mwy nag un awdurdod gweinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Yn ogystal â hynny, efallai y bydd gan un o'r unigolion hyn gysylltiadau personol, busnes neu eraill sy'n gwrthdaro, neu'n cael eu hystyried fel gwrthdaro, gyda'u rôl o reoli neu gynghori cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Derbynnir yn gyffredinol bod gan awdurdodau gweinyddu ddyletswyddau cyfraith gyhoeddus ac ymddiriedol i weithredu er budd pennaf buddiolwyr a chyflogwyr sy'n cymryd rhan yn y cynllun. Nid yw hyn, fodd bynnag, yn atal y rhai sy'n ymwneud â rheoli'r gronfa rhag cael rolau neu gyfrifoldebau eraill a allai arwain at wrthdaro buddiannau gwirioneddol

neu bosibl. Yn unol â hynny, mae'n arfer da i nodi mewn polisi sut y rheolir unrhyw wrthdaro o'r fath neu wrthdaro posibl.

Mae Polisi Gwrthdaro Buddiannau Cronfa Bensiynau Clwyd yn nodi sut y caiff gwrthdaro buddiannau gwirioneddol a phosib eu nodi a'u rheoli gan y rhai sy'n gysylltiedig â rheoli a llywodraethu'r Gronfa, yn uniongyrchol neu mewn modd cynghorol. Mae'r Polisi wedi'i sefydlu i arwain aelodau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau, aelodau'r Bwrdd Pensiwn, swyddogion ac ymgynghorwyr. Ei nod yw sicrhau nad yw'r unigolion hynny'n gweithredu'n amhriodol neu'n rhoi'r argraff eu bod wedi gweithredu'n amhriodol. Mae'n gymorth i lywodraethu da, gan annog tryloywder a lleihau'r risg o unrhyw fater yn niweidio'r broses wneud penderfyniadau neu ddulliau rheoli'r Gronfa fel arall.

Mae Polisi'r Gronfa ar gael ar ein gwefan:

<https://cronfabensiynauclwyd.org.uk>

Yn ychwanegol at hynny, yn unol â Chytundeb Rhwng Awdurdodau Partneriaeth Pensiwn Cymru, mae gofyn i'r Pwyllgor Cydlywodraethu baratoi, cynnal a glynu at Bolisi Gwrthdaro Buddiannau.

Rheoli Risg

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cydnabod fod rheoli risg yn effeithiol yn elfen hanfodol o lywodraethu da yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Drwy adnabod a rheoli risgiau drwy strategaeth rheoli risg a pholisi effeithiol, gallwn:

- ddangos yr arfer orau o ran llywodraethu
- gwella rheolaeth ariannol
- lleihau'r risg ac effaith amodau niweidiol
- adnabod a gwneud y mwyaf o gyfleoedd a allai godi
- lleihau bygythiadau

Mae Polisi Risg Cronfa Bensiynau Clwyd yn rhoi manylion ynghylch y strategaeth rheoli risg ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd, gan gynnwys:

- yr athroniaeth risg ar gyfer rheoli'r Gronfa, ac yn benodol agweddau tuag at, a'r awch am risg
- sut y caiff rheoli risg ei weithredu
- cyfrifoldebau o ran rheoli risg
- y gweithdrefnau a fabwysiedir yn y broses rheoli risg

Rydym yn cydnabod nad yw'n bosib dileu'r holl risgiau, ac nid yw hynny yn rhywbeth y byddem yn ei ddymuno. Mae risgiau Cronfa Bensiynau yn aml yn cael eu gyrru gan ffactorau allanol, sydd allan o'n rheolaeth yn gyfan gwbl, neu'n rhannol. Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau cenedlaethol i'r Cynllun ac amodau'r farchnad ariannol. Mae derbyn a rheoli risg yn weithredol felly yn rhan allweddol o'n strategaeth rheoli risg ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd. Y penderfynydd allweddol wrth ddewis y cam gweithredu i'w gymryd o ran unrhyw risg fydd ei effaith posib ar amcanion y Gronfa yng ngoleuni ein hawch am risg, yn arbennig o

ran materion buddsoddi. Yr un mor bwysig yw cynnal cydbwysedd rhwng cost y camau rheoli risg ac effaith posib y risg yn digwydd.

Rydym yn cydnabod hefyd nad yw rheoli risg yn derfyn yn ei hun. Fodd bynnag mae'n dechreg rheoli gadarn sy'n rhan hanfodol o sut rydym yn rheoli'r Gronfa. Mae manteision dull rheoli risg cadarn yn cynnwys gwneud penderfyniadau gwell, perfformiad a darpariaeth gwasanaeth gwell, defnydd mwy effeithiol o adnoddau a gwarchod enw da.

Mae Polisi'r Gronfa ar gael ar ein gwefan:

<https://cronfabensiynauclwyd.org.uk>

Yn ychwanegol at hynny, yn unol â Chytundeb Rhwng Awdurdodau Partneriaeth Pensiwn Cymru, mae gofyn i'r Pwyllgor Cydlywodraethu baratoi, cynnal a glynu at Bolisi Risg.

Safonau'r Gymraeg

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal, wrth ymgymryd â'i fusnes cyhoeddus. Bydd y safonau hyn yn gymwys felly wrth lywodraethu trefniadau ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar wefan y Cyngor neu drwy gysylltu â Phennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd.

Monitro Llywodraethu Cronfa Bensiynau Clwyd

Bydd amcanion llywodraethu'r Gronfa yn cael eu monitro fel a ganlyn:

Amcan	Trefniadau Monitro
Sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith, i hwyluso gwneud penderfyniadau deallus, a gefnogir gan gyngor, polisiâu a strategaethau priodol.	• Mae'r Ymgynghorydd Annibynnol yn ymgymryd ag adolygiad blynyddol o effeithlonrwydd trefniadau llywodraethu Cronfa Bensiynau Clwyd, a'r canfyddiadau sy'n cael eu hadrodd i'r Pwyllgor a'u cyhoeddi. • Mae'r Bwrdd Pensiwn yn paratoi ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol. • Yn unol â'r Rheoliadau, bydd y ddogfen hon yn cael ei ffeilio â'r ACGTCh.
Sicrhau bod y Gronfa Bensiynau yn cael ei rheoli a'r gwasanaethau'n cael eu darparu gan bobl sydd â'r wybodaeth a'r arbenigedd priodol.	• Mae Polisi Gwybodaeth a Sgiliau ar waith ynghyd â monitro ac adrodd pob hyfforddiant gan aelodau'r Pwyllgor Pensiynau, aelodau'r Bwrdd Pensiwn a swyddogion allweddol yn unol â'r Polisi Gwybodaeth a Sgiliau. • Mae gan y Pwyllgor Cydlywodraethu Bolisi Hyfforddiant ar waith gyda threfniadau monitro yn unol â'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau.

Amcan	Trefniadau Monitro
Gweithredu'n onest a bod yn atebol i'n budd-ddeiliaid am ein penderfyniadau, gan sicrhau eu bod yn gadarn a bod sail dda iddynt.	• Mae Polisi Datgan Cysylltiad ar waith, ynghyd â threfniadau adrodd a monitro'r gofrestr cysylltiadau, yn unol â'r Polisi Datgan Cysylltiad. • Estynnir gwahoddiad i gyflogwyr o fewn y Gronfa, ynghyd â chynrychiolwyr yr undeb, i Gydgyfarfod Ymgynghorol Blynnyddol. Mae mynychwyr yn derbyn cyflwyniad ac yn cael cyfle i ofyn cwestiynau ar drefniadau llywodraethu'r Gronfa. • Mae Pwyllgor y Gronfa Bensiynau yn cynnwys cynrychiolwyr o aelodau'r cynllun a'r mwyafrif o gyflogwyr o fewn y Gronfa. • Mae Pwyllgor y Gronfa Bensiynau yn cynnwys cynrychiolwyr o aelodau'r cynllun a chyflogwyr o fewn y Gronfa. • Mae'r Bwrdd Pensiwn yn paratoi ac y cyhoeddi adroddiad blynnyddol, a all hefyd gynnwys sylwadau ar wneud penderfyniadau. • Mae'r Pwyllgor Cydlywodraethu yn paratoi cynllun busnes blynnyddol sy'n cael ei gyflwyno gerbron Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd i'w gymeradwyo, yn unol â'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau.
Deall a monitro risg.	• Mae Polisi Risg a chofrestr ar waith, ac mae trefniadau monitro ac adrodd risgiau yn cael eu cynnal yn unol â'r Polisi Risg. • Ystyriaeth barhaus o risgiau allweddol yng nghyfarfodydd Pwyllgor y Gronfa Bensiynau a'r Bwrdd Pensiwn.

Amcan	Trefniadau Monitro
Ymdrechu i sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth briodol a chanllawiau statudol, a gweithredu yn ysbryd canllawiau perthnasol eraill ac arweiniad arfer orau.	• Ystyrir trefniadau Llywodraethu'r Gronfa gan Archwilwyr Allanol a Mewnol. Adroddir pob Adroddiad Archwilio Allanol a Mewnol i'r Pwyllgor. • Mae gan y Gronfa Ymgynghorydd Llywodraethu Annibynnol, ac mae eu hadroddiad blynyddol yn cynnwys cyfeiriad at gydymffurfio â gofynion allweddol. • Mae'r Gronfa yn cynnal gwiriad cydymffurfio, yn flynyddol o leiaf, yn erbyn Cod Ymarfer y Rheoleiddiwr Pensiynau. • Mae'r Gronfa yn cynnal cofnod o bob toriad cyfraith yn unol â gweithdrefn torri'r gyfraith y Gronfa sy'n cael ei adrodd a'i fonitro fel yr amlinellir yn y weithdrefn honno. • Mae'r Bwrdd Pensiwn yn paratoi ac y cyhoeddi adroddiad blynyddol, sydd efallai'n cynnwys sylwadau ar faterion cydymffurfio. • Mae gan y Pwyllgor Cydlywodraethu Bolisi Torri'r Gyfraith a Gwallau ar waith gyda threfniadau monitro yn unol â'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau.
Mynegi'n glir beth yw ein hamcanion a sut yr ydym yn bwriadu cyflawni'r amcanion hynny trwy gynllunio busnes, a mesur a monitro llwyddiant yn barhaus.	• Mae pob strategaeth a pholisi yn cynnwys cyfeiriad ar sut y caiff amcanion eu monitro. • Monitro parhaus yn erbyn amcanion allweddol yng nghyfarfodydd Pwyllgor y Gronfa Bensiynau. • Monitro targedau'r cynllun busnes yn barhaus yng nghyfarfodydd Pwyllgor y Gronfa Bensiynau. • Mae diweddariadau bob chwarter a blynyddol yn erbyn cynllun busnes ac amcanion y Pwyllgor Cydlywodraethu wedi'u darparu yn unol â'r Cytundeb rhwng Awdurdodau.

Amcan	Trefniadau Monitro
Sicrhau bod cyfrinachedd, uniondeb a hygyrchedd data'r Gronfa, ei systemau a'i gwasanaethau yn cael eu gwarchod a'u cynnal.	- Mae pob toriad diogelwch gwybodaeth sy'n ymwneud â data yn cael ei ddosbarthu'n annïogel gan y Gronfa'n cael eu cofnodi a'u hadolygu. - Mae pob digwyddiad arall sy'n effeithio ar gyfrinachedd, uniondeb a hygyrchedd data, systemau neu wasanaethau yn cael eu cofnodi a'u hadolygu. - Mae gan y Gronfa gynllun ymateb i ddigwyddiad seibr ar waith. - Mae gan y Gronfa gynllun parhad busnes ac amserlen profi ar waith (gan gynnwys profi digwyddiad seibr) ac sy'n cael ei ddilyn. - Mae pob aelod o staff y Gronfa wedi dilyn hyfforddiant Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn unol â rhaglen hyfforddiant Cyngor Sir y Fflint.

Risgiau Allweddol

Dyma'r prif risgiau llywodraethol y bydd aelodau o Bwyllgor y Gronfa Bensiynau, gyda chymorth Panel Ymgynghorol Cronfa Bensiynau Clwyd, yn eu monitro ar sail barhaus.

- Newidiadau posibl i aelodaeth Pwyllgor y Gronfa Bensiynau, aelodaeth y Bwrdd Pensiwn, y Pwyllgor Cydlywodraethu a/neu swyddogion allweddol, lefel gwybodaeth wael, ymgysylltiad neu arolygiaeth wael i effaith ansawdd y penderfyniadau a wneir.
- Os na chaiff gwrthdaro buddiannau gwirioneddol neu posib eu rheoli'n briodol, gallent ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau, gan olygu nad yw penderfyniadau er budd pennaf aelodau a chyflogwyr ein cronfa, ac nad yw ein dyletswyddau ymddiriedol yn cael eu bodloni.
- Os nad oes polisiâu ar waith neu nad ydynt yn cael eu monitro'n rheolaidd, yna efallai na fydd amcanion y Gronfa'n glir neu'n briodol.
- Byddai methiant i drefniadau rheoli risg yn arwain at beidio adnabod risgiau neu beidio eu hystyried yn briodol, gan arwain at golled neu effaith niweidiol arall i'r Gronfa neu ei fudd-ddeiliaid.
- Y posibilrwydd o ddylanwad a newidiadau allanol (megis newidiadau i'r cynllun, ad-drefnu cenedlaethol, seiberdroseddu a chyfuno asedau) i arwain at amcanion a chyfrifoldebau cyfreithiol y Gronfa ddim yn cael eu bodloni neu eu cyfaddawdu.
- Os, am resymau megis salwch, gadael swydd, ymddeoliad neu anallu i recriwtio, diffyg niferoedd staff, yna gall hyn arwain at wasanaethau a ddarperir ddim yn bodloni amcanion cyfreithiol ac amcanion y polisi.

- Os na ddarperir yr hyfforddiant priodol i'r sawl sydd â'r gwaith o reoli'r Gronfa, neu nad ydynt yn deall eu cyfrifoldebau, yna mae risg na fyddwn yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol neu'r canllawiau.

Datganiad Cydymffurfio Arfer Orau

Mae'r datganiad isod yn cymharu trefniadau llywodraethu cyfredol Cronfa Bensiynau Clwyd gyda'r canllawiau arfer orau a ddosbarthwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r datganiad yn darparu esboniad o le nad yw'r Gronfa'n cydymffurfio'n llawn.

Cymeradwyo, Adolygu ac Ymgynghori

Adolygwyd strwythur llywodraethu Cronfa Bensiynau Clwyd yn 2014. Ymgynghorwyd â chyflogwyr y Gronfa cyn yr adolygiad hwnnw. Mae cynrychiolwyr cyflogwyr ac aelodau'r cynllun hefyd wedi bod yn rhan o newidiadau arfaethedig i'r strwythur, gan gynnwys trefniadau ar gyfer ymrwymo i drefniant cyfuno asedau Cymru.

Cymeradwywyd y fersiwn hwn o'r Polisi Llywodraethu a'r Datganiad gan Bwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd ar 23 Tachwedd 2022. Bydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n ffurfiol bob tair blynedd neu'n gynharach os yw'r trefniadau llywodraethu neu faterion eraill ynddo'n galw am ailystyriaeth.

Rhagor o Wybodaeth

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch ynglŷn ag unrhyw beth yn y Polisi Llywodraethu a'r Datganiad, neu sy'n ymwneud ag ef, cysylltwch â:

Phillip Latham, Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd, Cyngor Sir y Fflint

E-bost: philip.latham@siryfflint.gov.uk

Rhif ffôn: 01352 702264

Ceir rhagor o wybodaeth am y Gronfa ar ei gwefan:

<https://cronfabensiynauclwyd.org.uk>

Ceir rhagor o wybodaeth am Bartneriaeth Pensiwn Cymru ar eu

gwefan: <https://www.partneriaethpensiwncymru.org/>

Atodiad A: Datganiad Cydymffurfio Trefniadau Llywodraethu Cronfa Bensiynau Clwyd

Arfer Orau	Yn cydymffurfio ai peidio?	Nodyn Eglurhaol
A. Strwythur		
a. Mae rheolaeth a gweinyddiaeth y buddion a rheolaeth strategol asedau'r gronfa yn amlwg yn gorwedd gyda'r prif bwyllgor a sefydlwyd gan y cyngor penodi.	Cydymffurfio	Mae mwyafrif o elfennau gweinyddu'r buddion a rheolaeth strategol y gronfa wedi'u dirprwyo gan y Cyngor i Bwyllgor y Gronfa Bensiynau. Mae gan Bwyllgor Cydlywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru gyfrifoldeb dros rai elfennau o reoli Partneriaeth Pensiwn Cymru.
b. Mae cynrychiolwyr y cyflogwyr sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, cyrff sy'n caniatáu ac aelodau o'r cynllun (gan gynnwys pensiynwyr ac aelodau gohiriedig) yn aelodau o'r prif bwyllgor neu'r pwyllgor eilaidd a sefydlwyd i ategu at waith y prif bwyllgor.	Cydymffurfio	Mae cynrychiolwyr sy'n cynnwys y rhan fwyaf o gyflogwyr ac aelodau o'r cynllun yn Aelodau Cyfetholedig o Bwyllgor y Gronfa Bensiynau. Mae'r Bwrdd Pensiwn, er nad yw'n bwyllgor eilaidd ffurfiol, hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o aelodau a chyflogwyr y cynllun. Mae Pwyllgor Cydlywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cynnwys un cynrychiolydd cyfetholedig o aelodau'r pwyllgor ac mae gofyn iddynt ymgysylltu gydag aelodau'r cynllun a chynrychiolwyr y cyflogwyr.

c. Pan mae pwyllgor eilaidd neu banel wedi'i sefydlu, mae'r strwythur yn sicrhau cyfathrebu effeithiol ar draws y ddwy lefel.	Amherthnasol	Nid oes pwyllgor neu banel eilaidd ffurfiol. Serch hynny, mae'n ddefnyddiol nodi bod gan aelodau'r Bwrdd Pensiwn hawl i fynd i gyfarfodydd Pwyllgor y Gronfa Bensiynau ac estynnir gwahoddiad iddynt gymryd rhan. Rhennir cofnodion y Bwrdd Pensiwn i aelodau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau cyn gynted ag y byddant ar gael, ynghyd â chael eu cynnwys yn adroddiadau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau.
d. Pan mae pwyllgor neu banel eilaidd wedi cael ei sefydlu, mae o leiaf un sedd ar y prif bwyllgor yn cael ei dyrannu i aelod o'r pwyllgor neu banel eilaidd.	Amherthnasol	
B. Cynrychiolaeth		
a. Bod pob budd-ddeiliad allweddol yn cael cyfle i gael eu cynrychioli o fewn y prif strwythur neu'r pwyllgor eilaidd. Mae'r rhain yn cynnwys: i) cyflogi awdurdodau (gan gynnwys cyflogwyr nad ydynt yn rhan o'r cynllun, e.e. cyrff sy'n caniatáu); ii) aelodau'r cynllun (gan gynnwys pensiynwyr ac aelodau gohiriedig y cynllun), iii) pan fo'n briodol, arsyllwyr proffesiynol annibynnol, ac iv) ymgynghorwyr arbenigol (ar sail ad-hoc).	Cydymffurfio'n rhannol	Mae Pwyllgor y Gronfa Bensiynau yn cynnwys yr Aelodau Cyfetholedig canlynol: • cynrychiolwyr cyflogwyr sy'n cwmpasu pob cyflogwr ac eithrio cyrff derbyn (gan mai cyfran fechan yn unig o rwymedigaethau'r gronfa yw cyrff derbyn). • cynrychiolydd aelodau'r cynllun, sy'n cwmpasu'r holl gategorïau o aelodau'r cynllun. Yn ychwanegol at hynny, mae cynghorydd llywodraethu annibynnol, actiwari'r Gronfa ac ymgynghorydd buddsoddi'n mynd i holl gyfarfodydd Pwyllgor y Gronfa Bensiynau. Mae'r Bwrdd Pensiwn, er nad yw'n bwyllgor eilaidd ffurfiol, hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o aelodau a chyflogwyr y cynllun.

		Mae Pwyllgor Cydlywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cynnwys un cynrychiolydd cyfetholedig o aelodau'r pwyllgor ac mae gofyn iddynt ymgysylltu gydag aelodau'r cynllun a chynrychiolwyr y cyflogwyr.
b. Pan fo aelodau lleig yn eistedd ar brif bwyllgor neu bwyllgor eilaidd, maent yn cael eu trin yn gyfartal yn nhermau mynediad i ddogfennau a chyfarfodydd, cynigir yr un hyfforddiant a chyfleoedd llawn i gyfrannu at y broses gwneud penderfyniadau, gyda neu heb hawliau pleidleisio.	Cydymffurfio	Mae aelodau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau, gan gynnwys aelodau cyfetholedig, yn cael eu trin yn gyfartal gyda chyfle llawn i gyfrannu at y broses gwneud penderfyniadau a chyda mynediad anghyfyngedig i ddogfennau a hyfforddiant, a hawliau pleidleisio llawn. Nid oes pwyllgor neu banel eilaidd ffurfiol. Serch hynny, mae'n ddefnyddiol nodi bod gan aelodau'r Bwrdd Pensiwn hawl i fynd i gyfarfodydd Pwyllgor y Gronfa Bensiynau ac estynnir gwahoddiad iddynt gymryd rhan.
C. Dewis a rôl aelodau lleig		
a. Bod aelodau'r pwyllgor neu'r panel yn hollol ymwybodol o'r statws, rôl a swyddogaeth y mae disgwyl iddynt berfformio yn y prif bwyllgor neu'r pwyllgor eilaidd.	Cydymffurfio	Fe amlygir hyn drwy hyfforddiant rheolaidd, a phan gyflwynir y Polisi Llywodraethu a'r Datganiad Cydymffurfio i'w cymeradwyo.
b. Ar ddechrau unrhyw gyfarfod, estynnir gwahoddiad i aelodau'r pwyllgor ddatgan unrhyw gysylltiad cyllidol neu ariannol sy'n ymwneud â materion penodol ar y rhaglen.	Cydymffurfio	Nid yw'n ofyniad cyfreithiol mwyach, ond rydym yn cydnabod y gall gwrthdaro buddiannau posibl godi rhwng rolau presennol (e.e. fel cynrychiolwyr cyflogwyr neu aelodau'r cynllun) ac felly rydym yn parhau i gyflawni'r ymarfer hwn. Mae gan y Gronfa Bolisi Gwrthdaro Buddiannau sy'n amlinellu'r broses ar gyfer nodi a rheoli gwrthdaro buddiannau gwirioneddol a phosibl.

D. Pleidleisio		
a. Mae polisi awdurdodau gweinyddu unigol ar hawliau pleidleisio yn glir ac yn dryloyw, gan gynnwys cyfiawnhad dros beidio ymestyn hawliau pleidleisio i bob corff neu grŵp sydd wedi'i gynrychioli ar brif bwyllgorau cynllun pensiwn llywodraeth leol.	Cydymffurfio	Mae Cyfansoddiad y Cyngor a Pholisi Llywodraethu'r Gronfa a'r Datganiad Cydymffurfio yn ei wneud yn glir bod gan aelodau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau hawliau pleidleisio cyfartal. Mae trefniadau pleidleisio Pwyllgor Cydlywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi'u hamlinellu yn y Cytundeb Rhwng Awdurdodau, gydag un bleidlais fesul awdurdod. Nid oes gan y cynrychiolydd cyfetholedig o aelodau'r cynllun hawl i bleidleisio yn y Pwyllgor Cydlywodraethu.
E. Hyfforddiant / amser cyfleuster / treuliau		
a. Mewn perthynas â'r ffordd mae penderfyniadau statudol a chysylltiedig yn cael eu gwneud gan yr awdurdod gweinyddu, mae polisi clir ar hyfforddiant, amser cyfleuster ac ad-daliad treuliau o ran aelodau'n ymwneud â'r broses gwneud penderfyniadau.	Cydymffurfio	Mae gan y Gronfa Bolisi Gwybodaeth a Sgiliau sy'n berthnasol i bob aelod Pwyllgor y Gronfa Bensiynau, aelodau'r Bwrdd Pensiwn a swyddogion. Darperir hyfforddiant drwy sawl ffordd, gan gynnwys: • Sesiwn cynefino cychwynnol i Aelodau newydd Pwyllgor y Gronfa Bensiynau a'r Bwrdd Pensiwn. • Hyfforddiant parhaus drwy adroddiadau ysgrifenedig neu gyflwyniadau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor. • Cynadleddau a seminarau. Mae costau gwirioneddol a threuliau sy'n ymwneud â hyfforddiant cymeradwyedig yn cael eu talu'n uniongyrchol neu'n cael eu had-dalu gan Gronfa Bensiynau Clwyd. Gall aelodau cyfetholedig Pwyllgor y Gronfa Bensiynau ac aelodau'r Bwrdd Pensiwn dderbyn taliadau am fynd i

		gyfarfodydd (gan gynnwys digwyddiadau hyfforddiant) fel y manylir o fewn Cynllun Tâl Aelodau Cyngor Sir y Fflint a Phrotocol y Bwrdd Pensiwn. Mae gofyn i Bwyllgor Cydlywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru baratoi, cynnal a glynu at Bolisi Hyfforddiant.
b. Pan mae polisi o'r fath yn bodoli, mae'n gymwys yn gyfartal i bob aelod o'r pwyllgorau, is-bwyllgorau, paneli ymgynghorol neu unrhyw ffurf arall o fforwm eilaidd.	Cydymffurfio	
c. Bod yr awdurdod gweinyddu'n ystyried mabwysiadu cynlluniau hyfforddiant blynyddol ar gyfer aelodau'r pwyllgor ac yn cynnal cofnod o'r hyfforddiant a gynhaliwyd.	Cydymffurfio	Mae cofnod o hyfforddiant Aelodau unigol yn cael ei gadw. Yn ychwanegol at hynny, mae'r Gronfa wedi mabwysiadu Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau CIPFA ac mae ganddi Bolisi Gwybodaeth a Sgiliau penodol ar gyfer y Gronfa.
F. Cyfarfodydd (amlder / cworwm)		
a. Bod prif bwyllgor neu bwyllgorau awdurdod gweinyddu yn cwrdd bob chwarter o leiaf.	Cydymffurfio	
b. Bod pwyllgor eilaidd neu banel yr awdurdod gweinyddu yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn o leiaf ac yn cyd-fynd â dyddiadau cyfarfodydd y prif bwyllgor.	Amherthnasol	
c. Mae'n rhaid i awdurdod gweinyddu nad ydynt yn cynnwys aelodau lleig yn eu trefniadau llywodraethu ffurfiol, ddarparu fforwm tu allan i'r trefniadau hynny lle gellir	Amherthnasol	Er bod gennym aelodau lleig ar ein Pwyllgor Pensiynau, mae gennym hefyd Gydgyfarfod Ymgynghorol Blynyddol ar gyfer cyrff sy'n cyflogi ac aelodau'r cynllun. Mae'r Bwrdd Pensiwn hefyd yn darparu fforwm ar gyfer budd-ddeiliaid i'w cynrychioli.

cynrychioli diddordebau budd-ddeiliaid allweddol.		
G. Mynediad		
a. Yn amodol ar unrhyw reolau yng nghyfansoddiad y cyngor, mae gan aelodau'r prif bwyllgorau a'r pwyllgorau eilaidd fynediad cyfartal i bapurau pwyllgorau, dogfennau a chyngor sy'n dod i law i'w ystyried yng nghyfarfodydd y prif bwyllgor.	Cydymffurfio	Mae gan bob Aelod o Bwyllgor y Gronfa Bensiynau fynediad cyfartal i bapurau. Yn ychwanegol at hynny, mae gan aelodau'r Bwrdd Pensiwn fynediad at yr un papurau. Mae'r Pwyllgor Cydlywodraethu yn gyfarfod cyhoeddus, felly mae'r papurau i gyd (ac eithrio'r sawl sy'n eithriedig) ar gael i aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd, yn ogystal ag aelodau'r cyhoedd.
H. Cwmpas		
a. Bod awdurdodau gweinyddu wedi cymryd camau i ddod â materion ehangach y cynllun o fewn cwmpas eu trefniadau llywodraethu	Cydymffurfio	Mae cylch gwaith Pwyllgor y Gronfa Bensiynau yn trin holl faterion y Gronfa, gan gynnwys gweinyddu, cyfathrebu, cyllido, buddsoddiadau a llywodraethu. Mae'r Bwrdd Pensiwn yn darparu cyfleoedd pellach i ystyried y materion hyn.

I. Cyhoeddusrwydd		
a. Mae awdurdodau gweinyddu wedi cyhoeddi manylion eu trefniadau llywodraethu fel gall budd-ddeiliaid gyda diddordeb yn y modd y mae'r cynllun yn cael ei lywodraethu, ddatgan diddordeb wrth ddymuno bod yn rhan o'r trefniadau hynny.	Cydymffurfio	Mae'r Gronfa yn cyhoeddi Adroddiad Blynnyddol manwl, newyddlenni ar gyfer aelodau gweithredol a phensiynwyr, sioeau teithiol, sesiynau galw heibio a Chyfarfod Blynnyddol ar gyfer Cyflogwyr a chynrychiolwyr y budd-ddeiliaid. Yn ychwanegol at hynny, mae adroddiadau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau ar gael i'w gweld ar wefan Cyngor Sir y Fflint (heblaw am eitemau eithriedig). Mae trefniadau sy'n ymwneud â'r Pwyllgor Cydlywodraethu ar gael drwy'r polisi hwn, gydag ychydig o wybodaeth wedi'i chynnwys ym mhapurau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau. Mae holl adroddiadau'r Pwyllgor Cydlywodraethu ar gael i'w gweld ar wefan Cyngor Sir Gâr (heblaw am eitemau eithriedig). Yn ychwanegol at hynny, mae'r Pwyllgor Cydlywodraethu yn cynnwys un cynrychiolydd cyfetholedig o aelodau'r pwyllgor a byddant yn ymgysylltu gydag aelodau'r cynllun a chynrychiolwyr y cyflogwyr.

Atodiad B: Rolau a Swyddogaethau Dirprwyedig Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd

Mae gan Bwyllgor y Gronfa Bensiwn y rolau a'r swyddogaethau penodol canlynol, gan ystyried cyngor gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd ac ymgynghorwyr proffesiynol y Gronfa:

- a) Sicrhau bod Cronfa Bensiynau Clwyd yn cael ei rheoli ac y gwneir taliadau pensiwn yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, gofynion Refeniw a Thollau Ei Fawrhydi ar gyfer cynlluniau pensiwn yn y DU, a phob darpariaeth statudol berthnasol arall.
- b) Sicrhau bod trefniadau rheoli risg cadarn ar waith.
- c) Sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu gan roi sylw i ac yn ysbryd yr holl ganllawiau arfer orau statudol ac anstatudol perthnasol, mewn perthynas â rheoli Cronfa Bensiynau Clwyd.
- d) Pennu nodau ac amcanion, strategaethau, datganiadau cydymffurfio statudol, polisiau a gweithdrefnau y Gronfa Bensiynau, ar gyfer rheolaeth gyffredinol y Gronfa, gan gynnwys mewn perthynas â'r meysydd canlynol:
 - i. Llywodraethu: cymeradwyo Polisi Llywodraethu a Datganiad Cydymffurfio'r Gronfa o fewn y fframwaith a bennwyd gan Gyngor Sir y Fflint a gwneud argymhellion i Gyngor Sir y Fflint am unrhyw newidiadau i'r fframwaith hwnnw.
 - ii. Strategaeth Gyllido: cymeradwyo Datganiad Strategaeth Gyllido'r Gronfa, gan gynnwys monitro a rheoli atebolrwyddau'n barhaus, sicrhau bod cynlluniau cyllido yn eu lle ar gyfer pob cyflogwr yn y Gronfa, gan oruchwylio'r prisiau teirblwydd ac interim, a gweithio gyda'r actiwari wrth bennu'r lefel briodol o gyfraniadau cyflogwyr ar gyfer pob cyflogwr.
 - iii. Strategaeth Fuddsoddi: cymeradwyo Datganiad Strategaeth Fuddsoddi'r Gronfa, gan gynnwys gosod y Polisi Buddsoddi Cyfrifol a thargedau buddsoddi a sicrhau bod y rhain yn cyd-fynd â phroffil atebolrwydd penodol y Gronfa a'r awch am risg.
 - iv. Strategaeth Weinyddu: cymeradwyo Strategaeth Weinyddu'r Gronfa, gan bennu sut bydd y Cyngor yn gweinyddu'r Gronfa, gan gynnwys casglu taliadau, cyfrifo a thalu budd-daliadau, casglu gwybodaeth gan, a darparu gwybodaeth i aelodau a chyflogwyr y cynllun.
 - v. Strategaeth Gyfathrebu: cymeradwyo Strategaeth Gyfathrebu'r Gronfa, gan bennu dulliau o gyfathrebu gyda budd-ddeiliaid amrywiol, gan gynnwys aelodau a chyflogwyr y cynllun.
 - vi. Disgresiwn: pennu sut mae disgresiynau amrywiol yr awdurdod gweinyddu yn cael eu gweithredu ar gyfer y Gronfa.
- e) Monitro gweithrediad y polisiau a'r strategaethau hyn ar sail barhaus.
- f) Mewn perthynas â threfniadau Cydweithio Partneriaeth Pensiwn Cymru:
 - i. Ymgymryd â'r materion canlynol sy'n berthnasol i Gyngor Sir y Fflint, fel yr amlinellir yn y Cytundeb Rhwng Awdurdodau:

- Penodi, terfynu neu ddisodli'r Gweithredwr yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Cydlywodraethu.
- Cymeradwyo gwariant ychwanegol nad oedd wedi'i gynnwys o fewn y Cynllun Busnes, sy'n mynd tu hwnt i 30% o'r gyllideb a gymeradwywyd yn y Cynllun Busnes o fewn unrhyw Flwyddyn Ariannol.
- Ffurio, cymeradwyo neu ddiwygio strategaeth fuddsoddi pob Awdurdod Cyfansoddol at ddibenion rheolaeth 7 y Rheoliadau Buddsoddi.
- Cyflwyno awdurdod gweinyddu newydd o fewn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i'r Gronfa Fuddsoddi fel awdurdod Cyfansoddol.
- Diwygio'r Cytundeb nad yw'n arwyddocaol i weithrediad y trefniadau
- Newid defnydd i natur Contract y Gweithredwr.
- Cymeradwyo'r amcanion strategol cychwynnol i ganiatáu ar gyfer paratoi'r Cynllun Busnes cyntaf (y bydd ei amcanion yn adlewyrchu'r amcanion a nodwyd wrth gaffael y Gweithredwr).
- Cymeradwyo unrhyw feini prawf gwerthuso neu sgorio ar gyfer caffael Gweithredwr newydd.
- Cymeradwyo'r Cynllun Busnes, na fydd yn cynnwys cymeradwyaeth amcanion strategol parhaus y Gronfa Fuddsoddi.
- Pennu amseriad trosglwyddo asedau sy'n cael eu cynnal gan Gronfa Bensiynau Clwyd i'r Gydweithfa Gyfun, a'r cronfeydd neu'r is-gronfeydd a weithredir gan y Gweithredwr.

Noder, bydd y Cyngor yn cynnal y pŵer i derfynu'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau neu wneud diwygiadau i'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau a fydd o bosib yn arwyddocaol i weithrediad y trefniadau.

- ii. Dirprwyo pwerau i swyddogion Cyngor Sir y Fflint a'r Cyngor Cynnal pan fo'r angen.
 - iii. Enwebu swyddogion Cyngor Sir y Fflint i'r Gweithgor Swyddogion.
 - iv. Monitro perfformiad Cydweithfa Gyfun Cymru a'i Weithredwr, ac argymhell camau gweithredu i'r Pwyllgor Cydlywodraethu, Gweithgor y Swyddogion neu'r Cyngor Cynnal, fel y bo'n briodol.
- g) Cymeradwyo adroddiad blynyddol y Gronfa, gan gynnwys datganiadau ariannol y Gronfa.
 - h) Dethol, penodi, diswyddo a monitro ymgynghorwyr y Gronfa, gan gynnwys actiwari, ymgynghorwyr budd-daliadau, ymgynghorwyr buddsoddi, ceidwad byd-eang, rheolwyr cyllid, cyfreithwyr, gweinyddwr y gronfa bensiynau, ac ymgynghorwyr proffesiynol annibynnol.
 - i) Gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â chyflogwyr yn ymuno a gadael y Gronfa. Mae hyn yn cynnwys cyflogwyr sydd â hawl i ymuno â'r Gronfa, ac unrhyw ofynion sy'n ymwneud â'u mynediad, monitro parhaus a'r sail ar gyfer gadael y Gronfa.
 - j) Cytuno i delerau a thaliad trosglwyddiadau swmpus i mewn ac allan o'r Gronfa.
 - k) Cytuno ar gynlluniau busnes y Gronfa Bensiynau a monitro cynnydd yn eu herbyn.

- l) Cytuno ar Bolisi Gwybodaeth a Sgiliau'r Gronfa ar gyfer holl aelodau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau a holl swyddogion y Gronfa, gan gynnwys pennu fframwaith gwybodaeth a sgiliau'r Gronfa, nodi gofynion hyfforddi, datblygu cynlluniau hyfforddi a monitro cydymffurfiaeth â'r polisi.
- m) Cytuno ar ymatebion yr Awdurdod Gweinyddu i ymgynghoriadau ar faterion Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a materion eraill lle gallant effeithio ar y Gronfa neu ar fudd-ddeiliaid.
- n) Derbyn adroddiadau parhaus gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd a Phanel Ymgynghorol Pensiynau mewn perthynas â swyddogaethau dirprwyol.

Atodiad 10: Datganiad Strategaeth Gyllido (Mawrth 2023)

Adran 1: Canllaw i'r DSG a Pholisïau

Mae prif amcanion Cronfa Bensiynau Clwyd ("y Gronfa") wedi eu cynnwys yn adran 3. Mae'r wybodaeth sy'n ofynnol gan Reoliadau a chanllawiau trosfwaol wedi ei chynnwys yn Adrannau 2 a 3 y Datganiad Strategaeth Gyllido. Mae'r ddogfen hon hefyd yn cynnwys polisïau'r Gronfa yn y prif feysydd canlynol:

Dull Actiwaraid a Thybiaethau (Atodiad A)

Nodir y thybiaethau actiwaraid a ddefnyddir wrth asesu sefyllfa gyllido'r Gronfa a'r cyflogwyr unigol, y gyfradd gyfraniadau "Sylfaenol" ac unrhyw amrywiadau mewn cyfraniadau oherwydd gwargedion neu ddiffygion, hynny yw, y gyfradd "Eilaidd" wedi eu cynnwys [yma](#).

Cynlluniau Adfer Diffyg a Neilltuo Gwarged (Atodiad B)

Mae'r prif egwyddorion wrth ystyried cynlluniau adfer diffyg a neilltuo gwarged fel rhan o'r prisiad wedi eu cynnwys [yma](#).

Polisi Derbyn (Atodiad C)

Mae gan amrywiol fathau o gyflogwyr hawl i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol mewn rhai achosion. Mae'r amodau sy'n sail i'w derbyn i'r Gronfa a'r camau a gymerir wedi eu cynnwys [yma](#).

Polisi Terfnu, Hyblygrwydd â Thaliadau Ymadael â Chytundebau Gohirio Dyled (Atodiad D)

Os yw cyflogwr yn rhoi'r gorau i gyfranogi o fewn y Gronfa, mae'n dod yn gyflogwr sy'n ymadael dan y Rheoliadau. Yna mae'n ofynnol i'r Gronfa gael prisiad actiwaraid o rwymedigaethau'r cyflogwr hwnnw mewn perthynas â buddion gweithwyr blaenorol y cyflogwr sy'n gadael ynghyd â thystysgrif cyfraniad terfynu sy'n dangos unrhyw ddyled gadael neu gredyd gadael, yn ddyledus gan neu i'r cyflogwr sy'n gadael. Mewn rhai amgylchiadau gall cyflogwr a'r Gronfa lunio Cytundeb Dyled Gohiriedig. Gellir gweld y polisi terfynu [yma](#).

Adolygu Cyfraniadau Cyflogwyr Rhwng Prisidau (Atodiad E)

Yn unol â'r Rheoliadau, mae gan yr Awdurdod Gweinyddu y disgrisiwn i adolygu cyfraniadau cyflogwyr rhwng prisidau mewn amgylchiadau penodol. Mae polisi'r Gronfa ar sut y bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ymarfer ei ddisgrisiwn wedi'i nodi [yma](#).

Polisi Asesu a Monitro Cyfamod (Atodiad F)

Cyfamod ariannol y cyflogwr yw'r sail ar gyfer ei rwymedigaethau cyfreithiol a'i allu i gyflawni ei gyfrifoldebau ariannol i'r Gronfa nawr ac yn y dyfodol. Mae hyn yn ystyriaeth allweddol mewn strategaeth cyllido a buddsoddi cyflogwr, gan mai'r cyflogwyr sy'n gwarantu'r risgiau sy'n wynebu'r Gronfa, gan gynnwys tangyllido, hirhoedledd, buddsoddiad a grymoedd marchnad. Mae manylion pellach ar sut mae cyfamod cyflogwr yn cael ei asesu a'i fonitro gan y Gronfa wedi eu nodi [yma](#).

Fframwaith Digwyddiadau Hysbysadwy (Atodiad G)

Er yn y rhan fwyaf o achosion, bydd diwygio'r cyfamod yn rheolaidd yn amlygu rhai o'r prif newidiadau gan gyflogwr, mewn rhai amgylchiadau bydd yn ofynnol i gyflogwyr gytuno i roi gwybod i'r Awdurdod Gweinyddu am unrhyw newidiadau sylweddol. Mae'r polisi hwn yn nodi pryd y bydd hyn yn digwydd a'r broses digwyddiadau hysbysadwy. Mae mwy o fanylion ar gael [yma](#).

Cytundebau Yswiriant Salwch (Atodiad H)

Mae'r Gronfa wedi gweithredu cytundeb yswiriant daliedig sy'n cynnwys y risgiau sy'n gysylltiedig â chostau ymddeol ar sail afiechyd i gyflogwyr yr effeithir yn sylweddol ar eu sefyllfa ariannol drwy un o'u haelodau yn ymddeol ar sail afiechyd. Mae'r trefniant daliedig wedi'i adlewyrchu yng nghyfraddau cyfraniad y cyflogwr (gan gynnwys adeg terfynu) i'r cyflogwyr cymwys. Mae mwy o fanylion ar gael [yma](#).

Adran 2: Cefndir

Yr Awdurdod Gweinyddu (Cyngor Sir y Fflint) sydd â'r cyfrifoldeb ymddiriedol am sicrhau fod gan Gronfa Bensiynau Clwyd ("y Gronfa") asedau digonol i fodloni ei rhwymedigaethau pensiwn. Bydd y Strategaeth Gyllido a fabwysiadwyd gan Gronfa Bensiynau Clwyd felly'n hollbwysig i gyflawni hyn. Derbyniodd yr Awdurdod Gweinyddu gyngor gan yr Actiwari wrth baratoi'r Datganiad hwn.

Diben y Datganiad Strategaeth Gyllido (DSG) hwn yw pennu strategaeth ariannu eglur a thryloyw a fydd yn nodi sut bodlonir rhwymedigaethau pensiwn pob un o gyflogwyr y Gronfa.

Oherwydd hynny, ac yn unol â deddfwriaeth lywodraethol, ymgynghorwyd â'r holl fuddgyfranogwyr yn y Gronfa i roi cyfle iddynt gyflwyno sylwadau cyn cwblhau'r Datganiad hwn ynghylch y Strategaeth Gyllido a'i fabwysiadu. Mae'r datganiad terfynol yn seiliedig ar yr holl sylwadau ac ymatebion a dderbynnir.

Strategaeth Rheoli Risg Integredig

Datblygwyd y strategaeth gyllido a gyflwynir yn y ddogfen hon ochr yn ochr â strategaeth fuddsoddi'r Gronfa, a thrwy'r dull integredig hwn gellid ystyried y risgiau ariannol a demograffig cyffredinol sy'n bodoli yn y Gronfa i gwrdd â'r nod i holl gyflogwyr dros gyfnodau gwahanol. Mae'r strategaeth gyllido yn cynnwys lwfansau priodol i ganiatau ar gyfer y posibilrwydd o ddigwyddiadau andwyol (e.e. gostyngiad sylweddol mewn enillion buddsoddi, dirywiad economaidd a rhagolygon chwyddiant uwch) yn arwain at sefyllfa gyllido waeth a fyddai'n arwain at fwy o ansefydlogrwydd mewn cyfraddau cyfrannu ar gyfer prisiadau yn y dyfodol os na fyddai'r lwfansau hyn wedi eu cynnwys. Mae angen bod yn ddarbodus ar gyfer y Rheoliadau a chanllawiau a gyhoeddwyd gan gyrff proffesiynol ac asiantaethau'r Llywodraeth i gynorthwyo'r Gronfa i gyflawni ei amcanion diddyledrwydd sylfaenol ac effeithlonrwydd cost hirdymor. Bydd canlyniadau cyflogwr unigol hefyd yn ystyried eu cryfder cyfamod a'r strategaeth fuddsoddi a ddefnyddir ar gyfer cyfrannau ased y cyflogwyr hynny.

Y Rheoliadau

Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'u diwygiwyd) ("Rheoliadau 2013"), Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Cynilion a Diwygiadau) 2014 ("Rheoliadau Trosiannol 2014") a Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoliadau Trosiannol 2014") a Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016 (y cyfan fel y'u diwygiwyd) (at ei gilydd; "y Rheoliadau") yn gosod y fframwaith statudol lle mae gofyn i'r Awdurdod Gweinyddu lunio Datganiad Strategaeth Gyllido (DSG).

Y Nod Diddyledrwydd

Amcan hirdymor yr Awdurdod Gweinyddu yw bod y Gronfa'n cyflawni lefel diddyledrwydd o 100% dros gyfnod rhesymol ac yna'n cynnal asedau digonol er mwyn iddo dalu'r holl fuddion sy'n codi pan fyddant yn ddyledus. Diffinnir diddyledrwydd fel y lefel lle gellir cwrdd â rhwymedigaethau'r Gronfa; hynny yw, talu'r buddion yn rhesymol wrth iddynt godi. Mae cyfraniadau yn cael eu gosod mewn perthynas â'r nod hwn sy'n golygu unwaith y cyflawnir 100% o ddiddyledrwydd, os bydd rhagdybiaethau wedi eu harfer ym ymarferol, byddai yna ddigon o asedau i dalu holl fuddion a enillwyd hyd at y dyddiad prisiad dyledus.

Fodd bynnag, gan fod amodau/rhagolygon ariannol a marchnad yn newid rhwng prisiadau, mae'n bosibl y bydd angen newid un prisiad yn y prisiad nesaf er mwyn cwrdd ag amcanion y Gronfa. Mae hyn yn ei dro yn golygu y bydd cyfraniadau yn destun newid o un prisiad i un arall. Mae'r nod hwn yn trosi i lefel penodol i gyflogwr wrth osod cyfraddau cyfraniad unigol.

Yr egwyddor gyffredinol a fabwysiadwyd gan y Gronfa yw bod y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd, o'u hystyried yn gyffredinol, yn cael eu dewis yn ddigon gofalus ar gyfer y nod hwn i gael eu cyflawni'n rhesymol yn yr hirdymor yn ystod pob prisiad.

Cost-Effeithlonrwydd Hirdymor

Pennir cyfraniadau cyflogwyr hefyd gyda'r nod o sicrhau cost-effeithlonrwydd hirdymor. Mae effeithlonrwydd cost hirdymor yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gynllun cyllido gynnig ecwiti rhwng cenedlaethau gwahanol o drethdalwyr. Mae hyn yn golygu na ddylai cyfraniadau gael eu gosod ar lefel sy'n debyg o achosi costau ychwanegol yn y dyfodol sy'n disgyn ar genedlaethau diweddarach o drethdalwyr neu'n rhoi gormod o faich ar drethdalwyr presennol. Mae'n rhaid i'r paramedrau a rhagdybiaethau ariannu (e.e. cyfnod adfer diffyg) roi ystyriaeth i'r gofyniad hwn fydd yn sail i'r broses gwneud penderfyniadau. Yn yr un modd, wrth lunio'r DSG rhaid ystyried mor ddymunol yw cynnal cyfradd sylfaenol o gyfraniadau bron mor gyson â phosibl.

Wrth lunio'r strategaeth gyllido mae'r Awdurdod Gweinyddu wedi ystyried dau o amcanion allweddol hyn yn ogystal â goblygiadau'r gofynion dan Adran 13(4)(c) o Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Fel rhan o'r gofynion hynny, rhaid i Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD), yn dilyn prisiad actiwaraidd, adrodd a yw cyfradd gyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa wedi'i phennu ar lefel briodol i sicrhau "diddyledrwydd" y gronfa bensiynau a "chost-effeithlonrwydd hirdymor" y Cynllun i'r graddau y mae a wnelo hynny â'r Gronfa.

Cyfraniadau Cyflogwyr

Mae'r Rheoliadau'n manylu ynghylch y cyfraniadau sy'n ofynnol gan weithwyr. Pennir cyfraniadau cyflogwyr yn unol â'r Rheoliadau sy'n gofyn bod yr actiwari'n cynnal prisiad actiwaraidd bob tair blynedd, gan gynnwys darparu tystysgrif cyfraddau ac addasiadau yn nodi cyfraddau "sylfaenol" ac "eilaid" cyfraniad y cyflogwr.

Adran 3: Egwyddorion Cyllido Allweddol

Diben Y DSG

Cyllido yn ei hanfod yw darparu o flaen llaw ar gyfer talu costau'r buddion cronedig sydd wedi'u haddo. Wrth benderfynu'r dull cyllido, felly, pennir ar ba gyfradd neu gyflymder y darperir o flaen llaw. Er bod y Rheoliadau'n nodi'r egwyddorion sylfaenol y dylid asesu cyfraniadau ariannol arnynt, cyfrifoldeb yr Awdurdod Gweinyddu yw gweithredu'r strategaeth gyllido, gan weithredu ar y cyngor proffesiynol a ddarparwyd gan yr Actiwari. Felly, diben y DSG hwn yw:

- pennu strategaeth eglur a thryloyw sy'n benodol i'r gronfa a fydd yn nodi'r dull gorau o gwrdd â rhwymedigaethau pensiwn y cyflogwyr ar sail ymagwedd ddarbodus at ariannu'r rhwymedigaethau hynny yn y tymor hwy;
- pennu'r cyfraniadau ar lefel ddigonol i "sicrhau diddyledrwydd y gronfa bensiynau" a "chyflawni cost-ffeithlonrwydd hirdymor";
- ystyried mor ddymunol yw cynnal cyfradd sylfaenol y cyfraniadau mor gyson â phosibl.

Y bwriad yw bod hon yn strategaeth gydlynus a chynhwysfawr ar gyfer y Gronfa gyfan, gan gydnabod y bydd angen cydbwysu a chysoni amcanion sy'n gwrthdaro.

Amcanion Cyllido a Buddsoddi Allweddol a Nod y Gronfa:

- Cyflawni a chynnal asedau sy'n hafal i 100% o rwymedigaethau o fewn y terfyn amser cyfartalog o ddeuddeg mlynedd, gan aros o fewn terfynau risg rhesymol.
- Pennu gofynion o ran cyfraniadau cyflogwr, gan gydnabod y cyfyngiadau ar fforddiadwyedd a chryfder cyfamod cyflogwr, gyda'r nod o gynnal gofyniad cyfraniad y cyflogwr mor rhagweladwy â phosibl
- Gan gydnabod y cyfyngiadau ar fforddiadwyedd i gyflogwyr, anelu at ddigon o fuddsoddiad dros ben o gymharu â chynnydd mewn rhwymedigaethau.
- Taro'r cydbwysedd priodol rhwng perfformiad buddsoddi cyson hirdymor a'r amcanion ariannu.
- Rheoli rhwymedigaethau cyflogwyr yn effeithiol drwy fabwysiadu amcanion ariannu penodol y cyflogwr.
- Sicrhau y gellir cwrdd â gwariant arian parod net os/pan gyfyd yr angen
- Cadw swm dyledion nad oes modd eu hadennill mor isel â phosib wrth derfynu cyfranogiad cyflogwyr.
- Sicrhau bod ei strategaeth, gweithredoedd rheoli buddsoddiadau, gweithdrefnau llywodraethu ac adrodd yn rhoi ystyriaeth lawn i risgiau tymor hirach a chynaliadwyedd.
- Sicrhau bod buddsoddiadau'r Gronfa'n cyd-fynd â'r newid i economi carbon isel drwy ymrwymiad i gyflawni targed allyriadau sero carbon deuocsid net erbyn 2045
- Hyrwyddo derbyn egwyddorion cynaliadwyedd a gweithio gydag eraill i wella effeithiolrwydd y Gronfa wrth weithredu'r rhain

- Anelu at ddefnyddio Partneriaeth Pensiwn Cymru fel y dewis cyntaf i fuddsoddi asedau'r Gronfa, yn ddibynol arni'n gallu bodloni gofynion strategaeth ac amcanion buddsoddi'r Gronfa (yn cynnwys gofynion cynaliadwyedd), o fewn costau tymor hir derbyniol i ddarparu'r buddion disgwylidiedig ac yn destun hyder parhaus wrth lywodraethu'r Bartneriaeth.

Nodau'r gronfa yw:	Diben y Gronfa yw:
• rheoli rhwymedigaethau cyflogwyr yn effeithiol a sicrhau fod digon o adnoddau ar gael i gwrdd â'r holl rhwymedigaethau pan fyddant yn ddyledus • sicrhau fod modd cadw costau cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwyr ar lefel resymol a fforddiadwy i drethdalwyr, cyrff rhestredig, cyrff dynodedig a chyrff derbyniedig yn ogystal â sicrhau diddyledrwydd a chost-effeithlonrwydd hirdymor y Gronfa, a ddylai fod yn destun asesiad yn unol â phroffil y Gronfa yn awr ac yn y dyfodol. • elwa i'r eithaf ar fuddsoddiadau o fewn terfynau risg rhesymol, gan ystyried y nodau uchod a'r dulliau rheoli risg sydd ar waith dan y Strategaeth Llwybr Hedfan.	• derbyn arian ar ffurf cyfraniadau, gwerthoedd trosglwyddo ac incwm buddsoddi, a • thalu arian ar ffurf buddion y cynllun, gwerthoedd trosglwyddo, credydau ymadael, costau, taliadau a threuliau fel y'u diffinnir yn y Rheoliadau.

Cyfrifoldebau'r Prif Gyfranogwyr

Ni ellir rheoli'r gronfa bensiynau'n effeithlon ac effeithiol ond os yw'r holl gyfranogwyr (gan gynnwys pwyllgor pensiynau, rheolwyr buddsoddi, archwilwyr ac ymgynghorwyr cyfreithiol, ymgynghorwyr buddsoddi, bwrdd pensiwn ayyb) yn cyflawni eu dyletswyddau a chyfrifoldebau statudol yn ddiwyd a chydwybodol. Mae'r prif gyfranogwyr a'u rolau at ddibenion y DSG wedi eu cynnwys isod.

Prif Gyfranogwyr y DSG

Dylai'r Awdurdod Gweinyddu:	Dylai'r Cyflogwr Unigol:
• weithredu'r gronfa bensiynau • casglu cyfraniadau cyflogwyr a gweithwyr, incwm buddsoddi a symiau eraill sy'n ddyledus i'r gronfa bensiynau fel y'u pennir yn y Rheoliadau • talu o'r gronfa bensiynau'r symiau perthnasol a hawlir yn unol â'r Rheoliadau • buddsoddi arian dros ben yn unol â'r Rheoliadau • sicrhau bod arian parod ar gael i ddiwallu'r ymrwymadau pan fyddant angen • rhoi trefniadau ar waith fel y pennir yn y Rheoliadau i ddiogelu'r Gronfa rhag canlyniadau cyflogwr yn diffygdlu • rheoli'r broses werthuso mewn ymgynghoriad ag actiwari'r Gronfa • llunio a chynnal DSG a DSF, ill dau'n seiliedig ar ymgynghori'n llawn â buddgyfranogwyr • monitro pob agwedd ar berfformiad a chyllid y Gronfa a diwygio'r DSG a'r DSF yn ôl y gofyn • rheoli unrhyw wrthdaro posibl rhwng y buddiannau sy'n deillio o'i swyddogaeth ddeuol fel gweinyddwr y Gronfa ac un o'r cyflogwyr sy'n cyfranogi o'r cynllun, a • ffurfio Bwrdd Pensiynau Lleol, ei gynnal a'i fonitro, yn unol â gofynion Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013, y Rheoliadau a Chod Ymarfer perthnasol y Corff Rheoleiddio Pensiynau.	• wrth bennu lefel cyfraniadau terfynol sy'n daladwy ym mhob prisiad o fewn paramedrau'r DSG dylai cyflogwyr sicrhau eu bod yn ystyried y cydbwysedd priodol rhwng fforddiadwyedd cyfraniad yn y tymor byr a chynaliadwyedd cyfraniadau yn yr hirdymor. Dylai cyflogwr sicrhau eu bod yn deall y risg posibl y gall cyfraniadau gynyddu os yw profiad yn waeth na'r rhagdybiaethau actiwaraid a fabwysiadwyd. Gall hyn arwain at gyflogwyr yn dewis talu cyfraniadau uwch na'r gofyniad sylfaenol o dan y DSG. • ddidynnu cyfraniadau o gyflogau gweithwyr yn gywir ar ôl pennu'r cyfraniadau priodol (yn unol â'r Rheoliadau), oni bai ei fod yn Gyflogwr Gohiriedig • talu holl gyfraniadau, gan gynnwys rhai eu hunain, yn ôl yr Actiwari, yn brydlon erbyn y dyddiad dyledus (gan gynnwys unrhyw daliadau gadael ar ôl rhoi'r gorau i gyfrannu ble bo'n briodol). • datblygu polisi ar rai mathau o ddisgresiwn ac arfer y gwahanol fathau hynny o ddisgresiwn fel y caniateir o fewn y fframwaith reoleiddio • talu cyfraniadau ychwanegol yn unol â'r trefniadau a gytunir ar gyfer, er enghraifft, cynyddu buddion y cynllun neu straen ymddeoliadau cynnar • ystyried y pwyslais y mae'r Corff Rheoleiddio Pensiynau'n ei roi ar ansawdd data, a chydymffurfio ag unrhyw ofynion y mae'r Awdurdod Gweinyddu'n eu pennu yn hynny o beth deall y bydd ansawdd y data a ddarperir ar gyfer y Gronfa yn effeithio'n uniongyrchol ar asesiad o'r rhwymedigaethau a chyfraniadau. Yn benodol, gall unrhyw ddiffygion yn y

	data arwain at y cyflogwr yn talu cyfraniadau uwch nag os byddai'r data o ansawdd uchel. • hysbysu'r Awdurdod Gweinyddu yn brydlon am unrhyw newidiadau i aelodaeth neu gyfamod ariannol i'r Gronfa, a all effeithio ar gyllid yn y dyfodol a chydymffurfio ag unrhyw ddigwyddiadau hysbysadwy penodol a nodwyd gan y Gronfa. • deall effeithiau unrhyw newidiadau i'w strwythur sefydliadol a model darparu gwasanaeth ar bensiynau. • cydymffurfio â Rheoliadau yn achos trosglwyddo swmpus staff
--	--

Dylai Actiwari'r Gronfa:	Dylai Gwarantwr:
• paratoi prisiadau, gan gynnwys pennu cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr ar lefel sy'n sicrhau diddyledrwydd y Gronfa ar ôl cytuno ar dybiaethau â'r Awdurdod Gweinyddu ac ystyried y DSG a'r Rheoliadau • darparu cyngor a chyfrifiadau ar gyfer trosglwyddiadau swmpus a materion sydd a wnelont â buddion unigolion fel costau straen pensiynau, costau ymddeoliad oherwydd afiechyd ac yn y blaen • darparu cyngor a phrisiadau wrth derfynu cytundebau derbyn • darparu cyngor i'r Awdurdod Gweinyddu ynglŷn â bondiau a mathau eraill o warant rhag effaith ariannol ar y Gronfa yn sgil diffyg daliad cyflogwr • cynorthwyo'r Awdurdod Gweinyddu wrth asesu a oes angen diwygio cyfraniadau cyflogwyr rhwng prisiadau yn unol â gofynion y Rheoliadau • darparu cyngor ynghylch y strategaeth gyllido, y drefn o lunio'r DSG, a'r gydberthynas rhwng y DSG a'r DSF, a • sicrhau bod yr Awdurdod Gweinyddu yn ymwybodol o unrhyw gyfarwyddyd	• hysbysu'r Awdurdod Gweinyddu yn brydlon am unrhyw newidiadau i'w statws gwarant, gan y gall hyn effeithio ar driniaeth y cyflogwr yn y broses brisio neu wrth derfynu. • Ble bo'r angen, darparu manylion am y cytundeb ac unrhyw newidiadau i'r cytundeb, rhwng y cyflogwr a'r gwarantwr i sicrhau bod unrhyw gyfrifiadau yn cael eu trin yn briodol. • bod yn ymwybodol o bob gwarant presennol • gweithio gyda'r Gronfa a'r cyflogwr yng nghyd-destun y gwarant • derbyn gwybodaeth berthnasol ar y cyflogwr a sefyllfa eu cyllid er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau fel gwarantwr.

proffesiynol neu ofynion proffesiynol eraill a allai fod yn berthnasol i swyddogaeth yr Actiwari wrth gynghori'r Gronfa.	
--	--

Targed Cyllido Diddyledrwydd

Mae'r rheoliadau'n mynnu y dylid sicrhau "diddyledrwydd" a "chost-effeithlonrwydd hirdymor". Er mwyn bodloni'r gofynion hyn, amcan cyllido hirdymor yr Awdurdod Gweinyddu yw bod y Gronfa'n cyflawni a chynnal asedau digonol i dalu 100% o'r rhwymedigaethau cronus a ragwelir (y "targed cyllido") ar sail asesu gwasanaeth blaenorol yn barhaus gan gynnwys lwfans ar gyfer y tâl terfynol a amcanestynnir lle bo hynny'n briodol.

Pennir cyfraniadau pob cyflogwr ar lefel ddigonol i sicrhau diddyledrwydd llwyr ac effeithlonrwydd cost hirdymor mewn cyfnod rhesymol.

Cyswllt â'r Polisi Buddsoddi a'r Datganiad Strategaeth Fuddsoddi

Wrth asesu gwerth rhwymedigaethau'r Gronfa yn y prisiad, gwnaed lwfans darbodus ar gyfer perfformio'n well nag asedau twf fel y disgrifir isod, gan ystyried y strategaeth fuddsoddi a fabwysiadwyd gan y Gronfa, fel yr amlinellir yn y DSF.

Mae dyraniad ased strategol cyffredinol wedi'i nodi yn y DSF. Mae crynodeb o'r strategaeth wedi'i gynnwys isod:

Dosbarth Asedau	Pwysau Strategol
Ecwiti Byd-eang wedi'i Ddatblygu*	15.0%
Ecwiti Marchnadoedd Newydd	5.0%
Cronfeydd mantoli	5.0%
DAT / Syniadau Gorau	11.0%
Credyd Aml-ased	12.0%
Fframwaith Rheoli Risg ac Arian Parod	23.0%
Marchnadoedd Preifat	
Eiddo	4.0%
Ecwiti Preifat	8.0%
Lleol / Effaith	6.0%
Seilwaith	8.0%
Credyd Preifat	3.0%
Cyfanswm	100.0%

*Mae'r Portffolio Ecwiti Byd-eang yn cynnwys Pwysau Strategol 15% i'r Gronfa Ecwiti Byd-eang Cynaliadwy Gweithredol.

Newid Hinsawdd

Rhan bwysig o'r dadansoddiad risg sy'n sail i'r strategaeth gyllido fydd i'r Actiwari nodi effaith risg trosglwyddo newid hinsawdd (tymor byrrach) a risgiau corfforol (tymor hwy) ar y deilliannau cyllid posibl. O ran y prisiad presennol, mae dadansoddiad o sefyllfaoedd newid hinsawdd gwahanol ar y lefel Cronfa Lawn yn berthnasol i'r sefyllfa llinell sylfaen gan gymryd bod rhagdybiaethau cyllido wedi eu hystyried ar sail amcangyfrif gorau. Bwriedir i'r amcanestyniadau ddangos yr elfennau gwahanol o risg o dan tair sefyllfa newid hinsawdd yn seiliedig ar y dyraniad strategol presennol. Ni fwriedir i'r senarios fod yn darogan beth fyddai'n gallu digwydd ac maent yn is-set bach o ystod eang iawn o sefyllfaoedd a allai godi yn dibynnu ar gamau byd-eang a gymerir mewn perthynas â newid hinsawdd. Mae'r camau a gymerwyd (yn hanesyddol ac yn y dyfodol) gan y Gronfa mewn perthynas â gwneud ei bortffolio ased yn fwy cynaliadwy wedi'i nodi yn yr adroddiadau Tasglu ar gyfer Newid Hinsawdd ar wahân a dadansoddiad o'r portffolio ased yn mabwysiadu'r un senario (neu debyg) er y gall hyn fod dros gyfnod amser gwahanol.

Mae'r dadansoddiad yn ystyried rhagamcan o'r lefelau cyllido o dan y senarios a ystyriwyd a ddyluniwyd i ddangos y risgiau trosglwyddo a chorffol dros gyfnodau gwahanol yn dibynnu ar ba gamau a gymerir yn fyd-eang ar newid hinsawdd.

Y metrics allweddol yw'r effaith perthnasol ar y lefel gyllido dros y cyfnodau amser gwahanol gan fod hyn yn dangos effaith sioc y farchnad cysylltiedig â hinsawdd ar y cynllun cyllido. Er bod y senarios hyn ond yn dri o ystod sylweddol o ddeilliannau posibl, mae'n dangos y gall newid hinsawdd gael effeithiau pell gyrhaeddol ar y Gronfa.

Mae'r Actiwari yn cynnwys dull gwell i ddeall beth sydd/ddim yn cael ei brisio i'r marchnadoedd o ran risgiau corfforol a throsglwyddo. Maent yn cynnwys rhagdybiaethau am beth sy'n cael ei brisio i farchnadoedd ar hyn o bryd ac yna prisiau pan fydd y marchnadoedd yn cyfrif am effeithiau'r dyfodol (effeithiau corfforol a throsglwyddo). Y tri senario sioc hinsawdd a ystyrir yw:

- 1. Trosglwyddo Cyflym:** mae dadfuddsoddi sydyn ar draws aml ddiogelwch yn 2025 i alinio portffolios i'r amcanion Cytundeb Paris, bydd hyn yn cael effeithiau sy'n amharu ar farchnadoedd ariannol gydag ailbrisio sydyn a ddilynir gan asedau haenog a sioc safbwynt. Mae cynnydd cyfartalog yn y tymheredd yn sefydlogi i 1.5°C o amgylch 2050. Mewn telerau perthnasol i'r sail amcangyfrif gorau ar ddyddiad prisiad, gallai hyn gael effaith andwyol ar y lefel gyllido o 10% ar ôl 5 mlynedd wrth i'r risgiau trosglwyddo mwyaf amlygu ac yna 9% ar ôl 20 mlynedd a 10% ar ôl 40 mlynedd ble mae'r risgiau corfforol yn fwy amlwg.
- 2. Pontion'n Drefnus:** sefydliadau gwleidyddol a chymdeithasol yn gweithredu'n gyflym ac yn ôl y disgwyl i weithredu argymhellion Cytundeb Paris i gyfyngu ar gynhesu byd-eang o dan 2°C. Mae'r senario hwn yn cynnwys niwed economaidd ychwanegol sy'n gyson â 1.8°C o gynnydd ar gyfartaledd yn y tymheredd - yn codi yn 2070. Mewn telerau perthnasol gallai hyn gael effaith andwyol ar y lefel gyllido o 3% ar ôl 5 mlynedd gan fod y risgiau trosglwyddo yn cael llai o effaith, a 3% ar ôl 20 mlynedd. Mae'r effaith ar ôl 40

mlynedd yn 16% sy'n uwch na'r senario Trosglwyddo Cyflym wrth i'r cynnydd yn y tymheredd uwch gael mwy o effaith.

3. **Methu Pontio:** Mae'r byd yn methu cwrdd ag amcanion Cytundeb Paris a chynhesu bydeang yn cyrraedd 4.3°C uwchlaw lefelau cyn-ddiwydiannol erbyn 2100. Mae effeithiau hinsawdd corfforol yn achosi gostyngiadau mawr mewn cynhyrchedd economaidd ac effeithiau cynyddol yn sgil tywydd eithafol. Mewn telerau cymharol, gallai hyn arwain at gynnydd ymylol yn y lefel gyllido o 2% ar ôl 5 mlynedd sy'n adlewyrchu'r effaith is o risgiau pontio (yn erbyn pris y farchnad) ac effaith hynod andwyol o 30% ar ôl 20 mlynedd a 54% ar ôl 40 mlynedd sy'n dangos canlyniadau materol y risg corfforol o'r cynnydd sylweddol yn y tymheredd wrth i amser fynd yn ei flaen.

Mae'r rhagdybiaethau actiwaraid (yn erbyn yr amcangyfrif gorau) yn cynnwys lefel darbodus sy'n caniatáu i'r risg hinsawdd a risgiau eraill i gefnogi sefydlogrwydd cyfraniad y dyfodol ac mae'r Actiwari wedi dod i'r casgliad bod y lefel ddarbodus yn ddigonol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd unrhyw effeithiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd o bosibl yn rhoi straen sylweddol ar y cynllun cyllido, yn arbennig wrth gymryd i ystyriaeth gyda ffactorau risg eraill felly mae angen ei fonitro dros amser. Bydd risgiau eraill e.e. hirhoedledd hefyd yn cael ei ystyried wrth ddadansoddi yn y dyfodol ond disgwylir iddynt gael llawer llai o effaith nag effeithiau'r farchnad ariannol. Bydd yr effaith ddisgwyliedig ar ganlyniadau ased o dan y senarios ac amserlenni gwahanol yn cael eu dangos yn fwy manwl yn yr adroddiadau TCFD blynyddol ar wahân.

Adnabod Risgiau a Dulliau Lliniaru

Mae ansicrwydd yn rhan annatod o gyllido buddion diffiniedig. Os nad yw'r profiad go iawn yr un fath â'r hyn a dybiwyd, daw gwarged neu ddiffyg i'r amlwg yn asesiad nesaf yr actiwari a bydd yn ofynnol addasu'r cyfraniadau wedi hynny fel bod y cyllid yn unol â'r targed.

Mae'r Actiwari wedi cynghori'r Awdurdod Gweinyddu mai'r risg fwyaf i'r lefel cyllido yw'r risg buddsoddi sy'n rhan annatod o'r strategaeth sy'n seiliedig yn bennaf ar ecwiti, ac felly y gall gwir berfformiad yr asedau rhwng gwahanol brisiadau fod yn dra gwahanol i'r hyn a dybiwyd yn hirdymor. Mae adroddiad prisio ffurfiol yr Actiwari'n cynnwys meintoliad o'r prif risgiau o safbwynt yr effaith ar y sefyllfa gyllido.

Ariannol	Demograffig
Mae'r risgiau ariannol fel a ganlyn: • Y marchnadoedd buddsoddi'n methu â pherfformio'n unol â'r disgwyliadau • Polisiâu rheoli a gwarchod rhag risg yn methu â pherfformio'n unol â'r disgwyliadau • Rhagolygon y farchnad yn mynd yn wahanol i'r tybiaethau • Rheolwr Cronfeydd Buddsoddi'n methu â chyflawni'r targedau perfformiad yn y tymor hwy	Y rhain yw'r risgiau demograffig: • Disgwyliad oes (hirhoedledd) yn newid yn y dyfodol mewn ffordd na ellir ei ragweld yn bendant. Mae hybu hirhoedledd yn un o'r nodau wrth lunio polisiâu llywodraeth genedlaethol a lleol. Golyga hynny, fodd bynnag, fod rhwymedigaethau cronfeydd pensiynau yn fwy. • Straen posib am fod nifer y bobl sy'n ymddeol oherwydd afiechyd yn fwy na'r

• Ail-ddyrannu asedau mewn marchnadoedd ansefydlog efallai'n rhwymo'r Gronfa i golledion blaenorol • Chwyddiant cyflogau a phrisiau'n sylweddol fwy neu lai na'r hyn a ragwelwyd • Tanberfformiad yn y dyfodol yn deillio o gyfranogi o'r gronfa asedau ehangach felly yn cyfyngu ar benderfyniadau buddsoddi • Cyfraniadau'r cyflogwyr yn anfforddiadwy a/neu'n ansefydlog • Amcanion buddsoddi a/neu gyllido nid mwyach yn addas at y diben • Dim digon o asedau i dalu'r buddion • Colli incwm cyflogwyr a/neu bod cyflogwyr eraill yn dod yn rhwym i dalu eu diffygion • Unrhyw gyflogwr yn dod i derfyn heb rybudd o flaen llaw, gan greu'r gofyn i'r Gronfa dalu credyd ymadael swmpus sy'n effeithio ar y gofynion llif arian. Gallai unrhyw gynnydd yng nghyfraddau cyfraniadau cyflogwr (o ganlyniad i'r risgiau hyn) gael effaith yn ei dro ar ddarpariaeth gwasanaethau'r cyflogwr dan sylw a'i sefyllfa ariannol. Ychydig iawn y gellir ei wneud i leihau'r risgiau hyn mewn gwirionedd. Adolygir dyraniad asedau'r Gronfa yn gyson, fodd bynnag, a chaiff perfformiad y rheolwyr buddsoddiadau ei fonitro'n rheolaidd. Yn ogystal, bydd y fframwaith rheoli risg llwybr hedfan yn helpu i leihau'r risgiau ariannol allweddol dros amser.	hyn y lwfiwyd ar ei gyfer yn y tybiaethau prisio i'r cyflogwyr • Patrwm dirywiol o bobl yn ymddeol yn gynnar (gan gynnwys y rhai hynny a gaiff ganiatâd oherwydd afiechyd) • Aeddfeddiad y Gronfa'n cyflymu'n annisgwyl (e.e. oherwydd toriadau pellach yn y gweithlu a/neu gyfyngiadau ar weithwyr newydd yn cael mynediad i'r Gronfa) gan greu llifau arian negyddol i bob pwrpas, a byrhau cyfnodau rhwymedigaethau. Nid yw ymddeoliadau cynnar oherwydd diswyddo neu ailstrwythuro'n effeithio ar ddiddyledrwydd y Gronfa gan na chodir tâl uniongyrchol ar eu cyfer.
---	--

Llywodraethu	Rheoleiddio
Y rhain yw'r risgiau llywodraethu: • Ansawdd data aelodaeth yn dirywio'n sylweddol oherwydd methiant y gweithdrefnau ar gyfer diweddaru'r wybodaeth, gan olygu fod rhwymedigaethau'n ymddangos yn fwy neu'n llai nag ydynt mewn gwirionedd	Y rhain yw'r prif risgiau rheoleiddio: • Newidiadau yn y Rheoliadau, fel newid y pecyn buddion, er enghraifft, yr oedran ymddeol neu ddarpar aelodau newydd yn y cynllun

• Newid strwythurol mewn aelodaeth cyflogwr yn ddarwybod i'r Awdurdod Gweinyddu (er enghraifft, gostyngiad mawr yn nifer y gweithwyr, nifer fawr o ymddeoliadau) sy'n golygu fod cyfraddau'r cyfraniadau wedi'u pennu'n rhy isel • Cyflogwr yn gwrthod aelodau newydd heb hysbysu'r Awdurdod Gweinyddu, a fyddai fel arfer yn cynyddu'r cyfraddau pe byddai'n gwybod hynny • Cyflogwr yn peidio â bodoli gyda chyllid annigonol neu fond digonol. • Unrhyw gyflogwr yn dod i derfyn heb rybudd o flaen llaw, gan greu'r gofyn i'r Gronfa dalu credyd ymadael swmpus sy'n effeithio ar y gofynion llif arian • Newidiadau yn aelodaeth y Pwyllgor. Wrth geisio lleihau'r risgiau hyn mae llawer yn dibynnu ar y wybodaeth y mae'r cyrff cyflogi'n ei darparu i'r Awdurdod Gweinyddu. Caiff trefniadau eu rheoli a'u monitro'n dynn (drwy ddefnyddio iConnect i drosglwyddo data gan gyflogwyr, er enghraifft), ond yn y rhan helaeth o achosion y cyflogwr, yn hytrach na'r Gronfa'n gyffredinol, sy'n ysgwyddo'r risg. Ceir holl fanylion y risgiau a'r dulliau sydd ar waith i'w rheoli yng nghofrestr risg y Gronfa.	• Newidiadau yn y gofynion pensiwn cenedlaethol a/neu'r Rheolau Cyllid a Thollau. Mae holl staff llywodraeth leol â'r hawl i ymaelodi yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a dylid hyrwyddo'r hawl hwnnw fel rhan werthfawr o'r contract cyflogaeth. Wrth i fwy o bobl ymaelodi, fodd bynnag, mae'r costau ariannol i'r cyflogwr yn cynyddu.
--	--

Monitro ac Adolygu

Adolygir y Datganiad hwn yn llawn bob tair blynedd ar yr un pryd ag y cwblheir prisiad actiwaraid statudol, a phob tro y cynhelir adolygiad o gyfraddau cyflogwyr neu brisiad yn dros dro. Eir ati bob blwyddyn, fodd bynnag, i adolygu'r Datganiad yn llwyr neu'n rhannol er mwyn sicrhau fod yr holl baramedrau perthnasol yn dal yn addas at y diben, gan ystyried cyflwr yr economi ar y pryd, newidiadau mewn tueddiadau demograffig ac unrhyw newid mewn deddfwriaeth.

Fframwaith Rheoli Risg Llwybr Hedfan: Strategaeth sy'n Dileu Risg

O 1 Ebrill 2014, mae Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa wedi gweithredu Fframwaith Rheoli Arian a Risg ("CRMF") at ddiben rheoli amrywiol agweddau o risgiau ariannol y Gronfa. Mae'r CRMF yn cynnwys pedair elfen allweddol: Buddsoddi wedi'i Gymhell gan Atebolrwydd ("LDI"), Ecwiti Synthetig gyda Diogelwch, Mantoli Arian Cyfred, rheoli gwarantau cyfochrog.

Mae'r elfennau hyn yn helpu'r Gronfa i liniaru atebolrwydd, ecwiti a risg arian mewn dull sy'n effeithlon o ran cyfalaf.

Mae'r elfen LDI o'r CRMF yn helpu i reoli a chyfyngu ar risgiau chwyddiant a chyfraddau llog yn effeithiol gan y gall y ffactorau hyn arwain at newidiadau sylweddol i werthoedd atebolrwydd. Ar ddyddiad y prisiad, roedd lefel mantoli o fewn yr asedau oeddeutu 26% mewn perthynas â chyfraddau llog, a 42% mewn perthynas â chwyddiant, sy'n golygu i'r graddau mae'r atebolrwydd yn amrywio oherwydd y ffactorau hyn, bydd yr asedau yn neilltuo symudiadau gan y gyfran hon. Roedd lefel mantoli cyfradd llog wedi cynyddu oddeutu 50% ar 30 Medi 2022 a chafodd sbardunau newydd eu gweithredu i adlewyrchu'r gyfradd llog uwch ac amgylchedd arenillion y farchnad.

Y bwriad yw i'r Gronfa gynyddu cysylltiad yn yr hirdymor i gyflawni 80% o gyfran i gyfraddau llog a chwyddiant wrth i arenillion fod yn fwy deniadol drwy fframwaith sbardunau sy'n seiliedig ar gynnyrch y farchnad.

Cafodd y strwythur strategaeth llwybr hedfan cyllid cyffredinol ei adolygu fel rhan o'r adolygiad blynyddol o CRMF yn ogystal ag effaith ar y newidiadau diweddar mewn cyfraddau llog a rhagolygon chwyddiant. Mae crynodeb o'r sbardunau arenillion gwirioneddol diweddaraf uwchlaw CPI o fis Rhagfyr 2022 wedi'i ddangos isod (wedi'i rannu gan barhad atebolrwydd). Yn ymarferol, defnyddir pwyntiau sbardun ar wahân ar gyfer cyfraddau llog a chwyddiant.

Sbardun	Targed (% o asedau)	Arenillion gwirioneddol dros CPI (p.a.)			
		15mlynedd	20mlynedd	30mlynedd	40mlynedd
1	30%	1.25%	1.25%	1.25%	1.25%
2	40%	1.60%	1.60%	1.60%	1.60%
3	50%	1.95%	1.95%	1.95%	1.95%
4	60%	2.30%	2.30%	2.30%	2.30%
5	70%	2.65%	2.65%	2.65%	2.65%
6	80%	3.00%	3.00%	3.00%	3.00%

Fframwaith Rheoli Risg: Monitro/Adolygu Sbardun

Darperir adroddiad cryno i'r Gronfa (bob mis a phob tri mis) sy'n cynnwys dadansoddiad 'goleuadau traffig' o brif elfennau'r CRMF. Mae lliw pob 'golau traffig' yn dangos a yw'r Llwybr Hedfan a'r cyfarwyddyd ar gyfer gwarchod asedau'n gweithredu'n unol â'r disgwyliadau ynteu a oes angen gweithredu.

Yn benodol, cyflwynwyd gweithdrefn ar wahân ar gyfer y Gronfa gyfan sy'n golygu os bydd lefel y cyllido yn gostwng mwy na 5% yn is na'r lefel cyllido "disgwyliedig" (ar sail rhagdybiaethau prisio), bydd y Panel Ymgynghorol yn cwrdd i drafod a yw'r strategaeth gyllido yn dal yn briodol. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cytuno i fabwysiadu sbardun lefel cyllid newydd o 110% yn gyson ar sail y cyllid prisiad, i gymell trafodaethau pellach ynglŷn â

chamau gweithredu posibl. Bydd hyn yn cael ei adolygu fel rhan o broses prisiad actiwaraid ac adolygu'r strategaeth fuddsoddi.

Mae strategaeth Diogelu Ecwiti Dynamig wedi bod ar waith ar gyfer y Gronfa ers 2018. Gwnaed hynny wedi i Grŵp Cyllid a Rheoli Risg y Gronfa gynnal dadansoddiad trylwyr ac ystyried gwerth am arian. Mae'r strategaeth yn diogelu yn erbyn gostyngiadau o fwy na 10% o sefyllfa'r farchnad ar gyfartaledd dros 12 mis ar oddeutu £400miliwn o ddatgeliad ecwiti o fewn y CRMF. Mae cost diogelu yn cael ei wrthbwysu gan gyfranogiad y Gronfa mewn colledion eto y tu hwnt i ostyngiad o 30% o lefelau'r farchnad ar gyfartaledd dros yr un cyfnod o 12 mis yn ogystal ag ildio rhywfaint o enillion posibl bob pythefnos. Er bod y strategaeth ddynamig yn fwy cymhleth i'w sefydlu na'r strategaeth sefydlog flaenorol, mae iddi fanteision fel a ganlyn:

1. Gwell gwarchodaeth rhag risgiau mewn marchnadoedd sy'n tueddu ar i fyny;
2. Disgwyliad o well enillion yn hirdymor wedi'u haddasu yn ôl risg (ar ôl ffioedd a chostau trafodion) heblaw am sefyllfaoedd eithafol; a
3. Gwell hyblygrwydd a llywodraethu cyson gan fod modd i'r strwythur addasu'n rhwydd wrth i'r gofynion newid, gan gynnwys dod â'r warchodaeth i ben.

Oherwydd goblygiadau gweithredu'r strategaeth hon yn ddyddiol, cytunwyd y byddai banc cyd-barti'n gwneud hynny, yn hytrach na rheolwr buddsoddi. Aeth Mercer drwy'r drefn o ddethol y banc cyd-barti gorau a chytunwyd y byddai JP Morgan yn gweithredu'r strategaeth drwy'r cyfrwng buddsoddi presennol, Insight Investment Management.

Mae'r Gronfa wedi gweithredu polisi gwarchod arian cyfred er mwyn sicrhau enillion ar sail dibrisiad sterling a lleihau'r risg o'r bunt yn cryfhau'n sylweddol. Gwarchodir 75% o'r holl asedau arian cyfred yn y portffolio ecwiti cyffredinol.

Manylir ymhellach ynglŷn â'r pwyntiau sbardun o safbwynt y lefel cyllido, gwarchodaeth yn y farchnad ecwitiâu a gwarchodaeth arian cyfred yn adroddiad perthnasol y Pwyllgor.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n monitro cynnydd y strategaeth gyllido rhwng pob prisiad actiwaraid llawn fel rhan o waith monitro'r Llwybr Hedfan fel y nodir uchod a'r adolygiadau cyllid rheolaidd. Os credir fod hynny'n briodol, adolygir y strategaeth gyllido a'r llwybr hedfan (ac eithrio'r drefn brisio bob tair blynedd), er enghraifft:

- os bu newid sylweddol yng nghyflwr y farchnad, a/neu wyriad yng nghynnydd y strategaeth gyllido
- os bu newidiadau sylweddol yn aelodaeth Cronfa Bensiynau Clwyd, neu fuddion y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- os bu newidiadau yn amgylchiadau unrhyw rai o'r awdurdodau cyflogi i'r fath raddau fel bod hynny'n effeithio ar y strategaeth gyllido neu'n creu'r gofyn i'w newid, fel cau'r cynllun i aelodau newydd, er enghraifft
- os talwyd unrhyw gyfraniadau arbennig swmpus i'r Gronfa
- os bu newidiadau perthnasol yn yr ISS
- os bu newid mewn Rheoliadau neu Ganllawiau sy'n effeithio ar bolisiau o fewn y strategaeth gyllido.

Prif egwyddor y technegau rheoli risg hyn yw rhoi mwy o sicrwydd o'r gwir arenillion buddsoddi o gymharu â chwyddiant CPI a/neu ddiogelu yn erbyn anwadalrwydd yn y sefyllfa ynghylch terfynu. Mewn geiriau eraill, maent wedi eu dylunio i leihau risg a darparu mwy o sefydlogrwydd/sicrwydd am ganlyniad cyllid ac yn y pen draw cyfraddau cyfraniad cyflogwr. Mae effaith y technegau hyn wedi'i ganiatau yn y cyfrifiadau prisiad actiwaraid a gallai gynnwys goblygiadau ar brisiadau actiwaraid yn y dyfodol a'r rhagdybiaethau sy'n cael eu mabwysiadu. Mae manylion pellach y fframwaith yn Natganiad y Strategaeth Fuddsoddi.

Wrth fonitro'r sefyllfa gyllido, os yw'r Awdurdod Gweinyddu o'r farn bod angen gweithredu mewn unrhyw ffordd, bydd yn cysylltu â'r awdurdodau cyflogi i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf a manylion unrhyw gamau adferol erbyn y prisiad nesaf, neu'n gynt os yw hynny'n briodol.

Rheoli Arian a Hylifedd

Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn monitro'r sefyllfa yn rheolaidd o ran gofynion llif arian y Gronfa i sicrhau y gellir talu buddion yn effeithiol a hefyd i ystyried yr effaith ar strategaeth fuddsoddi e.e. o ran rheoli cyfochrog. Mae'r dull monitro a llywodraethu wedi'i nodi yn y polisi llif arian a rheoli risg.

Adran 4: Ymwadiad

Mae'r wybodaeth ynghlwm yn y datganiad hwn a'r polisiâu cysylltiedig yn cynnwys effaith ariannol a gweithredol ar holl gyflogwyr sy'n cyfrannu at Gronfa Pensiynau Clwyd. Mae'n hanfodol bod holl gyflogwyr presennol a phosibl yn ymwybodol o'r manylion a nodir yma.

Mae geirfa o'r termau allweddol a ddefnyddir ar gael ar ddiwedd y ddogfen hon.

Lluniwyd y Datganiad Strategaeth Gyllido hwn gan Gyngor Sir y Fflint (yr Awdurdod Gweinyddu) i bennu'r strategaeth gyllido ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd ("y Gronfa"), yn unol â Rheoliad 58 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'u diwygiwyd) a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).

Atodiad A: Dull Actiwaraid a Thybiaethau

[Dychwelyd i Adran 1](#)

Crynodeb o ragdybiaethau allweddol y Gronfa gyfan a ddefnyddir i gyfrifo targed cyllido a chost croniadau yn y dyfodol ar gyfer prisiad actiwaraid 2022.

Tybiaethau ariannol		
	Tybiaeth prisiad 2022	Disgrifiad
Elw ar fuddsoddiadau/Cyfradd Ostyngol	Sail cyllid parhaus: 4.60% p.a. (gwasanaeth blaenorol) a 5.10% p.a. (gwasanaeth y dyfodol)	Dod o'r enillion disgwylidig ar asedau'r Gronfa yn seiliedig ar y strategaeth hirdymor a nodir yn yr ISS, gan gynnwys lwfansau priodol a darbodus. Ar gyfer prisiad 2022, mae hyn yn seiliedig ar elw tybiedig o 1.5% y flwyddyn uwchlaw chwyddiant CPI (gwasanaeth y gorffennol) a 2.0% y flwyddyn uwchlaw chwyddiant CPI (gwasanaeth y dyfodol). Adolygir y gwir elw dan sylw o bryd i'w gilydd ar sail y strategaeth fuddsoddi, rhagolygon y farchnad a metrigau risg cyffredinol y Gronfa.
	Terfynu ar sail risg leiaf: 1.7% y flwyddyn	Dod o'r arenillion ar giltiau confensiynol Llywodraeth y DU. Adolygir y tybiaethau hyn yn gyson ar sail newidiadau yng nghyflwr y farchnad ar ddyddiad y daw'r corff cyflogi perthnasol i ben, ynghyd ag unrhyw newidiadau strwythurol neu ddeddfwriaethol eraill.
Chwyddiant (Mynegai Prisiau Defnyddwyr)	3.10% y flwyddyn	Mae chwyddiant RPI yn gostwng i adlewyrchu'r gwahaniaeth hirdymor disgwylidig rhwng mesurau RPI a CPI o chwyddiant (yn adlewyrchu proffil a pharhad atebolrwydd y Gronfa gyfan a diwygiad RPI 2030) a'i addasu i ddileu unrhyw afluniad cyflenwi/galw yn ogystal â rhagolygon Banc Lloegr. Roedd cyfanswm yr addasiad yn ostyngiad o 0.8% o'r farchnad yn awgrymu disgwyliadau RPI ar y dyddiad prisiad.
Codiadau cyflog (tymor hir)	4.35% y flwyddyn	Buddion cyn 1 Ebrill 2014 (a 2014 i 2022 sail McCloud) - bydd y rhagdybiaeth ar gyfer codiadau cyflog real (codiadau cyflog sy'n uwch na chwyddiant prisiau) yn cael ei bennu gan lwfans o 1.25% y flwyddyn dros y rhagdybiaeth chwyddiant fel y disgrifir uchod. Mae hynny'n rhoi lle i gynyddu cyflogau oherwydd dyrchafiadau.

Codiadau cyflog (tymor byr)	Ble bo'n briodol, mae hyn 3% neu 4% y flwyddyn tan 31 Mawrth 2026. Fel y nodir ar amserlen canlyniadau cyflogwr unigol.	Mae lwfans wedi'i wneud ar gyfer cyfyngiad ar dâl tymor byr ar gyfer rhai cyflogwyr. Bydd y prisiad actiwaraid nesa yn datgelu i ba raddau y mae'r profiad yn wahanol i'r hyn a ragdybiwyd.
Codiadau pensiwn ac ailbriso gohiriedig	Tybir yn unol â'r dybiaeth chwyddiant CPI uchod (gan nodi na all codiadau pensiwn fod yn negyddol gan na ellir gostwng pensiynau). Yn y prisiad 2022, mae addasiad wedi'i wneud i'r rhwymedigaethau i ganiatau ar gyfer y chwyddiant hysbys ar gyfer y cyfnod 30 Medi 2021 i 31 Mawrth 2022, a ble bo'n faterol, bydd lwfans yn caniatáu i gael ei wneud ar gyfer chwyddiant pan fo'n codi wrth asesu sefyllfaoedd cyllid rhwng prisiadau.	
Mynegeio buddion ECGA	Tybir ei fod yn cyd-fynd â'r rhagdybiaeth chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr uchod. Ar gyfer aelodau mewn cyflogaeth pensiynadwy, mae mynegeio buddion ECGA yn gallu bod yn llai na dim (e.e. gostyngiad mewn buddion).	
McCloud	Mae amcangyfrif rhesymol ar gyfer cost posibl McCloud wedi'i gynnwys o fewn canlyniadau priso 2022 ar gyfer pob cyflogwr. Mae hyn wedi'i gyfrif yn seiliedig ar y data a ddarperir ar gyfer prisiad 2022.	

Tybiaethau Demograffig

Marwolaeth / Disgwyliad Oes

Cyfrifir y dybiaeth ynghylch marwolaeth mewn dogfen ar wahân a ddarperir gan yr Actiwari. Wrth lunio rhagdybiaethau ymddeol bydd yr elfen farwolaeth yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â chynlluniau pensiwn a hunan-weinyddir a gyhoeddir gan yr Ymchwiliad Marwolaeth Parhaus (CMI), gan lwfio rhag gwelliannau mewn hyd oes yn y dyfodol a phrofiad y cynllun. Hefyd, mabwysiadwyd tybiaeth benodol ynglŷn â marwolaeth ar gyfer aelodau presennol sy'n ymddeol oherwydd afiechyd.

Ar gyfer yr holl aelodau, tybir y bydd y cynnydd cyflym mewn hirhoedledd a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf (nodwyd y dystiolaeth yn nadansoddiad CMI 2018) yn parhau yn y tymor hwy ac felly mae'r rhagdybiaethau'n dod yn seiliedig ar 'welliant' hirhoedledd yn y dyfodol yn unol ag amcanestyniadau'r Ymchwiliad Marwolaeth Parhaus, gyda thuedd o welliannau hirdymor o 1.75% y flwyddyn.

Fel dangosydd effaith, rydym wedi nodi disgwyliadau oes yn 65 oed yn seiliedig ar ragdybiaethau 2019 a 2022:

	Disgwyliad Oes Dyn 65 oed		Disgwyliad Oes Dyn 65 oed	
	2019	2022	2019	2022
Pensiynwyr	22.4	21.5	24.8	23.9
Gweithredol ac yn 45 oed rŵan	24.0	23.3	26.8	26.0
Gohiriedig ac yn 45 oed rŵan	22.6	22.8	25.6	25.6

Er enghraifft, disgwylir i bensiynwr gwrywaidd, sy'n 65 oed ar hyn o bryd i fyw hyd nes mae'n 86.5 oed. Tra byddai disgwyl i aelod gweithredol gwrywaidd 45 oed fyw hyd at 88.3 oed. Mae'r gwahaniaeth yn adlewyrchu'r cynnydd disgwyliedig mewn disgwyliad oes dros yr 20 mlynedd nesaf yn y tybiaethau uchod.

Adolygwyd marwolaeth cyn ymddeol hefyd, yn seiliedig ar y profiadau gydol y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Tybiaethau Ynghylch Disgwyliad Oes

Defnyddiwyd y tablau isod ar gyfer marwolaethau wedi ymddeol yn y prisiad hwn:

Statws Cyfredol	Math o Ymddeoliad	Tabl Marwolaethau
Pensiynwr	Iechyd Arferol	114% S3PMA_CMI_2021 [1.75%] 105% S3PFA_M_CMI_2021 [1.75%]
	Dibynnydd	136% S3PMA_CMI_2021 [1.75%] 119% S3DFA_CMI_2021 [1.75%]
	Afiechyd	143% S3IMA_CMI_2021 [1.75%] 170% S3IFA_CMI_2021 [1.75%]
Gweithredol	Iechyd Arferol	117% S3PMA_CMI_2021 [1.75%] 105% S3PFA_M_CMI_2021 [1.75%]
	Afiechyd	256% S3IMA_CMI_2021 [1.75%] 342% S3IFA_CMI_2021 [1.75%]
Gohiriedig	Pawb	125% S3PMA_CMI_2021 [1.75%] 111% S3PFA_M_CMI_2021 [1.75%]
Dibynnydd yn y Dyfodol	Dibynnydd	134% S3PMA_CMI_2021 [1.75%] 121% S3DFA_CMI_2021 [1.75%]

* Mae'r tybiaethau disgwyliad oes yn defnyddio paramedr llyfnhau 7.5 ac ni chaniateir ar gyfer unrhyw welliannau tymor byr.

Tybiaethau Demograffeg Eraill	
Cymudo	Tybiwyd y bydd holl aelodau sy'n ymddeol yn cymryd 75% o'r uchafswm o arian di-dreth sydd ar gael wrth ymddeol. Mae gan aelodau ddewis i gymudo rhan o'u pensiwn yn gyfnewid am gyfandaliad ar gyfradd o £12 mewn arian parod am bob £1 y flwyddyn o'r pensiwn a gaiff ei ildio.
Tybiaeth cyfran priod / partneriaethau sifil	Mae hyn wedi'i adolygu a'i ddiweddarau yn seiliedig ar brofiad eang Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
Materion Demograffig eraill	Ar sail dadansoddiad yr Actiwari o brofiad y Gronfa, mae nifer yr ymddeoliadau oherwydd afiechyd, y cyfraddau tynnu pensiwn yn parhau yn unol â'r dybiaeth ynghylch y prisiad diwethaf. Yn ogystal â hynny, ni wneir lwfans ar gyfer pobl yn dewis y cynllun 50:50 yn y dyfodol. Os oes unrhyw aelod wedi dewis y cynllun 50:50 gwneir lwfans am hynny wrth asesu'r gyfradd am y tair blynedd nesaf.
Treuliau	Telir treuliau o'r Gronfa yn unol â'r Rheoliadau. Darperir ar gyfer hynny drwy ychwanegu 0.8% o'r tâl pensiynadwy at y cyfraniadau sy'n ofynnol gan y cyflogwyr. Ail-asesir yr ychwanegiad hwn ar bob prisiad ac fe'i cyfrifir drwy amcangyfrif lefel y treuliau ar gyfer y Gronfa o 1 Ebrill 2023 hyd 31 Mawrth 2026. Lwfiwyd yn benodol ar gyfer treuliau buddsoddi wrth bennu'r cyfraddau gostyngol. Yn ogystal, bydd unrhyw dreuliau sy'n briodol yn uniongyrchol i gyflogwyr penodol drwy'r tîm Cyswllt Cyflogwr, yn cael ei gynnwys yn yr asesiad o lwfans treuliau'r cyflogwr hwnnw o'r prisiad actiwaraid 2022. Bydd lwfans ar gyfer treuliau rhesymol hefyd yn cael ei gynnwys ar ôl terfynu cyfranogiad cyflogwr yn y Gronfa a chaiff ei ystyried fel rhan o'r prisiad terfynu.
Buddion Dewisol	Bydd costau a gyfyd yn sgil unrhyw ddewis gan gyflogwr i wella buddion aelodau drwy'r Gronfa yn destun cyfraniadau ychwanegol gan y cyflogwr dan sylw fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau. O ganlyniad, nid oes unrhyw lwfans ar gyfer buddion dewisol o'r fath wedi'i wneud yn y prisiad.

Mae adroddiad ffurfiol yr actiwari'n nodi manylion pellach ar y tybiaethau demograffig.

Dull

Y dull actiwaraid a ddefnyddir wrth gyfrifo'r targed cyllido diddyledrwydd yw'r dull Rhagamcanu Unedau, sy'n golygu y caiff y codiadau cyflog a ragdybiwyd ar gyfer pob aelod eu rhagamcanu nes y tybir fod yr aelod dan sylw'n ymadael â'r gwaith pan fyddant farw, yn ymddeol neu'n ymddiswyddo. Mae'r dull hwn yn ei hanfod yn golygu bod modd derbyn aelodau newydd i'r cynllun ar y sail y bydd proffil oedran aelodaeth weithredol yn dal yn sefydlog. Felly, i'r cyflogwyr hynny nad ydynt yn derbyn aelodau newydd, mabwysiadir dull arall sy'n lwfio o flaen llaw ar gyfer heneiddio a dirywiad yn y grŵp aelodaeth gaeedig

bresennol dros gyfnod y dystysgrif cyfraddau ac addasiadau. Mae'n bosibl y gall cyflogwyr sy'n symud o agor i gau weld cynnydd mewn cyfraniadau o ganlyniad i'r newid hwn.

Mae'r rhagdybiaethau sydd i'w defnyddio wrth gyfrifo'r targed ariannu wedi'u nodi uchod. Yn sail i'r rhagdybiaethau hyn mae'r ddau daliad canlynol:

- bod disgwyl i'r Gronfa barhau hyd y gellir rhagweld, a
- bod perfformiad buddsoddi ffafriol yn gallu chwarae rhan werthfawr wrth sicrhau cyllid digonol yn y tymor hwy.

Fel hyn gall y Gronfa ystyried y tymor hwy wrth asesu'r cyfraniadau sy'n ofynnol gan gyflogwyr penodol.

Bydd yna gynllun cyllido ar gyfer pob cyflogwr. Wrth bennu'r gofynion cyfrannu, bydd yr Awdurdod Gweinyddu, yn seiliedig ar gyngor yr Actiwari, yn ystyried pa un a yw'r cynllun cyllido a fabwysiadwyd ar gyfer cyflogwr yn rhesymol debygol o fod yn llwyddiannus o ystyried amgylchiadau penodol y cyflogwr hwnnw (o bosibl yn cymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau perthnasol yn dilyn y dyddiad prisio hyd at 31 Mawrth 2023).

Wrth gynnal pob prisiad bydd Actiwari'r Gronfa'n asesu cyfraddau cyfraniadau pob cyflogwr neu grŵp o gyflogwyr ar wahân. Asesir y cyfraddau hyn gan ystyried profiadau ac amgylchiadau pob cyflogwr, ar sail yr egwyddor o beidio â chael unrhyw groes-gymhorthdal rhwng gwahanol gyflogwyr yn y Gronfa.

Dulliadau a Rhagdybiaethau a Ddefnyddiwyd Wrth Gyfrifo Costau Croniad yn y Dyfodol (neu'r Gyfradd Sylfaenol)

Cyfrifir rhwymedigaethau gwasanaeth yn y dyfodol ar sail yr un rhagdybiaethau â'r targed cyllido, ac eithrio'r dybiaeth ariannol wahanol a ddefnyddir ar gyfer y gyfradd ostyngol. Un peth hollbwysig yma yw bod y Rheoliadau'n nodi mor ddymunol yw cadw'r "Cyfradd Sylfaenol" (sef y gyfradd ar gyfer gwasanaeth yn y dyfodol) mor sefydlog ag y bo modd, ac felly mae angen ystyried hyn wrth bennu'r rhagdybiaethau.

Gan y telir cyfraniadau gwasanaeth yn y dyfodol ar gyfer buddion a gronnir yn y dyfodol, wrth bennu'r Gyfradd Sylfaenol dylid ystyried cyflwr y farchnad yn y dyfodol, ac nid ar ddyddiad y prisiad yn unig. Yn ogystal, mae'r buddion cysylltiol sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu talu allan dros derfyn y gorwel hwy na buddion a gronnwyd eisoes; felly gellir cyfiawnhau defnyddio enillion disgwylidig ychydig yn uwch o'r strategaeth fuddsoddi.

Cyfrannu Asedau Cyflogwr

Mae'r Gronfa'n gynllun pensiwn aml-gyflogwr nad yw'n unedol yn ffurfiol ac felly cyfrifir cyfrannau asedau cyflogwyr unigol ymhob prisiad actiwaraid. Golyga hynny fod angen gwneud rhai bras amcanion ynghylch amseriad llif arian a dyrannu enillion ar fuddsoddiadau (yn unol â'r strategaeth fuddsoddi briodol) wrth gyfrifo gan yr Actiwari yn seiliedig ar wybodaeth ariannol berthnasol, sy'n dod o gyfran asedau'r cyflogwr.

Defnyddir dull pro rata wrth briodoli perfformiad buddsoddi asedau'r Gronfa yn gyffredinol i bob cyflogwr unigol. Mae'r dull hwn i bob pwrpas yn golygu gweithredu strategaeth fuddsoddi dybiannol ar gyfer y cyflogwr unigol sy'n union yr un fath â'r un a fabwysiadwyd ar gyfer y Cynllun yn gyffredinol, oni bai fod y cyflogwr a'r Gronfa yn cytuno fel arall gyda chymeradwyaeth yr Awdurdod Gweinyddu.

Ymhob adolygiad gwneir lwfans ar gyfer llifau arian i mewn ac allan o'r Gronfa ar gyfer pob cyflogwr, unrhyw symud aelodau rhwng cyflogwyr yn y Gronfa ac unrhyw elw buddsoddi a enillir ar sail y gyfran asedau, fel sy'n digwydd wrth gyfrifo cyfrannau asedau ymhob prisiad. Yn ogystal â hynny, gellid ailddatgan cyfran yr asedau ar sail newid mewn data neu bolisiau eraill.

Gwneir addasiadau eraill hefyd ar sail sefyllfaoedd cyllido cyrff heb eu priodoli y mae'n rhaid i'r holl gyflogwyr gweithredol eraill yn y Gronfa eu diwallu.

Mae'r polisi ar y dull asesu cyfran asedau'r cyflogwr ar gael ar gais.

[Dychwelyd i Adran 1](#)

Atodiad B: Cynlluniau Adfer Diffyg a Neilltuo Gwarged

Dychwelyd i Adran 1

Os yw lefel cyllido cyflogwr yn fwy neu'n llai na 100% ar y dyddiad prisio (hynny yw, bod asedau'r cyflogwr hwnnw yn fwy neu'n llai na'r rhwymedigaethau), bydd angen gweithredu cynllun addasu fel y gellir cyfrifo'r cyfraniadau eilaidd i bob cyflogwr. Mae'r cynllun addasu hwn angen cyfnod ar gyfer adennill y diffyg neu wario unrhyw warged e.e. y cyfnod adennill.

Mae'n un o brif amcanion y Gronfa y bydd cyflogwr yn targedu 100% o gyllid (e.e. diddyledrwydd llawn) dros gyfnod y cytunir i gynnal cynaliadwyedd cyfraniadau yn y tymor hwy yn amodol ar fforddiadwyedd y cyflogwyr sy'n cyfrannu o ystyried pwysau costau cystadleuol eraill, yn dibynnu ar farn yr Awdurdod Gweinyddu o gyfamod y cyflogwr a'r risg i'r Gronfa. Yn seiliedig ar gyngor yr Actiwari, mae rhagdybiaethau a pharamedrau'r DSG wedi eu pennu i geisio cyflawni hyn, ond nid oes unrhyw sicrwydd y bydd cyfraniadau yn parhau'n gynaliadwy mewn prisiau yn y dyfodol. Felly, mae cyflogwyr angen ystyried y cydbwysedd rhwng fforddiadwyedd cyfraniadau yn y tymor byr a chynaliadwyedd cyfraniadau yn yr hirdymor (mewn prisiau actiwaraid dilynol) yng nghyd-destun eu cyllidebau nawr ac yn y dyfodol wrth bennu lefel cyfraniadau. Gallai hyn arwain at gyflogwr yn penderfynu talu mwy na'r isafswm cyfraniadau a benderfynwyd o dan y DSG a fyddai'n cefnogi cynaliadwyedd/sefydlogrwydd cyfraniadau yn y dyfodol mewn prisiau yn y dyfodol.

Cynlluniau Addasu Cyfraniad Cyflogwr: Egwyddorion Allweddol

Y cyfnod adennill cyfartalog ar gyfer y Gronfa gyffredinol yw 12 mlynedd yn y prisiad hwn, sydd blwyddyn yn fyrrach na'r cyfnod adennill cyfartalog o'r prisiad blaenorol. Yn dibynnu ar fforddiadwyedd ac ystyriaethau eraill, disgwylir i gyfnodau adennill cyflogwyr unigol ostwng yn y prisiad hwn hefyd.

Bydd y Gronfa'n pennu cyfnodau adennill mewn modd cyson ar draws y categorïau cyflogwyr lle bo modd. Bydd hyn yn pennu'r isafswm cyfraniad gofynnol a bydd cyflogwyr yn rhydd i ddewis unrhyw gyfnod adennill byrrach a chyfraniadau uwch os byddant yn dymuno.

Bydd cyfraniadau diffyg neu dros ben a delir i'r Gronfa gan bob cyflogwr fel arfer yn cael ei fynegi fel symiau £.

Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn cynnal cyfrifoldeb llwyr am yr egwyddorion hyn i gyflogwyr unigol ar sail fforddiadwyedd a chryfder cyfamod ac mae'n bosibl yr ystyrir yn angenrheidiol gwyro o dan amgylchiadau eithriadol. Bydd cyflogwyr yn cael gwybod am eu cyfnod adfer unigol fel rhan o ddarpariaeth eu canlyniadau prisio unigol.

Wrth bennu'r union gyfnod adennill ar gyfer unrhyw gyflogwr penodol neu grŵp o gyflogwyr, gall yr Awdurdod Gweinyddu gymryd i ystyriaeth maint y diffyg cyllid; neu warged cynlluniau busnes y cyflogwr; asesiad o gyfamod ariannol y Cyflogwr, newidiadau yn sefyllfa ariannol ar ôl y dyddiad prisio a ystyrir yn rhesymol a diogelwch ffrydiau incwm yn y dyfodol; ac unrhyw sicrwydd wrth gefn ar gael i'r Gronfa neu a gynigir gan y Cyflogwr fel trefniadau gwarantwr neu bond, llog ar asedau ac yn y blaen.

Mae'r Awdurdod Gweinyddu, ar ôl ymgynghori â'r cyflogwyr yn y Gronfa, wedi mabwysiadu'r amcanion canlynol ar gyfer pennu cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr unigol sy'n deillio o brisiad actiwaraid 2022:

Bydd y cyfraniadau cyflogwr yn cael eu mynegi a'u hardystio fel dwy elfen ar wahân:

- y **Gyfradd Sylfaenol**: canran o'r holl gyflogau pensiynadwy a neilltuir ar gyfer talu costau buddion a gronnir yn y dyfodol yn ogystal â buddion ategol, marw yn y swydd ac afiechyd
- y **Gyfradd Eilaidd**: rhestr o gyfandaliadau ariannol a/neu % o addasiadau cyflog yn ystod 2023/26 mewn perthynas â gwarged neu ddiffyg cyflogwr (gan gynnwys addasiadau graddol).

Y cyfraniadau a dystiwyd gan yr Actiwari fydd yr isafswm cyfraniadau sy'n daladwy gan y cyflogwr. Mae cyflogwr yn gallu dewis talu cyfraniadau ychwanegol bob blwyddyn os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Egwyddorion Cyffredinol:

- a) Os daw'n ofynnol i gynyddu (neu ostwng) cyfraniadau cyflogwyr o 1 Ebrill 2023, ar ôl cwblhau prisiad actiwaraid 2022, gellir cynyddu (neu ostwng) cyfradd y cyfraniadau sy'n daladwy ym mlwyddyn 2023/24 mewn camau dros gyfnod hyd at dair blynedd. Gweithredir unrhyw gynnydd mewn cyfraniadau gwasanaeth yn y dyfodol mewn camau o 0.5% o leiaf o'r cyflog bob blwyddyn oni chytunir fel arall ar sail cyfanswm y cyfraniadau a delir dros gyfnod y dystysgrif. Os oes gwarged, fodd bynnag, neu os bu gostyngiad yn y cyfraniadau a delir i adennill diffyg cyflogwr ar adeg y prisiad, ni fyddai'r Gronfa o'r farn ei bod yn briodol mynd ati fesul cam i gynyddu'r cyfraniadau a delir mewn perthynas â chronni buddion yn y dyfodol.
- b) Nid yw'r Gronfa o'r farn ei bod yn briodol gostwng cyfraniadau o gymharu â'r cynllun cyllido sydd wedi'i sefydlu (gan ganiatáu ar gyfer mynegeo lle bo hynny'n berthnasol) os oes diffyg y parhau, oni bai fod yno reswm grymus o blaid gwneud hynny, a bydd angen cyfiawnhad pendant ar gyfer unrhyw ostyngiad ar sail fforddiadwyedd. Fel arfer ni fydd unrhyw gyflogwr nad yw ei gyfamod yn ddigon cryf yn hirdymor (yn ôl asesiad yr Awdurdod Gweinyddu) yn cael gostwng ei gyfraniadau os yw'r sefyllfa wedi gwella.
- c) Polisi'r Gronfa yw peidio caniatáu talu gweithiwr na chyfraniadau sylfaenol ymlaen llaw ac felly cyfraniadau diffyg yn unig y gellir eu talu ymlaen llaw.
- d) Bydd gwahanol batrymau cyfraniadau, ar sail fforddiadwyedd, yn cael eu hystyried yn ôl sefyllfa'r cyflogwr unigol, yn amodol ar dalu'r cyfraniadau'n llawn yn ystod y cyfnod 2023/26 y mae'r dystysgrif cyfraniadau'n berthnasol iddo. Dylai cyflogwyr gadw mewn cof y gallai newid eu patrwm cyfraniadau effeithio ar lefel y cyfraniadau a fydd yn ofynnol yn y dyfodol.
- e) Os bydd y cyfamod yn cael ei ystyried yn wan, mae'n bosibl y bydd cyfraniadau eilaidd yn cael eu gosod gan gyfeirio at darged cyllid uwch, yn amodol ar ddisgresiwn y Gronfa.

- f) I'r cyrff hynny y bernir fod ganddynt gyfamod gwannach, bydd angen i'r Awdurdod Gweinyddu gydbwyso lefel y risg a gofynion diddyledrwydd y Gronfa â chynnaladwyedd y sefydliad wrth bennu cynlluniau cyllido.
- g) I'r cyflogwyr hynny nad yw eu blynyddoedd ariannol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2023 (ar 31 Gorffennaf 2023, er enghraifft), gall y Gronfa ganiatáu i'r cyflogwr ddal i dalu ei gyfraniadau ar sail y cynllun cyfredol hyd ddiwedd ei flwyddyn ariannol. Byddai'r cynllun cyfraniadau newydd yn dod i rym ar ôl y dyddiad hwnnw (hynny yw, ar 1 Awst 2023 os daw'r flwyddyn ariannol i ben ar 31 Gorffennaf 2023).
- h) Mae'n rhaid i gyflogwyr hysbysu'r Gronfa ar unwaith pan fyddant yn pennu dyddiad ar gyfer ymadael. Os yw'n briodol, neu ar gais Cyflogwr yn y Cynllun, bydd y Gronfa fel arfer yn adolygu eu cyfraniad ardystiedig gyda'r nod o sicrhau fod yr holl gostau wedi'u cyllido ar adeg ymadael. Rhoddir ystyriaeth i unrhyw drefniadau rhannu risg wrth adolygu cyfraddau cyfraniadau.
- i) Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n cydnabod, er mai bach yw'r risg y mae'n ei beri i'r Gronfa'n gyffredinol, y gallai cyflogwyr wynebu cynnydd sylweddol yn eu cyfraniadau a allai amharu'n ddifrifol ar eu gallu i weithredu yn y dyfodol. Byddai'r Awdurdod Gweinyddu felly'n barod i ddefnyddio ei ddisgresiwn i dderbyn lefel fforddiadwy o gyfraniadau ar gyfer y sefydliad yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer y tair blynedd 2023/2026. Y Gronfa yn unig sydd i benderfynu a ddylid gweithredu'r dewis hwn er mwyn rheoli risg yn effeithiol gydol y Gronfa. Ni fydd ond yn cael ei ystyried ar ôl darparu tystiolaeth briodol wrth asesu'r cyfamod yn ogystal â'r cyngor proffesiynol priodol. Fel arfer, rheolir hyn yn bennaf drwy addasu'r cyfnod adennill a/neu bennu cyfraniadau graddol/graddedig.
- j) Er gwaethaf yr egwyddorion uchod, mae gan yr Awdurdod Gweinyddu, mewn ymgynghoriad â'r Actiwari, y disgresiwn i ystyried pa un a ddylai unrhyw drefniadau eithriadol fod yn berthnasol mewn achosion arbennig.

Os yw Cyflogwr Mewn Diffyg:

- k) Gan ddibynnu ar fforddiadwyedd, fel arfer cwtogir o leiaf tair blynedd ar gyfnodau adennill diffygion cyflogwyr yn y prisiad hwn o gymharu â'r un blaenorol. Gwneir hyn â'r nod o gyflawni diddyledrwydd llwyr mewn cyfnod tebyg (neu lai). Gan ystyried fforddiadwyedd ac elfennau eraill gellid addasu'r cyfnod ar gyfer cyflogwyr penodol os yw'r Awdurdod Gweinyddu o'r farn bod cyfiawnhad dros hynny.
- l) Ar gyfer cyflogwyr sydd wedi cau, bydd y cyfnod adennill diffyg yn gysylltiedig â'r oes gwaith ar gyfartaledd yn y dyfodol o'r aelodaeth weithredol.
- m) Bydd y cyfnod adennill diffyg yn cael ei nodi ar gyfer o leiaf y costau llog (bydd union gostau llog yn amrywio yn unol â pherfformiad buddsoddi) ar y diffyg.
- n) Gall cyflogwyr hefyd ddewis rhagdalau eu cyfraniadau (naill ai yn flynyddol neu daliad untro), a fyddai'n sicrhau arbediad arian parod yng nghyfnod y dystysgrif prasio.

Os Oes Gan Gyflogwr Warged:

Ar gyfer unrhyw gyflogwyr a aseswyd gyda gwarged, bydd eu gofynion cyfrannu unigol yn cael eu haddasu i'r fath raddau fel bod unrhyw waged yn cael ei ddefnyddio (e.e. diddyled) dros yr un cyfnod a fabwysiadwyd ar gyfer y prisiad actiwaraidd diwethaf, yn amodol ar isafswm cyfraniad cyflogwr o ddim e.e. ni all gwarged y cyfraniad eilaidd fod yn fwy na'r cyfraniadau cychwynnol sy'n daladwy yn ystod unrhyw flwyddyn y dystysgrif. Os disgwylir i gyflogwr adael y Gronfa cyn y cyfnod hwn, bydd gofynion cyfraniad wedi eu gosod i dargedu dim dyled gadael neu gredyd gadael yn daladwy.

[Dychwelyd i Adran 1](#)

Atodiad C: Polisi Derbyn

[Dychwelyd i Adran 1](#)

Cyflwyniad

Mae'r atodiad yn manylu polisi'r Gronfa ar dderbyn aelodau i'r Gronfa ac yn pennu'r hyn y dylid ei ystyried yng nghyswllt cyrff derbyniedig cyfredol a blaenorol. Mae hefyd yn cynnwys y fethodoleg ar gyfer asesu gofynion cyfraniad parhaus.

- Mae'n ofynnol i gyrff derbyniedig gael "cytundeb derbyn" â'r Gronfa. Ar y cyd a'r Rheoliadau, mae'r cytundeb derbyn yn pennu amodau cyfranogiad y corff derbyniedig, gan gynnwys pa weithwyr (neu gategorïau o weithwyr) sy'n gymwys i fod yn aelodau o'r Gronfa.
- Mae gan Gyflogwyr y Cynllun a'u staff hawl statudol i gyfranogi o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac felly gallant ymaelodi â'r Cynllun ar unrhyw adeg, er bod yn rhaid i rai sefydliadau (Cyflogwyr Rhan 2) ddynodi cymhwyster eu staff.

Cedwir rhestr o'r holl gyrff cyflogi sy'n cyfranogi o Gronfa fel dogfen fyw a bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n ei diwygio wrth i gyrff gael eu derbyn i'r Gronfa neu ymadael â hi.

Derbyn i'r Gronfa

Cyn cael eu derbyn i'r Gronfa, mae'n ofynnol i bob Corff Derbyniedig asesu lefel y risg ar derfynu'r contract yn gynnar er boddhad yr Awdurdod Gweinyddu. Os nad yw'r Awdurdod Gweinyddu'n fodlon â'r asesiad risg a/neu swm y bond (fel sy'n ofynnol dan Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol) bydd yn ystyried a phenderfynu a oes raid i'r corff derbyniedig ddarparu cyllid o flaen llaw ar gyfer terfynu ac yn asesu'r gofyniad am gyfraniadau ar sail dull a thybiaethau risg leiaf.

Ymysg y pethau y gall yr Awdurdod Gweinyddu eu hystyried wrth benderfynu a ddylid defnyddio'r dull risg leiaf mae:

- Ansicrwydd ynghylch ffynonellau ariannol y sefydliad, fel pan mae corff yn dibynnu ar incwm gwirfoddol neu elusennol, er enghraifft, neu pan nad oes unrhyw warant/cyllid wrth gefn yn allanol;
- A ddisgwylir y bydd cyfnod cyfranogi'r corff derbyniedig yn y Gronfa'n gyfyngedig;
- Oedran cyfartalog y gweithwyr a dderbynnir, ac a yw'r cynllun ar gau i aelodau newydd.

Er mwyn diogelu cyflogwyr eraill y Gronfa mae'n rhaid ceisio gwarant yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol os penderfynwyd na fyddai'n ddymunol darparu bond.

Cyrff Derbyniedig sy'n Darparu Gwasanaeth

Fel arfer bydd gan Gyrff Derbyniedig sy'n darparu gwasanaeth warantwr yn y Gronfa a fydd yn cynnal y rhwymedigaethau. Yn gyffredinol, felly, ni fydd y dull risg leiaf yn berthnasol i'r cyrff hyn yng nghyswllt cyllid a threfniadau terfynu.

Fel yr uchod, mae'n ofynnol i bob Corff Derbyniedig asesu lefel y risg ar derfynu'r contract yn gynnar er boddhad yr Awdurdod Gweinyddu. Byddai'r asesiad hwn fel arfer yn seiliedig ar gyngor yr Actiwari i'r Gronfa ar ffurf 'adroddiad asesu risg'. Gan mai Cyflogwr y Cynllun sydd i bob pwrpas yn warantwr ar gyfer y cyrff derbyniedig hyn yn y pen draw, mae'n rhaid iddo fod yn fodlon (ynghyd â'r Awdurdod Gweinyddu) uwchlaw lefel unrhyw fond sy'n ofynnol (os oes un). Os yw'r cytundebau bond yn bodloni'r Awdurdod Gweinyddu, adolygir swm y bond yn rheolaidd.

Os nad oes unrhyw gytundeb penodol arall rhwng y partïon fe bennir cyfnodau adennill diffyg i Gyrff Derbyniedig yn unol â pholisi cyffredinol y Gronfa fel y'i nodir yn Atodiad B.

Cofnodir unrhyw drefniadau rhannu risg y cytunwyd arnynt rhwng Cyflogwr y Cynllun a'r Corff Derbyniedig yn y cytundeb masnachol rhwng y ddwy ochr ac nid yn y cytundeb derbyn.

Os terfynir y Corff Derbyniedig, bydd unrhyw rwymedigaethau heb eu priodoli yn y Gronfa yn cael eu hysgwyddo gan y Cyflogwyr perthnasol yn y Cynllun (mae gwybodaeth bellach o fewn Atodiad D).

Ceir eithriad i'r polisi uchod pan nad yw'r gwarantwr yn gyflogwr sy'n cyfranogi o'r Gronfa, gan gynnwys sefyllfaoedd lle mae'r gwarantwr yn gyflogwr sy'n cyfranogi o Gronfa arall yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Er mwyn diogelu cyflogwyr eraill yng Nghronfa Bensiynau Clwyd mewn sefyllfa felly, gallai'r Awdurdod Gweinyddu bennu trefniant i ariannu terfyniad y corff derbyniedig o flaen llaw, ac asesu'r gofyniad am gyfraniadau ar sail dull a thybiaethau risg leiaf.

Ariannu Terfyniad o Flaen Llaw

Gall corff cyflogi ddewis neilltuo cyllid o flaen llaw ar gyfer terfynu; hynny yw, diwygio eu dull cyllido a mabwysiadu dull a thybiaethau risg leiaf. Byddai hynny'n lleihau'n sylweddol y risg o adael dyled ansicr i'r Gronfa wrth derfynu a allai fod yn un fawr. Fodd bynnag, mae hefyd yn debygol o arwain at gynnydd sylweddol mewn gofynion o ran cyfraniadau, pan asesir ar sail y risg lleiaf.

I unrhyw gyrff cyflogi sy'n cyllido ar sail strategaeth risg leiaf, gellir tybio fod strategaeth fuddsoddi dybiannol yn cyfateb i'r rhwymedigaethau os yw'r Awdurdod Gweinyddu'n cytuno i hynny ar sail cyngor yr Actiwari. Yn benodol, credydir cyfran dybiannol y corff cyflogi o asedau'r Gronfa ag elw buddsoddi yn unol â'r rhagdybiaethau cyllido risg leiaf a fabwysiadir, yn hytrach na'r elw buddsoddi gwirioneddol a gynhyrchwyd gan bortffolio asedau gwirioneddol y Gronfa gyfan. Mae'r Gronfa'n cadw'r hawl i addasu'r dull hwn mewn unrhyw achos lle gallai gael effaith sylweddol ar gyllid y Cynllun, neu'n dibynnu ar unrhyw amgylchiadau sy'n benodol i'r achos.

[Dychwelyd i Adran 1](#)

Atodiad D: Polisi Terfynu, Hyblygrwydd a Thaliadau Ymadael a Chytundebau Gohirio Dyled

[Dychwelyd i Adran 1](#)

Mae'r atodiad hwn yn manylu ynghylch polisi'r Gronfa ynglŷn â'r dull o asesu'r gofynion am gyfraniadau a thaliadau terfynu os daw cyfranogiad cyflogwr yn y Gronfa i ben.

Ymadael â'r Gronfa

Oni bai eu bod yn dechrau DDA, bydd cyflogwr yn rhoi'r gorau i gymryd rhan yn y Gronfa pan fydd yr aelod gweithredol olaf yn gadael y Gronfa neu pan fydd rhybudd gwaharddiad yn dod i ben a'r cyflogwr yna'n dod yn "gyflogwr wedi gadael" o dan y Rheoliadau. Yna mae'n ofynnol i'r Gronfa gael prisiad actiwaraid o rwymedigaethau'r cyflogwr hwnnw mewn perthynas â buddion gweithwyr blaenorol y cyflogwr sy'n gadael ynghyd â thystysgrif cyfraniad terfynu sy'n dangos unrhyw ddyled gadael neu gredyd gadael, yn ddyledus gan neu i'r cyflogwr sy'n gadael.

Pan mae corff cyflogi'n terfynu am ba bynnag reswm, gall gweithwyr drosglwyddo i gyflogwr arall, boed hwnnw'n rhan o'r Gronfa neu beidio. Os nad ydynt yn gwneud hynny bydd y gweithwyr yn cadw hawliau pensiwn yn y Gronfa; hynny yw, naill ai buddion a ohiriwyd neu fuddion ymddeoliad uniongyrchol.

Yn ogystal ag unrhyw rwymedigaethau ar gyfer gweithwyr cyfredol bydd y Gronfa hefyd yn cadw rhwymedigaethau i dalu buddion i gyn-weithwyr; hynny yw, pensiynwyr ac aelodau gohiriedig cyfredol, ac eithrio pan mae'r holl gyfrifoldebau'n trosglwyddo i Gronfa arall gydag Awdurdod Gweinyddu gwahanol.

Os cyfyd rhwymedigaethau nas cyllidwyd ar eu cyfer a bod dim modd adennill y costau gan y corff cyflogi, fe'u telir fel arfer gan y Gronfa gyfan (hynny yw, yr holl gyflogwyr) oni bai fod yno warantwr neu gorff olynol yn y Gronfa.

Polisi Terfynu

Dyma bolisi'r Gronfa ar gyfer cynlluniau taliadau terfynu/credyd:

1. Y sefyllfa diofyn yw bod taliadau gadael a chredyd gadael yn cael ei dalu ar unwaith yn llawn unwaith y bydd yr asesiad rhoi'r gorau wedi'i gwblhau gan yr Actiwari (ac unrhyw rybudd pennu wedi'i gyflwyno gan y Gronfa ble bo'n briodol). Bydd y driniaeth ar ôl terfynu yn dibynnu ar pa un a oes gan y cyflogwr warantwr o fewn y Gronfa, neu bod corff olynol yn bodoli i gymryd drosodd rhwymedigaethau'r corff cyflogi. Mae mwy o fanylion yn y tabl isod.
2. Yn ôl disgrisiwn yr Awdurdod Gweinyddu, cytunir ar gynlluniau rhandalu dros gyfnod penodol pan mae yna faterion fforddiadwyedd clir sy'n peryglu hyfywedd ariannol y sefydliad a gallu'r Gronfa i adfer y ddyled.

Bydd y tybiaethau a'r dull a ddefnyddir i asesu maint taliad/credyd sy'n daladwy ar ôl terfynu yn gyson gyda thybiaethau prisio blaenorol, a ddiweddarwyd ar gyfer arenillion,

diweddarwyd ar gyfer arenillion y farchnad a chwyddiant sy'n briodol ar y dyddiad rhoi'r gorau. Gyda'r eithriadau canlynol:

	Cyflogwyr heb warantwr yn y Gronfa / gwarant dewis olaf yn unig	Cyflogwyr gyda gwarantwr
Tybiaethau ariannol	Terfynu ar sail risg leiaf (oni bai bod yr Awdurdod Gweinyddu yn cytuno fel arall, yn seiliedig ar gyngor yr Actiwari). Gellir gwneud addasiadau hefyd i'r dybiaeth ynghylch chwyddiant i adlewyrchu lefel mantoli cyffredinol yn y Gronfa. Nod hyn yw diogelu'r cyflogwyr eraill ar y Cynllun gan y bydd rhwymedigaethau'r corff cyflogi, wrth derfynu, yn dod yn rhwymedigaethau heb eu priodoli o fewn y Gronfa, ac ni fydd modd troi at y cyflogwr hwnnw os cyfyd diffyg yn y dyfodol (ar ôl terfynu cyfranogiad). Bydd y tybiaethau yn seiliedig ar gromliniau arenillion llawn ac yn ystyried hyd llif arian/rhwymedigaethau estynedig y cyflogwr.	Os oes gan y corff cyflogi warantwr yn y Gronfa, fodd bynnag, neu fod corff olynol yn bodoli i dderbyn cyfrifoldeb am rwymedigaethau'r corff cyflogi, polisi Cronfa Bensiynau Clwyd yw defnyddio sail cyllido'r prisiad ar gyfer yr asesiad terfynu oni bai fod y gwarantwr yn dweud yn wahanol wrth Gronfa Bensiynau Clwyd.
Tybiaethau demograffig	Yn unol â'r tybiaethau a fabwysiadwyd ar gyfer prisiad 2022 ac eithrio lefel uchel o bwyll yn y tybiaethau ynghylch marwolaeth i ddiogelu gweddill y cyflogwyr ymhellach. Felly, bydd cyfradd gwelliant yn y cyfraddau marwolaeth yn cynyddu i 2.25% y flwyddyn. Adolygir hynny o bryd i'w gilydd yn sgil unrhyw newidiadau sylweddol mewn tueddiadau disgwyliad oes, a bydd yn destun adolygiad ffurfiol yn ystod y prisiad nesaf.	Yn unol â'r tybiaethau a fabwysiadwyd ar gyfer prisiad 2022 ar gyfer dibenion cyllid a chyfraniad parhaus. Adolygir hynny o bryd i'w gilydd yn sgil unrhyw newidiadau sylweddol mewn tueddiadau disgwyliad oes, a bydd yn destun adolygiad ffurfiol yn ystod y prisiad nesaf.
McCloud	Bydd amcangyfrif rhesymol ar gyfer cost posibl McCloud yn cael ei gynnwys. Bydd hyn yn cael ei gyfrif ar gyfer holl aelodau'r cynllun y cyflogwr sy'n gadael (yn adlewyrchu'r data sydd ar gael). Er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd unrhyw gyflogwr â hawl ddigolledu yn deillio o ddyfarniad McCloud, unwaith y cadarnheir y terfyniad a bod y taliadau wedi'u cwblhau.	

Costau Ychwanegol	Hefyd, gwneir lwfans rhesymol am dreuliau yng nghyswllt gweinyddu a materion eraill. Caniateir ar gyfer hynny yn yr asesiad terfynu olaf.	
Polisi diofyn, unwaith y darparwyd y dystysgrif terfynu	- Os oes gwarged: bydd y Gronfa'n talu'r credyd ymadael i'r cyflogwr dan sylw ar ôl cwblhau'r broses derfynu (cyn pen chwe mis wedi'r dyddiad gadael, neu o fewn 6 mis i gwblhau'r asesiad terfynu gan yr Actiwari (os yn hwyrach), cyn belled nad oes unrhyw apeliadau wedi codi gyda'r Gronfa yn ystod yr amser hwn). - Os oes diffyg: bydd y Gronfa'n gorchymyn fod y cyflogwr sy'n ymadael yn talu'r diffyg wrth ddiwedd i'r Gronfa fel cyfandaliad arian parod (oni bai fod yr Awdurdod Gweinyddu yn cytuno fel arall yn ôl eu disgrisiwn llwyr) ar ôl cwblhau'r broses derfynu.	Yna bydd y gwarantwr neu'r corff olynol yn derbyn asedau a rhwymedigaethau'r corff cyflogi (ynghyd ag unrhyw warged neu ddiffyg) yn unol â'r polisi sylfaenol. (I Gyrff Derbyniedig, gelwir y broses hon yn "newyddu" y cytundeb derbyn.) Mewn rhai achosion, gallai fod yn ofynnol i'r cyflogwr dalu dyled ymadael cyn i'r gwarantwr dderbyn yr asedau a'r rhwymedigaethau, a bydd hyn yn cael ei ystyried yn ôl amgylchiadau pob achos. Ni fydd credyd ymadael yn daladwy oni bai y gwneir cais fel y nodir isod.

Mae gan yr Awdurdod Gweinyddu hawl neilltuedig i amrywio'r driniaeth yn ôl amgylchiadau pob achos os yw'r sefyllfa'n cyfiawnhau hynny yn ôl cyngor yr Actiwari ar sail yr achosion y mae'r buddgyfranogwyr yn eu cyflwyno (ble bo'n briodol). Er enghraifft, gallai fod yn briodol addasu unrhyw daliad neu gredyd ymadael ar sail unrhyw drefniadau rhannu risg a sefydlwyd rhwng y cyflogwr sy'n ymadael a chyflogwyr eraill yn y Gronfa.

Yng nghyswllt derbyn yr asedau a rhwymedigaethau sy'n weddill, gallai hynny, â chytundeb y corff olynol, fod ar ffurf trosglwyddo'r asedau a rhwymedigaethau'n llwyr i'r corff olynol, gan gynnwys unrhyw ddiffyg cyllid wrth derfynu. Dan yr amgylchiadau hyn, ni fydd angen unrhyw daliad terfynu gan y corff cyflogi sy'n ymadael, gan y byddai'r diffyg yn cael ei adennill drwy gynllun adennill y corff olynol.

Adolygu'r Polisi Terfynu

Fel y nodir yn y tabl uchod, i gyflogwyr heb warantwr, mae'r tybiaethau ariannol yn ymwneud ar hyn o bryd ag arenillion ar ddyled y Llywodraeth (a elwir yn Giltiau). Egwyddor y polisi terfynu a thybiaethau a ddefnyddir yw sicrhau (cyn belled â bo'n bosibl) bod yna ddigon o arian i dalu'r holl fuddion sy'n ddyledus mewn perthynas ag aelodau "amddifad" y cyflogwr sy'n gadael fel arall byddai'r cyflogwyr sy'n weddill o bosibl yn gorfod ariannu hyn drwy eu cyfraniadau mewn prisiau dilynol. Dyma pam bod y Gronfa yn cymryd barn mwy gofalus fel y nodir yn y polisi hwn. Ar gyfer cyflogwyr eraill, y polisi yw defnyddio'r tybiaethau cyllido parhaus priodol os yw'r rhwymedigaethau amddifad i gael eu cynnwys i gyd gan y gwarantwr yn y Gronfa (unwaith y bydd unrhyw dâl gadael yn cael ei dalu i/gan y cyflogwr yn dibynnu ar yr amgylchiadau).

Bydd y polisi yn cael ei adolygu fel mater o drefn ym mhob prisiad actiwari ond bydd hefyd yn cael ei adolygu ar adegau o ddigwyddiadau eithafol, fel symud yng nghyflwr y farchnad neu symud mewn polisi economaidd/cyllidol, fydd yn effeithio ar yr asedau neu rwymedigaethau'r cyflogwr sy'n gadael. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y dull yn parhau'n briodol, o ystyried y risg sy'n gysylltiedig â chyllido'r rhwymedigaethau amddifad a adawyd ar ôl gan gyflogwr presennol yn cael ei drosglwyddo i gyflogwyr Cronfa eraill, ac yn y pen draw y trethdalwr. Mae hyn yn golygu y gall y tybiaethau (ariannol a demograffig) gael eu newid os bydd amgylchiadau yn gwarantu hynny. Bydd cyflogwyr yn cael eu hysbysu am unrhyw newid (a'r rhesymeg dros y newid) a byddai'r polisi yn cael ei ddiweddarau.

Mae gan y Gronfa hefyd y disgrisiwn i ddefnyddio dull gwahanol fesul achos gan gymryd i ystyriaeth holl ffactorau (ariannol a heb fod yn ariannol) sy'n ymwneud â'r cyflogwr sy'n gadael.

Terfyniadau yn y Dyfodol

Mewn llawer o achosion, mae terfynu cyfranogiad cyflogwr yn ddigwyddiad y gellir ei ragweld, er enghraifft, oherwydd gall gweithrediadau'r sefydliad gael eu cynllunio i gael ei dirwyn i ben a/neu mae'r cytundeb mynediad i fod i ddod i ben. Dan y Rheoliadau, os daw'r Awdurdod Gweinyddu i wybod am amgylchiadau o'r fath, gall ddiwygio isafswm cyfraniadau cyflogwr fel nad yw gwerth asedau'r corff cyflogi yn sylweddol uwch nac yn sylweddol is na'i rwymedigaethau a ragwelir ar y dyddiad y daw i'r amlwg i'r Awdurdod Gweinyddu y bydd yn peidio â bod yn gyflogwr cyfranogol. Mewn achosion felly anogir cyrff cyflogi i gychwyn sgwrs â'r Gronfa er mwyn mynd ati cyn gynted â phosib i gynllunio ar gyfer terfynu. Pan roddir hysbysiad o derfynu o flaen llaw bydd y Gronfa'n dilyn gweithdrefnau i leihau'r risgiau mawr o ansefydlogrwydd yn swm y ddyled yn y cyfnod cyn terfynu cyfranogiad. Mae'r Gronfa'n cadw'r hawl i addasu'r dull hwn mewn unrhyw achos lle gallai gael effaith sylweddol ar gyllid y Cynllun, neu'n dibynnu ar unrhyw amgylchiadau sy'n benodol i'r achos.

Rhybuddion Pennu (Cyflogwyr Gyda Gwarantwr)

Ble mae'r cyflogwr sy'n ymadael yn gyfrifol am ran yn unig o'r diffyg neu warged dros ben yn unol â chytundeb rhannu risg ar wahân, bydd trefn diofyn y Gronfa hefyd yn golygu y bydd unrhyw warged yn cael ei gynnal gan y Gronfa o blaid y cyflogwr/gwarantwr sy'n darparu hyn ar contract allanol.

Yn syml, os nad yw cyflogwr sy'n ymadael yn gyfrifol am unrhyw gostau dan gytundeb rhannu risg yna ni thelir unrhyw gredyd ymadael yn unol â'r Rheoliadau, oni bai fod y Gronfa'n gwybod am ddarpariaethau'r cytundeb rhannu risg pan gyflwynir unrhyw achos a'i fod yn penderfynu y dylid talu credyd ymadael.

Os oes anghydfod, daw'r trefniadau canlynol i rym:

- Os oes gwarged, yn unol â'r Rheoliadau diwygio (Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Diwygio) 2020) bydd angen i'r cyrff dan sylw gyflwyno'u hachosion ger bron yr Awdurdod Gweinyddu os credant y dylid talu Credyd Ymadael y tu hwnt i'r polisi a nodir uchod, neu os ydynt yn amau penderfyniad yr Awdurdod

Gweinyddu. Bydd y Gronfa'n hysbysu'r cyrff dan sylw o'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer gwneud y penderfyniad a geisir.

- Os penderfyna'r Gronfa y dylid talu Credyd Ymadael yna bydd yn talu hwnnw'n syth i'r cyflogwr sy'n ymadael cyn pen chwe mis o'r dyddiad ymadael, neu o fewn chwe mis ar ôl i'r Actiwari gwblhau'r terfyniad (os yn hwyrach).
- Os oes diffyg, bydd y Gronfa er cysondeb yn mynd ati i'w adennill gan y cyflogwr sy'n ymadael yn y lle cyntaf, ond os nad yw hynny'n bosib adenillir y diffyg gan y gwarantwr, boed hynny drwy gasglu cyfraniadau ychwanegol neu drwy drefniant yn y prisiad nesaf, gan ddibynnu ar y amgylchiadau.

Os gwneir cais bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n darparu manylion yr hyn a ystyriwyd wrth benderfynu. Bydd rhybudd o'r penderfyniad credyd gadael yn cael ei ddarparu ynghyd â'r asesiad terfynu gan yr Actiwari mewn achosion ble mae yna gredyd ymadael. Bydd yr hysbysiad yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol ac yn manylu ynghylch y gwahanol gamau o'r broses:

- 1) Manylion y cyflogwr sy'n ymwneud â'r broses (e.e. y cyflogwr sy'n ymadael a'r gwarantwr).
- 2) Manylion y cytundeb derbyn, contractau masnachol ac unrhyw ddiwygiadau yn y telerau a ddarparwyd i'r Awdurdod Gweinyddu a'u hystyried wrth benderfynu. Gwneir hynny ar sail yr egwyddor bod y cyflogwr yn gymwys i dderbyn unrhyw warged yn yr un modd ag y mae'n gyfrifol am ddiffyg. Mae hynny'n dibynnu ar y wybodaeth a ddarperir ac unrhyw drefniadau rhannu risg sydd ar waith.
- 3) Ardystiad terfynol yr Actiwari o'r credyd ymadael.
- 4) Penderfyniad yr Awdurdod Gweinyddu ar sail y wybodaeth a ddarparwyd.
- 5) Manylion y drefn apelio pe byddai un o'r cyrff yn anghytuno â'r penderfyniad ac yn dymuno cyflwyno'i achos ger bron yr Awdurdod Gweinyddol.

Polisi ar Gyfer Hyblygrwydd Wrth Dalu Dyledion Ymadael a Chytundebau Gohirio Dyled

Fel rheol mae'n rhaid talu taliadau ymadael yn llawn ar unwaith, (addaswyd ar gyfer llog ble bo'n briodol) oni bai fod yno gytundeb rhannu risg wedi'i sefydlu â chyflogwr gwarantu yn y Gronfa sy'n golygu nad yw'r cyflogwr sy'n ymadael yn gyfrifol am unrhyw daliad (fel y manylwyd uchod). Yng nghyswllt credyd ymadael defnyddir y broses uchod i benderfynu.

O dan y Rheoliadau, mae gan y Gronfa ddisgresiwn llwyr o ran pa un a yw'n cytuno i roi DDA ar waith cyn belled â'i fod yn dilyn y drefn a nodwyd yn y Rheoliadau.

Os gwna gyflogwr gais i ad-dalu dyled ymadael dros gyfnod penodedig, (e.e. drwy Gytundeb Lledaenu Dyled (CLID)) neu os dymuna sefydlu trefniant Gohirio Dyled â'r Gronfa, mae'n rhaid iddo wneud hynny'n ysgrifenedig gan nodi'r rhesymau dros wneud y cais.

Os bydd unrhyw eithriad bydd gofyn bod yr Awdurdod Gweinyddu wedi asesu a yw'r ddyled ymadael llawn yn fforddiadwy ac a oes budd o'r Gronfa (ac felly i'r trethdalwyr) wrth fabwysiadu'r naill ddull neu'r llall. Wrth asesu hyn bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n ystyried cyfarnod y cyflogwr, a oes angen unrhyw ernes i ategu'r trefniadau, ac a oes ernes ar gael.

Y cyflogwr a fydd yn ysgwyddo unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r asesiad (gan gynnwys unrhyw gyngor actiwaraid, cyfreithiol a chyfamodol sydd ei angen), a bydd yn ofynnol talu'r rheiny o flaen llaw neu'n cynnwys yn y cynllun cyfraniadau neu'r taliad dyled ymadael, gan ddibynnu ar amgylchiadau'r cyflogwr.

Polisi ar Gyfer Ymestyn Taliadau Ymadael

Wrth ddilyn y broses isod penderfynir a yw cyflogwr yn gymwys i ymestyn ei daliad ymadael dros gyfnod penodol drwy CLID.

1. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn gofyn am wybodaeth ariannol gan y cyflogwr gan gynnwys cyfrifon blynyddol, cyfrifon rheoli, cyllidebau, rhagolygon llif arian ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall i'w defnyddio fel rhan o'u hadolygiad cyfamod. Fel rhan o hyn, bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n ceisio cyngor Actiwari'r Gronfa yn ogystal ag ymgynghorwyr arbenigol ar gyfamodau, y gyfraith a meysydd eraill. Os na ddarperir y wybodaeth dan sylw, mabwysiadir y polisi arferol o fynnu taliad ar unwaith.
2. Ar ôl darparu'r wybodaeth, bydd yr Awdurdod Gweinyddu (ar y cyd ag Actiwari'r Gronfa ac ymgynghorwyr cyfreithiol a chyfamodol lle bo angen) yn adolygu cyfamod y cyflogwr i benderfynu a oes budd i'r Gronfa o ganiatáu iddo ymestyn ei ddyled ymadael dros gyfnod penodol. Gan ddibynnu ar hyd y cyfnod a maint y ddyled, gallai'r Gronfa ofyn am ernes i ategu'r cynllun taliadau cyn llofnodi cytundeb i ymestyn y taliadau ymadael.
3. Gall y cynllun talu fod ar ffurf taliadau nad ydynt yn unffurf; er enghraifft, cyfandaliad ar y dechrau a chyfres o daliadau yn ystod y cyfnod a gytunir. Bydd y taliadau sy'n ofynnol yn cynnwys lwfans ar gyfer llog oherwydd talu'n hwyr.
4. Gall y broses gychwynnol i benderfynu pa un a ddylai dyled ymadael gael ei ledaenu gymryd hyd at 3 mis o dderbyn y data felly mae'n bwysig bod cyflogwyr sy'n gofyn am ledaenu'r taliadau dyled ymadael yn hysbysu'r Gronfa mewn da bryd.
5. Os cytunir y gellir ymestyn y taliadau ymadael yna bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n meithrin cyswllt â'r cyflogwr i drafod y materion a ganlyn:
 - a. Y cyfnod a bennir (bydd hyn yn dibynnu ar hyd at uchafswm o bum mlynedd heblaw mewn eithriadau eithriadol).
 - b. Y taliad cychwynnol a'r taliadau blynyddol sy'n ddyledus a sut fydd y rhain yn newid ar hyd y cyfnod.
 - c. Y cyfraddau llog sy'n berthnasol a'r costau sy'n gysylltiedig â'r cynllun taliadau a luniwyd.
 - d. Swm yr ernes sydd ei angen i ategu'r cynllun taliadau (os oes angen o gwbl) a'r math o ernes e.e. bond, cyfrif ysgrow ac yn y blaen.
 - e. Cyfrifoldebau'r cyflogwr yn ystod y cyfnod ymestyn taliadau ymadael, gan gynnwys darparu'r wybodaeth ddiweddaraf a'r digwyddiadau a fyddai'n sbarduno adolygiad o'r sefyllfa.
 - f. Barn yr Actiwari, arbenigwyr cyfreithiol, arbenigwyr cyfamod ac unrhyw arbenigwyr eraill fel y bo'r angen.

- g. Y wybodaeth am y cyfamod y bydd angen ei chyflwyno'n rheolaidd fel y gall y cynllun taliadau barhau.
 - h. Yr amgylchiadau lle gellid adolygu'r cynllun taliadau neu fynnu taliad ar unwaith (er enghraifft, pan mae newid sylweddol yn y cyfamod neu'r amgylchiadau).
6. Ar ôl i'r Awdurdod Gweinyddu benderfynu fe nodir y trefniant ar ddu a gwyn gan gynnwys unrhyw drefniadau ategol.
 7. Gan ddibynnu ar amgylchiadau'r cyflogwr, bydd gofyn talu unrhyw gostau o flaen llaw neu'u cynnwys yn y cynllun cyfraniadau.

Cyflogwyr sy'n Cyfranogi Heb Aelodau sy'n Cyfrannu

Yn hytrach na thalu'r ddyled ymadael gall cyflogwr gyfranogi o'r Gronfa heb unrhyw aelodau'n cyfrannu, a defnyddio "Cytundeb Gohirio Dyled" (CGD) os yw'r Awdurdod Gweinyddu'n caniatáu hynny. Byddai'n rhaid i'r cyflogwr wneud cais ysgrifenedig i'r Awdurdod Gweinyddu ar gyfer hynny.

Bydd y broses a ganlyn yn penderfynu a fydd y Gronfa yn cytuno i ganiatau i'r cyflogwr sefydlu trefniant o'r fath:

- 1) Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn gofyn am wybodaeth ariannol ddiweddaraf gan y cyflogwr gan gynnwys cyfrifon blyneddol, cyfrifon rheoli, cyllidebau, rhagolygon llif arian ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall i ddangos y cynnydd ariannol a ddisgwyllir gan y sefydliad. Os na ddarperir y wybodaeth dan sylw yna ni fydd yr Awdurdod Gweinyddu'n sefydlu Cytundeb Gohirio Dyled.
- 2) Ar ôl darparu'r wybodaeth hon, bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n ystyried yn gyntaf a fyddai sefydlu cytundeb â'r cyflogwr er pennaf fudd y Gronfa a'r cyflogwyr eraill. Bydd y penderfyniad hwn yn seiliedig ar adolygiad cyfamod y cyflogwr i benderfynu pa un a all y cyflogwr fforddio'r ddyled ymadael (naill ai ar unwaith neu drwy gytundeb lledaenu dyled) bryd hynny (yn seiliedig ar gyngor gan yr Actiwari, cyfamod ac ymgynghorydd cyfreithiol ble bo'r angen). Os bydd y ddyled ymadael yn cael ei hystyried yn fforddiadwy yna ni fydd Cytundeb Gohirio Dyled yn berthnasol i'r cyflogwr.
- 3) Gall y broses gychwynnol i benderfynu pa un a ddylai CGD fod yn berthnasol gymryd hyd at 3 mis, o dderbyn y wybodaeth sydd ei hangen felly mae cyflogwr sy'n dymuno gwneud cais i'r Awdurdod Gweinyddu sy'n dechrau cytundeb o'r fath angen gwneud y cais cyn y dyddiad ymadael posibl (er enghraifft, pan fydd aelodaeth weithredol y Cyflogwr wedi gostwng o dan 5 aelod a'i fod yn ymddangos yn debyg y gallai terfynu ddechrau o fewn y 6-9 mis nesaf).
- 4) Os bydd asesiad yr Awdurdod Gweinyddu'n cadarnhau nad yw'r ddyled ymadael bosib yn fforddiadwy, bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n cynnal trafodaethau â'r cyflogwr ynghylch manylion posib unrhyw Gytundeb Gohirio Dyled ar sail templed y Gronfa, a fydd yn seiliedig ar yr egwyddorion a bennir yng nghanllawiau Bwrdd Ymgynghorol y Cynllun ar wahân. Fel rhan o hynny, trafodir y materion canlynol gyda'r nod o ddod i gytundeb:

- a. Pa ernes y gall y cyflogwr ei chynnig tra bydd yn dal yn y Gronfa. Fel rheol ni fydd yr Awdurdod Gweinyddu'n sefydlu trefniant o'r fath oni bai ei fod yn ffyddiog y gall y cyflogwr gefnogi'r trefniant yn y dyfodol. Os darperir ernes gellir hefyd adolygu'r cyfnod adennill a threfniadau ariannol eraill.
- b. A ddylid gwneud taliad arian parod cychwynnol i'r Gronfa er mwyn lleihau'r ddyled bosib.
- c. A fyddai gofyn diwygio'r gyfradd gyfraniadau eilaidd hyd at y prisiad nesaf.
- d. Y wybodaeth ariannol y bydd yn ofynnol ei chyflwyno'n rheolaidd fel y gall y cyflogwr aros yn y Gronfa, ac unrhyw drefniadau monitro eraill y bydd eu hangen.
- e. Barn yr Actiwari, arbenigwyr cyfreithiol, arbenigwyr cyfamod ac unrhyw arbenigwyr eraill.
- f. Y cyfrifoldebau y byddai'r cyflogwr yn eu hysgwyddo tra bydd yn dal yn y Gronfa.
- g. Yr amgylchiadau a fyddai'n creu'r gofyn i weithredu cynllun adennill diwygiedig ac adolygu'r cyfraniadau eilaidd yn sgil hynny (er enghraifft, darparu ernes).
- h. Yr amgylchiadau a fyddai'n creu'r gofyn i amrywio hyd y cytundeb gohirio dyled (os yw'n briodol), gan gynnwys terfynu'r cytundeb (er enghraifft, os yw gallu'r cyflogwr i dalu wedi dirywio'n sylweddol, neu'n debygol o wneud yn y deuddeg mis nesaf). Os terfynir y cytundeb gallai fod yn ofynnol talu taliad (neu gredyd) ymadael. Mae'r amgylchiadau a fedrai achosi hynny'n cynnwys dileu unrhyw ernes, neu newid sylweddol yn y cyfamod a ddaw i'r amlwg wrth asesu a monitro.
- i. Yr amgylchiadau lle byddai'r cyflogwr yn gallu amrywio'r trefniant, er enghraifft, taliad arian parod ychwanegol.

Yna bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n penderfynu a yw sefydlu Cytundeb Gohirio Dyled â'r cyflogwr er pennaf les y Gronfa, ac yn cadarnhau'r telerau angenrheidiol.

- 5) I'r cyflogwyr hynny sy'n llwyddo i sefydlu Cytundeb Gohirio Dyled, caiff y gofynion cyfrannu eu hadolygu fel rhan o bob prisiad actiwaraid, neu yn y cyfamser os bodlonir unrhyw rai o'r meini prawf a gytunir yn y Cytundeb Gohirio Dyled.
- 6) Bydd y costau sy'n gysylltiedig â cheisio cyngor a llunio'r Cytundeb Gohirio Dyled yn cael eu trosglwyddo i'r cyflogwr fel rhan o'r trefniant a'r gofynion cyfrannu. Gan ddibynnu ar amgylchiadau'r cyflogwr, bydd gofyn talu unrhyw gostau o flaen llaw neu eu cynnwys yn y cynllun cyfraniadau.

[Dychwelyd i Adran 1](#)

Atodiad E: Adolygu Cyfraniadau Cyflogwyr Rhwng Prisiadau

Dychwelyd i Adran 1

Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn gallu adolygu cyfraniadau cyflogwyr rhwng prisiadau. Mae gan yr Awdurdod Gweinyddu a'r cyflogwyr yr hyblygrwydd canlynol:

1. Gall yr Awdurdod Gweinyddu adolygu cyfraniadau cyflogwr os bu newid sylweddol yn rhwymedigaethau'r cyflogwr hwnnw.
2. Gall yr Awdurdod Gweinyddu adolygu cyfraniadau cyflogwr os bu newid sylweddol yng nghyfmod y cyflogwr.
3. Gall cyflogwr wneud cais i'r Awdurdod Gweinyddu am adolygu ei gyfraniadau os yw'n credu bod naill ai pwynt 1 neu bwynt 2 yn berthnasol iddo. Byddai'n ofynnol i'r cyflogwr dalu costau unrhyw adolygiad ar ôl cwblhau'r cyfrifiadau, ac ni chaniateir iddo wneud dim mwy na dau gais rhwng dyddiadau prisiadau actiwaraid (ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol a gyda chymeradwyaeth yr Awdurdod Gweinyddu).

Os yw sefyllfa gyllido cyflogwr yn newid yn sylweddol oherwydd newid mewn asedau'n unig (a newidiadau mewn rhagdybiaethau actiwaraid), polisi cyffredinol y Llywodraeth yw na chaniateir adolygu cyfraniadau y tu allan i gylch prisio llawn. Byddai newidiadau mewn asedau'n berthnasol, fodd bynnag, wrth ystyried a yw cyflogwr yn gallu cyflawni ei rhwymedigaethau i'r Gronfa wedi newid sylweddol yn ei gyfamod (gweler pwynt 2. uchod).

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ymgynghori â'r cyflogwr cyn adolygu eu cyfraniadau, gan gynnwys egluro'r rheswm dros gynnal yr adolygiad.

Er mwyn osgoi unrhyw amwysedd, gallai unrhyw adolygiad o'r cyfraniadau arwain at ddim newid a bod y cyfraniadau'n parhau fel y'u pennwyd yn asesiad prisio diweddaraf yr actiwari. Ni chynhelir adolygiad o'r cyfraddau'n agos at ddyddiad asesiad prisio nesaf yr actiwari fel arfer, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol. Er enghraifft:

- Ni chynhelir adolygiad o gyfraniadau oherwydd newid ym mhroffil yr aelodaeth yn y chwe mis cyn prisio ar gyfer y Dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau.
- Os bu newid sylweddol yn y cyfamod, fodd bynnag, rhoddir ystyriaeth i gynnal adolygiad yn ôl amgylchiadau pob achos, cyn penderfynu a ddylid cynnal un a phryd y byddai unrhyw newid mewn cyfraniadau'n dod i rym. Wrth wneud hynny rhoddir sylw i'r agosrwydd at y prisiad actiwaraid a gweithrediad y cyfraniadau ar sail y prisiad hwnnw.

Sefyllfaoedd Lle Gellid Adolygu Cyfraniadau

Gellid adolygu cyfraniadau os yw'r Awdurdod Gweinyddu'n cael gwybod am unrhyw un o'r sefyllfaoedd canlynol. Hysbysir y cyflogwyr os bydd hynny'n digwydd.

Rhoddir ystyriaeth hefyd i effaith unrhyw newid mewn cyfraniadau un cyflogwr ar y cyflogwyr eraill ac ar y Gronfa'n gyffredinol wrth benderfynu a ddylid mynd ati i adolygu cyfraniad.

Newidiadau arwyddocaol yn rhwymedigaethau'r cyflogwr

Mae hyn yn cynnwys y sefyllfaoedd canlynol, ymysg eraill:

1. Newidiadau arwyddocaol yn aelodaeth y cyflogwr a fydd yn cael effaith sylweddol ar ei rwymedigaethau, megis:
 - a. Ailstrwythuro'r cyflogwr
 - b. Sefydlu trefniant arwyddocaol i ddarparu gwasanaeth drwy contract allanol neu drosglwyddo staff i gyflogwr arall (nid o reidrwydd yn rhan o'r Gronfa)
 - c. Trosglwyddiad swmpus y mae'r cyflogwr yn ei dderbyn neu yn ei dalu
 - d. Newidiadau arwyddocaol eraill yn yr aelodaeth, megis diswyddiadau, codiadau cyflog sylweddol, ymddeoliadau oherwydd afiechyd (i'r cyflogwyr hynny nad ydynt yn rhan o'r trefniant daliedig) neu nifer fawr o achosion o dynnu arian
 - e. Ble mae cydgrynhoi symudiadau aelodau yn cwtdogi terfyn y gorwel disgwylidig ar gyfer cyfrannu'n barhaus at y Gronfa
2. Dau gyflogwr neu fwy yn uno, gan gynnwys dod â gwasanaethau'n fewnol a throsglwyddo gwasanaethau
3. Cyflogwr yn gwahanu'n ddau o gyflogwyr unigol neu fwy

Wrth asesu'r pwyntiau sbardun o dan a) uchod, ni fydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ystyried adolygu ond os disgwylir newid yn y rhwymedigaethau sy'n fwy na [5%] o'u holl rhwymedigaethau. Mewn rhai achosion gallai hynny olygu bod cyfamod y cyflogwr yn newid hefyd.

Ni fydd unrhyw adolygiad o'r gyfradd ond yn ystyried effaith y newid mewn rhwymedigaethau (gan gynnwys, os yw'n berthnasol, unrhyw danariannu yng nghyswllt costau straen pensiynau) gan ystyried y cyfraddau ar gyfer cyfraniadau Sylfaenol ac Eilaidd.

Newidiadau arwyddocaol yn rhwymedigaethau'r cyflogwr

Mae hyn yn cynnwys y sefyllfaoedd canlynol, ymysg eraill:

1. Bod cyflogwr yn darparu, dileu neu amharu ar ernes, bond, gwarant neu fath arall o indemniad rhag ei rwymedigaethau i'r Gronfa. Er mwyn osgoi amwysedd, mae hynny'n cynnwys darparu ernes i unrhyw drefniant pensiwn arall (e.e. banciau) a fedrai amharu ar yr ernes a ddarparwyd i'r Gronfa.
2. Newid sylweddol yng nghryfder ariannol y cyflogwr yn y tymor byr neu'r rhagolwg ariannol yn y tymor hwy (dylai fod tystiolaeth ar gael i gyfiawnhau hynny), gan gynnwys pan mae cyflogwr yn rhoi'r gorau i weithredu neu'n mynd yn fethdalwr.
3. Ble mae cyflogwr yn dangos ymddygiad sy'n awgrymu newid yn eu gallu a/neu barodrwydd i dalu cyfraniadau i'r Gronfa.

Mewn rhai amgylchiadau, bydd newid mewn rhwymedigaethau hefyd yn arwain at newid yng ngallu cyflogwr i gyflawni ei rwymedigaethau.

Er yn y rhan fwyaf o achosion, bydd diwygio'r cyfamod yn rheolaidd yn amlygu rhai o'r prif newidiadau gan gyflogwr, mewn rhai amgylchiadau bydd yn ofynnol i gyflogwyr gytuno i roi

gwybod i'r Awdurdod Gweinyddu am unrhyw newidiadau sylweddol. Mewn achosion felly fe hysbysir cyflogwyr ar wahân a bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n pennu'r gofynion (mae enghraifft o'r fframwaith digwyddiadau hysbysadwy wedi'i gynnwys yn Atodiad G.

Ceisir gwybodaeth ychwanegol gan y cyflogwr er mwyn penderfynu a oes angen adolygu'r cyfraniadau. Gallai hynny gynnwys adolygu cyfrifon blynyddol, cyllidebau, rhagolygon ac unrhyw fanylion penodol mewn cynlluniau ailstrwythuro. Fel rhan o hyn, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ceisio cyngor Actiwari'r Gronfa yn ogystal ag ymgynghorwyr arbenigol ar gyfamodau, y gyfraith a meysydd eraill.

Ble bydd adolygiad o'r cyfraniad yn cael ei sbarduno gan newid sylweddol yng nghyfamod cyflogwr, byddai unrhyw adolygiad o gyfradd y cyfraniadau'n cynnwys ystyried y sefyllfa ariannol ddiwygiedig (yn barhaus a hefyd ar sail terfynu) ac fel arfer byddai hynny'n galluogi newidiadau mewn gwerth asedau wrth ystyried a fedr y cyflogwr gwrdd â'i rwymedigaethau yn barhaus ac ar sail terfynu (os yw hynny'n berthnasol). Gallai hynny wedyn arwain at gymryd y camau canlynol:

- bod y cyfraniadau'n newid neu'n aros yr un fath, gan ddibynnu ar y canlyniad a/neu;
- darparu ernes i gynyddu'r cyfamod i'r Gronfa a/neu;

Yn achos cyflogwr a allai adael y Gronfa, mae yna ddarpariaeth statudol ar gyfer newid cyfraddau rhwng prisiadau ond mae'n annhebygol y bydd y grym hwn yn cael ei alw heblaw mewn amgylchiadau eithriadol.

Y Broses ar Gyfer Adolygu Cyfraniadau a'r Canlyniad Posib

Pan mae un o'r sefyllfaoedd a restrir yn digwydd bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn dechrau trafodaeth gyda'r cyflogwr i gadarnhau manylion yr hyn sydd wedi digwydd ac unrhyw fwriad sydd gan yr Awdurdod Gweinyddu i adolygu cyfraniadau. Yn y pen draw, yr Awdurdod Gweinyddu sydd i benderfynu a ddylid adolygu cyfraniadau o ganlyniad i un o'r sefyllfaoedd uchod a hynny wedi derbyn unrhyw gyngor angenrheidiol gan ei Actiwari neu ymgynghorydd arbenigol ynghylch y gyfraith neu gyfamodau.

Mae hyn hefyd yn berthnasol pan mae cyflogwr yn hysbysu'r Awdurdod Gweinyddu o'r sefyllfa ac yn gwneud cais i adolygu'r cyfraniadau. Bydd yn ofynnol i'r cyflogwr gytuno i dalu unrhyw gostau proffesiynol a gweinyddol yng nghyswllt yr adolygiad. Bydd yn ofynnol i'r cyflogwr egluro'r sail resymegol a'r achos o blaid yr adolygiad drwy gyfnewid gwybodaeth addas cyn i'r Awdurdod Gweinyddu ystyried y mater.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ystyried a yw'n briodol defnyddio'r data diweddaraf am yr aelodaeth yn ystod yr adolygiad (er enghraifft, lle disgwylir y bydd y newid yn y data'n cael effaith sylweddol ar y canlyniad) ac a yw'n ofynnol i'r cyflogwr ddarparu unrhyw wybodaeth ategol.

Yn ogystal ag adolygu cynllun cyfraniadau'r cyflogwr, efallai y bydd yr adolygiad yn bwrw golwg ar rannau eraill o'r strategaeth gyllido os yw cyfamod y cyflogwr wedi newid, er enghraifft, bydd y Gronfa'n ystyried pethau fel:

- A ddylid addasu'r gyfradd cyfraniadau Sylfaenol er mwyn galluogi unrhyw newid yn y proffil
- A ddylid addasu'r gyfradd cyfraniadau Eilaidd, gan gynnwys a yw hyd y cyfnod adennill a bennwyd yn ystod y prisiad diwethaf yn parhau yn briodol. Gallai hyn arwain at ymestyn y cyfnod adennill os yw'r dystiolaeth yn dangos nad oes modd adennill y diffyg mewn pryd mwyach a bod yr estyniad er pennaf fudd y trethdalwyr, gan ystyried unrhyw ernes a allai fod ar gael; yr Awdurdod Gweinyddu yn unig sydd i benderfynu hynny.

Gall adolygu'r cyfraniadau gymryd hyd at 3 mis ar ôl dyddiad cadarnhau'r cyflogwr bod yr adolygiad yn mynd yn ei flaen, er mwyn casglu'r data angenrheidiol.

Bydd unrhyw newid yng nghyfraniadau cyflogwr yn dod i rym ar y dyddiad a gytunir rhwng y cyflogwr a'r Gronfa. Bydd yr Atodlen i'r Dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau a luniwyd yn y prisiad diwethaf yn cael ei ddiwygio ar sail unrhyw newid mewn cyfraniadau.

Fel rhan o'r broses, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ystyried pa un a yw'n briodol ymgynghori gydag unrhyw gyflogwyr eraill yn y Gronfa cyn gweithredu'r cyfraniadau diwygiedig. Gallai'r Awdurdod Gweinyddu ei hystyried yn briodol gwneud hynny mewn sefyllfaoedd fel pan mae cyflogwr arall yn gweithredu fel gwarantwr yn y Gronfa, lle byddai ymgynghori â'r gwarantwr yn rhan o'r drefn o adolygu cyfraniadau.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn cytuno ar weithdrefn gymesur ar gyfer parhau i fonitro ac adolygu'r sefyllfa o bryd i'w gilydd ar ôl rhoi'r cynllun cyfraniadau diwygiedig ar waith. Bydd yn ofynnol i'r Cyflogwr ddarparu gwybodaeth i'r Gronfa i ategu hynny, a bydd natur y wybodaeth honno'n dibynnu'n rhannol ar y rhesymau dros fwrw ymlaen gydag adolygu'r cyfraniadau.

[Dychwelyd i Adran 1](#)

Atodiad F: Polisi Asesu Monitro Cyfamod

[Dychwelyd i Adran 1](#)

Cyfamod yw rhwymedigaeth gyfreithiol ac atebolrwydd ariannol cyflogwr i gwrdd â'r rhwymedigaethau buddion diffiniedig yn y Gronfa nawr ac yn y dyfodol. Mae cyfamod cyflogwr yn cael ei asesu a'i fonitro'n rheolaidd i ddeall cryfder presennol cyfamod y cyflogwr a sut y gallent newid yn y dyfodol. Mae hyn yn bwysig i gynorthwyo'r Gronfa i benderfynu ar y lefel o risg briodol wrth lunio'r strategaeth fuddsoddi, targedau cyllid cyflogwr a ble bo'r angen, cynlluniau adfer cyflogwr. Felly, mae dealltwriaeth gadarn o gyfamod cyflogwyr yn rhan hanfodol o'r dull integredig i reoli risg y Gronfa.

Mae cyfamod cyflogwyr yn gallu newid yn sydyn ac felly mae asesu cyfamod cyflogwyr o safbwynt gyfreithiol ac ariannol yn weithgaredd parhaus. Mae'r Gronfa yn cynnwys fframwaith sydd wedi datblygu'n dda ac yn gymesur i fonitro cyfamod cyflogwr a nodi newidiadau mewn cyfamod. Mae'r Gronfa yn gallu defnyddio arbenigedd ymgynghorwyr cyfamod allanol pan fo'r angen.

Meini Prawf Risg

Gallai'r meini prawf adolygu ar gyfer fforddiadwyedd ac adfer cyfraniadau cyflogwr gynnwys:

- Natur diwydiant y cyflogwr a'r rhagolygon ar ei gyfer
- Sefyllfa gystadleuol y cyflogwr a'i faint cymharol
- Gallu a chyflawniadau blaenorol y rheolwyr
- Polisi ariannol y cyflogwr
- Proffidioldeb, llif arian a gallu ariannol i fodloni cyfraniadau (parhaus ac wrth adael)
- Statws credyd y cyflogwr
- Sefyllfa'r economi yn gyffredinol
- Agweddau cyfreithiol

Ni fyddai'r cyfan i gyd yn berthnasol wrth asesu risg y cyflogwr o fewn y Gronfa; yn hytrach defnyddir dull cymesur i ystyried y meini prawf uchod, gan roi mwy o ffocws i'r canlynol:

- Graddfa'r rhwymedigaethau i'r cynllun pensiwn o gymharu â swm llif arian gweithredol y cyflogwr
- Y flaenoriaeth a roddir i'r cynllun pensiwn o gymharu â chyllid corfforaethol
- Amcangyfrif o'r swm a allai fod ar gael i'r cynllun pe byddai'r cyflogwr yn mynd yn fethdalwr, yn ogystal â'r tebygolrwydd o hynny.

Asesu Cyfamod y Cyflogwr

Mae cryfder cyfamod y cyflogwr yn gallu amrywio'n fawr dros gyfnodau cymharol fyr, ac felly mae'n hanfodol ei fonitro a'i asesu'n gyson. Caiff cyfamodau'r cyflogwyr eu hasesu a'u monitro'n wrthrychol a chymesur ac ystyrir eu gallu i gwrdd â'u rhwymedigaethau yn y tymor byr a'r tymor hir wrth bennu strategaeth gyllido'r cyflogwr unigol.

Wrth asesu cyfamod cyflogwr canolbwyntir ar gadarnhau'r manylion canlynol:

- Y math o gorff cyflogi a'i wreiddiau
- Natur y cytundebau cyfreithiol ac i ba raddau y gellir eu gorfodi
- P'un a sefydlwyd bond neu beidio, a lefel y bond os oes un
- P'un a ddylid gorfodi cynllun adennill cyflymach
- P'un a oes dewis i alw asedau amodol i mewn
- A oes angen monitro cyllid parhaus a chyllid terfynu cyn y prisiad actiwaraid nesa?

Mae cryfder cyfamod y cyflogwr yn gallu amrywio'n fawr dros gyfnodau cymharol fyr, ac felly maen hanfodol ei fonitro a'i asesu'n gyson.

Bydd cyfamod y cyflogwr yn cael ei asesu'n wrthrychol ac ystyrir ei allu i gwrdd â'i rwymedigaethau yng nghyd-destun amlygiad y Gronfa i risg ac anwadlwydd ar sail yr wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus a/neu wybodaeth y mae'r cyflogwr yn ei darparu. Mae monitro cryfder y cyfamod ynghyd â'r sefyllfa gyllido (gan gynnwys ar sail terfynu) yn galluogi'r Gronfa i ragweld problemau cyflogwyr â chyllido a mynd ati'n rhagweithiol i gynllunio rhagddynt. Er mwyn monitro cryfder cyfamod cyflogwr yn wrthrychol, ochr yn ochr â'r risg i'r Gronfa, adolygir nifer o fetrigau ariannol sylfaenol i ddatblygu trosolwg o sefydlogrwydd y cyflogwr a rhoddir sgôr drwy ddefnyddio trefn sgorio Coch / Oren / Gwyrdd (COG).

Cynhelir ymchwil i gefndir cyflogwyr ac yn ogystal, gellir cysylltu â chyflogwyr i gasglu mwy o wybodaeth. Canolbwyntir ar fonitro cyflogwyr yn gyson ac ymdrin â lliniaru ar risg yn rhagweithiol yn hytrach nac adweithiol. Mae'r sgôr risg cyffredinol yn deillio o gyfuno'r asesiad o'r cyfamod â'r sefyllfa gyllido. Cymerir camau os bydd y metrigau hyn yn cwrdd â sbardunau penodol yng nghyswllt y lefel gyllido, sgôr y cyfamod a'r sgôr risg cyffredinol.

Amllder Gwaith Monitro

Bydd sefyllfa gyllido a chyfradd cyfrannu pob cyflogwr sy'n cymryd rhan yn y Gronfa yn cael ei hadolygu'n fanwl yn ystod prisiad actiwaraid teirblwydd a bydd yn parhau i gael ei fonitro rhwng prisiadau (gan gynnwys ar sail terfynu) yn defnyddio system ar-lein a ddarperir i swyddogion gan Actiwari'r Gronfa. Mae'n bwysig, serch hynny, adolygu cryfder ariannol cyflogwyr yn rheolaidd fel bod modd asesu'r metrigau ariannol yn drylwyr. Mae swyddogion yn defnyddio system ar-lein a ddarperir gan Actiwari'r Gronfa i fonitro'r sefyllfa gyllido (gan gynnwys ar sail terfynu).

Bydd cyflogwyr sy'n destun adolygiad manylach, lle fod meini prawf risg yn cael eu sbarduno, yn cael eu hadolygu bob chwe mis o leiaf, ond yn fwy realistig gyda ffocws chwarterol.

Mewn rhai amgylchiadau, bydd yn ofynnol i gyflogwyr gytuno i hysbysu'r Awdurdod Gweinyddu am unrhyw newidiadau materol yn y cyfamod. Ble bo hyn yn briodol, bydd cyflogwyr yn cael eu hysbysu ar wahân. Mae'r gofynion digwyddiad hysbysadwy wedi eu cynnwys yn Atodiad G.

Rheoli Risg Cyfamodau

Wrth reoli risg y Gronfa canolbwyntir ar adnabod ac ymdrin â risgiau ac mae hyn yn broses barhaus ac esblygol a fydd yn para gydol cyfnod strategaeth y Gronfa. Bydd amryw ddulliau fydd yn cael eu harchwilio gyda chyflogwyr penodol fel y bo'r angen, gan gynnwys (ymysg eraill):

1. Gwarant Rhiant a/neu Fond Indemnio
2. Trosglwyddo i strategaeth buddsoddi ac ar sail actiwaraidd mwy darbodus (e.e. y sail terfynu)
3. Codi'r targed cyllido, cwtogi ar gyfnodau adennill a chynyddu cyfraniadau arian parod
4. Strategaethau ar gyfer ymadael dan reolaeth
5. Asedau amodol a/neu ernes o fath arall fel cyfrifon ysgrow.

[Dychwelyd i Adran 1](#)

Atodiad G: Fframwaith Digwyddiadau Hysbysadwy

Dychwelyd i Adran 1

Mae'r Gronfa yn monitro cyfamod ei gyflogwyr yn rheolaidd. Er yn y rhan fwyaf o achosion, bydd diweddarau'r cyfamod yn rheolaidd yn amlygu rhai o'r prif newidiadau gan gyflogwr, mewn rhai amgylchiadau bydd yn ofynnol i gyflogwyr gytuno i roi gwybod i'r Awdurdod Gweinyddu am unrhyw newidiadau sylweddol. Mae hyn yn unol â'r canllaw a gyhoeddwyd gan Fwrdd Cynghori'r Cynllun yn ddiweddar ('Canllaw i Awdurdodau Gweinyddu') sy'n argymhell y dylai Awdurdodau Gweinyddu gynnwys proses digwyddiadau hysbysadwy o fewn ei bolisiau.

Ystyrrir ei fod er budd pennaf y cyflogwr i hysbysu'r Gronfa am unrhyw ddigwyddiadau hysbysadwy sy'n digwydd. Bydd hyn yn galluogi'r Gronfa i weithio gyda'r cyflogwr i ddod o hyd i ddatrysiad effeithiol, yn arbennig yn ystod adeg o newid neu ofid ariannol a chadw budd y cyflogwr, y Gronfa, yr aelodau a gwarantwr (os oes un yn bodoli) mewn golwg. Mae ymgysylltu buan bob amser yn fwy effeithlon ac effeithiol i bawb na chmau ôl-weithredol.

Drwy beidio hysbysu'r Gronfa am ddigwyddiad hysbysadwy, mae'n bosibl y bydd yn cael ei ystyried fel cam bwriadol i guddio'r wybodaeth neu ohirio'r Gronfa rhag cymryd camau. Os bydd y Gronfa yn ymwybodol o ddigwyddiad na chyfathrebwyd yn agored fel rhan o'r polisi hwn, maent yn cadw'r hawl i weithredu un neu fwy o gamau a nodir isod heb gydsyniad y cyflogwr.

Yn achos cyflogwyr a warantwyd, mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r cyflogwr a'r gwarantwr.

Mae digwyddiad hysbysadwy yn ddigwyddiad neu amgylchiadau sydd, ym marn y Gronfa yn gallu effeithio ar un neu fwy o'r canlynol:

- sail y cyflogwr ar gyfer cyfranogiad parhaus yn y Gronfa
- gallu'r cyflogwr i dalu ei gyfraniadau parhaus i'r Gronfa*
- gallu'r cyflogwr i dalu ei ddyled terfynu i'r Gronfa os bydd yn rhoi'r gorau i gyfrannu at y Gronfa*

* Byddai'r amodau hyn hefyd yn berthnasol ble mae cyflogwr a'r Gronfa wedi dechrau Cytundeb Gohirio Dyled gan ganiatau cyfranogiad parhaus fel Cyflogwr Gohiriedig heb aelodau yn cyfrannu.

Mae'r polisi hwn yn gosod rhestr o ddigwyddiadau nodweddiadol sydd, os yn berthnasol, yn gorfod eu hysbysu i'r Gronfa o fewn cyfnod amser rhesymol. Nid yw'r rhestr yn gyflawn a gellir ei haddasu o dro i dro. Byddai'r Gronfa yn ystyried 10 diwrnod gwaith yn rhesymol yn y mwyafrif o achosion. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd angen hysbysu cyn i'r digwyddiad gael ei gynnal a manylir hyn o fewn yr adrannau perthnasol isod. Bydd y Gronfa yn sicrhau bod holl wybodaeth yn cael ei thrin yn gyfrinachol.

Digwyddiadau y Dylid eu Hysbysu i'r Gronfa

Mae'r Gronfa yn ystyried unrhyw newid a fyddai'n andwyol i naill ai allu'r cyflogwr i gyllido eu rhwymedigaethau pensiwn neu hyfywedd parhaus y cyflogwr i fod yn 'faterol' a 'sylweddol'.

Mae digwyddiadau nodweddiadol y dylid rhoi gwybod amdanynt i'r Gronfa yn cynnwys y canlynol:

Newidiadau arwyddocaol yn aelodaeth/rhwymedigaethau'r cyflogwr

Mae hyn yn cynnwys y sefyllfaoedd canlynol, ymysg eraill:

- i. Newidiadau arwyddocaol yn aelodaeth y cyflogwr a fydd yn cael effaith sylweddol ar ei rhwymedigaethau, megis:
 - a. Ailstrwythuro'r cyflogwr sy'n cynnwys newidiadau sylweddol mewn staffio
 - b. Sefydlu trefniant arwyddocaol i ddarparu gwasanaeth drwy gontract allanol neu drosglwyddo staff i gyflogwr arall (nid o reidrwydd yn rhan o'r Gronfa)*
 - c. Trosglwyddiad swmpus staff i'r cyflogwr, neu o'r cyflogwr i gynllun pensiwn arall*
 - d. Newidiadau arwyddocaol eraill yn yr aelodaeth, megis diswyddiadau, codiadau cyflog sylweddol, ymddeoliadau oherwydd afiechyd neu nifer fawr o achosion o dynnu arian*
 - e. Penderfyniad fydd yn cyfyngu aelodaeth weithredol y cyflogwr yn y dyfodol*
- ii. Dau gyflogwr neu fwy yn uno, gan gynnwys dod â gwasanaethau'n fewnol a throsglwyddo gwasanaethau*
- iii. Cyflogwr yn gwahanu'n ddau o gyflogwyr unigol neu fwy*
- iv. Pryderon am weithgaredd twyll a all gynnwys agweddau pensiynau

*Yn yr enghreifftiau hyn, mae'r Gronfa angen rhybudd ymlaen llaw am ddigwyddiadau o leiaf 14 diwrnod cyn dechrau ymgynghori â staff ynglŷn â newidiadau arfaethedig i bensiynau aelodau. Bydd y Gronfa yn sicrhau bod holl wybodaeth yn cael ei thrin yn gyfrinachol.

Newidiadau arwyddocaol yng nghyfamod y cyflogwr

- i. **Newidiadau sylweddol yng nghryfder / diogelwch ariannol y cyflogwr.**

Newid materol yng nghryfder ariannol uniongyrchol cyflogwr neu ragolygon ariannol tymor hwy. Mae hyn yn cynnwys y sefyllfaoedd canlynol, ymysg eraill (ble bo'n briodol):

- a. Mae rhagolygon cyflogwr yn nodi llai o fforddiadwyedd cyfraniadau.
- b. Gostyngiad sylweddol mewn cyllid (e.e. gostyngiad mewn grantiau, cyllid llywodraeth ganolog neu ffrwd incwm arall).
- c. Darparu diogelwch i unrhyw barti arall gan gynnwys trefniadau pensiwn amgen a benthydwyr.
- d. Amhariad ar ddiogelwch, bond neu warant a ddarparwyd gan gyflogwr i'r Gronfa yn erbyn eu rhwymedigaethau.

- e. Gwerthu neu drosglwyddo asedau sylweddol, ble mae gwerth llyfr net neu werth gwerthiant yn fwy na 10% o asedau net y cyflogwr.
- f. Cynnydd sylweddol mewn paratoi (e.e. derbyn dyled ychwanegol er mwyn ariannu ei weithredoedd)
- g. Mae'r cyflogwr wedi torri'r trefniadau ar daliadau
- h. Torrwyd cyfamod bancio (neu arall) neu mae'r cyflogwr wedi cytuno i hepgor gyda'r benthycwr
- i. Mae swyddogion y cyflogwr yn ceisio cyngor cyfreithiol yng nghyd-destun parhau i fasnachu a/neu'r potensial o fasnachu anghyfiawn.
- j. Mae cyflogwr yn mynd yn fethdalwr

ii. Newid yn amgylchiadau'r cyflogwr

Mae hyn yn cynnwys y sefyllfaoedd canlynol, ymysg eraill ble bo'n briodol:

- a. Y cyflogwr yn uno gyda sefydliad arall
- b. Y cyflogwr yn caffael sefydliad arall neu'n rhoi'r gorau i reolaeth
- c. Cyflogwr yn dechrau dod â'r gwaith i ben neu'n rhoi'r gorau i fasnachu
- d. Newid sylweddol ym model busnes y cyflogwr
- e. Newid yn statws cyfreithiol y cyflogwr (i gynnwys materion a all newid cymhwyster fel cyflogwr cynllun o dan y Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol).
- f. Y cyflogwr yn ymwybodol o amheuaeth/union dwyll sylweddol neu anghysondeb ariannol
- g. Y cyflogwr yn ymwybodol o gamau cyfreithiol neu gamau sylweddol yn y llys yn eu herbyn
- h. Mae uwch staff wedi eu hatal neu euogfarn
- i. Ymchwiliad rheoleiddiol a/neu sancsiwn gan reoleiddwyr eraill
- j. Diffyg achrediad gan gorff proffesiynol, statudol neu reoleiddio

Yn yr enghreifftiau a nodwyd uchod, mae'r Gronfa angen rhybudd ymlaen llaw o'r digwyddiadau hyn (e.e. ar y pryd bod yna benderfyniad mewn egwyddor yn hytrach nag unwaith y bu'r digwyddiad). Bydd y Gronfa yn sicrhau bod holl wybodaeth yn cael ei thrin yn gyfrinachol.

Pa Wybodaeth Ddylid ei Darparu i'r Gronfa?

Bydd y wybodaeth ofynnol yn amrywio yn dibynnu ar y sefyllfa sydd wedi codi. Y cam cyntaf fydd anfon e-bost neu gysylltu â'r Gronfa i'w hysbysu am y digwyddiad.

Pa Gamau Fydd y Gronfa yn eu Cymryd ar ol Cael ei Hysbysu?

Ble bydd un o'r digwyddiadau a restrwyd yn digwydd, bydd y Gronfa yn cynnal trafodaeth gyda'r cyflogwr i egluro manylion y digwyddiad. Os bydd angen, derbynnir cyngor gan Actiwari'r Gronfa, ymgynghorwyr arbenigol cyfreithiol neu gyfamod. Yn dibynnu ar ganlyniad adolygiad y Gronfa o'r sefyllfa, mae camau posibl y gellir eu cymryd o ganlyniad fel a ganlyn:

- a) Nid oes angen gweithredu ymhellach

- b) Cais mwy manwl am wybodaeth bellach a monitro parhaus
- c) Bydd y Gronfa yn adolygu'r ddogfennaeth a ddarparwyd ac yn ymateb ar gamau nesaf
- d) Adolygiad o gyfraniadau'r cyflogwr
- e) Adolygiad o'r cyfnod adfer a ddefnyddiwyd i gyfrif cyfraniadau eilaidd
- f) Adolygiad o'r sefyllfa derfynu a thrafodaethau gyda'r cyflogwr o ran sut fydd hyn yn derbyn sylw
- g) Adolygiad o unrhyw gytundebau gohirio dyled os yn briodol

Bydd cyflogwyr yn cael eu hysbysu am bob cam drwy gydol y broses.

[Dychwelyd i Adran 1](#)

Atodiad H: Trefniadau Yswiriant

[Dychwelyd i Adran 1](#)

Gorolwg ar y Trefniadau

Gall ymddeoliadau oherwydd afiechyd fod yn ddrudd i gyflogwyr, yn enwedig felly cyflogwyr bach lle gallai un neu ddau o ymddeoliadau oherwydd afiechyd fynd â hwy ymhell uwchlaw'r "cyfartaledd" sy'n ymhyg yn y tybiaethau ar gyfer y prisiad.

I rai cyflogwyr yn y Gronfa (yn dilyn trafodaethau gydag Actiwari'r Gronfa) sefydlodd yr Awdurdod Gweinyddu drefniant yswiriant afiechyd i dalu'r holl gostau ymddeol ar sail afiechyd drwy gydgrynhoi'r risgiau hyn ar gyfer cyflogwyr cymwys. Nod y trefniant yw bod cyflogwyr llai o faint, lle gallai ymddeoliad un neu ragor o'u gweithwyr ar sail afiechyd gael effaith sylweddol ar eu sefyllfa gyllido, yn talu premiwm i'r Gronfa o fewn cyfradd eu cyfraniadau gwasanaeth yn y dyfodol. Bu hyn yn berthnasol i bob ymddeoliad ar sail afiechyd ers 1 Ebrill 2017.

Mae'r trefniant yswiriant mewnol yn gweithredu fel a ganlyn:

- Mae'r cyflogwyr cymwys yn talu "premiymau" i'r cynllun daliedig ac mae Actiwari'r Gronfa yn olrhain y rheiny ar wahân wrth wneud y cyfrifiadau ar gyfer prisio. Caiff y premiymau eu cynnwys yng nghyfradd sylfaenol y cyflogwr. Y premiwm ar gyfer 2023/26 yw 0.6% o'r tâl pensiynadwy blyneddol.
- Yna, defnyddir y trefniant yswiriant daliedig i gwrdd â chostau straen (uwchlaw'r premiwm a delir) sy'n deillio o aelodau gweithredol a gohiriedig yn ymddeol ar sail afiechyd; hynny yw, fel nad oes unrhyw effaith gychwynnol ar y sefyllfa ddiffyg ar gyfer cyflogwyr yn y trefniant yswiriant daliedig.
- Pennir y premiymau ar sail y disgwyliad y byddant yn ddigonol i dalu'r costau a gyfyd yn y tair blynedd wedi'r dyddiad prisio. Os caiff unrhyw breimiymau dros ben uwchlaw costau eu cronni yn y trefniant yswiriant, bydd rhain yn cael eu defnyddio i'w gosod yn erbyn profiad niweidiol yn y dyfodol ac/ neu breimiymau is yn ôl disgrisiwn yr Awdurdod Gweinyddu'n seiliedig ar gyngor yr Actiwari.
- Mewn achos o brofiad gwael ar hyd cyfnod prisio bydd y cyflogwyr eraill yn y Gronfa'n gwarantu rhag unrhyw ddiffyg yn y gronfa ddaliedig, i bob pwrpas. Serch hynny, addasir y premiymau yn y dyfodol er mwyn adennill unrhyw ddiffyg dros gyfnod rhesymol o amser gyda'r nod o gadw'r premiymau mor sefydlog â phosib i gyflogwyr. Dros amser, felly, dylai'r trefniant daliedig gyllido ei hun a sicrhau nad oes amrywiadau yng nghyfraniadau gofynnol y cyflogwyr hynny sydd yn y trefniant daliedig.
- Adolygir y premiymau sy'n daladwy rhwng prisiadau gan ddibynnu ar brofiad a'r tueddiadau a ddisgwyllir yng nghyswllt afiechyd. Fe'u haddasir hefyd os oes unrhyw newidiadau ym muddion y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Cânt eu cynnwys yng nghyfraddau'r cyflogwyr ymhob prisiad, neu pan mae cyflogwr newydd yn ymuno â'r Gronfa.

Cyflogwyr sy'n Rhan o'r Trefniant

Mae'r cyflogwyr (yn rhai presennol a rhai newydd) a gaiff eu cynnwys yn y trefniant daliedig yn cynnwys:

- Cyrff Derbyniedig cymunedol eu natur
- Cyngorau Tref a Chymuned

Hysbyswyd y cyflogwyr hynny o'u cyfranogiad. Bydd cyflogwyr newydd sy'n ymuno â'r Gronfa ac sy'n perthyn i'r categorïau uchod yn cael eu cynnwys hefyd. Gall yr Awdurdod Gweinyddu benderfynu, os credir ei fod yn fuddiol i'r cyfamod hirdymor ac iechyd ariannol cyflogwr, cynnwys cyflogwyr penodol (nad ydynt yn perthyn i'r categorïau a restrir uchod) yn y trefniant daliedig. Mae'r Awdurdod Gweinyddu hefyd yn medru eithrio unrhyw gyflogwr er mwyn rheoli risg cyflogwyr yn y Gronfa.

I bob cyflogwr arall nad ydynt yn rhan o'r trefniant daliedig, ymdrinnir ag ymddeoliadau yn yr un mod ag y gwneir ar hyn o bryd. Felly mae'r Gronfa yn parhau i fonitro costau straen ymddeol ar sail afiechyd yn unol â'r lwfans a wnaed yn y rhagdybiaethau actiaraidd. Unwaith y mae'r costau'n mynd yn fwy na'r hyn a ganiateir eir ati i'w hadennill gan y cyflogwr. Gwneir hynny fel arfer wrth wneud y prisiad nesaf, ond gallai ddigwydd yn gynt wrth adolygu'r cyfraniadau, gan gynnwys pan ddaw cyfranogiad cyflogwr i ben.

Cyfrifoldebau Cyflogwr

Ar wahân i'r gweithdrefnau rheoleiddio sydd ar waith i sicrhau y cedwir rheolaeth briodol ar ymddeoliadau oherwydd afiechyd, dylai **cyrff cyflogi fod yn gwneud popeth y gallant i wneud yn siŵr bod prosesau cadarn ar waith i bennu cymhwysedd ymddeol oherwydd afiechyd.**

Bydd y Gronfa a'r Actiwari yn monitro nifer yr ymddeoliadau y mae pob cyflogwr ar y trefniant yswiriant yn eu caniatáu dros amser. Os yw cyflogwr yn cael nifer anarferol o weithwyr yn ymddeol oherwydd afiechyd, rhoddir ystyriaeth i'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y meini prawf cymhwyster y mae'r cyflogwr yn eu defnyddio, ac mae'n bosib y byddai'n ofynnol i'r cyflogwr dan sylw dalu'r costau'n llwyr neu'n rhannol os bernir nad oedd y trefniadau llywodraethu'n ddigon trylwyr.

[Dychwelyd i Adran 1](#)

Atotiad I: Rhestr Termiau

[Dychwelyd i Adran 1](#)

Prisiad Actiwaraid: ymchwiliad gan Actiwari i allu'r Gronfa i gyflawni ei rwymedigaethau. Ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, bydd Actiwari'r Gronfa'n asesu lefel cyllido pob cyflogwr sy'n cyfranogi ac yn cytuno ar y cyfraddau cyfraniadau ar y cyd â'r Awdurdod Gweinyddu er mwyn ariannu costau buddion newydd a gwneud iawn am unrhyw ddiffygion fel y nodir yn Natganiad y Strategaeth Gyllido ar wahân. Mae gwerth yr ased yn seiliedig ar werthoedd y farchnad ar ddyddiad y prisio.

Awdurdod Gweinyddu: y cyngor sydd â'r cyfrifoldeb statudol dros gynnal y Gronfa ac sy'n gyfrifol am bob agwedd ar ei rheoli a'i gweithredu.

Cyrff Derbyn: Math penodol o gyflogwr o dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol nad yw'n gymwys yn awtomatig i gyfranogi yn y Gronfa, ond caniateir iddynt ymuno os ydynt yn bodloni'r meini prawf perthnasol a bennir yn y Rheoliadau.

Meincnod: llinyn mesur y bernir perfformiad y gronfa ar ei sail.

Buddion: Manylir ynghylch y buddion y mae Cronfa Bensiynau Clwyd yn eu darparu yn y ddeddfwriaeth berthnasol, sef y Rheoliadau y cyfeirir atynt o fewn y DSG. Gwarantir y buddion sy'n daladwy o'r Gronfa drwy statud ac felly gwneir addewid sicr i'r aelodau ynghylch eu pensiynau.

Mae'r Gronfa'n drefniant buddion diffiniedig â buddion sydd a wnelont yn bennaf â chyflogau terfynol gan yr aelodau sy'n cyfranogi hyd at 1 Ebrill 2014, ac ar ffurf Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbrisio wedi hynny. Cynigir hefyd ddewis "Cynllun 50:50" lle gall aelodau ddewis cronni dim ond 50% o'r buddion llawn a thalu 50% o'r cyfraniad arferol.

Tybiaeth Amcangyfrif Gorau: tybiaeth lle mae tebygolrwydd 50/50 y cyflawnir y canlyniad.

Bondiau: benthyciadau a roddir i ddyroddwr (llywodraeth neu gwmni yn aml) sy'n ymrwymo i ad-dalu'r benthyciad ar ddyddiad diweddarach y cytunir arno. Mae'r term yn cyfeirio'n gyffredinol at fondiau corfforaethol neu fondiau'r llywodraeth (giltiau).

Cynllun Enillion Cyfartalog Gyrfa Wedi'u Hailbrisio: ers 1 Ebrill 2014 mae'r buddion y mae aelodau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn eu cronni yn fuddion ar ffurf Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbrisio. Bob blwyddyn bydd aelodau'n cronni buddion pensiwn sy'n gyfwerth ag 1 rhan o 49 o'u cyflog pensiynadwy yn y flwyddyn honno. Mae pob pensiwn blynyddol a gronnir yn cynyddu ar sail chwyddiant (yn unol â'r newid blynyddol yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr) ar hyd y cyfnod nes ymddeol.

CMI: Mae'r cwmni cyfyngedig 'Continuous Mortality Investigation' (CMI) yn ymchwilio i brofiadau o farwoldeb a chlefyddedd y gall actiwariaid ei ddefnyddio wrth asesu gofynion cyllido cronfeydd pensiynau a chyrrff eraill.

MPD: acronym ar gyfer "Mynegai Prisiau Defnyddwyr". Mae'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn fodd o fesur chwyddiant drwy gyfrifo prisiau basged o nwyddau a asesir yn flynyddol. Defnyddir gwahanol nwyddau a gwasanaethau o gymharu â'r Mynegai Prisiau Manwerthu. Mae disgwyl i brisiau'r nwyddau hyn gynyddu llai gyda chwyddiant, heb fod mor ansefydlog.

Mae codiadau pensiwn yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gysylltiedig â'r newid blyneddol yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Mynegai Prisiau Defnyddwyr a Chostau Tai: Mesur amgen MPD sy'n cynnwys costau tŷ perchnogion preswyl a Threth y Cyngor (sydd heb eu cynnwys yn y MPD).

Asedau Amodol: asedau a gynhelir gan gyflogwyr yn y Gronfa y gellir galw arnynt gan y Gronfa os na fydd y cyflogwr yn gallu talu'r ddyled sy'n ddyledus adeg terfynu. Bydd y telerau yn cael eu gosod mewn cytundeb ar wahân rhwng y Gronfa a'r cyflogwr.

Cyfamod: cryfder ariannol y cyflogwr fel y'i haseswyd. Mae cyfamod cryf yn arwydd o fwy o allu (a pharodrwydd) i dalu rhwymedigaethau pensiynau yn yr hirdymor. Mae cyfamod gwannach yn golygu ei bod yn ymddangos y gallai'r cyflogwr ei chael yn anodd cwrdd â'i holl rhwymedigaethau pensiwn yn y tymor hwy, neu fod cyfyngiadau ar fforddiadwydd yn y tymor byr.

Cytundeb Gohirio Dyled: Cytundeb ysgrifenedig rhwng yr Awdurdod Gweinyddu a chyflogwr sy'n ymadael â'r Gronfa fel bod y cyflogwr hwnnw'n gohirio ei rhwymedigaeth i gyflwyno tâl ymadael a dal i wneud cyfraniadau ar y gyfradd Eilaidd fel y'i haseswyd hyd oni therfynir y Cytundeb Gohirio Dyled.

Cyflogwr Gohiriedig: Cyflogwr sydd wedi sefydlu Cytundeb Gohirio Dyled â'r Gronfa.

Diffyg: y swm y mae gwerth rhwymedigaethau'r Gronfa am wasanaeth a roddwyd yn fwy na gwerth asedau'r Gronfa. Mae a wnelo hyn â'r asedau a rhwymedigaethau a gronwyd hyd yn hyn, a diystyir unrhyw bensiwn a gronnir yn y dyfodol (gan y tybir y bydd cyfraniadau yn y dyfodol yn ariannu hynny i bob pwrpas).

Cyfnod Adennill Diffyg: y cyfnod o amser y bwriedir talu'r diffyg presennol ynddo. Bydd cyfnod byrrach yn golygu mwy o gyfraniad blyneddol ac un hwy'n golygu cyfraniad llai.

Deilliadau: Offerynnau ariannol cysylltiedig â pherfformiad asedau penodol y gellir eu defnyddio i chwyddo neu leihau datgeliad i'r asedau hynny.

Cyfradd Disgownt: y gyfradd llog a ddefnyddir i drosi swm o arian parod, fel taliadau buddion a fydd yn digwydd yn y dyfodol, er enghraifft, i'r gwerth presennol. Po fwyaf yw'r gostyngiad, po leiaf yw'r rhwymedigaethau, ac fel arall.

Straen Ymddeoliad Cynnar: cost ychwanegol i gyflogwr cynllun o ganlyniad i ganiatau i Aelod Cynllun 55 oed neu hŷn i ymddeol cyn Oed Ymddeol Arferol a derbyn pensiwn llawn yn seiliedig ar gronni gwasanaeth dyddiad ymddeol heb ostyngiad actiwaraid llawn.

Cyfradd Gyfraniadau Sylfaenol y Cyflogwr: cyfradd y cyfraniadau sy'n ofynnol i dalu costau'r buddion sy'n cronni yn y dyfodol, gan gynnwys buddion ategol, marw yn y swydd ac afiechyd yn ogystal â chostau gweinyddu. Mynegir hyn ar ffurf canran o'r cyflog pensiwnadwy, gan ddiystyru unrhyw warged neu ddiffyg yng nghyswllt gwasanaeth yn y gorffennol, ond gan ystyried unrhyw amgylchiadau sy'n benodol i'r cyflogwr, fel ei broffil aelodaeth, y strategaeth gyllido a fabwysiadwyd ar gyfer y cyflogwr dan sylw, y dull actiwaraid a ddefnyddiwyd a/neu gyfamod y cyflogwr. Y Gyfradd Gyfraniadau Sylfaenol i'r Gronfa gyfan yw'r cyfartaledd pwysedig (yn ôl cyflogresi) Cyfraddau Cyfraniadau Sylfaenol yr holl gyflogwyr unigol.

Cyfradd Gyfraniadau Eilaidd y Cyflogwr: addasiad yn y Gyfradd Sylfaenol ar sail unrhyw ddiffyg neu warged yn y gorffennol, er mwyn cyfrifo'r gyfradd y mae'n ofynnol i bob cyflogwr ei thalu. Gellid mynegi'r gyfradd Eilaidd fel addasiad canrannol yn y Gyfradd Sylfaenol, a/neu addasiad arian parod ym mhob un o'r tair blynedd sy'n dechrau ar 1 Ebrill yn y flwyddyn ar ôl yr un y mae'r dyddiad prisio ynddi. Manylir ynghylch y Gyfradd Eilaidd ar y Dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau. Y gyfradd y mae'n ofynnol i'r cyflogwr ei thalu mewn gwirionedd yw cyfanswm y cyfraddau Sylfaenol ac Eilaidd. Datgelir y Cyfraddau Eilaidd ar gyfer y gronfa gyfan ym mhob un o'r tair blynedd hefyd. Cyfrifir y rhain ar ffurf cyfartaledd pwysedig yn seiliedig ar y gronfa gyflogau lawn ar gyfer cyfraddau canrannol ac fel cyfanswm ar gyfer addasiadau arian parod.

Cyrff Cyflogi: unrhyw sefydliad sy'n cyfranogi o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, gan gynnwys cyrff derbyniedig a chyflogwyr y cynllun.

Ecwiti: cyfranddaliadau mewn cwmni sy'n cael eu prynu a'u gwerthu ar gyfnewidfa stoc.

Diogelu Ecwiti: contract yswiriant sy'n darparu diogelwch yn erbyn cwympiadau mewn marchnadoedd ecwiti. Gan ddibynnu ar y strwythur prisio gellid ariannu hynny drwy ildio rhywfaint o'r cynnydd posib yng ngwerth y buddsoddiad yn sgil enillion mewn marchnadoedd soddgyfrannau.

Credyd Ymadael: y swm sy'n daladwy o'r Gronfa i gyflogwr sy'n ymadael mewn sefyllfa lle mae'r cyflogwr dan sylw'n benderfynol o fod â gwarged wrth derfynu ei gyfranogiad, yn seiliedig ar asesiad terfynu gan Actiwari'r Gronfa.

Llwybr Hedfan: fframwaith sy'n diffinio proses ddileu risg lle y lleiheir amlygrwydd i asedau twf pan mae'n fforddiadwy gwneud hynny; hynny yw, pan gyflawnir "sbardunau" er bod disgwyl cyflawni'r targed ariannu cyffredinol yn y pen draw.

Lefel Cyllido Neu Ddiddyledrwydd: y gymhareb rhwng gwerth asedau'r Gronfa a gwerth rhwymedigaethau'r Gronfa wedi'i mynegi ar ffurf canran.

Datganiad y Strategaeth Gyllido: dogfen lywodraethu allweddol sy'n egluro sut y bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n rheoli cyfraniadau'r cyflogwyr i'r Gronfa.

Giltiau: benthyciadau a wneir i Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol y mae'r Llywodraeth yn ymrwymo i'w had-dalu ar ddyddiad diweddarach y cytunir arno. Pennir y "cwpon" (hynny yw, swm y llog a delir fel rhan o gytundeb y benthyciad) a swm y setliad terfynol drwy gytundeb ar ddechrau cyfnod y benthyciad.

Adran Actiwari'r Llywodraeth: yr adran sy'n gyfrifol am roi cyngor actiwaraid i gleientiaid yn y sector cyhoeddus. Mae'n adran anweinidogol o Drysorlys Ei Fawrhydi.

Gwarant / Gwarantwr: addewid ffurfiol gan drydydd parti (y gwarantwr) y bydd yn bodloni unrhyw rwymedigaethau pensiwn na fodlonwyd gan gyflogwr penodol. O gael gwarantwr gall y Gronfa, er enghraifft, ystyried cyfamod y cyflogwr i fod mor gryf ag un ei warantwr.

Mantoli: strategaeth sydd â'r nod o leihau ansefydlogrwydd cyllid. Gwneir hyn drwy fuddsoddi mewn asedau sy'n cyflawni gwir arenillion sy'n cyfateb i'r lefelau a gytunwyd, fel bod yr asedau'n efelychu'r newid mewn rhwymedigaethau.

Cyfradd Mantoli: Lefel y warchodaeth ar ffurf canran o'r rhwymedigaethau. Gall fod a wnelo hyn â chyfraddau llog, cyfraddau chwyddiant neu gyfraddau enillion go iawn.

Cronfa Afiechyd Ddaliedig: cronfa dybiannol sydd â'r nod o ddiogelu cyflogwyr penodol rhag costau afiechyd gormodol yn gyfnewid am bremiwm yswiriant cytunedig. Mae'n gweithio fel polisi yswiriant; mae cyflogwyr sy'n rhan o'r trefniant daliedig yn talu premiwm ac yn gyfnewid mae'r cynllun yn talu unrhyw gostau afiechyd a gyfyd yn y dyfodol ymysg aelodau'r cyflogwr, ar yr amod y bodlonir meini prawf y polisi.

Giltiau Mynegai-Gysylltiol: benthyciadau a wneir i Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol y mae'r Llywodraeth yn ymrwymo i'w had-dalu ar ddyddiad diweddarach y cytunir arno. Addasir y cwpon (hynny yw, y llog a delir fel rhan o gytundeb y benthyciad) a swm y setliad terfynol yn unol â newidiadau yn chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu fel eu bod yn cadw eu 'gwir' werth dros amser ac er mwyn gochel rhag effeithiau posib chwyddiant.

Y Strategaeth Fuddsoddi: trefn hirdymor o ddyrannu asedau mewn amryw ddosbarthiadau gan ystyried amcanion y Gronfa a'r ymagwedd at risg.

Cyflogwr Gosod: cyflogwr sy'n gosod rhan o'i wasanaethau/gweithlu ar gytundeb allanol gyda chyflogwr arall, sydd fel arfer yn contractwr. Bydd y contractwr yn cyfrannu at fuddion y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a gronnir gan yr aelodau hynny sy'n trosglwyddo, ond yn y pen draw bydd y cyfrifoldeb dros dalu am y buddion hynny'n dychwelyd i'r cyflogwr gosod.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol: trefniant pensiynau yn y sector cyhoeddus, wedi'i sefydlu drwy Reoliadau'r Llywodraeth, ar gyfer gweithwyr mewn llywodraeth leol. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn pennu cymhwyster, cyfraddau cyfraniadau'r aelodau, cyfrifiadau buddion a rhai gofynion penodol ynghylch trefniadau llywodraethu.

Rhwymedigaethau: gwerth presennol yr holl fuddion ar sail cyfrifiad yr actiwari; hynny yw, llif arian y cynllun o bob aelod o'r Gronfa, a gronnwyd hyd yma neu yn y dyfodol. Caiff y rhwymedigaethau ar gyfer y buddion a gronnir hyd y dyddiad prisio eu cymharu â gwerth presennol asedau'r Gronfa ar y farchnad er mwyn pennu'r lefel diffyg a chyllido/diddyledrwydd. Gellir asesu rhwymedigaethau ar sail amryw dybiaethau actiwaraid gan ddibynnu beth yw diben y prisiad.

Buddsoddiadau a Gymhellir gan Rhwymedigaethau: dull o fuddsoddi sy'n gymysgedd o amryw giltiau, sy'n golygu y gall y Gronfa ddiogelu rhan o'i hasedau rhag newidiadau mewn rhwymedigaethau er mwyn gwarchod rhag newidiadau mewn cyfraddau llog a/neu ddisgwyliadau'r farchnad ynghylch chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu.

Effeithlonrwydd Cost Hirdymor: mae hwn yn fesur o faint mae polisiâu'r Gronfa yn mynd i'r afael â'r angen i gydbwyso pwysau cyllideb uniongyrchol gyda rhoi baich dyled gormodol na ddymunir ar genedlaethau'r dyfodol.

Aeddfedrwydd: term cyffredinol i ddisgrifio Cronfa (neu safle cyflogwr mewn Cronfa) lle mae aelodau'n nes at ymddeoliad (neu fod mwy ohonynt eisoes wedi ymddeol) a gorwel y cyfnod buddsoddi'n fyrrach. Mae goblygiadau i hynny yng nghyswllt y strategaeth fuddsoddi ac felly hefyd y strategaeth gyllido.

Dyfarniad McCloud: Mae hyn yn cyfeirio at yr achosion cyfreithiol cysylltiedig Sargeant a McCloud, lle dyfarnwyd fod y trefniadau diogelu trosiannol (a ddarparwyd i aelodau hyn pan ddiwygiwyd cynlluniau pensiynau gwasanaethau cyhoeddus yn 2014/15) yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail oedran.

Aelodau: Yr unigolion hynny sydd wedi cronni (ac sydd efallai'n dal i gronni) buddion yn y Gronfa. Fe'u rhennir yn aelodau gweithredol (aelodau sy'n weithwyr ar hyn o bryd), gohiriedig (cyn-weithwyr nad ydynt wedi ymddeol eto) a phensiynwyr (cyn-weithwyr sydd bellach wedi ymddeol, a dibynyddion cyn-weithwyr a fu farw).

Sail Risg Leiaf: dull o bennu'r gyfradd ostyngol a ddefnyddir wrth asesu rhwymedigaethau ar sail enillion y farchnad o fuddsoddi mewn bondiau'r Llywodraeth, yn seiliedig ar hyd priodol y rhwymedigaethau dan asesiad. Gellir defnyddio hwn fel meincnod i asesu lefel gwytnwch ar arenillion buddsoddi yn y dyfodol yn y strategaeth gyllido ac felly lefel awch am risg mewn dewis o strategaeth fuddsoddi Cronfa. Mabwysiadir y dull hwn fel arfer pan mae cyflogwr yn ymadael â'r Gronfa.

Rhwymedigaethau Heb eu Priodoli: rhwymedigaethau yn y Gronfa nad oes yr un cyflogwr yn gyfrifol amdanynt. Yn y pen draw, rhaid i holl gyflogwyr eraill y Gronfa warantu rhwymedigaethau heb eu priodoli.

Rhwymedigaethau Gwasanaeth yn y Gorffennol: dyma werth presennol y buddion y mae'r aelodau wedi'u cronni hyd y dyddiad prisio. Asesir hyn ar sail cyfres o dybiaethau y mae'r Awdurdod Gweinyddu a'r Actiwari'n cytuno arnynt.

Canraddau: sgôr cymharol (mewn canfedau) unrhyw ystod benodol. Er enghraifft, wrth ystyried enillion disgwylidig byddai sgôr canraddol o 75 yn dangos y byddai'r enillion yn fwy na'r swm a nodir mewn 25% o achosion, ac yn llai mewn 75% o achosion.

Pennu Cyfraniadau Graddol / Fesul Cam: pan mae gofynion cyfrannu hirdymor cyflogwr yn cynyddu / gostwng, gellir cynyddu'r cyfraniadau'n raddol / fesul cam dros gyfnod y cytunir arno. Gallai'r camau/graddau fod yn hafal neu gellir sefydlu trefniant unigryw i bob cyflogwr.

Cydgrynhoi: gellir rhoi cyflogwyr mewn grwpiau â'i gilydd er mwyn cyfrifo cyfraddau cyfraniadau (hynny yw, pennu'r un gyfradd gyfraniadau ar gyfer pob cyflogwr yn y grŵp dan sylw). Gallai fod yn ofynnol, serch hynny, i bob cyflogwr unigol yn y grŵp dalu ei gyfran ei hun o unrhyw ddiffyg yn y pen draw, neu (os cytunir yn ffurfiol) gellid trosglwyddo diffygion rhwng un cyflogwr â'r llall.

Rhagdalau: cyflogwyr yn talu eu cyfraniadau i'r Gronfa'n gynt na'r dyddiad y mae'r Actiwari wedi'i bennu. Gostyngir y swm a delir o gymharu â'r swm ardystiedig i gydnabod y taliad cynnar.

Gwerth Presennol: gwerth y taliadau buddion a ragwelir, wedi'u disgowntio'n ôl i'r dyddiad prisio.

Cyfradd sylfaenol cyfraniad y cyflogwyr: gweler y diffiniad o Gyfradd Gyfraniadau Sylfaenol y Cyflogwr.

Proffil: mae proffil aelodaeth neu rhwymedigaethau cyflogwr yn cyfateb i amryw fesuriadau o aelodau'r cyflogwr hwnnw; hynny yw, gweithwyr presennol a chyn-weithwyr. Mae hynny'n cynnwys y gyfran ohonynt sy'n aelodau gweithredol, aelodau gohiriedig neu'n bensiynwyr; yr oedran ar gyfartaledd ymhob categori; symiau amrywiol cyflogau neu bensiynau; hyd gwasanaeth yr aelodau gweithredol o gymharu â'u cyflogau, ac yn y blaen.

Tybiaeth Ddarbodus: tybiaeth y mae tebygolrwydd mwy na 50/50 o'i gwireddu; hynny yw, mae'r canlyniad yn fwy tebygol o fod yn fwy na'r hyn a dybir ac nid yn llai. Mae'n ofynnol yn

ôl y Ddeddfwriaeth a'r Canllawiau bod y tybiaethau a wneir yn gyffredinol ar gyfer prisiad actiwaraidd yn rhai darbodus.

Tystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau: dogfen ffurfiol sy'n ofynnol dan Reoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, y mae'n rhaid ei diwygio o leiaf unwaith bob tair blynedd wedi cwblhau'r prisiad ffurfiol. Yr actiwari sy'n gwneud hynny, gan gadarnhau'r cyfraniadau y bydd yn ofynnol i bob cyflogwr (neu grŵp o gyflogwyr) eu talu i'r Gronfa yn y tair blynedd nes y prisiad nesaf.

Gwir Gyfradd Enillion neu Wir Gyfradd Disgownt: cyfradd enillion neu ostyngiadau heb gynnwys chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Cynllun Adennill: os yw lefel cyllido unrhyw gyflogwr yn fwy neu'n llai na 10% ar y dyddiad priso (hynny yw, bod asedau'r cyflogwr hwnnw'n fwy neu'n llai na'r rhwymedigaethau), efallai y bydd angen cynllun adennill er mwyn dychwelyd i lefel cyllido o 100% dros gyfnod penodol; hynny yw, adennill y diffyg neu wario unrhyw warged ("y cyfnod adennill", fel y'i diffinnir yn Natganiad y Strategaeth Gyllido). Bydd y cynllun adennill yn pennu'r cyfraniadau eilaidd y mae'n ofynnol i'r cyflogwr eu talu yn ystod y cyfnod adennill. Gall cyfraniadau eilaidd fod yn bositif neu'n negyddol (hynny yw, eu gosod yn erbyn costau a fydd yn cronni yn y dyfodol) ond cyfyngir ar swm y cyfraniadau negyddol. Bydd cyfraniadau eilaidd yn berthnasol, fel y nodir ym mholisi'r Gronfa.

Sail Gyllido neu Sail Bwrdd Cyngori'r Cynllun Pensiynau Llywodraeth Leol: cyfres o dybiaethau actiwaraidd y mae Bwrdd Cyngori'r Cynllun Pensiynau Llywodraeth Leol yn eu pennu. Y diben yw pennu'r sefyllfa gyllido ar gyfer dull safonedig fel bod modd cymharu â Chronfeydd eraill y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, ac i gynorthwyo â'r "adolygiad Adran 13" y mae Adran Actiwari'r Llywodraeth yn ei gynnal. Er enghraifft, roedd Sylfaen y Bwrdd Cyngori ar 31 Mawrth 2019 yn seiliedig ar gyfradd disgownt wirioneddol uwchlaw'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr o 2.4% y flwyddyn, ac felly gall fod yn sylweddol wahanol i'r tybiaethau actiwaraidd a ddefnyddir wrth gyfrifo diddyledrwydd sefyllfa gyllido'r Gronfa a chanlyniadau cyfraniadau ar gyfer cyflogwyr.

Cyrff Rhestredig: mathau o gyflogwyr sydd wedi'u diffinio'n benodol yn Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, ac y mae'n rhaid cynnig iddynt fod yn aelodau o'u Cronfa leol yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r rhain yn cynnwys Cyngorau, colegau, prifysgolion, awdurdodau heddlu a thân ac yn y blaen, ac eithrio cyflogwyr y mae yno gynlluniau pensiwn sector cyhoeddus gwahanol ar eu cyfer (er enghraifft, athrawon, swyddogion yr heddlu a'r gwasanaeth tân, darlithwyr prifysgol).

Cyflogwyr y Cynllun: cyflogwyr sydd â'r hawl statudol i gyfranogi o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Ni fyddai angen i'r sefydliadau hynny (a nodir yn Rhan 1, Atodlen 2 o Reoliadau 2013) ddynodi cymhwyster, fel sy'n ofynnol i Gyflogwyr Rhan 2 yn y Cynllun.

Prisiad Adran 13: yn unol ag Adran 13 o Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2014, comisiynwyd Adran Actiwari'r Llywodraeth i gynghori'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ynghylch adolygu prisiadau actiwaraidd 2022 ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Drwy hyn, felly, asesir holl Gronfeydd y Cynllun yn ôl cyfres safonedig o dybiaethau.

Cyfradd Gyfraniadau Eilaidd y Cyflogwr: addasiad yn y Gyfradd Sylfaenol ar sail unrhyw ddiffyg neu waged yn y gorffennol, er mwyn cyfrifo'r gyfradd y mae'n ofynnol i bob cyflogwr ei thalu. Gellid mynegi'r gyfradd Eilaidd fel addasiad canrannol yn y Gyfradd Sylfaenol, a/neu addasiad arian parod ym mhob un o'r tair blynedd sy'n dechrau ar 1 Ebrill yn y flwyddyn ar ôl yr un y mae'r dyddiad prisio ynddi. Manylir ynghylch y Gyfradd Eilaidd ar y Dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau. Y gyfradd y mae'n ofynnol i'r cyflogwr ei thalu mewn gwirionedd yw cyfanswm y cyfraddau Sylfaenol ac Eilaidd.

Lefel Cyllido neu Ddiddyledrwydd: y gymhareb rhwng gwerth asedau'r Gronfa a gwerth rhwymedigaethau'r Gronfa wedi'i mynegi ar ffurf canran.

Targed Cyllido Diddyledrwydd: asesiad o werth presennol y buddion a gaiff eu talu yn y dyfodol. Y targed cyllido a ddymunir yw cyflawni lefel diddyledrwydd o 100%; hynny yw, bod yr asedau'n hafal i'r rhwymedigaethau gwasanaeth a gronnwyd ar y dyddiad prisio, wedi'u hasesu ar sail busnes gweithredol.

Costau Straen: y costau sy'n codi pan fydd aelod yn ymddeol cyn eu dyddiad ymddeol arferol ac yn derbyn eu pensiwn ar unwaith heb ostyngiad actiwaraid. O ran y Gronfa, ble nad yw'r ymddeoliad wedi'i achosi gan salwch, mae'r costau hyn yn cael eu hanfonebu yn uniongyrchol i gyflogwr yr aelod sy'n ymddeol ar y dyddiad ymddeol a'u trin gan y Gronfa fel cyfraniadau ychwanegol. Mae'r costau yn cael eu cyfrifo gan yr Actiwari.

Sail Cyllido Prisiad: y tybiaethau ariannol a demograffig sy'n sail ar gyfer pennu gofynion cyfraniadau'r cyflogwyr. Mae'r gyfradd ostyngol berthnasol a ddefnyddir wrth brisio gwerth presennol y rhwymedigaethau'n cyfateb i'r gyfradd enillion ddisgwyliedig ar fuddsoddiadau'r Gronfa. Mae hyn yn cynnwys disgwyliad y bydd perfformiad yn rhagori ar giltiau yn y tymor hir mewn dosbarthiadau asedau eraill ym meddiant y Gronfa.

Cynllun 50/50: yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth leol mae aelodau gweithredol yn cael dewis cronni llai o fuddion yn y Cynllun 50/50, yn gyfnewid am dalu llai o gyfraniadau.

[Dychwelyd i Adran 1](#)

Atodiad 11: Datganiad Strategaeth Fuddsoddi (Tachwedd 2023)

Gofyniad Statudol am Ddatganiad y Strategaeth Fuddsoddi

Cyngor Sir y Fflint yw'r Awdurdod Gweinyddu sy'n gyfrifol am gynnal a rheoli Cronfa Bensiynau Clwyd (y Gronfa) ar ran ei budd-ddeiliaid; aelodau'r cynllun a chyflogwyr sy'n cymryd rhan yn y Gronfa. Amlinellir y cyfrifoldebau hyn yn bennaf yn Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol; amlinellir y fframwaith rheoleiddio isod.

Mae Rheoliad 7(1) o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016 (Rheoliadau Buddsoddi CPLIL), sy'n disodli Rheoliadau Buddsoddi 2009, yn mynnu bod awdurdodau sy'n gweinyddu yn ffurfio Datganiad y Strategaeth Fuddsoddi sy'n gorfod bod yn unol â'r canllawiau a roddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae hyn yn disodli'r gofyniad presennol i gynhyrchu a chynnal Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi.

Rhaid i'r Datganiad gynnwys:

- Gofyniad i fuddsoddi arian mewn amrywiaeth eang o fuddsoddiadau
- Asesiad yr awdurdod o addasrwydd buddsoddiadau penodol a mathau o fuddsoddiadau
- Ymagwedd yr awdurdod at risg, gan gynnwys y ffordd y caiff risgiau eu mesur a'u rheoli
- Ymagwedd yr awdurdod at grynhoi buddsoddiadau, gan gynnwys defnyddio cerbyd buddsoddi ar y cyd a rhannu gwasanaethau
- Ymagwedd yr awdurdod at sut y caiff ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol neu gorfforaethol eu hystyried wrth ddethol, peidio â dethol, cynnal a gwireddu buddsoddiadau a
- Pholisi'r awdurdod ar arfer hawliau (gan gynnwys hawliau pleidleisio) ynghlwm wrth fuddsoddiadau.

Rhaid i'r Datganiad hefyd amlinellu'r uchafswm o ran canran o werth llawn bob buddsoddiad y bydd yn ei fuddsoddi mewn buddsoddiadau penodol neu ddosbarthiadau o fuddsoddiadau. Mae hyn, i bob pwrpas, yn disodli Atodlen 1 Rheoliadau 2009.

Rhaid cyhoeddi'r datganiad erbyn 1 Ebrill 2017 a'i adolygu'n rheolaidd ac o leiaf bob tair blynedd.

Dyluniwyd Datganiad gwreiddiol Cronfa Bensiynau Clwyd er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac roedd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2017. Mae wedi'i adolygu'n rheolaidd ac fe'i diweddarwyd yn 2023.

Dylid darllen y Datganiad ar y cyd â'r dogfennau statudol a ganlyn:

- Datganiad y Strategaeth Gyllido
- Polisi Llywodraethu a Datganiad Cydymffurfio
- Strategaeth Gyfathrebu

- Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon
- Prisiad Actiwaraid

Gellir dod o hyd i'r holl ddatganiadau a dogfennau uchod ar wefan y Gronfa ar

<https://cronfabensiynauclwyd.org.uk>


Ynglŷn â'r Gronfa

Pwrpas Cronfa Bensiynau Clwyd yw darparu buddiannau marwolaeth ac ymddeol ar gyfer gweithwyr llywodraeth leol (ac eithrio athrawon, yr heddlu a diffoddwyr tân) yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, a gweithwyr o gyrff cymwys eraill sy'n darparu gwasanaethau tebyg.

Llywodraethu a Rheoli'r Gronfa

Mae Cyngor Sir y Fflint ("y Cyngor") wedi dirprwyo'r gwaith o benderfynu ynghylch y Gronfa a'i rheoli i Bwyllgor Cronfa Bensiynau ffurfiol ("y Pwyllgor"), wedi'i gefnogi gan Banel Ymgynghorol Pensiynau ("y Panel"). Cyn gwneud penderfyniadau buddsoddi strategol, mae'r Gronfa yn cael cyngor gan ymgynghorydd buddsoddi rheoledig; Mercer, sydd hefyd yn rhoi cyngor Rheoli Risg ac Ariannu. Y Rheolwr Cyllid Corfforaethol yw'r Swyddog Adran 151 y Cyngor ac sydd felly â chyfrifoldeb statudol dros faterion ariannol priodol y Cyngor, gan gynnwys materion y Gronfa.

Amlinellir strwythur llywodraethu'r Gronfa yn y diagram isod.



Nodau ac Amcanion

Ein Datganiad Cenhadaeth yw:

- cael ein hadnabod fel sefydliad blaengar, ymatebol, rhagweithiol a phroffesiynol sy'n darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y cwsmeriaid, sydd ag enw da ac sy'n gredadwy, i'r holl gwsmeriaid.
- bod wedi meithrin diwylliant corfforaethol o ymwybyddiaeth risg, llywodraethu ariannol, a byddwn yn darparu gwasanaethau nodedig, o'r ansawdd uchaf, yn unol ag adnoddau'r gyllideb.
- gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid, gan ganolbwyntio ar atebion, gydag ymagwedd sy'n credu yn ein gallu i gyflawni.

Mae hyn yn berthnasol i'r dull o fuddsoddi arian y Gronfa yn ogystal â rheoli'r Gronfa gyffredinol. Datblygwyd y Datganiad o Fwriad i arwain rheolaeth pob agwedd ar y Gronfa.

Rhoddir crynodeb isod o'r amcanion penodol yn ymwneud ag ariannu a rheoli buddsoddiad y Gronfa isod:

- Cyflawni a chynnal asedau sy'n hafal i 100% o rwymedigaethau o fewn y terfyn amser cyfartalog o ddeuddeg mlynedd, gan gadw o fewn terfynau risg rhesymol
- Pennu gofynion cyfraniadau'r cyflogwyr, gan gydnabod y cyfyngiadau ar fforddiadwyedd a chryfder cyfamod pob cyflogwr, gyda'r nod o sicrhau bod y cyfraniad y gofynnir amdano gan y cyflogwyr mor rhagweladwy â phosib.
- Gan gydnabod y cyfyngiadau ar fforddiadwyedd i gyflogwyr, anelu at ddigon o elw dros ben ar fuddsoddiadau o gymharu â'r twf mewn rhwymedigaethau.
- Taro'r cydbwysedd priodol rhwng perfformiad cyson hirdymor buddsoddiadau a'r amcanion cyllido.
- Rheoli rhwymedigaethau cyflogwyr yn effeithiol drwy fabwysiadu amcanion cyllido penodol i bob cyflogwr.
- Sicrhau y gellir cwrdd â gwariant arian parod net os/pan gyfyd yr angen
- Cadw swm dyledion nad oes modd eu hadennill mor isel â phosib wrth derfynu cyfranogiad cyflogwyr
- Sicrhau bod ei strategaeth, gweithredoedd rheoli buddsoddiadau, gweithdrefnau llywodraethu ac adrodd yn rhoi ystyriaeth lawn i risgiau tymor hwy a chynnaladwyedd.
- Sicrhau bod buddsoddiadau'r Gronfa'n cyd-fynd â'r newid i economi carbon isel drwy ymrwymiad i gyflawni targed allyriadau sero carbon deuocsid net erbyn 2045
- Hyrwyddo derbyn egwyddorion cynnaladwyedd a gweithio gydag eraill i wella effeithiolrwydd y Gronfa wrth roi'r egwyddorion hynny ar waith.

- Anelu at ddefnyddio Partneriaeth Pensiwn Cymru fel y dewis cyntaf i fuddsoddi asedau'r Gronfa, yn ddibynnol arni'n gallu bodloni gofynion strategaeth ac amcanion buddsoddi'r Pwyllgor (yn cynnwys gofynion cynaliadwyedd), o fewn costau tymor hir derbyniol i ddarparu'r buddion disgwylidig ac yn destun hyder parhaus wrth lywodraethu'r Bartneriaeth.

Mae'r camau gweithredu allweddol a'r meysydd ffocws sydd wedi'u nodi er mwyn cyflawni'r amcanion hyn wedi'u cynnwys yng nghynllun busnes y Gronfa, er mwyn alinio â nodau ac amcanion allweddol y strategaeth hon.

Ymagwedd at gronni

Mae Rheoliad Buddsoddi CPLIL 7(2) (d) yn gorchymyn fod pob awdurdod yn ymrwymo i gronfa addas i gyflawni bendithion meintiol. Mae hefyd yn gorchymyn fod awdurdodau gweinyddu yn cadarnhau fod y gronfa fuddsoddi ddewisol yn cwrdd â meini prawf diwygio buddsoddiad y Llywodraeth, neu i'r graddau nad yw'n gwneud hynny, mae'r Llywodraeth yn fodlon iddo barhau.

O fewn Cymru, mae'r holl Gronfeydd sydd yn gweinyddu awdurdodau wedi cytuno i gydweithio a llofnodwyd Gytundeb Rhwng Awdurdodau ganddynt i greu Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) a'r egwyddorion o sut mae'n gweithredu.


Amcanion y PPC yw:

- Darparu trefniadau cronni sy'n caniatáu cronfeydd unigol i gyflwyno eu strategaethau buddsoddi eu hunain (lle bo hynny'n ymarferol).
- Cyflawni'r arbedion cost gwirioneddol ar gyfer cronfeydd sy'n cymryd rhan a hefyd gwella neu gynnal perfformiad buddsoddi ar ôl ffioedd.
- Cyflwyno trefniadau llywodraethu cadarn i oruchwylio gweithgareddau'r Gronfa.
- Gweithio'n agos gyda chronfeydd eraill er mwyn archwilio'r buddion y gall pob budd-ddeiliad yng Nghymru eu cael o ddatrysiadau cronni ehangach neu fuddsoddiadau uniongyrchol posibl.
- Darparu fframwaith fuddsoddi sydd yn cyflawni'r canlyniadau oriau ar gyfer ei phrif rhanddeiliaid; yr Awdurdodau Sy'n Aelod. Bydd yr Awdurdodau Sy'n Aelod yn gallu defnyddio'r fframwaith hwn i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer eu Gweithwyr ac Aelodau'r Cynllun. Drwy gynnwys cyflawni canlyniadau buddsoddi cynaliadwy hirdymor i wneud penderfyniadau, drwy ddyraniad cyfalaf, craffu parhaus y rheolwyr ased, ac ymarfer yr hawliau a chyfrifoldebau sydd yn codi fel perchnogion asedau.

Strwythur a llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru

Penododd y Bartneriaeth Link Fund Solutions Ltd (bellach yn Waystone Management (UK) Limited) fel Gweithredwr y Bartneriaeth. Rôl y Gweithredwr yw sefydlu a gweithredu cerbyd buddsoddi ar y cyd at ddefnydd penodol cronfeydd CPLIL yng Nghymru. Mae diagram sy'n dangos y strwythur llywodraethu i'w weld isod.

Strwythur Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru



Mae'r Pwyllgor Cyd-lywodraethu (JGC) yn cyflawni nifer o gyfrifoldebau yn ymwneud â PCC, yn cynnwys goruchwyllo'r gweithredwr. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys aelodau etholedig – un o bob un o'r wyth cronfa sy'n cymryd rhan, yn ogystal â'r Cynrychiolydd Aelod y Cynllun. Mae Cadeiryddion y Pwyllgorau Pensiynau unigol yn aelodau o'r Pwyllgor Cyd Lywodraethu ond gallai awdurdodau gweinyddu ddewis enwebu aelodau eraill os yw hynny'n briodol. Mae'r trefniant hwn yn cynnig atebolrwydd am reolaeth o'r Bartneriaeth a'r gweithredwr yn ôl i'r awdurdodau gweinyddu unigol.

Mae'r Pwyllgor wedi'i sefydlu'n ffurfiol fel Cyd-bwyllgor rhwng yr awdurdodau gweinyddu sy'n cymryd rhan. Bydd yn gweithredu ar sail "Un Gronfa, Un Bleidlais", er caiff unrhyw benderfyniadau eu gwneud ar gonsensws lle y bo'n bosibl. Nid yw'r Cynrychiolydd Aelod y Cynllun yn pleidleisio. Cytunwyd ar Gylch Gorchwyl ffurfiol ar gyfer y Pwyllgor.

Sefydlwyd Gweithgor Swyddogion Partneriaeth Pensiwn Cymru fel rhan o Gytundeb Partneriaeth Pensiwn Rhwng Awdurdodau Cymru i gefnogi a chynghori'r Pwyllgor Cydlywodraethu ar faterion rhesymol ar gais y Pwyllgor Cydlywodraethu neu unrhyw faterion yn ymwneud â'r cytundeb cronni a godir gan unrhyw un o Swyddogion Adran 151 neu Swyddogion Monitro'r awdurdodau.

O ran Cronfa Bensiynau Clwyd, mae Pwyllgor y Gronfa Bensiynau yn pennu pa swyddogion sy'n eistedd ar y Gweithgor Swyddogion - ar hyn o bryd Pennaeth a Dirprwy Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd. Mae hawl gan Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro pob awdurdod i fod yn bresennol yn y Gweithgor Swyddogion.

Gweithredwr WPP, Waystone Management (UK) Limited, sy'n gyfrifol am ddewis a chontractio'r rheolwyr buddsoddi ar gyfer pob un o'r is-gronfeydd yn ogystal â phenodi darparwyr gwasanaethau eraill fel gwasanaethydd storfa asedau, a phrisiw'r allanol lle bo angen.

Bydd bondiau ac ecwiti rhestredig yn cael eu buddsoddi drwy Weithredwr, sydd yn Gynllun Contract Awdurdodedig (ACS) er mwyn elwa o natur dryloyw'r cerbyd o ran treth. Fodd bynnag, mae cerbydau eraill, nid drwy Weithredwr wedi cael eu creu ar gyfer ecwiti preifat, credyd preifat a seilwaith.

O ystyried bod gan y Gronfa gyfran sylweddol o'i hasedau mewn buddsoddiadau amgen, llai hylifol, efallai y bydd yn cymryd peth amser cyn y cronnir holl asedau'r Gronfa.

Strategaeth Fuddsoddi

Mae'r adrannau a ganlyn yn rhoi manylion strategaeth fuddsoddi'r Gronfa, sy'n ystyried Rheoliadau Buddsoddi CPLIL 7(2)(a) a 7(2)(b) a restrir isod:

- Buddsoddi arian mewn amrywiaeth eang o fuddsoddiadau
Mae Rheoliad 7(2) (a) yn gorchymyn fod awdurdodau gweinyddu yn buddsoddi mewn portffolio wedi'i arallgyfeirio o asedau i sicrhau y rheolir risg yn briodol ac y caiff natur anwadal yr enillion cyffredinol ei lleihau. Nid yw'r canllawiau yn rhagnodi'r dosbarthiadau asedau penodol y mae'n rhaid buddsoddi arian y Gronfa ynddynt.
- Addasrwydd buddsoddiadau penodol a mathau o fuddsoddiadau
Mae Rheoliad 7(2)(b) yn gorchymyn, wrth asesu dyraniad strategol ar gyfer y Gronfa, bod awdurdod gweinyddu yn asesu addasrwydd buddsoddiadau penodol a mathau o fuddsoddiadau yn erbyn yr angen i gwrdd â rhwymedigaethau pensiwn pan eu bod yn ddyledus.

Wrth asesu addasrwydd ac amrywiaeth y buddsoddiadau, ac ystyried y risgiau, amcanion cyffredinol y Gronfa ddylai'r man cychwyn fod. Rhestrir yr amcanion buddsoddi a chyllido yn yr adran flaenorol "Ynglŷn â'r Gronfa".

Er mwyn cyflawni'r amcanion cynradd hyn, cytunwyd ar yr egwyddorion cyllido a buddsoddi a ganlyn.

Egwyddorion Cyllido

Mae'r Strategaeth Cyllido a weithredwyd ar brisiad ar 31 Mawrth 2022 yn cynnwys nifer o ragdybiaethau elw ar fuddsoddiad:

- Enillion ar fuddsoddiadau (cyfradd ostyngol) ar gyfer targed ariannu chwyddiant CPI + 1.5% y.f. (tybiedig 4.60% y.f.)
- Enillion ar fuddsoddiadau (cyfradd ostyngol) ar gyfer y gyfradd cyfrannu at y gwasanaeth yn y dyfodol o chwyddiant CPI + 2% y.f. (tybiedig 5.10% y.f.)

Dros gyfnod o dair blynedd, bydd elw ar fuddsoddiad sy'n uwch na'r rhagdybiaethau hyn (wedi eu diweddarau yn unol â'r newidiadau mewn rhagolwg marchnad yn ôl adroddiadau monitro cyllid ar wahân) a fydd yn cyfrannu at wella sefyllfa gyllido ac felly cyfraniadau gweithiwr, yn ddibynnol ar ragdybiaethau atebolrwydd megis hirhoedledd a chwyddiant yn aros o fewn targed, a bod aelodaeth yn parhau yn fras ar yr un proffil. Mae prisiad unwaith bob tair blynedd y Gronfa yn ystyried yr holl ffactorau hyn wrth bennu cyfraddau

cyfraniadau cyflogwyr. Gweithredwyd cyfraddau gweithwyr newydd o 1 Ebrill 2023 fel rhan o brisiad 2022.

Mae Datganiad y Strategaeth Gyllido wedi ei baratoi yn unol â Rheoliad 58 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013. Gellir gweld copi o'r Datganiad Strategaeth Gyllido ar wefan y Gronfa ar <https://cronfabensiynauclwyd.org.uk>. Bydd y strategaeth ariannol yn cael ei monitro yn ystod 2023/26.

Wrth reoli'r Gronfa, yr amcanion cyllido allweddol yw:

- anelu at lefel ariannu o 100% ac
- anelu at sefydlogrwydd tymor hir mewn cyfraddau cyfranogi cyflogwyr, wrth gydnabod cyfyngiadau ar fforddiadwyedd i gyflogwyr.

Mae rhestr lawn o'r nodau ac amcanion cyllido ar gyfer y Gronfa, wedi'u nodi yng nghrynodeb Gweithredol y Datganiad.

Er bod mwy o flaenoriaeth i sefydlogrwydd costau o gyfraddau cyfranogi'r cyflogwyr, mae cost absoliwt i'r cyflogwr hefyd yn bwysig. Mae hyn yn awgrymu bod:

- cost gweinyddu'r Gronfa yn mynd i gael ei chyfyngu drwy fabwysiadu arfer rheoli gorau
- bydd cyflogwyr yn mabwysiadu polisïau priodol ac economaidd yn y meysydd hynny lle mae ganddynt ddisgresiwn a lle mae costau eu gweithredoedd yn gyfrifoldeb i'r Gronfa
- bydd polisi buddsoddi cyffredinol y Gronfa yn cael ei anelu at enillion buddsoddi uwch mewn perthynas â thwf atebolrwyddau. Mae hyn yn awgrymu y bydd y Gronfa yn parhau i gymryd risg weithredol o ran sut y mae'n buddsoddi ei hasedau, sy'n gymharol i'w phroffil atebolrwydd.

Nodir egwyddorion buddsoddi'r Gronfa yn llawn isod, a'u bwriad yw taro'r cydbwysedd priodol rhwng y strategaeth sydd fwyaf addas ar gyfer perfformiad cyson hirdymor a'r amcanion cyllido. Bod perfformiad buddsoddi ffafriol yn gallu chwarae rhan werthfawr wrth sicrhau cyllid digonol yn y tymor hwy.

Egwyddorion Buddsoddi

Yr amcanion buddsoddi allweddol ar gyfer y Gronfa yw anelu am enillion buddsoddi dros ben digonol yn berthnasol i dwf atebolrwydd i ddiwallu'r amcanion ariannu a nodwyd uchod ar sail barhaus, a chynnal cydbwysedd priodol rhwng perfformiad buddsoddi cyson hirdymor a'r amcanion ariannu.

Pennir proffil risg ac enillion strategol cyffredinol y Gronfa yn bresennol drwy ei ddyraniad asedau strategol. Wrth sefydlu dyraniad asedau hirdymor strategol y Gronfa, neu feincnodi strategol, y ffactorau allweddol yw lefel gyffredinol yr enillion a geisir, lefel isafswm y risg sy'n cyd-fynd â hyn ac effaith arallgyfeirio wrth leihau'r risg ymhellach. Ar lefel fandad neu ddosbarth asedau, pwysidatau dosbarth asedau, meincnodau priodol a thargedau

perfformiad terfynol yw'r blociau adeiladu allweddol wrth lunio strategaeth gyffredinol y Gronfa.

Polisi'r Gronfa yw cynnal adolygiad sylfaenol o strwythur a threfniadau buddsoddi'r Gronfa a threfniadau rheoli o leiaf unwaith bob pedair blynedd, neu yn amlach os yw'n briodol. Mae'r adolygiad yn cynnwys ymchwil ar farn y farchnad ar gyfer y risg mwy hirdymor, enillion a phroffiliau cydberthyniad ar gyfer gwahanol ddosbarthiadau o asedau a barn fwy tactegol ar yr amgylchedd economaidd a marchnadoedd byd-eang dros y tair i bum mlynedd nesaf. Defnyddir yr ymchwil hwn i bennu cydbwysedd optimwm yn y dyfodol rhwng y gwahanol ddosbarthiadau o asedau ac felly meincnod strategol sefydlog y Gronfa.

Strategaeth Fuddsoddi

Gosod y Strategaeth

Mae strategaeth fuddsoddi'r Gronfa wedi ei phennu i ddiwallu'r amcanion a amlinellir yn gynharach yn y Datganiad hwn. Mae hyn yn cynnwys ystyried proffil atebolrwydd y Gronfa a'r ymagwedd tuag at risg.

Mae'r meincnod strategol a amlinellir yn ddiweddarach yn yr adran hon yn ystyried nodweddion risg ac enillion pob dosbarth o asedau ac yn darparu balans hirdymor rhesymol sy'n briodol i atebolrwyddau'r Gronfa. Mae'r Gronfa'n ystyried cymysgedd o ddosbarthiadau o asedau wrth lunio portffolio cyffredinol ac yn ystyried y cydberthyniad yn anwadalrwydd ac enillion pob un ohonynt.

Mae'r Gronfa'n cydnabod manteision arallgyfeirio ar draws dosbarthiadau o asedau, yn ogystal ag y tu mewn iddynt, i leihau'r risg sy'n deillio o fuddsoddi mewn unrhyw farchnad benodol.

Wrth asesu addasrwydd o ddosbarthiadau asedau, bydd nifer o nodweddion yn cael eu hystyried gan gynnwys enillion, risg/ anwadalrwydd yr enillion, hylifedd, buddsoddiad cyfrifol, hyd a sensitifrwydd y gyfradd llog. Wrth osod ac adolygu strategaeth fuddsoddi gyffredinol ar gyfer y Gronfa, y man cychwyn bob amser yw asesiad yr Actiwari o atebolrwyddau'r Gronfa. Bydd yr asesiad hwn yn cynnwys gofynion llif arian, ac asesiad o'r enillion gofynnol i sicrhau gallu'r Gronfa i dalu yn yr hirdymor, ac mae'n hanfodol fod y strategaeth fuddsoddi yn cydweddu â hyn.

Adolygiad 2022/23

Dangosodd adolygiad 2022/23, gan ddefnyddio rhagolygon farchnad Mercer ar 31 Mawrth 2022, y byddai'r enillion marchnad a ddisgwylir dros y cyfnod nesaf o ddeng mlynedd yn golygu y gellid disgwyl i'r Gronfa gynhyrchu enillion o 5.8% y flwyddyn. (Chwyddiant CPI a 2.7% y.f.). Dangosodd ymchwiliadau fod y portffolio wedi arallgyfeirio'n dda yn bennaf, ac nid oedd angen newid sylweddol. Fodd bynnag, roedd cyfleoedd i fewngorffori amcanion Buddsoddiad Cyfrifol y Gronfa.

Arweiniodd y cyfleoedd hyn at bum prif faes o newid:

- Dyraniad ecwiti Cynaliadwy newydd i gefnogi Polisi Buddsoddiad Cyfrifol
- Lleihau dyraniadau ecwiti corfforol a restrir mewn Marchnadoedd Newydd oherwydd ansicrwydd yn y dosbarth ased.
- Lleihau dyraniad Cronfeydd Mantoli presennol
- Cynyddu dyraniad portffolio Effaith/ Lleol mewn portffolio Marchnadoedd Preifat.
- Ailfodelu'r Fframwaith Rheoli Risg ac Arian Parod

Roedd y newidiadau hyn golygu y byddai adenillion disgwyledig yn lleihau 0.1%, fodd bynnag roedd y newidiadau a wnaethpwyd yn briodol ar gyfer amcanion hirdymor y Cronfeydd.

Amlinellir manylion pellach ynghylch y strategaeth fuddsoddi yn yr adran hon.

Penderfyniadau Buddsoddi

Mae'r Gronfa'n gwahaniaethu rhwng tri gwahanol fath o benderfyniad buddsoddi: strategol, tactegol a lefel stoc.

Penderfyniadau Buddsoddi Strategol

Mae'r penderfyniadau hyn yn y tymor hir o ran natur ac yn cael eu gyrru gan ddealltwriaeth o amcanion, anghenion a rhwymedigaethau'r Gronfa.

Gwneir penderfyniadau buddsoddi gan y Pwyllgor. Maent yn gwneud hynny ar ôl derbyn cyngor gan eu hymgyngorydd buddsoddi. Dyma rai enghreifftiau o benderfyniadau o'r fath a thasgau yn ymwneud â gweithredu'r penderfyniadau hyn:

- Gosod amcanion buddsoddi
- Pennu'r gwahaniad rhwng y twf a'r portffolios sefydlogi
- Pennu'r dyraniad i ddosbarthiadau o asedau o fewn y portffolios twf a sefydlogi
- Pennu meincnod y Gronfa
- Adolygu'r amcanion buddsoddi a dyraniad asedau strategol.

Penderfyniadau Buddsoddi Tactegol

Mae'r rhain yn benderfyniadau tymor byr ac yn seiliedig ar ddisgwyliadau o ran symudiadau yn y farchnad yn y tymor agos. Gallai penderfyniadau o'r fath gynnwys gwyro dros dro o'r dyraniad asedau strategol a gallai fod angen amseriad o ran mynediad i, neu ymadael â, dosbarth marchnad neu asedau buddsoddi.

Yn ogystal, mae'r Pwyllgor wedi dirprwyo grymoedd penodol i Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd gan gymryd cyngor gan y Grŵp Dyrannu Asedau Tactegol. Diben y Portffolio Dyrannu Tactegol, a reolir gan y grŵp, yw manteisio ar gyfleoedd tymor byr (oddeutu blwyddyn) sy'n cyd-fynd ag amcanion risg ac enillion hirdymor y Gronfa. Mae'r Grŵp Dyrannu Tactegol wedi ymrwymo i'r Cylch Gorchwyl Portffolio Dyrannu Tactegol.

Penderfyniadau Dewis Stoc

Cyfrifoldeb rheolwyr buddsoddi'r cronfeydd y buddsoddir y Gronfa ynddynt yw pob penderfyniad o'r fath.

Dyraniad Ased Strategol

Wrth osod y Dyraniad Asedau Strategol ar gyfer y Gronfa, mae Rheoliadau Buddsoddi CPLIL yn gorchymyn fod y Gronfa'n buddsoddi mewn amrywiaeth eang o fuddsoddiadau ac wrth wneud hynny yn asesu addasrwydd mathau penodol o fuddsoddiadau. Yn amodol ar fodloni'r elfennau hyn o'r Rheoliadau, nid yw'r Gronfa'n cael ei chyfyngu i fathau penodol o fuddsoddiadau; y gofyniad yw i'r Gronfa osod ei therfynau ei hun. Wrth adolygu'r strategaeth, mae'r Gronfa'n ystyried dosbarthiadau asedau presennol ac amrywiaeth o ddosbarthiadau asedau amgen.

Wrth osod Dyraniad Ased Strategol ar gyfer y Gronfa, mae'r Gronfa wedi ystyried sut y gallai gyflawni orau ei amcanion Buddsoddiad Cyfrifol, sydd wedi'i nodi yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

Y cydbwysedd rhwng gwahanol fathau o fuddsoddiadau

Mae Rheoliadau Buddsoddi CPLIL yn gorchymyn fod yr awdurdod gweinyddu'n ystyried arallgyfeirio buddsoddiadau'r Gronfa.

Bydd y Gronfa bob amser yn buddsoddi ar draws portffolio o fuddsoddiadau wedi eu harallgyfeirio i leihau risg i fuddsoddiadau. Yn ychwanegol at arallgyfeirio drwy asedau, bydd y Gronfa'n buddsoddi ar draws nifer o reolwyr a drwy wahanol ddulliau ac arddulliau buddsoddi.

Gallai'r Gronfa fuddsoddi trwy bortffolios cyfun a phortffolios ar wahân yn seiliedig ar pa mor briodol yw pob portffolio. Gall y Gronfa fuddsoddi ar draws cyfuniad o ddulliau buddsoddi goddefol, gweithredol ac enillion absoliwt yn seiliedig ar enillion posibl, costau a hyblygrwydd gweithredu.

Mae'r strategaeth buddsoddi cyfredol wedi'i nodi yn y tabl isod:

Dosbarth Asedau	Pwysau Strategol
Ecwiti Gynaliadwy Byd-eang Datblygedig	15.0%
Ecwiti Marchnadoedd Newydd	5.0%
Cronfeydd Mantoli	5.0%
DAT / Syniadau Gorau	11.0%
Credyd Aml-ased	12.0%
Fframwaith Rheoli Risg ac Arian Parod	23.0%
Marchnadoedd Preifat	
Eiddo	4.0%
Ecwiti Preifat	8.0%

Dosbarth Asedau	Pwysau Strategol
Lleol / Effaith	6.0%
Isadeiledd	8.0%
Credyd Preifat	3.0%
Cyfanswm	100.0%

Nodiadau

*Caiff y Portffolio Syniadau Gorau ei ddyrannu'n dactegol yn ôl safbwyntiau marchnad tymor byrrach. Gellir gweithredu hyn drwy gynyddu dyraniad i unrhyw ddosbarthiadau asedau a restrir uchod neu yn ôl dosbarthiadau asedau ar wahân mewn unrhyw fath o fuddsoddiad. Mae'r dyraniad hwn yn cael ei wneud trwy ymgynghori â'r Grŵp Dyrannu Tactegol, sy'n ymrwymedig i'r Cylch Gorchwyl Portffolio Dyrannu Tactegol. Amcan y Portffolio Dyrannu Tactegol yw ychwanegu gwerth i enillion cyffredinol y Gronfa.

Caiff rheolwyr buddsoddi'r Gronfa eu had-dalu naill ai drwy ffi ad valorem, h.y. mae'r ffi'n ganran o werth asedau sy'n cael eu rheoli, neu'n gyfuniad o ffi ad valorem a ffi'n seiliedig ar berfformiad. Egwyddor ffioedd sy'n seiliedig ar berfformiad yw bod y ffi sail yn is a bod ffi uwch ond yn cael ei thalu i reolwr os cwrddir neu y rhagorir ar yr amcan perfformiad.

Dyraniad Asedau ac Enillion Hirdymor a Ddisgwyllir ar Fuddsoddiad

Mae'r dyraniad asedau strategol ar gyfer y Gronfa'n gorfod bod yn gyson â'r enillion buddsoddi a ragdybir yn y strategaeth gyllido (wedi'i ddiweddarau yn unol â newidiadau yn rhagolwg y farchnad). Mae'r strategaeth fuddsoddi yn adlewyrchu natur tymor canolig a hirdymor yr atebolrwyddau, ond rhaid iddi hefyd gynnig hyblygrwydd i reoli anwadlwrwydd tymor byr mewn marchnadoedd. Yn ogystal, rhaid i'r strategaeth fuddsoddi ystyried newidiadau posibl i lif arian wrth i broffil aelodaeth y Gronfa neu'r strwythur buddion newid.

Mae'r strategaeth fuddsoddi yn adlewyrchu'r gwahanol broffiliau enillion a risg pob dosbarth o asedau. Fodd bynnag, nid yw disgwyliadau risg ac enillion hirdymor yn cael eu cynhyrchu'n gyson dros bob amserlen ac ar gyfer pob dosbarth asedau, gall fod cyfnodau o berfformiad gwell neu waeth o'u cymharu â disgwyliadau hirdymor.

Mae'r fframwaith strategol yn cynnwys dyraniad targed y bydd perfformiad strategol yn cael ei fonitro yn ei erbyn (y cyfeirir ato fel y Dyraniad Strategol). Yn ogystal, mae ystodau ar gyfer pob categori o asedau sy'n caniatáu amrywiad cyfyngedig o fewn y fframwaith (y cyfeirir ato fel yr Ystod Strategol). Mae ystodau'n galluogi'r Gronfa i adlewyrchu newidiadau yn y rhagolwg o'r farchnad ac yn darparu mwy o hyblygrwydd i reoli ac ailgydbwysu arian parod.

Yn ychwanegol i'r Dyraniad Strategol ac Ystodau Strategol, mae dyraniad asedau tymor canolig amodol (yr Ystod Amodol) yn bodoli, i reoli risgiau sylweddol i'r dyraniad asedau strategol hirdymor a allai amlygu eu hunain rhwng adolygiadau Cronfa.

Nid yw dyraniad strategol y Gronfa, fel yr amlinellir isod, yn rhagdybio unrhyw orberfformiad gan y rheolwyr buddsoddi. Mae'r enillion disgwyliedig a nodir yn y tabl hwn fel ag yr oeddent ar ddyddiad asesiad strategol 2022/23.

Dosbarth Asedau	Dyraniad Strategol (%)	Ystod Strategol (%)	Ystod Amodol (%)	Enillion disgwylidig dros Chwyddiant (CPI)*** y.f
Ecwiti Byd-eang wedi'i Ddatblygu	15.0	10.0 - 20.0	0 – 30	3.5%
Ecwiti Marchnadoedd Newydd	5.0	2.5 – 7.5	0 – 15	2.1%
Cronfeydd Mantoli	5.0	2.5 – 7.5	0 – 15	1.2%
DAT / Syniadau Gorau	11.0	9.0 – 13.0	0 – 20	2.5%
Credyd Aml-ased	12.0	10.0 – 14.0	0 – 20	2.5%
Fframwaith Rheoli Risg ac Arian Parod	23.0	10.0 – 35.0	0 – 40	1.4%
Marchnadoedd Preifat				
Eiddo	4.0	2.0 – 6.0	0 – 8	1.2%
Ecwiti Preifat	8.0	6.0 – 10.0	0 – 15	3.0%
Lleol / Effaith	6.0	4.0 – 8.0	0 – 15	2.7%
Isadeiledd	8.0	6.0 – 10.0	0 – 15	2.3%
Credyd Preifat	3.0	1.0 – 5.0	0 - 6	2.2%
Cyfanswm	100.0			

Nodiadau:

* Mae ystod Amodol ar lefel cyfanswm y Gronfa.

** Mae'r enillion disgwylidig yn cael eu mynegi fel enillion tymor hir dros chwyddiant CPI i adlewyrchu'r risg ychwanegol sy'n cael ei gymryd, heb gynnwys rheolaeth weithredol. Mae hyn yn seiliedig ar Ragolygon Marchnad Mercer ar ddyddiad adolygiad strategol 2022/23. Defnyddir Chwyddiant CPI fel sail ar gyfer enillion disgwylidig gan ei fod yn dirprwyo dros brisio atebolrwydd.

*** Mae dyraniad Syniadau Gorau yn ddyraniad tactegol byrdymor (gorwel o 12-mis) yn seiliedig ar "syniadau gorau" Mercer (ymgyngorydd Buddsoddi'r Gronfa). Dylai'r portffolio fod yn hylifol ac yn gost effeithiol.

**** Bydd y Fframwaith Rheoli Risg ac Arian Parod, cyfuniad o offerynnau cyswllt ecwiti Buddsoddiad wedi'i gymell gan rwymedigaeth (LDI) a chronfeydd arian parod (wedi'u dyrannu ar gyfer effeithlonrwydd rheoli cyfochrog) yn cael eu rheoli fel rhan o ddull rheoli risg. O ystyried natur y mandad hwn h.y. diogelu yn erbyn newidiadau i atebolrwydd, nid ei fwriad yw ailgydbwysu'r dyraniad, a all arwain at symudiad oddi wrth y dyraniad strategol cychwynnol o 23%.

Disgwylir i gynhwysiad ystod amrywiol o asedau a'r cwrpas am ddyraniad tactegol yn y strategaeth wella tebygolrwydd y Gronfa yn cyflawni ei amcanion hirdymor, gan gynnal anwadalrwydd cyffredinol enillion heb addasu enillion hirdymor disgwylidig y Gronfa yn fawr.

Fframwaith Rheoli Risg ac Arian Parod

Ym Mawrth 2014, fe wnaeth y Gronfa sefydlu Fframwaith Rheoli Risg (y cyfeirir ato nawr fel y Fframwaith Rheoli Risg ac Arian Parod). Mae hyn wedi datblygu ers ei weithrediad

cychwynnol a bellach yn cynnwys y strategaethau canlynol sy'n ceisio rheoli amrywiaeth o risgiau ariannol. Caiff y strategaethau hyn eu gweithredu gan Reolaeth Buddsoddi Insight (Insight). Mae rhagor o wybodaeth am y Fframwaith yn yr adroddiad Rheoli Risg, Llwybr Hedfan a Chyllid, sy'n mynd i bob cyfarfod o Bwyllgor y Gronfa Bensiynau.

Monitro Lefel Cyllido

Caiff lefel cyllido bras ei monitro'n ddyddiol a'i adrodd yn ffurfiol i'r Grŵp Cyllido a Rheoli Risg bob mis. Pe bai'r monitro dyddiol bras yn dangos bod y trothwy 110% wedi'i gyrraedd, dilynir proses a gytunwyd (fel yr amlinellwyd gan Bwyllgor y Gronfa Bensiynau) er mwyn cadarnhau'n ffurfiol a yw'r trothwy wedi'i gyrraedd a p'un a ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r strategaeth. Yna bydd hyn yn dod i'r Pwyllgor i'w gymeradwyo.

Rhaglen cronfeydd mantoli, yn rheoli cyfradd llog y Gronfa a risg chwyddiant

Ym mis Mawrth 2014, sefydlodd y Gronfa raglen fantoli atebolrwydd a oedd yn cynnwys cyfraddau llog a risgiau chwyddiant. Cytunwyd ar 'llwybr hedfan' i gynyddu lefel yr amddiffyniad yn seiliedig ar sbardunau arenillion y farchnad, i sicrhau bod risg yn cael ei lleihau ar adegau ffafriol. Ers mabwysiadu'r llwybr hedfan, mae nifer o sbardunau marchnad wedi'u gweithredu.

Fel rhan o gylch adolygu prisiad actiwaraidd a strategaeth fuddsoddi 31 Mawrth 2022, mae'r Grŵp Rheoli Cyllid a Risg wedi adolygu'r llwybr hedfan ac wedi does dim newidiadau i'r gyfradd llog a'r sbardunau chwyddiant yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r lefel mantoli yn cael ei fonitro'n chwarterol a bydd adolygiad llawn yn cael ei gynnal yn flynyddol.

Portffolio ecwiti synthetig, dod i gysylltiad ag ecwitiâu wrth fantoli'r risg negyddol

Fe wnaeth y Gronfa weithredu strategaeth ecwiti synthetig er mwyn cynyddu ei botensial enillion disgwylidig mewn dull sy'n effeithlon o ran cyfalaf. Er mwyn rheoli'r risgiau negyddol sy'n gysylltiedig â'r strategaeth ecwiti synthetig, rhoddwyd strategaeth diogelu ecwiti dynamig ar waith ym mis Mai 2018. Mae hwn yn darparu mwy o hyblygrwydd a llywodraethu parhaus yn erbyn y dull sefydlog blaenorol oherwydd mae'n caniatáu i'r strwythur addasu'n haws i amodau newidiol y farchnad. Mae'r Gronfa yn bwriadu trawsnewid yn llawn ei ecwiti synthetig i ecwiti byd-eang meincnod Paris Aligned dros amser, mewn ffordd sydd yn lleihau costau trafodion.

Strategaeth mantoli cyfredol

Gweithredodd y Gronfa strategaeth fantoli gyfredol i leihau'r risg o bunt sy'n cryfhau yn datbrisio gwerth daliadau ecwiti tramor ffisegol y Gronfa. Roedd hyn yn sgil y sterling yn parhau i wanhau. Fel deiliaid asedau tramor, roedd y Gronfa wedi cael budd sylweddol o'r cwmp mewn sterling yn dilyn refferendwm yr UE, ac yn dymuno lleihau risg arian cyfred drwy gloi cyfran o'r enillion a wnaed.

Strategaeth rheoli cyfatebol

Mae'r strategaethau uchod yn defnyddio deilliadau ac felly angen rhoi sicrwydd cyfatebol o'r neilltu er mwyn cefnogi'r sefyllfaoedd, ac amddiffyn y Gronfa (a gwrth-bartïon) rhag y risg o ddiffygdlu. Mae cydbwysedd rhwng dal digon o sicrwydd cyfatebol i gefnogi'r strategaethau yn erbyn symudiad arwyddocaol a sydyn mewn marchnadoedd, yn erbyn dal gormod fel ei fod yn fwrw ar adenillion y Gronfa.

Er mwyn rheoli'r cydbwysedd hwn, mae Strategaeth rheoli cyfatebol y Gronfa yn cael ei fonitro yn rheolaidd.

Gwireddu buddsoddiadau

Strwythurir polisi buddsoddiadau'r Gronfa fel y gellir gwireddu'r rhan fwyaf o'i buddsoddiadau'n rhwydd (mewn ecwiti a bondiau), ac eithrio yn yr amodau marchnad mwyaf eithafol.

Fodd bynnag, mae argaeledd cerbydau buddsoddi amgen yn galluogi'r Gronfa i fuddsoddi mewn dosbarthiadau asedau llai hylifol ac adeiladu portffolios wedi'u harallgyfeirio'n dda. Mae buddsoddiadau fel eiddo, isadeiledd ac ecwiti preifat/dyledion yn fuddsoddiadau hirdymor y mae'r Gronfa yn llai tebygol o allu eu gwireddu mewn cyfnod byr. Mae cyfnodau "cloi" yn arferol mewn cronfeydd mantoli (i reoli llif i mewn/allan i sicrhau y caiff cyfalaf cleientiaid presennol ei ddiogelu) sy'n golygu nad yw'r buddsoddiadau hyn yn rhwydd i'w gwireddu chwaith.

Er gwaethaf hyn, mae'r Gronfa'n cynnal buddsoddiadau digonol mewn asedau hylifol i gwrdd â'i atebolrwydd yn y tymor byr a chanolig wrth iddynt fynd yn ddyledus.

Strategaeth Arian Parod

O 1 Ebrill 2011, roedd Rheoliadau Buddsoddi 2009 yn gorchymyn fod yn rhaid i'r Gronfa gael cyfrif banc ar wahân i'r Awdurdod Lleol.

Nid oes gan y Gronfa Pensiwn ddryniad strategol o arian parod at ddibenion buddsoddi ond mae ganddi arian parod dros ben ar gyfer talu:

- Buddion a throsglwyddiadau yn unol â'r Rheoliadau.
- Costau gweinyddol y Gronfa.
- Y ffioedd rheoli buddsoddiad.
- Ymrwymadau i fuddsoddiadau marchnadoedd preifat.

Fodd bynnag, mewn amodau marchnad eithafol, gellir defnyddio arian parod fel rhan o'r Dryniad Asedau Amodol. Y nod yw osgoi bod angen benthyg at ddibenion hylifedd, er bod Rheoliadau Buddsoddi CPLIL yn caniatáu Cronfeydd Pensiwn i fenthyg am uchafswm o 90 diwrnod.

Gellir cadw'r arian parod yn un o'r canlynol, yn dibynnu ar ofynion llif arian:

- Cyfrif banc y Gronfa Pensiwn gyda banc y National Westminster ar gyfer hylifedd dyddiol.
- Cyfrif cadw Banc National Westminster sy'n caniatáu mynediad yn syth.
- Y Gronfa Insight Liquidity ar gyfer gofynion hylifedd annisgwyl neu gyfraddau elw uwch.

Benthycia Stoc

Pan mae Cronfa yn buddsoddi gyda WPP, mae hwn drwy gronfeydd wedi'u cronni. Mae WPP yn penderfynu ar bolisi benthycia stoc ar gyfer ei gronfeydd perthnasol ac wedi penodi Northern Trust i weithredu'r polisi.

Ymagwedd at risg, gan gynnwys y ffordd y caiff risgiau eu mesur a'u rheoli

Mae Rheoliad Buddsoddi 7(2) (c) CPLIL yn gorchymyn fod cronfeydd yn disgrifio eu hymagwedd at risg o fewn eu portffolio buddsoddi, gan gynnwys rhoi crynodeb o'r risgiau allweddol a manylion yr ymagwedd i liniaru'r risg (lle bo'n bosibl ac yn briodol).

Y Gofrestr Risg

Mae gan y Gronfa Bolisi Rheoli Risg a Chofrestr Risgiau ar waith.

Mae gan y Gofrestr Risgiau adran benodol ar gyfer Risgiau Ariannu a Buddsoddiad (gan gynnwys cyfrifo ac archwilio). Mae risgiau asedau/buddsoddiad penodol a amlygir yn y gofrestr risgiau yn cynnwys rhai yn ymwneud â marchnadoedd buddsoddi, methiant rheolwyr i gyflawni eu hamcanion, methu ar gyfleoedd marchnad, a hylifedd. Diweddarir y gofrestr risgiau yn rheolaidd a rhoddir ystyriaeth i risgiau allweddol yn rheolaidd mewn cyfarfodydd Pwyllgor a chyfarfodydd AP.

Y brif risg i'r Gronfa yw'r camgymhariaid rhwng ei hasedau a'i hatebolrwyddau. O ganlyniad, os yw'r enillion buddsoddi yn llai na'r hyn sy'n ofynnol yn y strategaeth gyllido, bydd y lefel gyllido yn dirywio (a chymryd fod popeth arall yn gyfartal). Y prif risgiau o fewn y strategaeth gyllido yw'r gyfradd llog, chwyddiant a risgiau marwolaeth, a'r risg buddsoddiad sy'n deillio o'r portffolio buddsoddiadau, a reolir drwy arallgyfeirio daliadau asedau. Mae gan y Gronfa Fframwaith Rheoli Risg ac Arian Parod pwrpasol sydd ag amcanion sefydledig i sicrhau bod cysylltiad y Gronfa â risg cyfradd llog a risg chwyddiant yn cael ei reoli a'i fonitro'n barhaus.

Mae buddsoddi, o ran ei natur, yn weithgarwch seiliedig ar risg lle bydd yr enillion a gyflawnir yn adlewyrchu gwahanol lefelau risg. Mae nifer o risgiau buddsoddi i'w hystyried o fewn cronfa fuddsoddi, yn benodol risgiau rheolwr, marchnad, credyd, arian a hylifedd. Rhoddir ystyriaeth i risgiau anariannol sy'n berthnasol yn ariannol ym Mholisi Buddsoddi Cyfrifol y Gronfa, a eglurir yn ddiweddarach yn y ddogfen hon. Mae hyn yn cynnwys dull y Gronfa o ran y risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd, a'r trawsnewid i economi carbon isel.

Wrth ystyried strategaeth fuddsoddi'r Gronfa, rhaid felly ystyried y cydbwysedd hwn rhwng risg ac enillion. Yn ymarferol, amcan y strategaeth fuddsoddi fydd cyflawni'r enillion mwyaf posibl a sicrhau cyn lleied â phosibl o risg negyddol, o fewn paramedrau y cytunwyd arnynt.

Risg Diddyledrwydd a Risg Camgymhariad

Mesurir y rhain drwy asesiadau ansoddol a meintiol o ddatblygiad disgwylidig yr asedau mewn perthynas ag atebolrwyddau.

Rheolir y rhain drwy osod dyraniad asedau strategol penodol i'r Gronfa gyda lefel briodol o risg.

Risg Rheolwr (gan gynnwys WPP)

Caiff hyn ei asesu fel y gwyriad disgwylidig o'r risg a'r enillion disgwylidig, fel yr amlinellir yn amcanion y rheolwyr, mewn perthynas â'r polisi buddsoddi.

Caiff ei fesur drwy fonitro'r gwyriad gwirioneddol o enillion mewn perthynas â'r amcan a ffactorau sy'n cefnogi proses fuddsoddi'r rheolwyr, a drwy fonitro a disodli unrhyw reolwyr lle mae pryderon yn bodoli dros eu gallu i barhau i ddarparu'r mandad buddsoddi.

Nod y strategaeth fuddsoddi a'r strwythur rheoli yw rheoli'r lefel briodol o risg ar gyfer y targed enillion sy'n adlewyrchu'r strategaeth fuddsoddi. Mae gofyn i reolwyr buddsoddi allanol y Gronfa fuddsoddi yn unol â'r canllawiau buddsoddi a amlinellir gan y Gronfa. Mae ceidwaid annibynnol yn cadw'r asedau ar ran y Gronfa.

Risg hylifedd

Caiff hyn ei fonitro yn ôl lefel y llif arian sydd ei angen gan y Gronfa dros gyfnod penodol.

Wrth sicrhau bod hylifedd priodol o fewn yr asedau sy'n cael eu dal, mae'r Gronfa'n buddsoddi mewn buddsoddiadau llai hylifol i fanteisio ar y "premiwm caethder" a gynigir.

Er gwaethaf hyn, mae'r Gronfa yn dal nifer priodol o fuddsoddiadau sydd ar gael yn rhwydd. Buddsoddir asedau'r Gronfa mewn cronfeydd a grynhoir, y gellir eu gwireddu'n barod ac mae cryn dipyn o hylifedd yn seiliedig ar y dyraniad asedau strategol presennol.

Risg Wleidyddol

Caiff hon ei fesur gan lefel y crynodiad mewn unrhyw un farchnad gan arwain at y risg o ddylanwad negyddol ar werthoedd buddsoddi yn deillio o ymyrraeth wleidyddol.

Mae'r Gronfa'n rheoli hyn drwy adolygiadau rheolaidd o fuddsoddiadau a drwy fuddsoddi mewn cronfeydd sy'n rhoi graddau eang o ymyrraeth.

Risg Llywodraethu Corfforaethol

Asesir hyn drwy adolygu polisiâu rheolwyr buddsoddi'r Gronfa ynghylch llywodraethu corfforaethol.

O ran asedau a fuddsoddwyd drwy'r WPP, mae'r rhain yn destun Polisi Stiwardiaeth a gytunwyd. Mae'r WPP yn gweithio gyda Robeco a'r rheolwyr buddsoddi sylfaenol i weithredu'r polisi hwn.

Risg Ddeddfwriaethol

Dyma'r risg y bydd angen i'r Pwyllgor weithredu yn sgil newidiadau deddfwriaethol er mwyn cydymffurfio ag unrhyw newidiadau o'r fath i ddeddfwriaeth.

Bydd y Gronfa yn ymateb i ymgynghoriad ar newidiadau deddfwriaeth arfaethedig i helpu dylanwadu newidiadau priodol.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod nad oes modd osgoi'r risg ond bydd yn ceisio mynd i'r afael ag unrhyw newidiadau gofynnol er mwyn cydymffurfio ag unrhyw newidiadau i'r deddfwriaeth.

Risg y Farchnad

Dyma'r risg y bydd gwerth teg llif arian o offerynnau ariannol yn y dyfodol yn codi a gostwng yn sgil newidiadau i brisiau'r farchnad.

Mae'r Gronfa'n ceisio rheoli'r risg hon drwy'r polisi strategol sy'n sicrhau arallgyfeirio buddsoddiadau ar draws ystod o ddosbarthiadau o asedau a marchnadoedd sy'n caniatáu cydberthyniad isel gyda'i gilydd ac ar draws detholiad o reolwyr.

Mae gan y Gronfa i bortffolio Syniadau Gorau / Dyraniad Ased Tactegol (DAT), sy'n ceisio manteisio ar risg y farchnad, drwy wneud dyraniadau tactegol tymor byrrach sy'n gweddu'n benodol i nodweddion y Gronfa. Gan fod y rhan fwyaf o'r portffolio yn agored i risg y farchnad, y brif risg i'r Gronfa yw gostyngiad ym mhrisiau'r farchnad. Er na all symudiadau yn y farchnad gael eu hosgoi yn gyfan gwbl ac yn wir, mae yna adegau pan fydd yr holl asedau yn cydberthyn mwy, gall yr effaith gael ei liniaru trwy arallgyfeirio ar draws y dosbarthiadau o asedau ac ymagwedddau at fuddsoddi.

Mae risg y farchnad yn cynnwys y tri math canlynol o risg:

Risg Arian Cyfred

Dyma'r risg sy'n codi pan fod pris arian un diriogaeth yn symud o'i gymharu ag arian (cyfeirnod) arall. Yn y cyd-destun hwn, efallai fod y Gronfa wedi buddsoddi mewn stociau neu asedau tramor, sydd wedi eu cysylltu, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ag arian heblaw am Sterling. Mae risg y bydd pris arian cyfred yn symud mewn ffordd sy'n dibrisio'r arian hwnnw o'i gymharu â Sterling, gan felly gael effaith negyddol ar enillion buddsoddi cyffredinol.

Mae'r Gronfa yn ceisio rhoi sylw i hyn yn y DAT a hefyd wedi rhoi sylw i hyn yn y Fframwaith Rheoli Risg ac Arian Parod, o safbwynt strategol.

Risg Cyfraddau Llog

Dyma'r risg y bydd gwerth buddsoddiad yn newid yn sgil newid yn lefel y cyfraddau llog. Mae hyn yn effeithio ar offerynnau dyledion yn fwy uniongyrchol nac offerynnau twf.

Mae'r Gronfa yn ceisio rhoi sylw yn y Fframwaith Rheoli Risg ac Arian Parod, o safbwynt strategol.

Risg chwyddiant

Dyma'r risg y bydd gwerth atebolrwyddau'r Gronfa sydd wedi eu cysylltu'n uniongyrchol â chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), yn cynyddu ar raddfa uwch na'r asedau.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod y risg cyfraddau llog a risg chwyddiant yn ymwneud â'r offerynnau dyledion unigol. Rheolir hyn gan y rheolwyr buddsoddiad gwaelodol drwy gyfuniad o strategaethau, fel arallgyfeirio, hyd a rheolaeth cromlin arenillion. Mae'r Gronfa hefyd yn buddsoddi mewn asedau mae eu gwerth yn symud yn unol â chwyddiant fel Isadeiledd.

Mae'r Gronfa yn ceisio rhoi sylw yn y Fframwaith Rheoli Risg ac Arian Parod, o safbwynt strategol.

Cyllidebau Risg

Wrth adolygu'r Strategaeth Fuddsoddi yn 2022/23, yn ogystal â rhoi sylw i'r potensial am adenillion buddsoddi, fe wnaeth y Gronfa hefyd ystyried risg y strategaeth arfaethedig o'i chymharu â'r un flaenorol. Asesir risg drwy ddefnyddio dull Gwerth y Risg (VaR). Mae'r ymagwedd hwn yn mesur y risg colled posibl i fuddsoddiad gyda thebygolrwydd ar gyfnod amser penodol. Mae VaR o asedau'r Gronfa yn cael eu monitro yn rheolaidd.

Mae'r Gronfa angen cymryd risg o fewn ei Strategaeth Fuddsoddi, er mwyn cyflawni lefel addas o enillion uwchlaw cyfradd ostyngol o Chwyddiant gwasanaeth y dyfodol yr Actiwari +2% y flwyddyn ar 31 Mawrth 2022 (diweddarwyd yn unol â rhagolwg marchnad).

Cyngor priodol

Wrth asesu strategaeth y Gronfa, gan gynnwys asesiad o risgiau sydd ymhlyg, a gosod terfynau uchafswm, mae'r Gronfa wedi ceisio cyngor priodol gan swyddogion, yr Actiwariaid, Ymgynghorwyr Buddsoddi ac Ymgynghorwyr Rheoli Risg.

Fel rhan o strwythur llywodraethu'r Gronfa, mae cyfarfodydd rheolaidd rhwng swyddogion y Gronfa, yr Ymgynghorwyr Buddsoddi, yr Ymgynghorwyr Rheoli Risg ac Actiwariaid. Mae'r Gronfa'n cael cyngor gan y partion hyn yn rheolaidd.

Polisi Buddsoddi Cyfrifol o fewn y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi

Cefndir Rheoleiddio

Wrth baratoi, datblygu a gweithredu'r Polisi hwn, mae'r Gronfa wedi rhoi sylw dyledus i'r cefndir rheoleiddio. Mae Rheoliadau Buddsoddi CPLIL yn gorchymyn fod awdurdodau gweinyddu yn dangos eu bod yn ystyried unrhyw ffactorau sy'n arwyddocaol yn ariannol o ran perfformiad buddsoddiadau'r gronfa, gan gynnwys ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol a llywodraethu corfforaethol, a dros y tymor hir, yn dibynnu ar y terfyn amser y mae'r atebolrwyddau'n codi.

Mae Rheoliadau Buddsoddi CPLIL hefyd yn gorchymyn fod awdurdodau gweinyddu'n egluro eu polisi ar arfer hawliau (gan gynnwys hawliau pleidleisio) ynghlwm wrth fuddsoddiadau.

Mae'r canllawiau'n cyfeirio at God Stiwardiaeth y DU y Cyngor Adrodd Ariannol ac yn gorchymyn fod cronfeydd yn eglur, lle bo hynny'n briodol, o ran eu polisi ar Stiwardiaeth gan gyfeirio at y Cod Stiwardiaeth.

Yn ogystal ag ystyried Rheoliadau Buddsoddi CPLIL wrth ddatblygu'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol, mae'r Gronfa wedi cymryd cyngor proffesiynol. Mae hefyd wedi ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, canllawiau gan Fwrdd Cynghori'r Cynllun, Adran Ffyniant Bro, Tai, Cymunedau a Llywodraeth Cymru. Mae'r Gronfa'n ymrwymo i barhau i adolygu'r polisi yn unol ag unrhyw newidiadau yn y dyfodol, neu ddiweddariadau mewn rheoliadau neu ganllawiau.

Mae'r Gronfa hefyd wedi ystyried, ymchwilio ac adolygu nifer o feysydd eraill o arfer orau wrth baratoi'r Polisi hwn, fel Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Buddsoddi Cyfrifol, y Nodau Datblygu Cynaliadwy a'r Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD).

Polisi Buddsoddi Cyfrifol

Mae'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol y Gronfa yn adlewyrchu sefyllfa gyfredol y Pwyllgor. Yn ogystal, er mwyn cynorthwyo â fframio'r polisi yn ffurfiol, mae'r Gronfa wedi nodi nifer o gredoau lefel uchel a osodir dros y polisïau manylach, ac a fydd yn cyfleu agwedd drosfwaol y Gronfa at fod yn Fuddsoddwr Cyfrifol.

Yn 2023, cyflwynodd y Pwyllgor fframwaith i asesu priodoldeb o fabwysiadu polisi gwaharddiad. Lluniwyd hyn i sicrhau bod y Pwyllgor yn deall sail resymegol ar gyfer ac effaith posibl o waharddiadau gan barhau i fodloni ei ddyletswyddau ymddiriedol er mwyn cefnogi'r cyllid i bensiynau. Mae'n asesu effaith gwaharddiad risg, dychwelyd ac arallgyfeirio nodweddion i ddeall goblygiadau i fodloni amcanion ariannol.

Cefndir

Bydd Polisi Buddsoddi Cyfrifol yn cefnogi amcanion Buddsoddi Cyfrifol penodol y Gronfa gyda'r amcanion penodol cyllido a buddsoddi:

- Sicrhau bod ei strategaeth, gweithredoedd rheoli buddsoddiadau, gweithdrefnau llywodraethu ac adrodd yn rhoi ystyriaeth lawn i risgiau tymor hwy a chynladwyedd.
- Sicrhau bod buddsoddiadau'r Gronfa'n cyd-fynd â'r newid i economi carbon isel drwy ymrwymiad i gyflawni targed allyriadau sero net erbyn 2045.
- Hyrwyddo derbyn egwyddorion cynaladwyedd a gweithio gydag eraill i wella effeithiolrwydd y Gronfa wrth roi'r egwyddorion hynny ar waith.

Crynhoi Buddsoddiadau

Fel rhan o ddiwygiad buddsoddi'r Llywodraeth, mae'r Gronfa wedi cyfranogi yn natblygiad yr WPP i grynhoi buddsoddiadau 8 cronfa CPLIL Cymreig. Tra bod pob dyraniad ased strategol a phenderfyniad polisi'n aros gyda'r Gronfa, bydd cyfrifoldebau gweithredu yn gyfrifoldeb yr WPP yn y dyfodol.

Mae'r Gronfa'n ymroddedig i grynhoi ei buddsoddiadau gyda'r WPP, ac yn cydnabod bod hyn yn cyflwyno heriau, a hefyd cyfleoedd sylweddol i wella ymagwedd y Gronfa at Fuddsoddi Cyfrifol. Mae'r Gronfa wedi ymgysylltu'n rhagweithiol gyda'r WPP i osod ei bolisi ac amcanion Buddsoddi Cyfrifol, a bydd yn parhau i chwarae rôl rhagweithiol i helpu gwella'r rhain yn y dyfodol gyda'r bwriad o sicrhau eu bod yn parhau yn berthnasol a phriodol i'r Gronfa.

Stiwardiaeth ac Ymgysylltiad

Mae stiwardiaeth yn golygu bod yn gyfrifol wrth ddyrannu cyfalaf, ei reoli a'i oruchwyllo er mwyn creu gwerth hirdymor i fuddsoddwyr a buddiolwyr y Gronfa, gan arwain at fuddion cynaliadwy i'r economi, yr amgylchedd a chymdeithas. Cyhoeddodd y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC) y Cod Stiwardiaeth y DU ("y Cod") cyntaf yn 2010 ac mae nifer o ddiweddariadau wedi bod, gyda'r diweddaraf yn 2020. Mae'r Cod yn amlinellu nifer o feysydd o arferion da y mae'r FRC yn credu y dylai buddsoddwyr sefydliadol anelu tuag atynt.

Mae canllawiau Datganiad y Strategaeth Fuddsoddi a roddir gan yr Llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gweinyddu ymrwymo i'r Cod, a datgan sut maent yn gweithredu'r egwyddorion ar sail "cydymffurfio neu egluro". Mae'r Gronfa yn cefnogi ac ar hyn o bryd yn llonfodwr i'r Cod Stiwardiaeth y DU. Gellir gweld cyflwyniad y Gronfa ar wefan FRC. Fel aelod o Bartneriaeth Pensiwn Cymru, mae'r Pwyllgor yn disgwyl i'r Bartneriaeth a'r rheolwyr cronfa gwaelodol gydymffurfio â'r Cod Stiwardiaeth. Mae'r Bartneriaeth wedi penodi Robeco fel darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu ac maen nhw'n cynorthwyo i fformiwleiddio a chynnal polisi pleidleisio ac egwyddorion ymgysylltu sy'n cyd-fynd â'r LAPFF. Yn ogystal, mae Robeco yn gyfrifol am weithredu'r polisi pleidleisio ac adrodd arno.

Adrodd a Datgelu

Mae'r Gronfa'n ymroddedig i dryloywder ei gweithredoedd, yn enwedig o ran Buddsoddi Cyfrifol. Mae'r Adroddiad Blynnyddol yn cynnwys copïau o nifer o ddogfennau, yn cynnwys datganiadau polisi, a Datganiad y Strategaeth Fuddsoddi (yn llawn). Mae'r adroddiad blynnyddol ar gael ar wefan y Gronfa. Derbynnir y bydd agweddau at Fuddsoddi Cyfrifol a chynaliadwydd yn datblygu dros amser, ac felly mae'n hanfodol parhau i adolygu polisïau ac arferion yn rheolaidd i sicrhau eu heffeithiolrwydd. Yn ogystal, mae'r Gronfa'n cydnabod pwysigrwydd tryloywder ac adrodd mewn perthynas â Buddsoddi Cyfrifol a'r materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) ac felly wedi gwella'u ddadansoddiad, datgeliad ac adrodd. Bydd hyn yn cynnwys rheolwr, pleidleisio ac ymgysylltu a dadansoddi allyriadau carbon, ac effaith lle bo'n briodol.

Credoau Buddsoddi Cyfrifol

Mae'r Gronfa'n cydnabod pwysigrwydd ei rôl fel stiward cyfalaf a'r angen i sicrhau safonau uchaf llywodraethu, gan hyrwyddo cyfrifoldeb corfforaethol yn y cwmnïau sylfaenol ymhle y mae ei buddsoddiadau. Mae'r Gronfa'n cydnabod yn y pendraw fod hyn yn diogelu buddiannau ariannol y Gronfa a'i buddiolwyr. Mae gan y Gronfa ymrwymiad i arfer ei hawliau perchnogaeth ynghlwm wrth ei buddsoddiadau, gan adlewyrchu cred y Gronfa y

dylai perchnogion asedau cyfrifol gynnal trosolwg o'r cwmnïau maent yn buddsoddi ynddynt yn y pen draw, gan gydnabod fod gweithredoedd y cwmnïau'n effeithio nid yn unig ar eu cwsmeriaid a'u cleientiaid, ond yn ehangach ar eu gweithwyr, budd-ddeiliaid eraill a hefyd cymdeithas yn fwy cyffredinol.

Mae'r Gronfa'n diffinio **Buddsoddi Cyfrifol (RI)** fel:

Ymgorffori ystyriaethau cynaliadwyedd yn y broses fuddsoddi, yn cynnwys ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) ar gyfer persbectif ehangach ar risg ac enillion.

Wrth ddatblygu ei hymagwedd at RI, mae'r Gronfa'n ceisio deall a rheoli'r ESG a'r risg i enw da y mae'n agored iddi. Mae'r polisi'n nodi ymagwedd y Gronfa at hyn.

Mae ymagwedd y Gronfa at RI yn seiliedig ar ei Hegwyddorion a nodir isod:

Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol

- Dyletswydd ymddiriedol y Gronfa yw gweithredu er lles gorau ei haelodau a'i chyflogwyr. Mae'r Gronfa'n cydnabod bod materion ESG yn creu risg a chyfle i'w pherfformiad ariannol, a bydd yn cyfrannu at y nodweddion risg ac enillion. Mae'r Gronfa'n credu o ganlyniad, y dylid ystyried y ffactorau hyn yn ei Strategaethau Ariannu a Buddsoddi a drwy gydol y broses gwneud penderfyniadau.
- Mae'r Gronfa yn fuddsoddwr hirdymor, gydag addewidion pensiwn am nifer o flynyddoedd. O ganlyniad, mae'n ceisio darparu enillion cynaliadwy hirdymor.
- Mae'r Gronfa yn ceisio Integreiddio ystyriaethau ESG ar draws holl ddyraniadau ased.
- Mae'r Gronfa'n ceisio defnyddio ymagwedd yn seiliedig ar dystiolaeth i weithredu'r Buddsoddiad Cyfrifol.
- Mae'r Gronfa'n cydnabod bod tryloywder ac atebolrwydd yn agweddau pwysig ar fod yn Fuddsoddwr Cyfrifol a bydd yn dangos hyn drwy gyhoeddi ei pholisi Buddsoddi Cyfrifol a gweithgaredd ar gyfer y Gronfa.
- Mae gan y Gronfa ddyletswydd i weithredu ei chyfrifoldebau stiwardiaeth (pleidleisio ac ymgysylltu) yn effeithiol, drwy ddefnyddio ei dylanwad fel buddsoddwr hirdymor i annog cyfrifoldeb corfforaethol.
- Mae'r Gronfa'n cydnabod y risg ariannol sylweddol o beidio â bod yn Fuddsoddwr Cyfrifol ac mae'n ceisio sicrhau bod y risg hon yn cael ei lliniaru drwy ei Pholisi Buddsoddi a'i weithrediad.
- Mae'r Gronfa'n cydnabod pwysigrwydd buddsoddiadau Cymdeithasol/Effaith, a all wneud effaith amgylcheddol a chymdeithasol gadarnhaol wrth fodloni ei hamcanion ariannol, a bydd yn gwneud buddsoddiadau bwrpasol i gefnogi'r nod hwn.

Newid hinsawdd

Mae'r Gronfa'n cydnabod y pwysigrwydd o roi sylw i'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd, drwy ei strategaeth fuddsoddi, ac yn credu bod:

- Newid hinsawdd yn cyflwyno risg systematig i sefydlogrwydd cyffredinol pob economi a gwlad, gyda'r potensial i effeithio ar yr aelodau, gweithwyr a'r holl ddaliadau ym mhortffolio buddsoddi'r Gronfa.
- Nid dyletswydd gyfreithiol neu ymddiriedol y Gronfa yw ystyried effeithiau newid hinsawdd yn unig, ond hefyd yn gyson â natur tymor hir y Gronfa. Mae angen i fuddsoddiadau'r Gronfa fod yn gynaliadwy ac i fod er budd pennaf yr holl randdeiliaid allweddol.
- Mae ymgysylltiad yn hanfodol i alluogi'r newid sydd ei angen i fynd i'r afael ag Argyfwng Hinsawdd i hwyluso'r symud i economi carbon isel. Fodd bynnag, mae dad-fuddsoddi a gwaharddiad dewisol ar sail risg yn gallu bod yn briodol.
- Yn ogystal â chreu risg, mae newid hinsawdd hefyd yn cyflwyno cyfleoedd i wneud buddsoddiadau dewisol sy'n cyflawni'r adenillion gofynnol, wrth wneud effaith amgylcheddol a chymdeithasol gadarnhaol ar yr un pryd, fel isadeiledd amgylcheddol ac ynni glân.

Ymrwymiad Net-Sero

Fel rhan o'i hymrwymiad i Fuddsoddi Cyfrifol, mae'r Gronfa wedi mynd ati i werthuso a rheoli amlygiad carbon ei buddsoddiadau er mwyn cynorthwyo i sicrhau trawsnewid effeithiol i economi carbon isel. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae gan y Pwyllgor strategaeth i gyflawni allyriadau carbon net-sero o'i bortffolio buddsoddi. Yn benodol, cytunodd y Pwyllgor ar darged ar gyfer y buddsoddiadau yn y Gronfa, yn gyffredinol, i sicrhau allyriadau carbon net-sero erbyn 2045, gyda tharged interim o leihau carbon 50% erbyn 2030. Wrth wraidd yr ymrwymiad hwn, mae gan y cynllun nifer o dargedau allweddol eraill fel a amlinellir isod:

Bod y Gronfa gyffredinol:

- yn sicrhau bod o leiaf 30% o asedau'r Gronfa wedi'u dyrannu i fuddsoddiadau cynaliadwy erbyn 2030.
- ehangu mesur allyriadau carbon o fuddsoddiadau'r Gronfa i gynnwys gymaint o gydrannau o asedau â phosib, ar sail argaeledd data dibynadwy a chywir.

o fewn y portffolio Ecwiti a Restrir:

- sicrhau gostyngiad o ran allyriadau carbon o 36% erbyn 2025 a 68% erbyn 2030.
- targedu holl bortffolio Ecwiti a Restrir i gael ei fuddsoddi mewn mandadau cynaliadwy erbyn 2030.
- ymgysylltu â'r llygryddion mwyaf ym mhortffolio Ecwiti a Rennir y Gronfa fel rhan o strategaeth stiwardiaeth ac ymgysylltu drosfwaol, er mwyn cyflawni:
- erbyn 2025, bod gan o leiaf 70% o gwmnïau, fel y mesurir drwy werth a fuddsoddwyd ac amlygiad allyriadau, mewn sectorau carbon-ddwys strategaethau clir a chredadwy er mwyn cyflawni net-sero neu eu bod yn destun ymgysylltiad i gyflawni'r amcan hwn.
- erbyn 2030, bod gan o leiaf 90% o gwmnïau, fel y mesurir drwy werth a fuddsoddwyd ac amlygiad allyriadau, mewn sectorau carbon-ddwys strategaethau

clir a chredadwy er mwyn cyflawni net-sero neu eu bod yn destun ymgysylltiad i gyflawni'r amcan hwn.

Bydd y Gronfa'n monitro ac adrodd yn erbyn y targedau hyn o leiaf bob blwyddyn, ac mae'n bosibl y byddant yn eu hadolygu a'u diwygio fel bo'n briodol, yn enwedig i sicrhau bod targedau ac uchelgeisiau yn unol â datblygiadau a mentrau cenedlaethol a rhyngwladol.

Lle nad yw cwmnïau mewn sectorau carbon-ddwys yn arddangos strategaeth credadwy i gael sero net mewn cyfnod, ac ddim yn cael eu hystyried ar y taflwybr cywir i wneud cynnydd yn y maes hwn, barn polisi'r Pwyllgor yw y byddai dadfuddsoddi dethol yn ganlyniad dilys. Gan ystyried y natur cronfa wedi'i gronni o'r buddsoddiad, mae'r Pwyllgor yn cydnabod ei allu gwirioneddol i roi gorau ei ddibyniaeth ar y prosesau a pholisi'r WPP. Bydd y Pwyllgor yn ymgysylltu'n weithredol gyda'r WPP ar y maes hwn.

Polisi Gwaharddiad

Mae'r Gronfa wedi datblygu fframwaith asesiad polisi gwaharddiad a bydd yn edrych i ddatblygu cynllun i weithredu'r gwaharddiadau canlynol:

Mae'r polisi i wahardd cwmnïau sydd yn torri'r trothwyon canlynol	Isafswm Amcan	Uchelgais y Gronfa
Y % o neu fwy o refeniw o fforio, mwyngloddio, echdynnu, gwasgaru a/ neu goethi glo caled a choedlo.	1%	Yr un fath
Y % o neu fwy o refeniw o Olew: cwmnïau sydd ynghlwm mewn fforio, echdynnu, coethi a/ neu wasgaru tanwydd olew.	10%	1%
Y % o neu fwy o refeniw o Nwy: cwmnïau sydd ynghlwm mewn fforio, echdynnu, gweithgynhyrchu neu wasgaru hydrocarbon, hydrogen a chymysgedd carbon monocsid sydd yn bresennol mewn cyflwr nwyol.	50%	1%

Mae'r polisi uchod yn berthnasol i'r asedau ecwiti corfforol a restrir i ddechrau. Mae hyn oherwydd bod y rhan hwn o'r portffolio gyda'r data fwyaf cynhwysfawr a chywir y gellir dadansoddi a monitro'r polisi mewn ffordd cadarn a chost effeithiol. Uchelgais y Gronfa yw ystyried cais y polisi gwaharddiadau i holl rannau o'r portffolio dros amser, ar sail argaeledd data cadarn ac ymarferoldeb gweithredu.

Mae'r Gronfa yn ceisio gweithredu'r polisi gwahardd "Uchelgais y Gronfa" uchod. Cydnabu ar hyn o bryd bod opsiynau gweithredu cyfyngedig i'r polisi hwn. O ganlyniad, roedd y

Gronfa wedi sefydlu polisi gwahardd “Amcan Lleiafswm”, sydd wedi alinio gyda Paris Aligned Benchmark a chredir ei fod yn ymarferol fwy gweithredol.

Mae’r Gronfa yn cydnabod er mwyn gweithredu polisi gwahardd y bydd angen gweithio gyda’r WPP. Gan ystyried y natur gronfa wedi’i gronni o fuddsoddiadau, bydd y Gronfa yn defnyddio ymagwedd ymdrechion dda a chydabod y byddai hyn yn arwain at gwmnïau sydd ddim yn gyson gyda’r polisi gwahardd uchod. Bydd hyn yn cael ei fonitro bob blwyddyn gan geisio eglurhad, os yw cwmnïau yn cael eu dal yn torri amodau’r meini prawf gwaharddiad.

Blaenoriaethau Buddsoddi Cyfrifol Strategol

Mae’r Gronfa’n cydnabod, fel Buddsoddwr Cyfrifol, bod lluo o feysydd posibl i ganolbwyntio arnynt, fodd bynnag, nid yw’n bosib canolbwyntio ar bopeth gyda’i gilydd. Mae’r blaenoriaethau strategol hyn gan safbwynt Buddsoddiad Cyfrifol:

Gwerthuso a rheoli cysylltiad â charbon

- Mae’r Gronfa wedi nodi newid hinsawdd fel risg ariannol, ac yn bwriadu mesur a deall ei chysylltiad â charbon o fewn ei phortffolio buddsoddi.
- Cytunodd y Gronfa i ddefnyddio metrig ôl-traed carbon fel y prif fetrig i fonitro cynnydd carboneiddio, gan fonitro cynnydd yn erbyn allyriadau diamod a gyfartaledd pwysedig carbon cyfartaledd (WACI).

Nodi cyfleoedd buddsoddi cynaliadwy

- Am nifer o flynyddoedd, mae’r Gronfa wedi ceisio gwneud buddsoddiadau Effaith/Cymdeithasol; yn ogystal â gwneud yr enillion ariannol gofynnol, trwy hyn bydd y buddsoddiad yn cael effaith amgylcheddol neu gymdeithasol gadarnhaol. Mae Adolygiad Strategeth Buddsoddi 2022 wedi cefnogi ymhellach gyda’r dyraniad ased i’r portffolio Lleol/ Effaith yn cynyddu.
- Mae gan y portffolio bwysau targed strategol o 6% o’r asedau’r Gronfa.
- Mae’r Gronfa hon wedi cynyddu ei ddyraniad strategol i ecwiti cynaliadwy i 15% o gyfanswm asedau’r gronfa yn dilyn adolygiad strategaeth diweddaraf, a chynnydd o 10% o’i ddyraniad blaenorol.

Gwella datgeliad cyhoeddus ac adrodd

- Mae’r Gronfa’n cydnabod y pwysigrwydd o dryloywder ac adrodd, mewn perthynas â materion ESG. Mae’r Gronfa’n parhau i wella’r modd y mae’n dadansoddi, datgelu ac adrodd ar ei gweithgareddau Buddsoddi Cyfrifol, yn cynnwys pleidleisio ac ymgysylltu, a dadansoddi allyriadau carbon.
- Mae’r Gronfa wedi drafftio ei adroddiad Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol Cysylltiedig â’r Hinsawdd (“TCFD”) yn cyflenwi 12 mis i 31 Mawrth 2022. Drafftwyd yr adroddiad yn unol â’r argymhellion gan y TCFD a’r cynigion ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar lywodraethu ac adrodd ar risgiau newid hinsawdd ar y pryd.
- Mae’r Gronfa yn cyflawni Dadansoddiad ar gyfer Trawsnewid Hinsawdd (“ACT”) (offeryn dadansoddi Mercer), sydd yn darparu’r Gronfa â dadansoddiad o’r gwaelod i

fyny o gapasiti trawsnewid portffolio. Mae dadansoddiad yn cael ei gyflawni bob 12 mis, gyda'r dadansoddiad diweddaraf wedi cael ei gyflawni ar 31 Mawrth 2022.

Mynd ati i ymgysylltu â risgiau ESG

- Fel aelod o'r LAPFF, mae gan y Gronfa ymgysylltiad gweithredol gyda'i fuddsoddiad gwaelodol, mae'r ymgysylltiad hwn yn cael ei atodi gan waith y WPP. Mae'r Gronfa wedi ymrwymo i fynd ati i weithio gyda'r WPP a'i darparwyr, i wella ei lefelau o ymgysylltiad.

Cod Stiwardiaeth FRC

- Roedd y Gronfa yn llwyddiannus gyda'r cais gyntaf i God Stiwardiaeth y DU 2020 ac yn llofnodwr cyfredol i'r Cod. Gellir gweld cyflwyniad y Gronfa ar wefan FRC.

Prisiad Actiwaraid ac adolygiad o'r Strategaeth Fuddsoddi

Bydd asesiad o effaith newid hinsawdd ar strategaeth fuddsoddi'r Gronfa yn ategu'r prisiad actiwaraid a phroses adolygu'r strategaeth fuddsoddi, a chynhelir y ddau yn ystod 2022. Roedd mynd i'r afael â risgiau sy'n ymwneud â newid hinsawdd yn ffactor allweddol i'r ddau.

Ymrwymiad

Mae'r Gronfa bob amser wedi ceisio gweithredu ag ystyriaeth briodol mewn perthynas â'i buddsoddiadau ac yn cydnabod y bydd angen i'w dull Buddsoddi Cyfrifol ddatblygu'n barhaus, o ystyried cyflymder y newid o ran effaith a dealltwriaeth o faterion ESG, a'r byd sy'n newid o hyd. Oherwydd y ffocws cynyddol ar Fuddsoddi Cyfrifol o fewn y diwydiant buddsoddi, mae ffordd o feddwl ac arfer orau'n parhau i ddatblygu, ac mae'r Gronfa'n ymroddedig i sicrhau bod ei hymagwedd yn parhau i fod yn berthnasol ac addas. Bydd Polisi Buddsoddi Cyfrifol y Gronfa'n cael ei adolygu'n ffurfiol bob tair blynedd ar y lleiaf, fel rhan o unrhyw adolygiad strategol o ddyraniad asedau'r Gronfa, neu sy'n ofynnol oherwydd gofynion rheoliadol newidiol, neu i roi sylw i faterion penodol a all godi.

Cymeradwyo, adolygu a rhagor o wybodaeth

Cymeradwyo, Adolygu ac Ymgynghori

Cymeradwywyd y fersiwn hon o'r Datganiad Strategaeth Fuddsoddi ym Mhwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd ar 29 Tachwedd 2023. Bydd y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n ffurfiol o leiaf bob tair blynedd neu'n gynharach, yn seiliedig ar bryd yr ystyrir hi'n addas i adolygu ymagwedd y Gronfa at fuddsoddi asedau'r Gronfa, yn cynnwys buddsoddi cyfrifol.

Rhagor o Wybodaeth

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am unrhyw beth yn y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi hon neu'n gysylltiedig â'r Strategaeth hon, cysylltwch â:

Debbie Fielder, Dirprwy Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd, Cyngor Sir y Fflint

E-bost: debbie.a.fielder@sirymfflint.gov.uk

Ffôn: 01352 702259

Mae rhagor o wybodaeth am y Gronfa i'w chael ar ei gwefan:

<https://cronfabensiynauclwyd.org.uk>

Mae rhagor o wybodaeth am Bartneriaeth Pensiwn Cymru i'w chael ar ei

gwefan: <https://www.partneriaethpensiwncymru.org/>

Atodiad 12: Datganiad Strategaeth Gyfathrebu (Mehefin 2022)

Cyflwyniad

Dyma'r Strategaeth Gyfathrebu ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd a weinyddir gan Gyngor Sir y Fflint (yr Awdurdod Gweinyddu). Mae wedi cael ei baratoi i fodloni gofynion Rheoliadau CPLIL fel y nodir yn [Atodiad 1](#), ac mae'n amlinellu ein dull gweithredu strategol ar gyfer cyfathrebu.

Datganiad Cenhadaeth

Datganiad Cenhadaeth Cronfa Bensiynau Clwyd yw:

- cael ei hystyried yn flaengar, yn ymatebol, yn gynhwysol, yn rhagweithiol ac yn broffesiynol, gan ddarparu gwasanaeth rhagorol sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, yn ddibynadwy ac yn gredadwy i'r holl gwsmeriaid
- meithrin diwylliant corfforaethol o ymwybyddiaeth o risg, llywodraethu ariannol, a darparu gwasanaethau unigryw o'r safon uchaf o fewn y gyllideb adnoddau
- gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid, gan ganolbwyntio ar atebion a dull 'gallu gwneud'

Rhanddeiliaid y Gronfa

Rhanddeiliaid allweddol y Gronfa yw:

- ein 52 o gyflogwyr yn ardaloedd Cyngor Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Wrecsam
- mae ein 49,000 o aelodau cynllun wedi'u rhannu i'r categorïau isod ar 1 Ebrill 2021:

Math o Aelod	Maint
Aelodau cynllun gweithredol	17,700
Aelodau cynllun gohiriedig	16,900
Pensiynwyr ac aelodau dibynnol	14,400

Mae'r Strategaeth hon yn canolbwyntio'n bennaf ar sut rydym yn cyfathrebu ag aelodau a chyflogwyr presennol a darpar gyflogwyr y cynllun. Fodd bynnag, mae'r Strategaeth hon yn ymdrin â'n holl gyfathrebu gan gynnwys rhanddeiliaid eraill y byddwn yn cyfathrebu â nhw

- Staff y Gronfa Bensiynau (gweler [Atodiad 2](#))
- Pwyllgor y Gronfa Bensiwn ac aelodau'r Bwrdd Pensiwn, a'r Panel Cyngori (gweler [Atodiad 3](#))
- Sefydliadau eraill â diddordeb gan gynnwys Adrannau'r Llywodraeth, Bwrdd Cyngori'r Cynllun a Chynghorwyr i'r Gronfa Bensiwn (gweler [Atodiad 4](#))

Nodau ac amcanion

Ein prif amcanion mewn perthynas â chyfathrebu yw:

- Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Cynllun a darparu digon o wybodaeth er mwyn i randdeiliaid allu gwneud penderfyniadau gwybodus.
- Cyfathrebu mewn ffordd glir a chryno.
- Sicrhau ein bod yn defnyddio'r dulliau cyfathrebu mwyaf priodol, gan ystyried gwahanol anghenion gwahanol randdeiliaid, ond gyda'r rhagosodiad o ddefnyddio cyfathrebiadau electronig lle bo hynny'n effeithlon ac yn effeithiol.
- Chwilio am arbedion effeithlonrwydd a ffyrdd amgylcheddol gyfrifol o ddarparu cyfathrebiadau drwy ddefnyddio mwy ar dechnoleg a gweithio mewn partneriaeth.
- Gwerthuso effeithiolrwydd cyfathrebu yn rheolaidd a siapio cyfathrebu yn y dyfodol yn briodol.

Mewn perthynas â chyfathrebu ag aelodau, rydym am i'n gweithgareddau ymgysylltu:

- Gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fanteision y cynllun pensiwn a sut mae'n gweithio.
- Annog aelodau i gymryd perchnogaeth dros eu pensiwn a deall manteision ehangach y cynllun pensiwn.
- Cynnal a meithrin profiadau cadarnhaol ymysg aelodau ar hyd taith pob aelod, lle bynnag maen nhw ar eu taith.
- Lleihau'r angen am gyfarfodydd wyneb yn wyneb a galwadau ffôn.

Mae ein prif gyfathrebiadau i aelodau'r cynllun yn cael ei hegluro'n nes ymlaen yn y Strategaeth hon.

Mewn perthynas â chyfathrebu â cyflogwyr, rydym am i'n gweithgareddau ymgysylltu:

- Gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth cyflogwyr o'r wybodaeth sydd ei hangen ar y Gronfa.
- Annog cyflogwyr i gymryd perchnogaeth dros y data a helpu eu gweithwyr i ddeall manteision ehangach y cynllun pensiwn.
- Cynnal a meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda chyflogwyr ni waeth beth yw eu maint na'u harbenigedd ym maes pensiynau.
- Gwneud rheolaeth y Gronfa yn fwy effeithlon i'r Gronfa ac i gyflogwyr.

Mae ein prif gyfathrebu â chyflogwyr yn cael ei egluro'n nes ymlaen yn y Strategaeth hon.

Sut rydym yn cyfathrebu

1. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod cyfathrebiadau'n hygyrch i'r holl randdeiliaid a datblygu defnydd pellach o gyfathrebiadau digidol.
2. Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod cyfathrebiadau'n hawdd eu deall drwy ddefnyddio technegau iaith glir a sgoriau darllenadwyedd.
3. Cyhoeddir pob gohebiaeth generig i aelodau'r cynllun yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd.

Rydym yn cydymffurfio â safonau hygyrchedd ar gyfer cynnwys ac elfennau gweledol, gan gynnwys ar gyfer cwsmeriaid agored i niwed. Cyn cyhoeddi cyfathrebiadau, mae'r holl ofynion yn cael eu hystyried, fel:

- Sicrhau bod cynnwys fideo yn cynnwys isdeitlau fel mater o drefn.
- Sicrhau bod yr aelodau'n ymwybodol ein bod yn gallu bodloni unrhyw ofynion ar gyfer:
 - Fformatau Braille;
 - Testun plaen ar gyfer y canlyniadau gorau ymysg darllenwyr sgrin;
 - CDs Sain;
 - Fersiynau wedi'u cyfieithu.
- Sicrhau bod y wefan a/neu'r ap yn gwbl gyson â Chanllawiau Hygyrchedd Cynnwys y We.

Gweithredu

Mae'r nodau a'r amcanion a amlinellir yn y Strategaeth hon yn gofyn am newid eithaf radical yn y ffordd yr ydym yn cyfathrebu â rhanddeiliaid, yn enwedig aelodau'r cynllun a chyflogwyr. Mae'r Strategaeth hon yn cael ei gweithredu ar adeg pan fo nifer o heriau parhaus, gan gynnwys:

- Yr angen i gyfleu amryw o newidiadau mewn cynlluniau a newidiadau cenedlaethol, fel datrysiad McCloud, cynnydd posibl mewn isafswm oedran pensiwn a'r dangosfwrdd pensiynau cenedlaethol; a
- phwysau parhaus ar adnoddau a chyllidebau i gyflogwyr a'r awdurdod gweinyddu.

Ar ben hynny, rydym yn ymwybodol o'r ffaith bod yn rhaid i'n holl gyfathrebiadau fod yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn ogystal â bod yn hygyrch i'r holl randdeiliaid.

O ganlyniad, bydd y Strategaeth hon yn cael ei gweithredu dros amser gan ganolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:

- Gwellu profiad aelodau a gwella hunan wasanaeth.
- Nodi ffyrdd clyfar o weithio ar y cyfathrebu.
- Symleiddio iaith a chyfathrebu'n fwy cryno.
- Adnewyddu hunaniaeth weledol y Gronfa.
- Ehangu sianeli danfon i aelodau.
- Datblygu dull segmentaidd o ymgysylltu.

Caiff hyn ei ystyried ymhellach yn ein Cynllun Busnes 2022/23 i 2024/25 a bydd yn cael ei ystyried ymhellach mewn Cynlluniau Busnes yn y dyfodol. Byddwn yn canolbwyntio yn 2022/23 ar gyfathrebu ag aelodau'r cynllun a bydd yn cynnwys:

- Cyfathrebu'n fwy cryno gyda chyfathrebu byrrach, sy'n ddeniadol i'r llygad.
- Teilwra cynnwys fel ei fod yn fwy perthnasol i segment y gynulleidfa.
- Gosod targedau ar gyfer gweithgarwch ar-lein a chynyddu'r defnydd o wefan HWA.
- Hyrwyddo hunan-wasanaeth.
- Defnyddio dull cyfathrebu aml-sianel – gan ganolbwyntio ar ganiatáu i aelodau ryngweithio â'r Gronfa mewn ffordd sy'n addas i'w hanghenion.

Ein prif gyfathrebiadau gydag aelodau'r Cynllun

Eitem	Pam y cyhoeddir hwn?	Pa fformat yw hwn?	Pryd mae hwn yn cael ei gyhoeddi?	I bwl mae'n cael ei roi?	Rheoleiddiol (Y/N)
Gwefan(nau)	Darparu pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer holl aelodau'r Cynllun a dangos gwybodaeth sylfaenol am y Gronfa a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a gwylio fideos. Gall aelodau hefyd gael gafael ar lenyddiaeth a ffurflenni'r cynllun neu eu llwytho i lawr.	Gwefannau lluosog, cyhoeddus, heb eu diogelu: https://cronfabensiynauclwyd.org.uk https://www.lgpsmember.org	Parhaol	Pob aelod	Y (gwesteio dogfennau rheoleiddio)
Hunanwasan aeth Aelodau (HWA)	Mae'r HWA yn caniatáu i aelodau fewngofnodi i wefan ddiogel er mwyn: • gweld gwybodaeth bersonol; • diweddarau manylion personol; • diweddarau datganiadau o ddymuniad grant marwolaeth; • cyfrifo amcangyfrifon ymddeol; • adolygu Datganiadau Budd Blynnyddol; • gweld cylchlythyrau a gohebiaeth arall; • llwytho gwybodaeth i fyny ar gyfer Tîm Gweinyddu'r Gronfa. Mae'n well gan y Gronfa i aelodau wneud hyn ar-lein er mwyn lleihau'r baich ar y tîm Gweinyddu.	Gwefan ddiogel a hysbysiadau ebost	Parhaol	Pob aelod	Y (yn cynnwys Datganiadau Budd Blynnyddol)

Eitem	Pam y cyhoeddir hwn?	Pa fformat yw hwn?	Pryd mae hwn yn cael ei gyhoeddi?	I bwl mae'n cael ei roi?	Rheoleiddiol (Y/N)
Datganiad au Budd Blynyddol (ABS)	Mae'r ABS yn rhoi cipolwg blynyddol i aelodau o'u sefyllfa eu hunain o ran buddion. Mae hyn yn helpu i wneud i'w pensiwn deimlo'n berthnasol.	Datganiad digidol y gellir ei lwytho i lawr o gyfrif HWA. Anfonir copïau papur i gyfeiriadau cartref yr aelodau lle maent wedi dewis derbyn gohebiaeth bapur.	Bob blwyddyn erbyn diwedd mis Awst.	Pob aelod gweithredol ac aelodau gohiriedig.	Y
Datganiad au Cynyddu Pensiynau Blynyddol	Mae'r datganiad cynnydd blynyddol mewn pensiynau yn rhoi gwybodaeth i bob pensiynwr am yr hyn y bydd eu pensiwn yn cynyddu iddo o ganlyniad i'r codiad blynyddol mewn pensiynau.	Datganiad digidol y gellir ei lwytho i lawr o gyfrif HWA. Anfonir copïau papur i gyfeiriadau cartref yr aelodau lle maent wedi dewis derbyn gohebiaeth bapur.	Bob blwyddyn cyn dyddiad talu mis Ebrill.	Pob pensiynwr a dibynnyddion.	Y

Eitem	Pam y cyhoeddir hwn?	Pa fformat yw hwn?	Pryd mae hwn yn cael ei gyhoeddi?	I bwl mae'n cael ei roi?	Rheoleiddiol (Y/N)
Cylchlythyrau Cyffredinol	Bwriad Penpal yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau gweithredol am newidiadau i reolau'r cynllun ac mae'n tynnu sylw at Ffeithiau a Ffigurau pwysig o'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol. Nod Dal i Fyny Clwyd yw rhoi gwybod i bensiynwyr sut mae cyfraddau pensiwn blynyddol newydd wedi cael eu cyfrifo ac mae hefyd yn cynnwys newyddion pensiwn ehangach. Defnyddir Dyddiaduron Gohiriedig yn bennaf i egluro cynnwys datganiadau budd gohiriedig, er y gall gynnwys diweddariadau CPLIL hefyd ac mae'n tynnu sylw at ffeithiau a ffigurau pwysig o'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol.	Cylchlythyr digidol y gellir ei lwytho i lawr o gyfrif HWA. Anfonir copïau papur i gyfeiriadau cartref yr aelodau lle maent wedi dewis derbyn gohebiaeth bapur.	Penpal gyda datganiadau budd blynyddol. Dal i Fyny Clwyd bob blwyddyn ym mis Ebrill. Dyddiaduron gohiriedig gyda datganiadau budd blynyddol.	Penpal i aelodau gweithredol Dal i Fyny Clwyd i bensiynwyr a dibynyddion. Dyddiaduron Gohiriedig i aelodau gohiriedig.	Y (ond nid pob cyhoeddiad)
Cylchlythyrau Diweddarau (Pensiwn Ychwanegol)	Rhoi gwybod i aelodau am faterion brys CPLIL sy'n methu aros am ohebiaeth arall wedi'i threfnu.	Cylchlythyr digidol y gellir ei lwytho i lawr o gyfrif HWA. Anfonir copïau papur i gyfeiriadau cartref yr aelodau lle maent wedi dewis derbyn gohebiaeth bapur.	Yn ôl yr angen	Unrhyw aelodau priodol.	Y (ond nid pob cyhoeddiad)

Eitem	Pam y cyhoeddir hwn?	Pa fformat yw hwn?	Pryd mae hwn yn cael ei gyhoeddi?	I bwl mae'n cael ei roi?	Rheoleiddiol (Y/N)
Cyflwyniadau / Gweithdai Pensiwn	Addysgu aelodau. Hyrwyddo llenyddiaeth a gwasanaethau perthnasol CPLIL, yn amrywio o HWA i ffurflenni mynegi dymuniad grant marwolaeth.	Cyflwyniadau a gweithdai, rhai yn bersonol ac eraill ar-lein yn seiliedig ar ofynion y gynulleidfa.	Drwy gydol y flwyddyn	Aelodau	N
Polisi Ffôn ac E-bost / Swyddfa Agored	Ateb ymholiadau penodol gan aelodau yn fanwl.	Ffôn, ffacs neu e-bost: pensiynau@siryfflint.gov.uk Llwytho cwestiynau a gwybodaeth i fyny i HWA. Hefyd apwyntiadau wyneb yn wyneb	Drwy gydol y flwyddyn	Yr holl aelodau, ynrychiolw yr aelodau a darpar aelodau	N
Cyrsiau Cynymddeol (mewn partneriaeth â Chronfa Bensiwn Gwynedd)	Rhoi gwybod am fuddiannau a gweithdrefnau ymddeol Llywodraeth Leol.	Cyrsiau wyneb yn wyneb neu rith gyrsiau.	Drwy gydol y flwyddyn	Yr holl aelodau CPLIL o Ogledd Cymru sy'n nesáu at ymddeol	N

Eitem	Pam y cyhoeddir hwn?	Pa fformat yw hwn?	Pryd mae hwn yn cael ei gyhoeddi?	I bwl mae'n cael ei roi?	Rheoleiddiol (Y/N)
Llenyddiaeth Arall	Mae Llenyddiaeth sy'n gysylltiedig â'r Gronfa yn cynnwys: Canllaw Cynllun Byr i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar gyfer aelodau newydd. Anfon pecyn ymddeol at bob aelod ar fin ymddeol. Taflenni ffeithiau ar sawl maes gan gynnwys ymddeol oherwydd salwch, absenoldeb mamolaeth, ymddeoliad hyblyg a chymudo.	PDFs ar y wefan (er bod rhai eitemau fel y pecyn ymddeol yn cael eu hanfon yn uniongyrchol at aelodau).	Parhaol (neu wedi'i roi i aelodau pan fo angen)	Pob aelod	Y (ond nid pob un)
Gohebiaeth Trethu Pensiynau	Helpu aelodau a allai gael eu heffeithio neu sydd mewn perygl o gael eu heffeithio gan y Lwfans Oes neu Flynyddol i ddeall eu rhwymedigaethau.	Gweithdai llythyrau personol Taflenni Ffeithiau	Bob blwyddyn pan fo angen Parhaol	Aelodau yr effeithir arnynt ac aelodau mewn perygl	Y (ond nid pob un)
Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon	Cyhoeddir yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol i ddangos sut mae'r Gronfa wedi perfformio yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae hefyd yn cynnwys datganiadau ynghylch gweinyddu, llywodraethu, egwyddorion buddsoddi, strategaeth gyllido a risg.	PDF ar y wefan.	Bob blwyddyn ym mis Tachwedd	Pob aelod	Y

Ein prif gyfathrebiadau â Chyflogwyr

Eitem	Pam y cyhoeddir hwn?	Pa fformat yw hwn?	Pryd mae hwn yn cael ei gyhoeddi?	I bwl mae'n cael ei roi?
Strategaeth Weinyddol	Mae Strategaeth Weinyddol y Gronfa yn nodi'n fanwl beth yw rhwymedigaethau a chyfrifoldebau'r Gronfa a'r cyflogwyr i gyflawni safonau perfformiad penodol a gofynion cyfreithiol. Mae'n rhoi trosolwg o sut y bydd yr awdurdod gweinyddu a'r cyflogwyr yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau gwasanaeth o safon uchel.	PDF ar y wefan. E-bost at bob cyflogwr.	Parhaol, wedi'i ddiweddarau bob tair blynedd. Pan gaiff ei ddiweddarau, wrth ymuno ar gyfer cyflogwyr a chysylltiadau newydd â chyflogwyr.	Pob cyflogwr
Swyddogion cyswllt allweddol a chyfarfodydd cyflogwyr	Cyfarfod(ydd) i drafod unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a/neu godi unrhyw faterion sy'n ymwneud â pherfformiad y cyflogwr neu'r gwasanaethau a ddarperir gan y Gronfa.	Cyfarfod rhwng y Prif Swyddog Pensiynau a phrif swyddog cyswllt y Cyflogwr.	Yn ôl yr angen	Prif swyddog cyswllt y Cyflogwr
Cyfarfod Blynnyddol y Cyflogwr	Darparu diweddariadau sy'n ymwneud â gweinyddu a rhoi sylw i'r materion cyfredol a'r newidiadau sydd ar y gweill i Gronfa Bensiwn Clwyd a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.	Cyfarfod	Bob blwyddyn pan fo'r angen	Pob cyflogwr

Eitem	Pam y cyhoeddir hwn?	Pa fformat yw hwn?	Pryd mae hwn yn cael ei gyhoeddi?	I bwl mae'n cael ei roi?
Cyfarfod Ymgynghori Blynnyddol ar y Cyd (AJCM)	Rhoi trosolwg o berfformiad cronfeydd a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i fynychwyr am newidiadau i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a materion sy'n effeithio ar y Gronfa, gan roi sylw i bob maes llywodraethu, gweinyddiaeth, buddsoddiadau a chyllid.	Cyfarfod Fel arfer mae'n cynnwys cyflwyniadau sy'n crynhoi prif agweddau Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon y Gronfa	Bob blwyddyn	Pob cyflogwr, cynrychiolwyr Undeb Llafur a chynrychiolwyr eraill aelodau'r cynllun.
Sesiynau Hyfforddi	Sicrhau bod cysylltiadau perthnasol â chyflogwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am reoliadau a gweithdrefnau gweinyddu'r CPLIL	Sesiwn hyfforddi	Yn ôl yr angen	Yn ôl yr angen
Gwefan	Rhoi gwybodaeth ac arweiniad ar sut i weithredu rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a rheoli Cronfa Bensiwn Clwyd.	Gwefannau: https://cronfabensiynauclwyd.org.uk gan gynnwys adran benodol ar gyflogwyr: https://cronfabensiynauclwyd.org.uk/en/Employer-Information/home.aspx https://www.lgpsregs.org/	Parhaol	Pob cyflogwr

Eitem	Pam y cyhoeddir hwn?	Pa fformat yw hwn?	Pryd mae hwn yn cael ei gyhoeddi?	I bwl mae'n cael ei roi?
Diweddariad au E-bost	Tynnu sylw at faterion pwysig sy'n ymwneud â'r Gronfa, diweddariadau cyffredinol am y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a'r gwasanaethau sydd ar gael i gyflogwyr y Gronfa a'u staff. Mae'r Gronfa'n anfon e-bost at gyflogwyr i roi gwybod iddynt pan fydd hysbysiad newyddion yn cael ei ychwanegu at y wefan.	E-bost	Yn ôl yr angen	Pob cyflogwr
i-Connect	Trosglwyddo data diogel am aelodau'r cynllun rhwng cyflogwyr a'r Gronfa. i-Connect yw'r meddalwedd y mae'n rhaid i bob cyflogwr yn y Gronfa ei ddefnyddio i gyflwyno gwybodaeth i'r Adran Gweinyddu Pensiynau.	System i-Connect	Parhaol	Pob cyflogwr
Digwyddiadau sy'n benodol i gyflogwyr	Cynorthwyo cyflogwyr i ddeall eu cyfrifoldebau.	Digwyddiadau wyneb yn wyneb neu dros y we a drefnir gan gyflogwyr, a fynychir gan swyddog(ion) y Gronfa ar gais y cyflogwr.	Yn ôl yr angen	Pob cyflogwr

Monitro

Wrth i'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth hon esblygu, rydym am sicrhau ein bod yn cyflawni ei hamcanion. Byddwn yn gwneud hyn drwy fonitro cynnydd fel y dangosir isod:

Amcan/Mesur	Monitro	Targedau Penodol
Cynyddu ymwybyddiaeth a Cynllun/Cronfa a sut mae'n gweithio.	Adborth drwy arolygon blynyddol aelodau a chyflogwyr a grwpiau gwrandio. Coladu adborth a sut mae'n gweithio. anffurfiol pan fydd unrhyw gyfathrebu'n cael ei anfon allan. Monitro canmoliaeth a chwynion o negeseuon e-bost a galwadau gan aelodau a chyflogwyr i'r Gronfa.	Arolygon: 90% o ymatebion cadarnhaol
Cynnal a meithrin profiadau cadarnhaol ymysg aelodau / cysylltiadau cyflogwyr.	Adborth drwy arolygon a grwpiau gwrandio blynyddol sy'n benodol i aelodau a chyflogwyr: targed 90% o ymatebion cadarnhaol. Monitro canmoliaeth a chwynion o negeseuon e-bost a galwadau gan aelodau i'r Gronfa	
Sicrhau ein bod yn defnyddio'r ffordd fwyaf priodol o ystyried gwahanol anghenion gwahanol randdeiliaid.	Adborth drwy arolygon a grwpiau gwrandio blynyddol sy'n benodol i aelodau a chyflogwyr.	

Amcan/Mesur	Monitro	Targedau Penodol
Annog aelodau / cyflogwyr i gymryd perchnogaeth o'u pensiwn/gwybodaeth sy'n ofynnol.	Tracio defnydd o fideo a phodlediadau. Tracio'r nifer sy'n defnyddio HWA (aelodau). Tracio niferoedd clicio drwodd yr holl gyfathrebu ar-lein. Monitro defnydd y wefan.	Fideo, podlediad, cyfathrebu ar-lein a defnydd o'r wefan – cynnydd parhaus. Defnydd HWA: cynnydd o 5% y flwyddyn yng nghyfran yr aelodau cofrestredig gyda tharged tymor hir o 75% o'r holl aelodau gweithredol a gohiriedig yn ddefnyddwyr cofrestredig.
Lleihau'r angen am gyfarfodydd wyneb yn wyneb a galwadau ffôn gan aelodau'r cynllun.	Olrhain galwadau aelodau a chyfarfodydd wyneb yn wyneb.	Gostyngiad parhaus.
Gwneud rheolaeth y Gronfa yn fwy effeithlon i'r Gronfa ac i gyflogwyr. Chwilio am arbedion effeithlonrwydd a ffyrdd amgylcheddol gyfrifol o ddarparu cyfathrebiadau drwy ddefnyddio mwy ar dechnoleg a gweithio mewn partneriaeth.	Monitro llwyth gwaith y Tîm Gweinyddol mewn perthynas ag ymholiadau ad hoc. Tracio negeseuon e-bost a galwadau gan gyflogwyr ac aelodau, a chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Tracio'r nifer sy'n defnyddio HWA (aelodau). Sicrhau bod pob cyflogwr yn defnyddio iConnect yn orfodol. Tracio niferoedd clicio drwodd yr holl gyfathrebu ar-lein.	Ymholiadau ad hoc, negeseuon e-bost, galwadau a chyfarfodydd wyneb yn wyneb – gostyngiadau parhaus. Defnydd HWA: cynnydd o 5% y flwyddyn yng nghyfran yr aelodau cofrestredig gyda tharged tymor hir o 75% o'r holl aelodau gweithredol a gohiriedig yn ddefnyddwyr cofrestredig. Nifer sy'n defnyddio i-Connect: 100% o gyflogwyr.

Amcan/Mesur	Monitro	Targedau Penodol
Gwerthuso effeithiolrwydd cyfathrebu yn rheolaidd a siapio cyfathrebu yn y dyfodol yn briodol.	Adolygu'r cynllun cyfathrebu a'r strategaeth yn rheolaidd ar sail y monitro a nodir uchod.	

Risgiau Allweddol

Amlinellir y prif risgiau i gyflawni'r Strategaeth hon isod. Byddwn yn monitro'r rhain ac yn ystyried sut i ymateb iddynt.

- Diffyg neu leihau adnoddau sgiliedig oherwydd ei bod yn anodd cadw a recriwtio aelodau staff a hefyd oherwydd absenoldeb staff oherwydd salwch.
- Mae cynnydd sylweddol yn nifer y cyrff sy'n cyflogi yn achosi straen wrth ddarparu o ddydd i ddydd.
- Ffactorau allanol sylweddol, fel newid cenedlaethol, sy'n effeithio ar lwyth gwaith.
- Cyhoeddi gohebiaeth anghywir.
- Methu â chynnal cronfa ddata gyfredol a chywir o gyflogwyr sy'n golygu nad yw gwybodaeth yn cael ei hanfon at y person cywir.
- Cyfathrebu ag aelodau'r cynllun nad ydynt yn cael eu derbyn na'u darllen.
- Diffyg cyfathrebu clir a dealladwy gyda chyflogwyr, aelodau'r cynllun a rhanddeiliaid eraill.

Cymeradwyo ac adolygu

Cafodd y fersiwn hon o'r Strategaeth Gyfathrebu ei chymeradwyo gan Bwyllgor Cronfa Bensiwn Clwyd ar 15 Mehefin 2022. Bydd yn cael ei hadolygu a'i diweddarau'n ffurfiol o leiaf bob tair blynedd neu'n gynt os bydd unrhyw faterion sydd wedi'u cynnwys ynddo yn haeddu cael eu hailystyried.

Rhagor o wybodaeth

Dylid anfon unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â chyfathrebiadau'r Gronfa neu egwyddorion neu gynnwys y Datganiad Strategaeth hwn at:

Karen Williams: Rheolwr Gweinyddu Pensiynau

Cyngor Sir y Fflint Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NA

E-bost: karen.williams@sirifflint.gov.uk

Ffôn: 01352 702875

Atodiad 1: Fframwaith rheoleiddio

Mae'r strategaeth wedi'i llunio yn unol â rheoliad 61 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddu) 2013. Mae'r rheoliad yn mynnu:

1. Rhaid i awdurdod gweinyddu baratoi, cynnal a chyhoeddi datganiad ysgrifenedig sy'n nodi ei bolisi ynghylch cyfathrebu â'r canlynol:
 - a. Aelodau'r cynllun (gweithredol, gohiriedig, wedi ymddeol a dibynnol)
 - b. cynrychiolwyr aelodau'r Cynllun
 - c. darpar aelodau'r Cynllun
 - d. Cyflogwyr y cynllun
2. Yn benodol, rhaid i'r datganiad nodi ei bolisi ar:
 - a. darparu gwybodaeth a chyhoeddusrwydd am y cynllun
 - b. fformat, amllder a dull dosbarthu gwybodaeth neu gyhoeddusrwydd o'r fath
 - c. hyrwyddo'r Cynllun i ddarpar aelodau'r Cynllun a'u cyflogwyr.
3. Rhaid i'r strategaeth gael ei diwygio a'i chyhoeddi gan yr awdurdod gweinyddu yn dilyn newid perthnasol yn ei bolisi ar unrhyw faterion y cyfeirir atynt ym mharagraff (2).

Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol a Phersonol (Datgelu Gwybodaeth) 2013 ac mae deddfwriaeth arall yn cynnwys gofynion amrywiol sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth sy'n ymwneud â phensiynau (yn ogystal â'r gofynion yn Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol). Nod Cronfa Bensiwn Clwyd yw glynu wrth bob deddfwriaeth o'r fath a chanllawiau statudol neu ganllawiau arfer gorau cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys Cod Ymarfer y Rheolydd Pensiynau ar gyfer Cynlluniau Pensiwn Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae gofynion rheoleiddio eraill y mae'r Gronfa'n glynu wrthynt, gan gynnwys y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol, y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a deddfwriaeth sy'n ymwneud â defnyddio'r Gymraeg.

Atodiad 2: Cyfathrebu â staff y Gronfa Bensiynau

Mae'r Gronfa'n cydnabod mai ei staff yw ei hadnodd mwyaf ac mae'n sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am nodau'r Gronfa i ddarparu gwasanaeth o safon ac yn gywir.

Mae'r staff allweddol canlynol i gyd ar gael ar gyfer unrhyw un o staff y Gronfa a allai fod eisiau cyfarfod un-i-un â hwy:

- Pennaeth Cronfa Bensiwn Clwyd
- Dirpwry Bennaeth Cronfa Bensiwn Clwyd
- Rheolwr Gweinyddu Pensiynau

Mae gan staff hefyd fynediad digyfngiad at eu goruchwylwyr a chydweithwyr uwch i drafod a datrys materion sy'n ymwneud â gwaith. Mae'r staff yn cael gwybod am y canlynol:

Cyathrebu	Pwrpas
Cyfarfodydd yr Adran Weinyddol	Fel arfer yn cael ei gynnal bob mis i drafod materion gweithredol a thechnegol, gan sicrhau bod cydddealltwriaeth o unrhyw faterion a datblygu dull cyson o fynd i'r afael â nhw. Ar ben hynny, mae'r tîm Rheoli Gweinyddu Pensiynau yn cyfarfod yn wythnosol
Gwerthuso a Hyfforddi	Mae pob aelod newydd o staff yn dilyn trefn gynefino i'w hysbysu am weithrediad gweithredol y Gronfa. O ganlyniad, mae'r holl staff pensiwn hefyd yn derbyn hyfforddiant mewnol ac allanol. Mae staff ar bob lefel yn y Gronfa yn cynnal asesiadau blynyddol, gydag adolygiad canol blwyddyn, lle ceir trafodaethau agored ar faterion gwaith a meysydd i'w datblygu. Ategir y ddeialog hon gan gyfarfodydd un-i-un rheolaidd o fewn strwythurau tîm.
TEC (Canolfan Hyfforddi ac Addysg)	Mae Cronfa Bensiwn Clwyd yn defnyddio cyfleuster eddysgu. Mae hyn yn caniatáu i staff y Gronfa weithio drwy'r modiwlau e-ddysgu hyn i wella dysgu arall a hyfforddiant yn y gwaith a gânt. Mae'r modiwlau'n cynnwys llinell amser o reoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a sut i brosesu cyfrifiadau.
Negeseuon e-bost Tîm	Gall holl aelodau'r tîm anfon e-bost at unrhyw aelod arall o'r tîm ar unrhyw fater sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau neu ddiweddariadau staff eraill.
Cyfarfodydd yr Adran Gyllid	Fe'i cynhelir yn rheolaidd i drafod materion gweithredol a thechnegol sy'n ymwneud ag agweddau cyfrifyddu, buddsoddi a chyllido ar reolaeth y Gronfa.
Cyfarfodydd y Tîm Rheoli	Fe'i cynhelir bob pythefnos o leiaf, gan gynnwys Pennaeth Cronfa Bensiwn Clwyd, Dirprwy Bennaeth Cronfa Bensiwn Clwyd a'r Rheolwr Gweinyddu Pensiynau. Mae'r rhai sy'n bresennol yn trafod unrhyw faterion strategol neu weithredol sy'n ymwneud â'r Gronfa, gan gynnwys y newyddion diweddaraf am staffio, adnoddau ac agweddau rheolaethol eraill.

Atodiad 3: Cyfathrebu gydag aelodau'r Bwrdd a Phwyllgor y Gronfa Bensiynau

Mae cyfathrebu effeithiol yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn ac aelodau'r Bwrdd Pensiynau er budd gorau aelodau a chyflogwyr y Gronfa. Dyma'r prif ddulliau cyfathrebu, negeseuon ac amcanion:

Cyfathrebu	Pwrpas
Adroddiadau'r Pwyllgor/Bwrdd	I helpu aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd i ddeall y mater sydd i'w drafod yn y cyfarfod a datblygu eu gwybodaeth er mwyn iddynt allu gwasanaethu aelodau'r cynllun yn y ffordd orau wrth gyflawni eu rôl. Bydd yr adroddiadau hyn yn cynnwys holl strategaethau allweddol y Gronfa a dogfennau eraill megis cynllun busnes y Gronfa ac Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.
Cyfarfodydd Pwyllgor/Bwrdd	Lle bydd pob penderfyniad yn cael ei wneud a materion yn cael eu hystyried, gan ddarparu cyfle i aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd ofyn cwestiynau am unrhyw un o'r materion sy'n cael eu hystyried. Mae cyfarfodydd yn rheolaidd yn cynnwys cyflwyniadau gan swyddogion a chynghorwyr i helpu i egluro'r materion sy'n cael eu hystyried.
Cofnodion y Pwyllgor/Bwrdd	Yn crynhoi'r holl bwyntiau allweddol yn y cyfarfod gan gynnwys casgliadau a phenderfyniadau, gan ddarparu cofnod ffurfiol i gyfeirio ato yn y dyfodol.
Briff e-bost cyn Pwyllgor gan Bennaeth Cronfa Bensiwn Clwyd	Rhoi trosolwg i aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd o'r cyfarfod sydd i ddod a'u helpu i ddeall y materion allweddol a fydd yn cael eu hystyried.
Sesiynau briffio a hyfforddiant rheolaidd	Helpu aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd i gwrdd â lefelau disgwylidig o wybodaeth a deall materion y Gronfa'n well, gan gynnwys eitemau agenda'r Pwyllgor/Bwrdd sydd ar y gweill. Mae aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd hefyd yn cael mynediad at ddigwyddiadau hyfforddi allanol a chynadleddau sy'n berthnasol i'w rolau.

Cyfathrebu	Pwrpas
E-bost cyffredinol	Anfonir fel arfer gan reolwyr y Gronfa, bydd e-bost yn cael ei ddefnyddio i roi'r wybodaeth gyffredinol ddiweddaraf am faterion y Gronfa, hyfforddiant a digwyddiadau eraill.
Gwefan allanol: Cronfa Bensiwn Clwyd a CPLIL	Bydd gwybodaeth ddefnyddiol am y Gronfa a'r Cynllun ar gael i aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd ar y gwefannau hyn: https://cronfabensiwnauclwyd.org.uk https://www.lgpsmember.org
Gwefan allanol: Cyngor Sir y Fflint	Mae'r rhan fwyaf o'r adroddiadau a ddarperir i aelodau Pwyllgor y Gronfa Bensiwn, ynghyd â chofnodion y cyfarfod, ar gael ar wefan y Cyngor: Cofnodion y Pwyllgor - Saesneg Cofnodion y Pwyllgor – Cymraeg Mae papurau'r Pwyllgor hefyd yn cynnwys cofnodion cyfarfod diweddaraf y Bwrdd Pensiynau.
Cyfarfod Ymgynghori Blynyddol ar y Cyd (AJCM)	Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd i'r cyfarfod blynyddol hwn sy'n rhoi trosolwg o berfformiad y gronfa ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i fynychwyr am newidiadau i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a materion sy'n effeithio ar y Gronfa, gan roi sylw i bob maes llywodraethu, gweinyddiaeth, buddsoddiadau a chyllid.

Atodiad 4: Cyfathrebu â chyrff eraill

Mae'r Gronfa'n ymgysylltu'n rhagweithiol â nifer o gyrff eraill. Mae'r rhain yn cynnwys:

Cyrff	Diben
Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC)	Mae'r Gronfa'n cysylltu'n rheolaidd â DLUHC fel Cronfa CPLIL gyfrifol, gan gymryd rhan mewn ymgynghoriadau ac ymateb iddynt, yn ôl y gofyn.
Cymdeithas Llywodraeth Leol (LGA)	Mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol yn cysylltu â chronfeydd CPLIL a DLUHC i sicrhau bod holl reoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael eu gweinyddu'n gywir yn unol â chyfarwyddiadau DLUHC.
Bwrdd Cyngori'r Cynllun (SAB)	Sefydlwyd y SAB cenedlaethol yn dilyn Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Mae'n rhoi cyngor i gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Byrddau Pensiwn Lleol mewn perthynas â gweinyddu a rheoli'r Cynllun yn effeithiol ac yn effeithlon. Rydym felly'n cysylltu â'r Bwrdd Cyngori'r Cynllun fel y bo'n briodol.
Y Rheoleiddiwr Pensiynau	Mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau yn cyhoeddi Codau Ymarfer a chanllawiau, rhai ohonynt yn berthnasol i'r Sector Cyhoeddus. Mae'r Rheoleiddiwr hefyd yn edrych dramor ar sut mae cynlluniau pensiwn yn glynu wrth rai gofynion cyfreithiol. Mae'r Gronfa'n cysylltu â'r Rheoleiddiwr yn ôl yr angen i ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud â materion sydd o ddiddordeb i'r Rheoleiddiwr.
Undebau Llafur	Mae'r Gronfa'n gweithio gydag undebau llafur perthnasol i sicrhau bod pawb sydd â diddordeb yn deall y Cynllun. Ymdrechir i sicrhau bod yr holl faterion sy'n ymwneud â phensiynau yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol â'r undebau llafur. Cynrychiolir yr undebau llafur ar Bwyllgor y Gronfa Pensiwn a'r Bwrdd Pensiynau.

Cyrff	Diben
Cynrychiolwyr Cyflogwyr	Mae'r Gronfa'n cyfathrebu â chyrrff perthnasol sy'n cynrychioli cyflogwyr i sicrhau y cynrychiolir barn y Gronfa i grwpiau cyflogwyr. Cynrychiolir cyflogwyr ar Bwyllgor y Gronfa Bensiwn a'r Bwrdd Pensiynau.
Darparwr CGY	Mae'r Gronfa wedi penodi darparwyr Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY) er mwyn i aelodau Cronfa Bensiwn Clwyd i dalu cyfraniadau ychwanegol hefyd. Mae'r Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol hyn yn cael eu dal a'u buddsoddi ar wahân i brif Gronfa Bensiwn Clwyd. Darparwyr CGY presennol y Gronfa yw Prudential ac Utmot (wedi'u cau i gyfraniadau newydd).
Rheolwyr Buddsoddi y Gronfa Bensiwn, Cynghorwyr ac Actiwariaid	Mae Pennaeth Cronfa Bensiwn Clwyd, Dirprwy Bennaeth y Gronfa, y Tîm Cyllid a'r Tîm Gweinyddu yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda: • Rheolwyr y Gronfa sy'n buddsoddi arian ar ran y Gronfa • Ymgynghorwyr Buddsoddi sy'n darparu cymorth a chyngor ar ddyrannu asedau a buddsoddiadau'r Gronfa • Actiwari'r Gronfa i drafod lefelau cyllido, cyfraniadau cyflogwyr a phrisio asedau a rhwymedigaethau'r Gronfa • y Cynghorydd Annibynnol sy'n darparu cymorth a chyngor ar faterion llywodraethu. Mae'r Ymgynghorydd Annibynnol, Actiwari'r Gronfa a'r Cynghorydd Buddsoddi i gyd yn aelodau o Banel Ymgynghorol y Gronfa Bensiwn, ac yn mynychu holl gyfarfodydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn. Mae'r Ymgynghorydd Annibynnol hefyd yn Gadeirydd y Bwrdd Pensiwn ac yn mynychu holl gyfarfodydd y Bwrdd.
Llywodraeth Cymru	Weithiau mae angen i'r Gronfa gysylltu â Llywodraeth Cymru ar faterion a allai effeithio ar gyflawni'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Cyrff	Diben
Partneriaeth Pensiynau Cymru (WPP)	Mae'r Gronfa'n aelod o Bartneriaeth Pensiynau Cymru sydd wedi penodi Gweithredwr i fuddsoddi asedau ar gyfer cronfeydd CPLIL Cymru gyfan. Mae rhywfaint o waith gweinyddu a rheoli'r bartneriaeth yn cael ei wneud gan yr Awdurdod Gwesteio, Cyngor Sir Caerfyrddin. Cynrychiolir y Gronfa ar Gydbwyllgor Llywodraethu WPP gan Gadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn ac ar y Gweithgor Swyddogion gan Swyddog a bennir gan Bwyllgor y Gronfa Bensiwn. O ganlyniad i hyn, bydd gan y Gronfa gysylltiadau parhaus â nifer o Gronfeydd a sefydliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn y gronfa hon a chronfeydd asedau eraill. Cyflwynir adroddiadau rheolaidd ar berfformiad a phenderfyniadau a wneir gan y gronfa yng nghyfarfodydd y Pwyllgor ac i'r aelodau drwy Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Gronfa.
Ceidwad y Gronfa Bensiwn	Mae ceidwad y Gronfa'n sicrhau bod trafodion buddsoddi'r Gronfa'n cael eu cadw'n ddiogel a'r holl dystysgrifau cyfranddaliadau cysylltiedig lle nad ydynt wedi'u buddsoddi gyda Phartneriaeth Pensiynau Cymru.
Cymdeithas Pensiynau a Chynilion Oes (PLSA)	Mae'r Gronfa'n aelod o PLSA, sy'n rhoi cyfle i awdurdodau gweinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a rheolwyr cynlluniau pensiwn drafod materion o ddiddordeb cyffredin a rhannu arferion gorau. Mae Pennaeth Cronfa Bensiwn Clwyd yn gynrychiolydd ar Bwyllgor Awdurdodau Lleol PLSA.
Grŵp Defnyddwyr Dosbarth	Mae'r Rheolwr Gweinyddu Pensiynau a Swyddogion Pensiwn eraill yn mynychu'r Grŵp Defnyddwyr Dosbarth ddwywaith y flwyddyn i drafod materion meddalwedd a'r angen i uwchraddio Altair, system weinyddu'r Gronfa. Mae hyn hefyd yn cynnwys grwpiau defnyddwyr ychwanegol ar gyfer iConnect a Hunanwasanaeth Aelodau.
Fforwm Cronfa Bensiwn yr Awdurdodau Lleol (LAPFF)	Mae'r Gronfa'n aelod o LAPFF a sefydlwyd i helpu Cronfeydd awdurdodau lleol i rannu gwybodaeth a syniadau am fuddsoddi cymdeithasol gyfrifol.

Cyrff	Diben
Fforymau Rhanbarthol	Mae Grŵp Swyddogion Pensiwn yr Amwythig yn cael ei gynnal bob chwarter. Mae'n gyfle i Reolwyr Gweinyddu Pensiynau, a Swyddogion Pensiwn eraill o Gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn y rhanbarth, i rannu gwybodaeth a sicrhau bod y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael ei ddehongli'n unffurf, a rheoliadau cyfredol eraill.
Cyfarfodydd Rheolwyr Partneriaeth gyda'r wyth Cronfa Bensiwn yng Nghymru	Mae'r Rheolwr Gweinyddu Pensiynau, Dirprwy Bennaeth Cronfa Bensiwn Clwyd a Swyddogion Pensiwn eraill yn cwrdd yn rheolaidd â chynrychiolwyr o'r Gronfeydd Pensiwn CPLIL eraill yng Nghymru i drafod arferion gorau, i sicrhau bod holl Gronfeydd Cymru'n gyson eu hagwedd at weinyddu, cyllid a gweithdrefnau eraill y Gronfa lle bo hynny'n briodol.
Grŵp Cyfathrebu Cymru gyda'r wyth Cronfa Bensiwn yng Nghymru	Mae holl Swyddogion Cyfathrebu Cronfa Bensiwn Cymru yn cwrdd yn ôl yr angen i rannu syniadau am ddulliau cyfathrebu.
Grŵp Cyfathrebu Gwasanaethau a Rennir	Mae'r Swyddog Cyfathrebu a Swyddogion Pensiwn eraill yn mynychu Grŵp Cyfathrebu rhanbarthol bob chwarter, er mwyn sicrhau dilyniant a rhannu syniadau am ddulliau cyfathrebu.
Ceisiadau am wybodaeth	Bydd ceisiadau am wybodaeth naill ai o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu fel arall, yn cael eu trin mor agored a chyflym â phosibl, ar yr amod nad yw gwybodaeth o'r fath yn torri cyfrinachedd, gan Swyddogion Pensiwn sy'n gweithio gyda Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Cyngor Sir y Fflint.
Ymgynghoriadau	Ceir adegau pan fydd y Gronfa'n ymgynghori â phartïon sydd â buddiant naill ai o ganlyniad i newidiadau posibl i'r rheoliadau sy'n llywodraethu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu newidiadau polisi penodol sy'n ymwneud â'r Gronfa. Yn yr achosion hyn, y ffordd fwyaf effeithiol o gyfathrebu â phartïon sydd â buddiant yw cynnal cyfnod o ymgynghori, ac yn ystod y cyfnod hwnnw cânt gyfle i ymateb i newidiadau penodol.
Datganiadau i'r wasg a sylwadau	Mae datganiadau i'r wasg neu sylwadau am Gronfa Bensiwn Clwyd yn cael eu gwneud naill ai drwy'r Tîm Cyfathrebu Corfforaethol yng Nghyngor Sir y Fflint neu ar y cyd â nhw.



cronfabensiynauclwyd.org.uk

Cronfa Bensiynau Clwyd, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NA

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.